Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru

The Slate Landscape of Northwest Wales

ENWEBIAD SAFLE TREFTADAETH Y BYD

Cynllun Rheoli
2020–2030

Grŵp Llywio'r Bartneriaeth *Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru*
Arweinir yr Enwebiad Treftadaeth y Byd hwn gan Gyngor Gwynedd

Llechi Cymru
Wales Slate

Cyngor Gwynedd Council

Y sefydliadau eraill sydd wedi'u hymrwymo i enwebiad *Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru* am Statws Treftadaeth y Byd yw:

Cadw

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Parc Cenedlaethol Eryri
Snowdonia National Park

CBHC
RCAHMW

Prifysgol Bangor University

Ymddiriedolaeth Genedlaethol
National Trust

Amgueddfa Genedlaethol Llechi Cymru
National Slate Museum

Rhagair

Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn
Arweinydd Cyngor Gwynedd

Mae Cyngor Gwynedd yn hynod falch o weithredu fel corff arweiniol ar gyfer enwebiad Safle Treftadaeth y Byd *Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru*. Ers dros ddegawd bellach, rydym wedi bod yn cydweithio â sawl partner ledled y rhanbarth ar y prosiect cyffrous hwn.

Roedd diwydiant llechi'r ardal hon yn rhan hynod bwysig o economi byd-eang erbyn y ddeunawfed, y bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r ugeinfed ganrif, gyda chynnyrch llafur caled y gweithwyr lleol yn cael ei allforio ar draws y byd ac mae ffrwyth eu hymdrechion yn dal i'w weld ar doeau palasau a thai teras ledled y byd.

Heddiw, mae'r diwydiant yn parhau i wneud cyfraniad pwysig i economi Gwynedd, gyda chwareli ar waith a phrosesu eilaidd yn digwydd gerllaw'r ardal yr ydym ni'n gobeithio y bydd UNESCO yn ei arysgrifio fel Safle Treftadaeth y Byd, gan barhau i gyflenwi'r byd â'r cynnyrch gorau. Maent yn cynnal traddodiad pwysig ac yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at ein dealltwriaeth o'r gorffennol.

Yma yng Ngwynedd, mae etifeddiaeth y llechi yn parhau i fod yn hynod amlwg o'n cwmpas, o'r dirwedd drawiadol, i'r adeiladau diwydiannol a'r rheilffyrdd stêm ac yn pentrefi a'n trefi. Dyma etifeddiaeth fyw lle gall pobl brofi a dysgu ein stori trwy gyfrwng amgueddfeydd, archifau, teithiau dehongli, llwybrau hirion, gwirfoddoli, archeoleg a gweithgareddau llawn adrenalin megis gwifrau gwib a beicio i lawr gelltydd.

Nid yn unig y mae dylanwad y diwydiant chwarelyddol i'w weld, ond mae ei dreftadaeth yn dal i'w glywed yn gryf yn yr iaith, yn nhraddodiadau ac yn hanes cyfoethog yr ardaloedd hyn.

Ein nod yw dathlu'r dreftadaeth a'r dirwedd hon ac adnabod eu pwysigrwydd hanesyddol a diwydiannol yn y byd. Drwy ddathlu ein hanes, rydym am adfywio ein cymunedau a chreu cyfleoedd cyffrous er budd ein dinasyddion.

Mae'r Cynllun Rheoli hwn yn amlinellu sut fyddai Cyngor Gwynedd a'i bartneriaid yn rheoli'r Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig yn y dyfodol, drwy warchod ein treftadaeth a thrwy sicrhau datblygiad o ansawdd uchel a phriodol yn y dirwedd rymus hon yr ydym wedi'i hetifeddu.

Drwy weithredu prosiectau megis *LleCHI*, rydym wedi ymgysylltu â chymunedau a chefnogi digwyddiadau diwylliannol, adnewyddu ac adfywio diddordeb ymysg ein plant, pobl ifanc ac oedolion ar gyfer ein stori eithriadol, stori leol a rhyngwladol.

Trwy gydweithio brwd rhwng llywodraeth leol, Llywodraeth Cymru, partneriaid, budd-ddeiliaid, gweithredwyr chwarel, tirfeddianwyr a chymunedau, bydd modd i ni gyflawni'r nodau a'r polisïau uchelgeisiol, ond realistig, sydd wedi'u nodi yn y Cynllun Rheoli hwn. Edrychwn ymlaen i gydweithio yn y dyfodol er budd ein dyffrynnoedd llechi, ar gyfer holl bobl Gwynedd a'r byd yn ehangach, a chreu etifeddiaeth ar gyfer y cenedlaethau sydd i ddod.

Rhagymadrodd

Dafydd Wigley
Y Gwir Anrhydeddus Arglwydd Wigley o Gaernarfon, Cyfrin Gynghorydd

Fel cadeirydd Grŵp Llywio'r Bartneriaeth sy'n hyrwyddo statws Treftadaeth y Byd ar gyfer *Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru*, pleser o'r mwyaf yw cyflwyno'r Cynllun Rheoli hwn ar ran Cyngor Gwynedd a'i bartneriaid. Mae'r Cynllun Rheoli yn gosod fframwaith ar gyfer sut y byddwn yn ymdrin â newid yn y safle treftadaeth y byd arfaethedig. Yn ogystal, mae'n ystyried sut y gallwn ddefnyddio'r statws i warchod, hyrwyddo a gwella ein rhanbarth er budd cymunedau a busnesau lleol ac ymwelwyr i'r ardal.

Llechi wedi'u cloddio o lethrau'r mynyddoedd a lloriau'r dyffrynnoedd, neu o grombil y ddaear, wedi'u naddu gan chwys, gwaed ac ysgyfaint silicotig, oedd y deunydd ar gyfer bob dim yn ein cymuned. Rhoddodd y llechi do uwch ein pennau, ac roedd y gwastraff yn ddeunydd cyfleus i godi waliau. Gosodwyd slabiau llechi yn y ddaear i greu crawiau oedd yn waliau terfyn naturiol rhwng caeau. Câi hyd yn oed cafnau dŵr ar ffermydd eu creu o lechen oedd wedi'i morteisio'n ofalus. Roedd carreg yr aelwyd, pyst giatiau, y slabiau o dan ein traed, placiau enwau ein tai, heb anghofio ein cerrig beddi, oll wedi'u llunio o lechi.

O ran allforio byd-eang, roedd hwn yn gynnyrch o bwys mawr, ac fe gariwyd y llechi ar sgwneri pren bychan i Hamburg; Szczecin, Melbourne ac Efrog Newydd, yn ogystal â harbyrau a phorthladdoedd dirifedi eraill ledled y byd. Nid y llechi yn unig gafodd eu hallforio cofiwch chi; bu i nifer o chwarelwyr a'u teuluoedd fynd draw i Ganada, yr Unol Daleithiau ac Awstralia i agor chwareli. Roedd yr amgylchedd galed a'r hinsawdd garw yn rhan o hunaniaeth y bobl hyn – pobl solet, ddibynadwy a goddefgar; wedi'r cyfan, *Cadernid Gwynedd* yw arwyddair ein sir.

Mae perygl yn llechu bob amser mewn ardal ymylol fel Gwynedd, a lle bynnag y mae iaith frodorol hynafol yn parhau'n gryf – i rywun ddychmygu bod y cymunedau hyn – er mor arw a gweithgar yr oeddynt – yn wan o ran eu harloesedd a'u diwydrwydd. Ond, mae ein stori llechi ni yn wahanol. Cafodd trefi a phentrefi newydd eu creu i gartrefu'r gweithlu; dyma enghreifftiau gwych o gymunedau o'r oes ddiwydiannol, ond mae iddynt hefyd gymeriad Cymreig unigryw. Bu i reilffyrdd llechi Gogledd Orllewin Cymru, a naddwyd drwy greigiau neu a gludwyd dros nentydd mynyddig ar sarnau cerrig uchel, ddarparu model ar gyfer systemau tebyg mewn amgylcheddau mynyddig ledled y byd. Gwnaeth peirianwyr, rheolwyr a thechnegwyr benderfyniadau deallus ynghylch systemau trin newydd, peiriannau ar gyfer pwmpio neu dwnelu, neu lifiau i'w defnyddio i sgwaru blociau llechi.

Dyna rai yn unig o'r amryfal resymau pam y bydd y byd am wybod rhagor am *Dirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru*, ac y bydd yn gwerthfawrogi ac yn mwynhau ei arwyddocâd. Dyma pam fod y Cynllun Rheoli hwn mor bwysig wrth sicrhau, ein bod, gyda'n gilydd yn rheoli'r safle'n gynaliadwy ar gyfer y cenedlaethau i ddod er mwyn hyrwyddo tirwedd fyw sy'n cynnal ein hiaith, ein diwylliant, ein cymunedau a'n heconomi.

Geirfa

Ardal Glustogi: ardal ddaearyddol ddiffiniedig yng nghyffiniau neu'n ffinio ar Safle Treftadaeth y Byd, sy'n rhoi haen ychwanegol o warchodaeth i'r safle. Nid yw'r Ardal Glustogi ei hun o Werth Rhyngwladol Eithriadol, ond mae'n cynnwys cyd-destun daearyddol uniongyrchol y Safle Treftadaeth y Byd, yn olygfeydd pwysig a nodweddion sydd o bwys gweithredol wrth gefnogi'r Safle Treftadaeth y Byd a'i warchod. Dim ond gan Bwyllgor Treftadaeth y Byd y gall Ardaloedd Clustogi gael eu diwygio neu eu newid. Yn *Nhirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru*, mae ardal warchodedig ehangach yn cyflawni swyddogaeth Ardal Glustogi.

Ardal warchodedig ehangach: ardal o amgylch yr Eiddo Enwebedig sy'n cyflawni swyddogaeth *Ardal Glustogi*.

Barics: gair a ddefnyddiwyd o fewn diwydiant llechi Gogledd Orllewin Cymru i ddisgrifio adeilad penodol i letya gweithwyr, a fyddai weithiau yn gartref i'w teuluoedd hefyd, o bosib.

Cloddfa: chwarel oedd yn cael ei gweithio fel twll agored.

Cyfanrwydd: mesur o pa mor gyflawn a chyfan ydyw'r dreftadaeth naturiol a/neu ddiwylliannol a'i nodweddion. Mae mesur lefel cyfanrwydd yn gofyn am asesu'r graddau y mae'r eiddo:

- yn cynnwys yr holl elfennau sydd eu hangen er mwyn cyfleu ei Werth Rhyngwladol Eithriadol;
- o faint digonol i sicrhau y caiff y nodweddion a'r prosesau sy'n cyfleu arwyddocâd yr eiddo eu cynrychioli'n gyflawn;
- yn dioddef o effeithiau andwyol datblygiad a/neu esgeulustod.

Cynaliadwy: rhywbeth y mae modd ei gynnal ar raddfa neu lefel benodol. Yng nghyd-destun datblygu a rheoli cynaliadwy, gellir ei ddisgrifio fel 'bodloni anghenion heddiw heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i fodloni eu hanghenion eu hunain'.

Datblygiad Cynaliadwy: y broses o wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru trwy weithredu, yn unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy, gyda'r nod o gyflawni'r nodau llesiant a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae gweithredu yn unol ag egwyddor datblygiad cynaliadwy yn golygu bod yn rhaid i gorff weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwy.

Datganiad o Werth Rhyngwladol Eithriadol mae Datganiad o Werth Rhyngwladol Eithriadol yn darparu cyd-ddealltwriaeth eglur o'r rhesymau dros ychwanegu safle at Restr Treftadaeth y Byd. Caiff Datganiadau o Werth Rhyngwladol Eithriadol eu paratoi gan Bartïon Gwladwriaethau, a chânt eu cymeradwyo gan Bwyllgor Treftadaeth y Byd; dim ond trwy benderfyniad y pwyllgor y gellir eu newid. Mae'n ddogfen gyfeiriol allweddol ar gyfer diogelu, rheoli a monitro pob safle.

Dilysrwydd: y nodweddion sy'n adlewyrchu ac yn ymgorffori yn fwyaf cywir werth diwylliannol a threftadol ased hanesyddol.

Ffordd haearn: defnyddir yma, yn dilyn defnydd cyfoes, ar gyfer ffurf gynnar ar *reilffordd ymyl* lle roedd y rheiliau yn cael eu gwneud o haearn bwrw yn hytrach na haearn gyr neu ddur.

Ffurf (rheilffordd): peirianneg sifil rheilffordd - ei hafnau, ei thwneli, ei hargloddiau a'i sarnau.

Gwal (ll. gwaliau): lloches i chwarelwr wrth hollti a siapio llechi.

Gwely trac: Y rhan o *ffurf rheilffordd* a leolir yn union islaw'r man lle gosodir y rheiliau, y trawstiau a'r balast.

Gwerth Rhyngwladol Eithriadol: diffinnir fel 'arwyddocâd diwylliannol a/neu naturiol sydd mor neilltuol fel ei fod uwchlaw ffiniau cenedlaethol ac o bwys i genedlaethau holl ddynolryw'r presennol a'r dyfodol.'

ICCROM: *International Centre for the Study of the Preservation and Restoration of Cultural Property*, corff rhynglywodraethol sy'n darparu cyngor arbenigol ar sut i warchod safleoedd, yn ogystal â hyfforddiant ar dechnegau adfer.

ICOMOS: *International Council on Monuments and Sites*, corff anllywodraethol a sefydlwyd ym 1965 yn dilyn mabwysiadu Siartr Fenis, er mwyn hyrwyddo dysgeidiaeth a thechnegau cadwraeth. Mae ICOMOS yn cyflenwi Pwyllgor Treftadaeth y Byd ag arfarniadau ar wahanol eiddo sydd â gwerth diwylliannol ac sy'n cael eu cynnig i'w harysgrifo ar Restr Treftadaeth y Byd. Yn ogystal, mae'n darparu astudiaethau cymharol, cymorth technegol ac adroddiadau ar gyflwr cadwraeth eiddo sydd wedi ei arysgrifo eisoes.

ICOMOS-UK: Pwyllgor ICOMOS Cenedlaethol y DU. Mae'n elusen annibynnol sy'n rhoi cyngor ar agweddau yn ymwneud â Threftadaeth y Byd a safleoedd i'w henwebu ledled y DU. Mae'n hyrwyddo a chefnogi arfer gorau mewn cadwraeth, gofal a dealltwriaeth o'r amgylchedd hanesyddol.

Inclên: darn o reilffordd ar oledd serth, lle caiff wagenni eu tynnu â rhaff. Gall inclên fod o fath gwrthgytbwys, lle mae pwysau trymach y wagenni llawn sy'n teithio am i lawr yn ddigon i dynnu'r rhai gwag i fyny ar drac cyfochrog; neu gall fod o fath tynnu-fyny (*up-haulage*), lle caiff wagenni eu tynnu yn erbyn y graddiant gan brif-symudydd sefydlog (*fixed prime-mover*).

Injan drawst Gernywaidd: math o injan stêm a ddatblygwyd yng Nghernyw (DU), yn bennaf er mwyn pwmpio dŵr ond y gellid hefyd ei chymhwyso ar gyfer gwaith cylchdroi ac felly ei defnyddio i weindio, ac i yrru peiriannau malu. Mae'n defnyddio stêm ar bwysedd uwch na'r peiriannau cynharach a ddyfeisiwyd gan James Watt.

IUCN: *International Union for the Conservation of Nature*, sefydliad anllywodraethol, rhyngwladol sy'n darparu arfarniadau technegol ar gyfer eiddo treftadaeth naturiol a – thrwy ei rwydwaith byd-eang o arbenigwyr – yn adrodd ar gyflwr cadwraeth safleoedd sydd wedi eu rhestru.

Lefel: twnnel sy'n draenio man gwaith neu'n rhoi mynediad at siambrau.

Melin: strwythur oddi fewn neu'n gysylltiedig â chwarel, lle mae prif-symudydd yn darparu pŵer ar gyfer prosesu blociau llechi yn fecanyddol. Roedd y mwyafrif yn cynhyrchu llechi toi, ac felly'n cadw elfen o waith prosesu â llaw. Roedd eraill yn felinau slabiau llechi, yn cynhyrchu elfennau pensaerniol, cerrig beddi ac ati, ac mae'n bosib y byddai'r rhain yn llwyr fecanyddol.

Partïon Gwladwriaethau: gwledydd sydd wedi cadarnhau Confensiwn Treftadaeth y Byd. Maent yn adnabod ac yn enwebu safleoedd ar eu tiriogaeth genedlaethol i'w hystyried ar gyfer eu harysgrifo ar Restr Treftadaeth y Byd. Mae gan Bartïon

Gwladwriaethau gyfrifoldeb i warchod gwerthoedd Treftadaeth y Byd ar gyfer y safleoedd sydd wedi'u harysgrifo, ac i adrodd yn rheolaidd ar eu cyflwr. Maent hefyd yn cadw rhestr o Safleoedd Treftadaeth y Byd posib.

Pentref cwmni: anheddle a adeiladwyd gan gwmni gweithredol i roi cartref i'w weithlu.

Pentref ystâd: anheddle sy'n gyfangwbl o fewn stad tirfeddiannwr penodol.

Ponc: wyneb a llawr gwaith sydd ar ffurf gris mewn chwarel agored.

Priodweddau: y mynegiannau diriaethol ac anniriaethol o werthoedd Safle Treftadaeth y Byd. Gallant gynnwys: ffurf a dyluniad; deunyddiau a sylwedd; defnydd a swyddogaeth; traddodiadau, technegau a systemau rheoli; lleoliad a'r cyd-destun amgylchynol; iaith a ffurfiau eraill ar dreftadaeth anniriaethol; ysbryd a theimlad; a ffactorau mewnol ac allanol eraill.

Prosesu: defnyddir yma i ddisgrifio'r broses o drawsnewid blociau llechi amrwd yn gynnyrch masnachol, trwy lifio a hollti.

Rhaffordd 'Blondin': system rhaffordd ar gyfer symud a thrin mewnol mewn chwareli a safleoedd diwydiannol eraill, a ddyfeisiwyd gyntaf yn Yr Alban (DU). Yn y system hon, gyrrir cerbyd i deithiwr ar hyd nenffordd gadwyn grog, a chaiff rhaff ei rheoli ar wahân o'r cerbyd er mwyn codi llwyth ato; cafodd ei enwi ar ôl y cerddwr rhaffau, Charles Blondin.

Rhaffordd inclên tsiaen: system rhaffordd ar gyfer symud a thrin mewnol mewn chwareli gyda nenffordd ar ongl serth er mwyn cysylltu llawr y chwarel â'r ardal brosesu.

Rhan-ddeiliad: unigolyn, sefydliad neu fusnes sydd â diddordeb neu â rhan yn y Safle Treftadaeth y Byd.

Rheilffordd gadwraeth: rheilffordd sy'n cael ei gweithredu fel atyniad treftadaeth/ymwelwyr ac nid yn bennaf fel cyswllt trafnidiaeth.

Rheilffordd gyhoeddus: rheilffordd yn cael ei rhedeg gan gwmni cyhoeddus, gyda pheth ymrwymiad a chyfrifoldeb gan y cyhoedd, a gyda chaniatâd seneddol, yn wahanol i reilffordd a oedd yn rhan o fenter ddiwydiannol ac at ddibenion y fenter honno yn unig.

Rheilffordd lein-gul: system rheilffordd lle mae'r pellter rhwng wynebau mewnol y rheiliau yn llai na'r maint 'safonol', sef 1,435mm ar gyfer mwyafrif Ewrop ac America. Yn ymarferol, roedd lled mwyafrif y rheilffyrdd lein-gul yn niwydiant llechi Cymru oddeutu 0.6 metr.

Rheilffordd ymyl: ffurf ar reilffordd lle caiff y cerbyd ei arwain gan gantelau (*flanges*) ar yr olwynion, ac sy'n wahanol i *dramffordd*. Erbyn hyn, mae bron pob rheilffordd yn 'rheilffordd ymyl'.

Rhestr Treftadaeth y Byd: sefydlwyd Rhestr Treftadaeth y Byd trwy *Gonfensiwn dros Warchod Treftadaeth Ddiwylliannol a Naturiol y Byd* (Confensiwn Treftadaeth y Byd) UNESCO 1972. Yn gyffredinol, mae Pwyllgor Treftadaeth y Byd yn ychwanegu oddeutu 25 i 30 safle at y rhestr bob blwyddyn.

Rhwydwaith rheilffyrdd cenedlaethol: y system o reilffyrdd cyhoeddus oedd yn galluogi dosbarthu nwyddau a darparu gwasanaethau ledled y Deyrnas Gyfunol, ac a ddaeth i ranbarth Gwynedd rhwng 1848 a 1881.

Sgwatiwr: unigolyn sy'n codi annedd ac yn sefydlu *tyddyn* heb awdurdod y tirfeddiannwr.

Siambr: ardal waith danddaearol yn un o chwareli llechi Ffestiniog (Cydran 5) neu yng ngweithfeydd tanddaearol chwarel lechi Bryneglwys (Cydran 6).

System-bwmpio: y dechnoleg a ddefnyddid i gadw chwarel neu gloddfa rhag bod o dan ddŵr, gan gynnwys y pympiau eu hunain, y dull o'u pweru a'r modd y trosglwyddid y pŵer o'r prif-symudydd i'r man lle'r oedd ei angen.

System gaeau: Grŵp neu gasgliad o gaeau sy'n ymddangos fel eu bod yn ffurfio un uned synhwyrol.

Tipio ar ail lefel: ardal o fewn *tirffurf* chwarel lle roedd cyfyngiadau o ran gofod yn golygu bod yn rhaid creu *tomennydd gwastraff llechi* ar lefel uwch na'r brif bonc brosesu.

Tirffurf: defnyddir yma i ddisgrifio *priodweddau* ffisegol nodweddiadol chwarelydda agored.

Tomennydd gwastraff llechi: o fewn chwarel neu yn agos at felin, tomennydd o gerrig nad oedd gwerth masnachol iddynt. Gallent fod o garreg wahanol i lechfaen, ond bod angen ei thynnu er mwyn cael mynediad at y lechfaen; yn llechi â graen gwael; neu'n wastraff a gynhyrchwyd wrth brosesu, megis darnau wedi eu llifio neu eu trimio i ffwrdd.

Tramffordd: ffurf ar reilffordd, sydd wedi hen ddarfod, lle caiff y cerbyd ei arwain gan gantelau (flanges) ar y rheiliau, ac sy'n wahanol i *reilffordd ymyl*.

Tyddyn: daliad tir ar raddfa lai na fferm arferol.

UNESCO: Sefydliad y Cenhedloedd Unedig ar Addysg, Gwyddoniaeth a Diwylliant.

Cynnwys

Rhagair 3
Rhagymadrodd 5
Geirfa 6
Cyflwyniad 12

1 Diben a Statws y Cynllun Rheoli 14
1.1 Beth yw Safle Treftadaeth y Byd? 16
1.2 Cyflwyniad i'r Eiddo Enwebedig – *Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru* 16
1.3 Y cyd-destun cenedlaethol 44
1.4 Perchnogaeth 45
1.5 Swyddogaeth y Cynllun Rheoli 45
1.6 Rhoi'r Cynllun Rheoli ar Waith 45

2 Y Dirwedd Ddiwylliannol – Gwerth Rhyngwladol Eithriadol a Phriodweddau 48
2.1 Un dirwedd ddiwylliannol, chwe Chydran 49
2.2 Datganiad o Werth Rhyngwladol Eithriadol – y cynnig 49
2.3 Nodweddion 59
2.4 Lleoliad *Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru* 66
2.5 Y Cyd-destun Cymdeithasol a Diwylliannol 72
2.6 Gwaith chwarelyddol a mwyngloddio gweithredol 75
2.7 Crynodeb 75

3 Y weledigaeth ar gyfer *Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru* 76
3.1 Gweledigaeth ac Amcanion 77
3.2 Themâu ar gyfer rheoli *Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru* 78
3.3 Cyfraniad at lesiant 79

4 Thema 1: Llywodraethu a Rheoli 80
4.1 Llywodraethu 81
4.2 Rheoli 89

5 Thema 2: Gofalu am *Dirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru* 93
5.1 Cyflwyniad 93
5.2 Gwarchod y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig 93
5.3 Cadwraeth a rheolaeth ymarferol 104
5.4 Gwarchod lleoliad y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig 127

6 Thema 3: Datblygiad Cynaliadwy *Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru* 132
6.1 Datblygiad cynaliadwy a lles cenedlaethau'r dyfodol 133
6.2 Diwydiannau echdynnol (chwarelydda a mwyngloddio) 137
6.3 Datblygiad cynaliadwy ac ynni adnewyddadwy 140
6.4 Adfywio a datblygiad economaidd 142
6.5 Tai a chymunedau 146
6.6 Amaethyddiaeth a choedwigaeth 149
6.7 Cludiant cynaliadwy 151

7 Thema 4: Mwynhau *Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru* 154
7.1 Prof nod 155
7.2 Rheoli Cyrchfannau 163
7.3 Iechyd a diogelwch 170

8 Thema 5: Dysgu am *Dirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru* 172
8.1 Prif nod 173
8.2 Cyd-destun 173
8.3 Annog dysgu 176

Cyfeiriadau 182

Cynllun Gweithredu 2020–2030 186

Cyflwyniad

Ffurfiwyd *Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru* trwy gloddio, prosesu a chludo llechi i gynhyrchu deunyddiau toi a deunyddiau pensaernïol i farchnadoedd byd eang, o ddiwedd y ddeunawfed ganrif hyd yr ugeinfed. Yn ogystal â'r chwareli a'r mwyngloddiau eu hunain, lluniwyd y dirwedd ddiwylliannol hon yn sgil yr angen i grynhoi yn domenni y llwythi enfawr o wastraff llechi, i brosesu a chludo llechi, i reoli dŵr er mwyn gyrru peiriannau, i roi cartref i chwarelwyr a'u teuluoedd, ac i ddiwallu eu anghenion materol, moesol a deallusol.

Mae enwebiad Safle Treftadaeth y Byd UNESCO *Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru* yn dathlu dylanwad diwydiannol a diwylliannol ein rhanbarth ar weddill y byd, ynghyd â phobl, cymunedau a thirwedd Gwynedd. Mae ein Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig yn cynnwys chwe ardal unigol neu 'Gydran', fel y'u gelwir o fewn y ddogfen hon. Mae'r Cynllun Rheoli hwn yn ffurfio rhan bwysig o'r enwebiad, gan roi braslun o'r ffordd y byddwn, gyda'n gilydd, yn ymdopi â newid yng Ngwynedd os yw'r enwebiad Safle Treftadaeth y Byd yn llwyddiannus; a sut y gallwn wedyn ddefnyddio'r statws pwysig hwn i amddiffyn ein treftadaeth, ac i wella'r rhanbarth er budd cymunedau lleol, busnesau ac ymwelwyr.

Sefydliad Addysgiadol, Gwyddonol a Diwylliannol y Cenhedloedd Unedig ydi UNESCO. Ei genhadaeth yw sefydlu heddwch drwy gydweithrediad rhyngwladol ym meysydd Addysg, y Gwyddorau a Diwylliant. Mae'n diffinio Safleoedd Treftadaeth y Byd fel:

> **lleoedd o Werth Rhyngwladol Eithriadol i ddynoliaeth gyfan. Mae hyn yn golygu bod eu harwyddocâd diwylliannol a/neu naturiol mor neilltuol fel eu bod tu hwnt i ffiniau cenhedloedd ac o bwys i genedlaethau dynoliaeth y presennol a'r dyfodol.**

Nid oes gwell cydnabyddiaeth o werth treftadaeth.

Mae Cyngor Gwynedd a'i bartneriaid – Llywodraeth Cymru, Amgueddfa Genedlaethol Cymru, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, Parc Cenedlaethol Eryri, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a Phrifysgol Bangor, yn ogystal â thirfeddianwyr allweddol a rhan-ddeiliaid ledled Gwynedd – wedi bod yn datblygu'r enwebiad Treftadaeth y Byd ers deng mlynedd. Cafodd *Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru* ei chynnwys ar Restr Eiddo Enwebedig Treftadaeth y Byd y Deyrnas Unedig ym mis Mawrth 2011, a chyhoeddwyd yn swyddogol ym mis Hydref 2018 mai dyma'r cais nesaf y byddai Llywodraeth y DU yn ei gyflwyno i Ganolfan Treftadaeth y Byd UNESCO.

Penllanw trafodaethau gyda'r holl bartneriaid a'r rhan-ddeiliaid allweddol ledled Gwynedd, Cymru, y DU, ac yn rhyngwladol, a chyfraniadau ganddynt, yw cyhoeddi'r Cynllun Rheoli hwn. Mae hefyd wedi tynnu ar waith ymgynghori gyda'r cyhoedd. Mae'r Cynllun Rheoli yn mynd gyda'r Goflen Enwebiad llawn sy'n amlinellu sut a pham fod ein Tirwedd Llechi ni mor eithriadol mewn cyd-destun byd-eang. Cafodd y ddau eu cyflwyno i Lywodraeth y DU er mwyn eu cyflwyno i Ganolfan Treftadaeth y Byd ym Mharis yn ystod gaeaf 2019. Bydd UNESCO yn gwneud penderfyniad ar ganlyniad yr enwebiad yn 2021.

Mae cynhyrchu a mabwysiadu'r Cynlluniau Rheoli cytunedig ar gyfer pob Safle Treftadaeth y Byd arysgrifedig, a'u hadolygu'n rheolaidd, yn un o ofynion UNESCO, ac mae'n rhan hanfodol o'r dull gweithredu a argymhellir gan Weinidogion Cymru er mwyn gwarchod y safleoedd pwysig hyn. Mae'r Cynllun Rheoli hwn, felly, yn gyswllt pwysig rhwng gofynion rhyngwladol UNESCO ar y naill law, a dyheadau a gofynion cymunedau lleol ac awdurdodau rhanbarthol ar y llall.

Tirwedd Chwareli Dyffryn Nantlle © Hawlfraint y Goron: CBHC.

Mae'r Cynllun Rheoli hwn yn ddogfen fyw, sy'n sefyll ar ei thraed ei hun. Yn greiddiol i'r cynllun y mae pum thema sy'n gosod y drefn o ran sut caiff y Safle Treftadaeth y Byd ei reoli, sut y gofelir amdano, a sut y bydd yn cael ei ddatblygu a'i fwynhau. Mae wedi ei rannu yn wyth adran:

- Mae **Adran 1** yn diffinio Safle Treftadaeth y Byd, ac yn rhoi cyflwyniad i *Dirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru* a swyddogaeth y Cynllun Rheoli.
- Mae **Adran 2** yn rhoi'r Cyfiawnhad dros Arysgrifo, yn ogystal â disgrifio gwerthoedd (priodweddau) *Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru.*
- Mae **Adran 3**, nodir gweledigaeth y Bartneriaeth ar gyfer *Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru.*
- Mae **Adran 4** yn ymwneud â Thema 1: Llywodraethu a Rheoli, ac yn egluro sut y caiff y Cynllun Rheoli ei gyflwyno mewn modd effeithiol, agored a thryloyw.
- Mae **Adran 5** yn ymwneud â Thema 2: Gofalu am *Dirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru*, ac yn nodi sut y caiff Gwerth Rhyngwladol Eithriadol arfaethedig y Safle Treftadaeth y Byd ei warchod, ei gadw a'i reoli'n effeithiol.
- Mae **Adran 6** yn ymwneud â Thema 3: Datblygiad Cynaliadwy *Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru*, er mwyn sicrhau y bydd y Safle Treftadaeth y Byd yn cyfrannu at gynnal tirwedd fyw a ffyniannus.
- Mae **Adran 7** yn ymwneud â Thema 4: Mwynhau *Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru*, ac yn dangos sut y gall trigolion lleol ac ymwelwyr fel ei gilydd fwynhau, profi a deall y Safle Treftadaeth y Byd.
- Mae **Adran 8** yn ymwneud â Thema 5: Dysgu am *Dirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru*, ac yn nodi opsiynau er mwyn sicrhau fod y Safle Treftadaeth y Byd yn dod yn destun dysg ac ymchwil ar y cyd ar bob lefel.

Mae'r Cynllun Rheoli hwn yn cynnwys Cynllun Gweithredu, sy'n mynd tuag at ddatblygu strategaethau a mentrau rheoli.

Os ceir arysgrifiad llwyddiannus, bydd y Cynllun Rheoli hwn yn dod i rym yn llwyr. Mae'n gynllun am y cyfnod 2020-2030, a chaiff ei adolygu yn 2025.



1 Diben a Statws y Cynllun Rheoli

Chwarel y Penrhyn a Bethesda yng Nghydran 1
© Hawlfraint y Goron: CBHC.

1.1 Beth yw Safle Treftadaeth y Byd?

Mae Pwyllgor Treftadaeth y Byd UNESCO yn diffinio Safleoedd Treftadaeth y Byd fel:

> **lleoedd o Werth Rhyngwladol Eithriadol i ddynoliaeth gyfan. Mae hyn yn golygu fod eu harwyddocâd diwylliannol a/neu naturiol mor neilltuol fel eu bod tu hwnt i ffiniau cenhedloedd ac o bwys i genedlaethau dynoliaeth y presennol a'r dyfodol.**

Nid oes gwell cydnabyddiaeth o werth treftadaeth.

Ar hyn o bryd (2019), mae 1,121 o Safleoedd Treftadaeth y Byd. Gall safleoedd diwylliannol hanu o unrhyw oes – o'r cyfnod cynhanes megis Côr y Cewri (*Stonehenge*) neu o'r cyfnod cyfoes, megis Jodrell Bank. Un o'r safleoedd enwocaf yw'r Taj Mahal, perl celfyddyd Moslemaidd yn India ac un o'r campweithiau treftadaeth y byd sy'n cael ei edmygu fwyaf (UNESCO; ffotograff gan John Roney).

1.2 Cyflwyniad i'r Eiddo Enwebedig – *Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru*

Ffurfiwyd *Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru* trwy gloddio, prosesu a chludo llechi i gynhyrchu deunyddiau toi a deunyddiau pensaernïol i farchnadoedd byd eang, o ddiwedd y ddeunawfed ganrif hyd yr ugeinfed. Mae'n dirwedd ddiwylliannol - un lle mae gweithiau byd natur a dynoliaeth yn cyfuno i fynegi'r berthynas ddofn rhwng pobl â'u hamgylchedd naturiol. Yn ogystal â'r chwareli eu hunain, rhai brig a rhai tanddaearol, lluniwyd y dirwedd ddiwylliannol hon hefyd yn sgil yr angen i grynhoi yn domenni y llwythi enfawr o wastraff llechi, i brosesu a chludo llechi, i reoli dŵr boed fel bygythiad neu fel ased, i roi cartref i weithwyr a'u teuluoedd ac i ddiwallu eu anghenion materol, moesol a deallusol.

Lleoliad

Mae'r Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig yn sir Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri, sef cadarnle hanesyddol y diwydiant llechi Cymreig, ac mae iddo chwe Chydran, a ddewiswyd i adlewyrchu natur y dirwedd ddiwylliannol hon yn ei chyfanrwydd, lle gynt y ffynnai chwareli yng nghymunedau'r dyffrynnoedd. O fewn pob Cydran, adnabuwyd Elfennau arwyddocaol – priodoleddau ffisegol sy'n ymgorffori nodweddion o Werth Rhyngwladol Eithriadol.

Mae i bob Cydran ei gymeriad unigryw. Fe'u dewiswyd am eu maint (mae pob un o'r chwareli creiriol a'r ardaloedd chwarelydda mwyaf wedi'u cynnwys), eu heffaith tirweddol arwyddocaol, eu cyfanrwydd, ac am y modd y maent yn dangos trosglwyddiad technoleg a gweddnewidiad diwylliant gwledig lleiafrifol i fod yn gymdeithas ddiwydiannol fodern. Mae dwy reilffordd hanesyddol weithredol a adeiladwyd i gludo llechi – rheilffordd Ffestiniog a rheilffordd Tal-y-llyn – yn ffurfio elfennau o'r Eiddo Enwebedig; ceir hefyd nifer o safleoedd creiriol y rheilffyrdd, sawl anheddiad chwarelyddol a dau borthladd, Porth Penrhyn a Phorthmadog, lle roedd llechi to yn cychwyn ar eu taith dros y môr i farchnadoedd y byd.

Mae llechi'n dal i gael eu cloddio yn y rhanbarth, yn agos iawn at y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig. Mae nifer o'r chwareli creiriol wedi cael bywyd newydd fel atyniadau treftadaeth ac fel cyrchfannau antur i dwristiaid.

Ymwelwyr yn clywed hynt a helynt llechi yng Ngheudyllau Llechi Llechwedd, Blaenau Ffestiniog © Llechwedd/J W Greaves & Sons.



Map 1: Y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig, yn dangos lleoliad y chwe Chydran yng Ngwynedd (Graddfa 1:500,000).

Chwarel Cwmorthin yng Ngydran 5. Mae arteffactau hanesyddol, megis y bont hon, wedi goroesi'n arbennig o dda yng nghyd-destun gweithfeydd tanddaearol © Jon Knowles.

CYDRAN 1

Chwarel y Penrhyn a Bethesda, a Dyffryn Ogwen hyd at Aber Cegin (Porth Penrhyn)

Ardal lle cloddiwyd am lechi ers y Canol Oesoedd, ond a ddatblygwyd ar raddfa eang o ddiwedd y ddeunawfed ganrif ymlaen gan Richard Pennant, Arglwydd Penrhyn, a'i etifeddion. Mae'r Gydran yn cynnwys ardaloedd creiriol ponciau Chwarel Lechi enfawr y Penrhyn, sydd wedi ei gweithio'n barhaus ers diwedd y ddeunawfed ganrif, adeiladau melin ddŵr Felin Fawr, y ffordd haearn a'r rheilffordd a gludai'r llechi i'r harbwr preifat ym Mhorth Penrhyn, yr aneddiadau nodweddiadol ac amrywiol i weithwyr ym Methesda a Mynydd Llandygái, a chartref teuluol perchnogion y chwarel – castell enfawr y Penrhyn a'i Barc eang.

Elfennau:

1.1 Chwarel y Penrhyn
– ponciau chwarel creiriol gydag ardaloedd eang o domennydd llechi ar y ddwy ochr

1.2 Melinau Slabiau Felin Fawr
– cyfadeiladau prosesu a pheiriannu hanesyddol

1.3 Ffordd Haearn Chwarel y Penrhyn a Rheilffordd Chwarel y Penrhyn
– dwy system hanesyddol oedd yn cludo llechi i'w hallforio rhwng 1801 a 1962

1.4 Aber Cegin (Porth Penrhyn)
– porthladd allforio llechi Penrhyn

1.5 Anheddiad Mynydd Llandygái
– tai a gynlluniwyd fel cartrefi i chwarelwyr a'u teuluoedd

1.6 Pentref Bethesda
– fe'i crëwyd gan chwarelwyr yr oedd yn well ganddynt beidio â byw ar Ystâd y Penrhyn

1.7 Castell Penrhyn a'r Parc
– cartref rhodresgar neo-Normanaidd teulu'r Penrhyn



Map 2. Ffiniau ac elfennau Cydran 1: Chwarel y Penrhyn a Bethesda, a Dyffryn Ogwen hyd at Aber Cegin (Porth Penrhyn) (Graddfa 1:50,000).

Chwarel y Penrhyn © Hawlfraint y Goron: CBHC.

Dyffryn Ogwen o Aber Cegin (Porth Penrhyn), lle ceir cipolwg ar y castell, yr aneddiadau chwarelyddol, y llwybrau cludiant a'r chwarel ei hun yn y pellter © Hawlfraint y Goron: CBHC.

CYDRAN 2

Tirwedd Fynyddig Chwarel Dinorwig

Teyrnasir dros y Gydran hon gan Chwarel greiriol Dinorwig, gyda'i phonciau grisiog, tomennydd gwastraff llechi ac ardaloedd prosesu sy'n ymestyn 500m o lawr y dyffryn hyd at droed yr Wyddfa; yr hen weithdai peirianyddol a'r ysbyty, sydd bellach yn amgueddfeydd; ehangder o aneddiadau gweithwyr, gan gynnwys barics, bythynnod gwasgaredig a phentrefi cnewylledig Deiniolen a Chlwt y Bont; a systemau trafnidiaeth amrywiol i gludo llechi, gan gynnwys y llyn, y ffordd a'r rheilffordd.

Elfennau:

2.1 Chwarel Dinorwig
– chwarel lechi greiriol helaeth

2.2 Ponc 'Australia'

2.3 Y Dre' Newydd (Barics Môn) yn Chwarel Dinorwig
– llety i weithwyr oedd yn byw yn rhy bell i deithio yn ôl a blaen bob dydd

2.4 Inclên V2 / Chwarel Lechi'r Vivian
– inclên gwrthgytbwys weithredol mewn rhan ar wahân o Chwarel Dinorwig

2.5 Cyfadeiladau Peirianyddol Chwarel Dinorwig
– erbyn hyn yn gartref i Amgueddfa Lechi Cymru

2.6 Systemau Ffyrdd Chwarel Dinorwig
– y ffordd fawr, ffordd chwarel Dinorwig a ffordd chwarel Y Fach-wen

2.7 Ffordd Haearn a Rheilffordd Chwarel Dinorwig
– rhyngddynt roeddent yn cludo lechi i'w hallforio rhwng 1825 a 1961

2.8 Aneddiadau Deiniolen, Clwt-y-Bont, Dinorwig, a'r Fach-wen
– pentrefi chwarelyddol a bythynnod

2.9 Craig yr Undeb
– carreg frig naturiol lle cynhaliwyd cyfarfodydd Undeb Chwarelwyr Gogledd Cymru

2.10 Ysbyty Chwarel Dinorwig
– erbyn hyn yn agored fel amgueddfa



Map 3. Ffiniau ac Elfennau Cydran 2: Tirwedd Fynyddig Chwarel Dinorwig (Graddfa 1:40,000).

Y Dre' Newydd
© Hawlfraint y Goron: CBHC.

Melin Ponc 'Australia
© Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd.

Chwarel Dinorwig
© Hawlfraint y Goron: CBHC.

CYDRAN 3

Tirwedd Chwareli Dyffryn Nantlle

Mae Cydran Dyffryn Nantlle yn ddyffryn sy'n cynrychioli sawl cyfnod, ac mae ei llethrau yn gostwng o odreon Eryri i lawr at wastatir Arfon a'r môr. Mae'n cynnwys chwareli llechi ar ffurf cloddfeydd agored hyd at 150m o ddyfnder; tomennydd sylweddol; adeiladau prosesu creiriol; injan drawst Gernywaidd anferth yn y cwt injan gwreiddiol; aneddiadau gweithwyr cysylltiedig, gan gynnwys pentref, bythynnod sgwatwyr ac adeiladau amaethyddol wedi eu haddasu; a'r rheilffordd gan y peiriannydd Stephenson a ddefnyddiwyd i allgludo llechi.

Elfennau:

3.1 Tomennydd Chwarel y Cilgwyn

3.2 Rhafffordd 'Blondin' Chwarel Blaen y Cae

3.3 Chwarel Dorothea

3.4 Injan Drawst Gernywaidd Chwarel Dorothea

3.5 Aneddiadau, Melin Lechi a Pengialiau Inclên Tsiaen Chwarel Pen y Bryn / Cloddfa'r Lôn

3.6 System-Bwmpio efo Grym Dŵr yn Chwarel Pen y Bryn / Cloddfa'r Lôn

3.7 Chwarel Pen yr Orsedd

3.8 Rhaffyrdd 'Blondin' Chwarel Pen yr Orsedd

3.9 Rheilffordd Nantlle

3.10 Pentref Nantlle

3.11 Aneddiadau ar Fynydd y Cilgwyn

3.12 Plas Tal y Sarn a ffermdy Tal y Sarn



Map 4. Ffiniau ac Elfennau Cydran 3: Tirwedd Chwareli Dyffryn Nantlle (Graddfa 1:25,000).

Dyffryn Nantlle o'r de-ddwyrain, yn edrych draw tua Môr Iwerddon
© Hawlfraint y Goron: CBHC.

CYDRAN 4

Chwareli Gorseddau a Bwlch y Ddwy Elor (*Prince of Wales*), y Rheilffyrdd a'r Felin

Mae'r ardal chwarelyddol fyrhoedlog hon, oedd yn weithredol yng nghanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg, yn nodedig am fod nodweddion a gollwyd mewn llawer o weithfeydd mwy llwyddiannus yn fasnachol wedi goroesi yma. Mae'n cynnwys Chwareli Llechi anghysbell Gorseddau a Bwlch y Ddwy Elor (*Prince of Wales*), dwy chwarel oedd yn gweithio ar sail egwyddor tebyg i Chwarel y Penrhyn gyda phonciau grisiog â mynediad ar inclên; y rheilffyrdd oedd yn gwasanaethu'r ddwy chwarel, pentref gweithwyr anghyfannedd yn Nhreforys a melin slabiau ddramatig Ynysypandy.

Elfennau:

4.1 Chwarel Gorseddau

4.2 Chwarel Bwlch y Ddwy Elor (*Prince of Wales*)

4.3 Melin Slabiau Ynysypandy

4.4 Rheilffordd Gorseddau a Rheilffordd Cyffordd Gorseddau a Phorthmadog

4.5 Pentref Treforys



Map 5. Ffiniau ac Elfennau Cydran 4: Chwareli Gorseddau a Bwlch y Ddwy Elor (*Prince of Wales*), y Rheilffyrdd a'r Felin (Graddfa 1:35,000).

Roedd melin slabiau Ynysypandy yn gwasanaethu chwarel Gorseddau ac roedd system rheilffordd yn cysylltu'r ddau safle © Hawlfraint y Goron: CBHC.

Mae Chwarel Bwlch y Ddwy Elor (*Prince of Wales*) yng Nghwm Pennant yn cydio wrth ochr y mynydd © Hawlfraint y Goron: CBHC.

CYDRAN 5

Ffestiniog: ei Mwyngloddiau a'i Chwareli Llechi, 'dinas llechi' a'r Rheilffordd i Borthmadog

Mae'r Gydran hon yn cynnwys y chwareli a'r cloddfeydd tanddaearol a'r tomennydd a'r melinau cysylltiedig uwchlaw tref chwarelyddol Blaenau Ffestiniog a'i threfniadaeth drefol ffurfiol; yn ogystal â Phlas Tan y Bwlch, hen gartref teulu o berchnogion chwareli o bwys; ceiau llechi ar Afon Dwyryd; Harbwr Porthmadog; a Rheilffordd lechi arloesol Ffestiniog.

Elfennau:

5.1 Chwareli Ffestiniog - Y Tirffurf ar yr Wyneb

5.2 Chwareli Ffestiniog - Y Gweithfeydd Tanddaearol

5.3 Gorsaf Ynni Dŵr Pant yr Afon

5.4 Melin Chwarel Diffwys

5.5 Prif Gyfadeiladau Chwarel Maenofferen

5.6 Tref Blaenau Ffestiniog

5.7 Plas Tan y Bwlch
– canolfan astudio breswyl Parc Cenedlaethol Eryri erbyn hyn

5.8 Ceiau llechi ar Afon Dwyryd

5.9 Rheilffordd Ffestiniog

5.10 Harbwr Porthmadog

Mae craeniau, wagenni a thraciau rheilffordd i'w gweld yn siambrau Cwmorthin hyd heddiw © Jon Knowles.

Tirwedd Llechi Ffestiniog © Hawlfraint y Goron: CBHC.

256000
261000
347000
342000
337000
Ffin Safle Treftadaeth y Byd Arfaethedig
Safle Treftadaeth y Byd Arfaethedig tanddaearol
Safle Treftadaeth y Byd Arfaethedig tanddaearol (ffin)
5.8
5.9
5.10
G
0
4 cilometrau

Datwm: Arolwg Ordnans y DU

Map 6. Ffiniau ac Elfennau Cydran 5: Ffestiniog: ei Mwyngloddiau a'i Chwareli Llechi, 'dinas llechi' a'r Rheilffordd i Borthmadog (Graddfa 1:50,000).

CYDRAN 6

Chwarel Bryneglwys, Pentref Abergynolwyn a Rheilffordd Tal-y-llyn

Mae chwarel a gweithfeydd tanddaearol Bryneglwys yn dangos dylanwad technegau chwarelyddol Nantlle a Ffestiniog; mae'r Gydran hon yn cynnwys pentref cwmni Abergynolwyn, gyda'i arddull Sir Gaerhirfryn yn tystio i gyfalaf o Fanceinion; a Rheilffordd Tal-y-llyn, y rheilffordd chwarel lechi gyntaf i gael ei hadeiladu ar gyfer tyniant ager ac i gysylltu â'r brif lein yn hytrach na'r môr – yn ogystal â phrosiect cadwraeth rheilffordd arloesol sydd wedi ei efelychu yn fyd eang.

Elfennau:

6.1 Gwaith ar yr wyneb yn Chwarel Bryneglwys a Phengiali yr Inclên Tsiaen

6.2 Gweithfeydd Tanddaearol Chwarel Bryneglwys

6.3 Pentref Abergynolwyn

6.4 Rheilffordd Tal-y-llyn

Map 7. Ffiniau ac Elfennau Cydran 6: Chwarel Bryneglwys, Pentref Abergynolwyn a Rheilffordd Tal-y-llyn gydag elfennau cysylltiedig (Graddfa 1:70,000).

Mae *Dolgoch*, a adeiladwyd ym 1866, yn tynnu trên i deithwyr dros y draphont, sef prif nodwedd beirianyddol Rheilffordd Tal-y-llyn © Rheilffordd Tal-y-llyn

Wagen a ddiogelwyd o dan y ddaear yn Chwarel Bryneglwys © Jon Knowles.

Saif pentref Abergynolwyn ym mlaen yr olygfa hon; yn y pellter, gwelir tomennydd chwarel Bryneglwys ynghanol y goedwig © Hawlfraint y Goron: CBHC.

1.3 Y cyd-destun cenedlaethol

Yr Adran Ddigidol, Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) sy'n gyfrifol am sicrhau bod y Deyrnas Unedig yn cydymffurfio â Chonfensiwn Treftadaeth y Byd UNESCO. Mae'r DCMS yn ymgysylltu â Llywodraeth Cymru ar enwebiad, cadwraeth a gwarchodaeth Safleoedd Treftadaeth y Byd yng Nghymru. Mae rheoli Safleoedd Treftadaeth y Byd arysgrifedig yng Nghymru yn fater datganoledig, a Gweinidogion Cymru sy'n gyfrifol am sicrhau cydymffurfiaeth â'r Confensiwn. Seilir agwedd Llywodraeth Cymru at warchod Safleoedd Treftadaeth y Byd a'u rheoli'n gynaliadwy ar dair egwyddor:

- dynodiad statudol asedau hanesyddol penodol yn Safleoedd Treftadaeth y Byd a'r gweithdrefnau cysylltiedig er mwyn rheoli a chadw trefn ar waith
- creu a gweithredu cynlluniau rheoli Safle Treftadaeth y Byd ar y cyd er mwyn sicrhau fod yr holl fudd-ddeiliaid allweddol yn cymryd rhan effeithiol a gweithredol
- defnyddio'r system gynllunio i lywio datblygiadau priodol

Mae *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015* yn ffurfio rhan o'r rhaglen ddeddfwriaethol nodedig a blaengar ehangach yng Nghymru, ac mae hefyd yn berthnasol i Safleoedd Treftadaeth y Byd. Mae'n gosod saith nod llesiant sydd, gyda'i gilydd, yn pennu gweledigaeth ar y cyd ar gyfer dyfodol Cymru. Bydd polisïau a ddatblygir i reoli Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru fel Safle Treftadaeth y Byd, os yw'r cais yn llwyddiannus, yn cyfrannu at un neu fwy o'r nodau hyn y mae datblygu cynaliadwy yn egwyddor ganolog iddynt. Mae Deddf 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru weithio tuag at saith amcan: Cymru lewyrchus, Cymru gydnerth, Cymru iachach, Cymru sy'n fwy cyfartal, Cymru o gymunedau cydlynus, Cymru gyda diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu, Cymru gyfrifol ar lefel fyd-eang.



Nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

1.4 Perchnogaeth

Mae'r Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig yn eiddo i nifer o berchnogion, gan gynnwys cwmnïau statudol a chyhoeddus, cyrff cyhoeddus, awdurdodau lleol, ac unigolion preifat.

1.5 Swyddogaeth y Cynllun Rheoli

Mae cynhyrchu a mabwysiadu'r Cynlluniau Rheoli cytunedig ar gyfer pob Safle Treftadaeth y Byd arysgrifedig, a'u hadolygu'n rheolaidd, yn un o ofynion UNESCO, ac mae'n rhan hanfodol o'r dull gweithredu a argymhellir gan Weinidogion Cymru er mwyn gwarchod y safleoedd pwysig hyn. Mae'r Cynllun Rheoli, felly, yn ddolen gydiol bwysig rhwng gofynion rhyngwladol UNESCO ar y naill law a dyheadau a gofynion cymunedau lleol ac awdurdodau rhanbarthol ar y llall.

Mae'r Enwebiad Treftadaeth y Byd yn nodi Gwerth Rhyngwladol Eithriadol arfaethedig *Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru*. Nod y Cynllun Rheoli hwn yw darparu gweledigaeth eang o ran ansawdd, arwyddocâd, cyflwr a photensial *Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru* er mwyn sicrhau fod y weledigaeth hon yn cael ei derbyn yn eang ac yn cael ei rhoi ar waith i wella dealltwriaeth ohoni, cynnal y Gwerth Rhyngwladol Eithriadol, ac annog defnydd cadarnhaol ohoni i gefnogi adfywiad rhanbarthol cynaliadwy. Cyngor Gwynedd fu'n arwain y broses o ddatblygu'r Cynllun, ond mae holl aelodau Grŵp Llywio'r Bartneriaeth (gweler Adran **4**) wedi eu cynnwys, yn ogystal â rhan-ddeiliaid ehangach, gan dynnu ar waith ymgynghori gyda'r cyhoedd. Bydd Grŵp Llywio'r Bartneriaeth a'i aelodau yn adolygu'r ddogfen yn barhaus. Cynllun cynghorol ei natur yw hwn, a'i nod yw sefydlu fframwaith i reoli a chydlynu gweithredoedd pawb sydd ynghlwm. Mae'r Cynllun yn cyflwyno cyfres o amcanion rheoli yn seiliedig ar weledigaeth strategol ar gyfer y 30 mlynedd nesaf, ynghyd ag amcanion tymor byr a chanolig am y pum mlynedd nesaf.

Datblygwyd y Cynllun Rheoli i gefnogi enwebiad *Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru*, ac mae pum mlynedd cyntaf y cynllun, felly, yn mynd tuag at ddatblygu strategaethau a mentrau rheoli fyddai'n dod yn sgil arysgrifiad llwyddiannus.

I gynorthwyo gyda chyflwyno'r Cynllun, bydd cyfres o Gynlluniau Rheoli Lleol yn cael eu mabwysiadu ar gyfer elfennau unigol, a fydd yn ystyried amgylchiadau unigol a pherchnogaeth.

1.6 Rhoi'r Cynllun Rheoli ar Waith

Cwmpas a Statws y Cynllun

Mae'r Cynllun Rheoli hwn yn cynnig fframwaith gyffredinol o amcanion, ond nid yw'n offeryn statudol. Nid yw'n cyflwyno grymoedd newydd, ac nid yw chwaith yn lleihau cyfrifoldeb unrhyw asiantaeth nac unigolyn. Wrth gynghori a chyflwyno gwybodaeth, mae'r Cynllun yn gweithredu fel sbardun i roi amryw fentrau rheoli ar waith.

Mae llwyddiant Safle Treftadaeth y Byd, ynghyd â'r ffordd y caiff ei warchod, ei gadw a'i gyflwyno, oll yn dibynnu ar ymrwymiad partneriaid i weledigaeth ar y cyd, sydd yn ei thro yn cael ei chefnogi gan weithredoedd sy'n gyraeddadwy. Un o flaenoriaethau allweddodd UNESCO ac ICOMOS yw annog budd cymdeithasol yn sgil statws Treftadaeth y Byd,

trwy godi ymwybyddiaeth gynyddol ymysg y cyhoedd, a chynyddu cyfranogiad y gymuned a chydweithrediad rhyngwladol. Mae hefyd yn bwysig cyfleu arwyddocâd Safle Treftadaeth y Byd trwy ddathlu arbenigrwydd diwylliannol. Mae datblygu balchder dinesig yn y cymunedau unigryw sy'n rhan o *Dirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru* yn fan cychwyn pwysig i weddnewid amgylchiadau cymdeithasol ac economaidd ac yn sbardun i adfywio economaidd, twristiaeth gynaliadwy, a chynhwysiad cymdeithasol. Mae ymgysylltu â'r gymuned a rhan-ddeiliaid yn greiddiol er mwyn sicrhau bod y Safle Treftadaeth y Byd yn cael ei gwarchod, ei datblygu'n gynaliadwy a'i rheoli'n gyson. Bydd strategaeth ymgysylltu â rhan-ddeiliaid a'r gymuned yn cael ei datblygu yn ystod cyfnod y Cynllun Rheoli er mwyn sicrhau bod ymgysylltiad a deialog gyda'r cymunedau lleol yn parhau.

Rhes Fawr yn Neiniolen, Cydran 2 © Cyngor Gwynedd.

Rhaffordd 'Blondin' yn Chwarel Pen yr Orsedd yng Nghydran 3
© Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd.

Injan Drawst Gernywaidd Chwarel Dorothea yng Nghydran 3
© Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd.



2 Y Dirwedd Ddiwylliannol – Gwerth Rhyngwladol Eithriadol a Phriodweddau

Adeiladwyd pentref Treforys (Cydran 4) i roi cartref i chwarelwyr Gorseddau (i'w gweld yn y pellter) a'u teuluoedd, ond aeth yn anghyfannedd ymhen deng mlynedd o'i adeiladu © Hawlfraint y Goron: CBHC.

2.1 Un dirwedd ddiwylliannol, chwe Chydran

Er i *Dirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru* gael ei ffurfio yn sgil cloddio ar raddfa eang, mae'r enwebiad yn dathlu llawer mwy na safle diwydiannol yn unig. Mae ynddi leoedd lle llwyddodd dynion, wedi eu denu yno o'r gefnwlad wledig, i feistroli sgiliau heriol, i ennill bywoliaeth erwin, ansicr, ond da; lle bu merched yn magu teuluoedd mewn amodau dyrys; a lle bu peirianwyr medrus yn gwneud defnydd celfydd o'r amgylchedd naturiol fynyddig i weithio'r llechfaen yn effeithiol, rheoli dŵr fel dull creu grym symudol, a gosod ffyrdd a rheilffyrdd a fyddai'n cludo'r llechi ar fyrder i lawr at yr arfordir, ac ymlaen i farchnadoedd y byd.

Dewiswyd y chwe Chydran sy'n ffurfio *Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru* er mwyn dangos ystod ac amrywiaeth lawn y diwydiant llechi yng ngogledd orllewin Cymru. Ceir chwarel neu chwareli llechi creiriol gydag ardaloedd prosesu cyfatebol ym mhob un. Mae gan bob un, hefyd, anheddiad neu aneddiadau sydd naill ai'n anghyfannedd neu'n fyw, ac a grëwyd gan ddiwydiannwr neu gan boblogaeth y chwarel. Ym mhob un ohonynt, ceir elfennau sy'n ymwneud â chludo llechi, gan gynnwys rheilffordd, yn ogystal â ffyrdd, ceiau, a phoryhladdoedd mewn rhai achosion.

2.2 Datganiad o Werth Rhyngwladol Eithriadol – y Cynnig

Isod mae'r cynnig ar gyfer y Datganiad o Werth Rhyngwladol Eithriadol a fydd yn cael ei fabwysiadu os yw'r arysgrifiad yn llwyddiannus. Mae UNESCO yn asesu'r Datganiad o Werth Rhyngwladol Eithriadol yn erbyn meini prawf penodol, ac mae'n rhaid i Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig fodloni o leiaf un o'r rhain. Mae *Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru* wedi ei enwebu yn erbyn tri maen prawf.

Crynodeb

Mae *Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru* yn enwebiad ar gyfer cyfres o chwe Chydran wedi eu lleoli yng ngogledd orllewin Cymru, y DU. Mae'n enghraifft eithriadol o dirwedd ddiwylliannol ddiwydiannol, a ffurfiwyd trwy chwarelyddiaeth ar raddfa eang, ar yr wyneb ac yn danddaearol, a hefyd trwy drin llechi a'u cludo ar gyfer marchnadoedd cenedlaethol a rhyngwladol. Roedd y diwydiant hwn, yn arbennig pan oedd yn ei anterth rhwng 1780 a 1940, yn ben ar gynhyrchu llechi to yn fyd eang; fe ddylanwadodd ar agor chwareli a chloddfeydd llechi ledled y byd yn sgil trosglwyddo technoleg a sgiliau; ac fe weddnewidiodd yr amgylchedd a'r ffordd o fyw i'r rhai hynny a oedd yn byw ac yn gweithio ym mynyddoedd Eryri.

Mae'r dirwedd oesol hon, sy'n hynod hawdd ei darllen, wedi ei lleoli mewn mynydd-dir mawreddog sy'n gostwng tua Bae Lerpwl yn y gogledd a Môr Iwerddon yn y gorllewin. Mae'n cynnwys y tirweddau sy'n cynrychioli orau yr ardal gynhyrchu ehangach a wnaeth y rhanbarth yn ben ar allforio llechi yn rhyngwladol yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Y prif nodweddion yw'r chwareli sy'n bonciau, grisiog anferth ar lethrau'r bryniau, y pyllau dyfnion a'r siambrau tanddaearol enfawr, y tomennydd sy'n rhan ymwthiol o'r tirffurf, y systemau dyfeisgar i reoli dŵr, a'r amrediad o adeiladau diwydiannol, ynghyd ag enghreifftiau rhagorol o offer technegol a nodweddion peirianyddol arbennig. Ochr yn ochr â'r rhain, ceir systemau trafnidiaeth pwrpasol ac arloesol a adeiladwyd ar dirwedd hynod heriol, ac a oedd yn cysylltu'r chwareli â safleoedd prosesu, â phorthladdoedd a wnaed yn benodol ar eu cyfer, neu â phrif reilffyrdd.

Bu i'r diwydianwyr cyfoethog adeiladu tai gwledig crand, creu parciau a gerddi a gwella eu hystadau, a hynny mewn cyferbyniad llwyr â phatrwm amrywiol aneddiadau gwerinol y gweithwyr, lle cedwid at arferion gwaith a chymdeithasol y gefnwlad, gan gynnwys prif-ddiwylliant hyderus yr iaith Gymraeg a'i thraddodiadau o anghydffurfiaeth crefyddol a radicaliaeth wleidyddol. Mae'r isadeiledd cymdeithasol sy'n eu nodweddu – capeli ac eglwysi, cytiau band, ysgolion, llyfrgelloedd a mannau cwrdd – yn tystio gyda'i gilydd i broses ragorol o addasu cymdeithas amaethyddol yn un ddiwydiannol, ac yn enghraifft o sut y gwnaeth diwylliant lleiafrifol traddodiadol addasu i'r moderneiddio a fu yn y cyfnod Diwydiannol.

Mae cromen Safle Treftadaeth y Byd y *Royal Exhibition Centre* ym Melbourne (Awstralia) wedi'i orchuddio â llechi o ogledd orllewin Cymru © Department of Environment (Awstralia).

Adeiladwyd Rheilffordd Himalaia Darjeeling yn India ar ffurf debyg iawn i Reilffordd Ffestiniog ac mae bellach yn elfen o Safle Treftadaeth y Byd *Rheilffyrdd Ucheldiroedd India* (Creative Commons Attribution-Share Alike 3.0 Unported license).

Bu i'r Eiddo Enwebedig ddatblygu yng nghanol un o haenau mwyaf y byd o lechfaen ragorol, a thyfodd y diwydiant a fanteisiodd ar y llechfaen honno i fod yr un mwyaf arwyddocaol yn y byd yn ystod y Chwyldro Diwydiannol. Mae'r olion eglur o hyn wedi eu diogelu ar dirwedd ddiwylliannol heb ei hail, sy'n parhau yn hynod o gyfan a dilys, lle nad oes fawr ddim ymyrraeth wedi bod o du datblygiadau modern diweddarach ac mewn lleoliad mynyddig sy'n cael ei warchod gan Barc Cenedlaethol Eryri. Fe wnaeth sawl cenhedlaeth o weithwyr llechi ennill eu bywoliaeth o'r dirwedd hon, gan wneud llechi Cymreig yn adnabyddus ledled y byd. Mae rhinweddau arbennig y llechen Gymreig yn cynnwys ei hirhoedledd a'i gallu i ddal dŵr, y ffaith ei bod yn ysgafn ac y gellir ei hollti yn denau, a'i chost cymharol isel; yn ogystal â'r ffaith ei bod i'w chael mewn mannau sy'n gyfleus o agos at y môr, gan hwyluso allforio i bedwar ban byd. Erbyn diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg roedd y llechen Gymreig yn darparu oddeutu traean llechi'r byd, gan alluogi trefoli a datblygiad pensaernïol cyflym yn Affrica, Awstralia, Ewrasia a Gogledd a De America. Mae maint a natur agored amlwg y gweithfeydd – ar raddfa'r dirwedd ranbarthol – ynghyd â chydeffeithiau cymdeithasol-dechnegol dethol a phwrpasol, yn ei gwneud yn hawdd i ddeall y prosesau y tu ôl i'r allbwn eithriadol hwn.

Lledaenodd technoleg allan o ogledd orllewin Cymru trwy gyfrwng ymweliadau cyfnewid gan arbenigwyr, a thrwy chwarelwyr a rheolwyr yn allfudo. Mae tystiolaeth sylweddol o'r prosesau hyn, mewn dogfennau ac olion ffisegol yng Nghymru a'r gwledydd oedd yn derbyn llechi, ac o'r deilliannau o ran dylanwad ac effaith. Roedd arbenigedd technolegol diwydiant llechi Cymru yn amlygu ei hun yn y drefn ddiwydiannol, dulliau datrys technolegol ddyfeisgar, a dealltwriaeth ymarferol o natur y graig a oedd i gael ei chloddio a'i phrosesu. Roedd trosglwyddo technoleg o'r fath yn rhan hanfodol o gynnydd y diwydiant llechi ar gyfandir Ewrop ac yn enwedig UDA. Ar ben hynny, y rheilffordd locomotif yw un o ddatblygiadau mwyaf arwyddocaol y Chwyldro Diwydiannol, ac mae rheilffyrdd lein-fach llechi Eryri yn cynnwys system dechnegol benodol ddaeth yn ddylanwadol yn fyd-eang wrth iddi gael ei marchnata a'i mabwysiadu mewn rhanbarthau mynyddig ledled y byd, o Asia ac America i Affrica ac Awstralasia. Mae lled a ffurf droellog yn ogystal â locomotifau a cherbydau Rheilffordd Himalaia Darjeeling yn tarddu'n uniongyrchol o Reilffordd Ffestiniog yn *Nhirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru*.

Cyfiawnhau'r Meini Prawf

Diffiniad maen prawf (ii): dangos cyfnewid pwysig o werthoedd dynol, dros gyfnod o amser neu o fewn ardal ddiwylliannol yn y byd, mewn datblygiadau ym meysydd pensaernïaeth neu dechnoleg, celfyddydau coffadwriaethol, cynllunio trefol neu dirlunio.

Mae *Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru* yn dangos cyfnewid pwysig o werthoedd dynol, yn arbennig yn y cyfnod rhwng 1780 a 1940, mewn datblygiadau ym meysydd pensaernïaeth a thechnoleg.

Cloddiwyd am lechi ym mynyddoedd gogledd orllewin Cymru ers oes y Rhufeiniaid; ond trefn o gynhyrchu cyson ar raddfa eang o ddiwedd y ddeunawfed ganrif hyd ddechrau'r ugeinfed a wnaeth y lechen Gymreig yn arweinydd yn y farchnad fyd eang fel deunydd

Mae dwy ganrif o weithio llethrau mynydd Elidir wedi gadael ei ôl ar ffurf tir chwareli llechi Vivian a Dinorwig yn Nghydran 2 © Hawlfraint y Goron: CBHC.

toi, gan annog datblygiadau trawsgyfandirol sylweddol ym meysydd adeiladu a phensaernïaeth, megis y to Regentaidd goleddf isel a thai teras. Roedd dros 90 y cant o allbwn llechi Cymru yn dod o'r chwareli sydd bellach yn dirffurfiau creiriol o fewn y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig. Mae elfennau eraill o fewn y Safle Treftadaeth y Byd Arfaethedig yn arddangos ffyrdd amrywiol o ddefnyddio llechi.

Roedd technolegau a ddatblygwyd yn *Nhirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru* yn rhan sylfaenol o ddatblygiad y diwydiant llechi yng nghyfandir Ewrop ac UDA, ac o chwarelyddiaeth yn fwy cyffredinol. Mae cyfnewid gwerthoedd dynol hefyd yn amlwg i'w weld yn y sgiliau a'r technolegau a ledaenodd o un Gydran i'r llall, yn ffurf y dulliau gwahanol o gloddio a phrosesu'r graig. Mae peiriannau sydd wedi goroesi yn dangos sut y byddai diwydiant llechi gogledd orllewin Cymru yn gwerthuso technolegau a ddyfeisiwyd mewn cyd-destunau eraill, gan eu mabwysiadu os oeddent yn addas i'r diben.

Yn fwy na hyn oll, mae rheilffyrdd llechi lein-gul yr ardal yn dangos cyfnewid pwysig o werthoedd dynol: yn y ffaith eu bod yn adlewyrchu'r systemau rheilffordd dur cynharaf un a ddatblygwyd yn ne Cymru; yn amlygu'r modd y cafodd y dechnoleg ei gwella o fewn yr Eiddo Enwebedig; a'r ffordd y bu iddynt weithredu fel model ar gyfer datblygiadau diweddarach a wnaeth gyfraniad helaeth at ddatblygiad cymdeithasol ac economaidd ardaloedd anghysbell mewn llawer i le arall yn y byd.

Diffiniad maen prawf (iv): bod yn enghraifft eithriadol o'r math o adeilad, ensemble pensaernïol neu dechnolegol neu dirwedd sy'n cyfleu cyfnod(au) arwyddocaol yn hanes pobl.

Mae *Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru* yn enghraifft eithriadol o'r math o dirwedd sy'n cyfleu, mewn ffordd ddramatig, 'cywaith natur a dyn' trwy elwa'n helaeth ar adnoddau naturiol.

Mae'r haenau mwyaf yn y byd o lechi o ansawdd uchel yn gorwedd yn y llethrau hyn ac yn lloriau'r dyffrynnoedd. Mae tai a pharcdiroedd helaeth perchnogion y chwareli yn cyfleu maint y cyfalaf oedd ar gael er mwyn defnyddio a chludo'r adnoddau naturiol hyn yn llwyddiannus. Mae anferthedd tirweddau'r chwareli yn eu lleoliadau mynyddig anghysbell a heriol yn ddwys ac yn ddengar, gan gynnwys ponciau grisiog enfawr, cloddfeydd dyfnion, tomennydd enfawr o wastraff llechi a gweithfeydd tanddaearol.

Mae effaith y chwareli a'r mwyngloddiau hyn ar yr amgylchedd naturiol, ynghyd â'u tirffurfiau a'u trefniadaeth eu hunain, yn briodweddau sy'n dyst i'r cenedlaethau o sgiliau a llafur corfforol a fuddsoddwyd ynddynt. O fewn yr amgylchedd fynyddig hon, cafodd grymoedd disgyrchiant a dŵr eu harneisio'n ddyfeisgar i weithio peiriannau. Mae'r rheilffyrdd, sy'n dechnegol arloesol, yn gwneud defnydd o dopograffeg yn y modd y maent yn defnyddio rhaffyrdd ar inclên a chreu tirffurfiau graddedig. Mae'r holl drefi a phentrefi chwarelyddol yn meddu ar eu cymeriad unigryw eu hunain, ac yn gwneud y defnydd gorau o'r amgylchedd naturiol i sefydlu cartrefi i weithlu newydd y tu hwnt i ffiniau diwylliannol traddodiadol.

Mae 'cywaith natur a dyn' yn amlwg yn y berthynas weledol sydd rhwng wyneb y gwaith a'r tomennydd gwastraff llechi, yn y ffaith bod melin i lifio llechfeini yn agos at gyflenwad dŵr, a'r ffaith bod cartrefi i chwarelwyr a'u teuluoedd wedi eu codi ar hyd ochr y rheilffordd a gludai'r llechi at y môr.

Codwyd y tai a lleiniau'r gerddi a gynlluniwyd ar gyfer Mynydd Llandygái yng Nghydran 1 ar hyd tir comin ucheldirol gan berchennog chwarel y Penrhyn © Hawlfraint y Goron: CBHC.

Diffiniad maen prawf (v): bod yn enghraifft eithriadol o anheddiad, defnydd tir neu ddefnydd môr traddodiadol sydd yn cynrychioli diwylliant (neu ddiwylliannau), neu ymwneud dynol â'r amgylchedd, yn enwedig mewn achosion lle mae wedi mynd yn fregus yn sgil effaith newid di-droi'n-ôl.

Mae *Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru* yn enghraifft eithriadol o drawsnewid anheddiad dynol traddodiadol yn sgil diwydiant, ynghyd â phatrwm o ddefnydd tir amaethyddol ymylol; mae hefyd yn enghraifft o'r modd yr addasodd diwylliant lleiafrifol a hynod unffurf i foderniaeth yn y cyfnod diwydiannol, tra'n cadw nifer o'i briodweddau traddodiadol.

Mae elfennau o fewn y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig yn dangos poblogaeth draddodiadol yn buddsoddi eu sgiliau, eu llafur a lefel fychan o gyfalaf. Mae goroesiad patrymau anheddu gwledig ochr yn ochr ag anheddau o fathau estron a threfniant ffurfiol y gofod trefol yn awgrymu parhad cryf o'r gorffennol cyn-ddiwydiannol. Mae gwrthgyferbyniadau rhyngddynt ac o'u mewn yn arwydd o'r pwysau a'r tyndra economaidd rhwng grwpiau cymdeithasol gwahanol sy'n un o nodweddion diwydianeiddio. Mae'r aneddiadau hyn – sy'n agos at y chwareli ac eto'n gysylltiedig â ffermydd a thyddynnod sy'n gyn-ddiwydiannol – yn cadw nifer o elfennau o'r ffordd draddodiadol o fyw, yn enwedig ei hiaith leiafrifol gref. Maent yn parhau yn dystiolaeth 'fyw' ac amlwg, yn union fel y traddodiad chwarelyddol, sydd bellach yn llai ond sy'n parhau yn destun balchder, a'r rheilffyrdd a arferai gludo'r llechi.

Cae'r Berllan ym Methesda, Cydran 1 © Cyngor Gwynedd.

Datganiad o Gyfanrwydd

Mae'r Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig yn cynnwys yr holl elfennau cydberthynol a chyd-ddibynnol sy'n cyfleu priodweddau Gwerth Rhyngwladol Eithriadol arfaethedig. Amlinellir eu cyfanrwydd gweledol trwy gyfrwng tirweddau cyfan sy'n cynnwys aneddiadau a systemau trafnidiaeth helaeth. Yn rhain gwelir sut roedd diwydiant cyfan yn gweithredu, o gloddio'r cynnyrch ar y dechrau hyd at ei allforio, ac o les a chartrefi'r gweithwyr hyd at y bywyd diwylliannol, addysgol ac ysbrydol y bu iddynt ei greu iddynt eu hunain. Mae arafu economaidd yn yr ugeinfed ganrif wedi chwarae rhan allweddol wrth gadw cyfanrwydd nifer o'r prif Elfennau, yn ogystal â mentrau gwarchod a chadwraeth gweithredol. Mae nodweddion cyfanrwydd hefyd yn cynnwys arferion a gwerthoedd cymdeithasol a diwylliannol, prosesau economaidd ac agweddau anghyffwrdd treftadaeth. Mae'r cysylltiadau rhwng y chwareli a'r môr hefyd yn benodol amlwg, ac maent yn gosod *Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru* ar wahân i dirweddau llechi hanesyddol arwyddocaol cyfandir Ewrop a Gogledd America.

Mae prif ardaloedd cynhyrchu llechi gogledd orllewin Cymru i'w cael o fewn ffiniau'r Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig. Mae pob Cydran wedi cael ei ddewis am ei gyfraniad penodol ei hun i Werth Rhyngwladol Eithriadol arfaethedig y Safle cyfan. Mae goroesiad a chyfanrwydd yr ystod o briodweddau, elfennau a nodweddion sy'n rhoi arwyddocâd i'r Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig yn eithriadol.

Yn y llun o'r awyr hwn o Chwarel Dinorwig yng Nghydran 2 gwelir sut mae'r inclêns yn ffurfio nodweddion trawiadol © Hawlfraint y Goron: CBHC.

Datganiad o Ddilysrwydd

Mae *Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru* yn dirwedd ddiwylliannol sy'n dal i fod mewn cyflwr eithriadol o dda, ac mae iddi lefel o ddilysrwydd anghyffredin o uchel. Cyflëir priodweddau'r Gwerth Rhyngwladol Eithriadol arfaethedig drwy gyfrwng eiddo ffisegol sydd wedi'u hadnabod yn glir a'u deall o safbwynt dyddiad, dosbarthiad gofodol, defnydd a swyddogaeth (gan gynnwys cymunedau byw a rheilffyrdd gweithredol), ffurf a dyluniad, deunyddiau a sylwedd. Mae hyn yr un mor wir o ran eu cydberthynas a'u cysylltedd, a chyfanrwydd swyddogaethol a chyfansoddiadol cyffredinol cyfres sy'n cynnwys gweithgaredd ddiwydiannol, trafnidiaeth ac aneddiadau hanesyddol. Mae'r Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig yn ymgorffori ymhellach draddodiad diwylliannol bywiog, gan gynnwys sgiliau trin llechi a pharhad yr iaith Gymraeg dros ardal helaeth.

Ychydig iawn o ymyrraeth a welwyd yn *Nhirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru* ers y prif gyfnod o weithgarwch diwydiannol. Mae prif gymeriad diwylliannol yr ardal yn ddigyfnewid, ac mae presenoldeb amlwg y chwareli, yr aneddiadau cysylltiedig a'r llwybrau trafnidiaeth, yn parhau yn gryf ac yn weladwy iawn. Mae potensial archeolegol y chwareli, y llwybrau trafnidiaeth a'r aneddiadau anghyfannedd yn parhau yn uchel. Ni fu unrhyw ail-wneuthuriadau damcaniaethol, ac mae prosiectau adfer wedi eu cwblhau ar sail egwyddorion cadwraeth cadarn. Mae aneddiadau yn rhan greiddiol o ddilysrwydd diwylliannol y cais; maent wedi cadw eu cymeriad diwylliannol.

Gofynion diogelu a rheoli

Yr Adran Ddigidol, Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) sy'n gyfrifol am ofalu bod y Deyrnas Unedig yn cydymffurfio gyda Chonfensiwn Treftadaeth y Byd UNESCO. Mae'r DCMS yn ymgysylltu â Llywodraeth Cymru ar enwebiad, cadwraeth a gwarchodaeth Safleoedd Treftadaeth y Byd yng Nghymru. Mae rheoli Safleoedd Treftadaeth y Byd arysgrifedig yng Nghymru yn fater datganoledig. Mae gan Gymru dri Safle Treftadaeth y

Mae pentref Deiniolen yng Nghydran 2 wedi cadw patrwm stryd sy'n dyddio'n ôl i'r bedwaredd ganrif ar bymtheg © Hawlfraint y Goron: CBHC.

Byd yn bresennol, ac mae wedi datblygu mecanweithiau a chanllawiau i sicrhau bod y rhain yn cael eu gwarchod ac y gofelir amdanynt yn briodol ac yn unol ag egwyddorion gweithredu UNESCO. Seilir dull Llywodraeth Cymru o warchod Safleoedd Treftadaeth y Byd a'u rheoli'n gynaliadwy ar dair egwyddor:

- dynodiad statudol asedau hanesyddol penodol mewn Safleoedd Treftadaeth y Byd a'r gweithdrefnau cysylltiedig i reoli a chadw trefn ar waith
- creu a gweithredu cynlluniau rheoli Safle Treftadaeth y Byd ar y cyd er mwyn sicrhau fod yr holl ran-ddeiliaid allweddol yn cymryd rhan effeithiol a gweithredol
- defnyddio'r system gynllunio gofodol, gan gynnwys polisïau o fewn cynlluniau datblygu lleol i lywio datblygiadau priodol.

Bydd y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig a'i leoliad yn cael lefelau priodol o warchodaeth drwy weithredu deddfwriaeth bresennol. Mae asedau hanesyddol penodol wedi eu gwarchod trwy ddynodiad statudol, Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth. Caiff gwaith ar asedau dynodedig ei reoli trwy weithdrefnau caniatâd statudol. Rhoddir sicrwydd hefyd o warchodaeth y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig trwy'r system cynllunio gofodol.

Caiff ardal warchodedig ehangach sy'n amgylchynu'r holl Gydrannau ei diogelu a'i chynnal ymhellach gan warchodaeth tirwedd sydd eisoes mewn lle trwy ddynodiad fel Parc Cenedlaethol a chofrestriad fel Tirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig.

Trên Rheilffordd Ffestiniog yn teithio ar hyd silff a dorrwyd i mewn i'r graig ym mhentref Tan y Grisiau yng Nghydran 5 © Rheilffyrdd Ffestiniog ac Eryri.

Mae'r beddfeini Cymraeg hyn, gyda motifau neilltuol wedi'u cerfio i mewn i'r lechen, yn dangos yr adfywiad ieithyddol a fu'n bosib yn sgil y diwydiant © Cyngor Gwynedd.

2.3 Priodweddau

Mynegir gwerthoedd safle Treftadaeth y Byd drwy ei briodweddau. Y rhain yw'r nodweddion hanfodol sy'n rhoi iddo ei arwyddocâd diwylliannol. Gall priodweddau fod yn ddiriaethol (ffisegol) neu yn anniriaethol. Mae cadw priodweddau yn bwysig er mwyn cynnal y gwerthoedd sy'n rhoi pwysigrwydd rhyngwladol i'r Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig.

Ymysg enghreifftiau o briodweddau diriaethol y mae asedau hanesyddol megis chwareli, cloddfeydd, tomennydd gwastraff llechi, adeiladau hanesyddol a henebion. Mae priodweddau chwareli creiriol yn cynnwys eu helfennau unigol a'r berthynas rhyngddynt, er enghraifft, mae systemau rheilffyrdd mewnol ac inclêns yn cysylltu wynebau gwaith y chwareli gyda thomennydd gwastraff a melinau, ac maent yn dangos dulliau gwaith y chwareli.

Mae aneddiadau cyfanheddol wedi cadw patrymau hanesyddol y strydoedd, a'r gerddi a'r ffiniau, a thrwy hynny yn esbonio eu lleoliad, eu perchnogaeth, a'u perthynas â phatrymau meddiant tir cyfnod cyn-ddiwydiannol. Mae manylion lleiaf hefyd yn bwysig, megis giatiau haearn gyr traddodiadol, crawiau sy'n derfynau caeau, neu gymesuredd ffenestri, simneiau, a chynteddau yn aneddiadau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Bellach, adfail yw aneddiad anghyfannedd Treforys yng Nghydran 4 ond mae ei botensial archeolegol yn anferth. Mae tai a pharciau perchnogion wedi cadw eu ffurf o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Mae'r llwybrau cludo wedi cynnal eu peirianyddiaeth o'r ddeunawfed a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg; mae'r ddwy reilffordd weithredol, Ffestiniog a Thal-y-llyn, wedi cadw eu ffurf a dyluniad eu llwybrau, yn ogystal ag adeiladau gorsaf a gweithdy cydoesol, a'u peirianyddiaeth mecanyddol. Yng Nghydran 2, ychydig iawn o newid fu i gyfadeiladau gweithdai peirianyddol Chwarel Dinorwig ers y 1870au ac mae nawr yn gartref i Amgueddfa Lechi Cymru. Yng ngweithfeydd cyfagos Vivian, mae inclên (V2) wedi'i chadw a'i hadfer i fod yn weithredol.

Mae'r defnydd o lechi yn eang ym mhob rhan o'r safle Treftadaeth y Byd arfaethedig, fel deunydd toi ac fel elfennau pensaernïol, terfynau caeau a waliau. Mae deunyddiau adeiladu eraill yn adlewyrchu patrymau masnach rhyngwladol a chenedlaethol perthnasol a ymsefydlodd yn sgil y fasnach lechi (e.e. llongau llechi yn dychwelyd gyda choed o Ganada, a brics yn cyrraedd ar drenau o Ogledd Ddwyrain Cymru).

Mae'r nodweddion anniriaethol yr un mor bwysig, gan gynnwys yr iaith Gymraeg, traddodiadau, ysbryd, gwerthoedd ac ymdeimlad cymdeithasol, ac maent oll yn cyfrannu at gymeriad lle.

Mae'r olygfa hon o Gydran 5 yn dangos y berthynas agos rhwng tref Blaenau Ffestiniog, y chwareli a'r systemau cludiant. Ymysg priodweddau nodedig *Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru* y mae godidowgrwydd yr amgylchedd mynyddig, pellenigrwydd noeth, naws creigiog, waliau caeau, a'r bythynnod, ynghyd â'r ymdeimlad cyson o gydberthynas dyn â'i amgylchedd, boed hynny yn nhirffurf y chwareli, ar lwybrau'r rheilffyrdd, neu mewn anheddiad a sefydlwyd ar dir comin yn yr ucheldir. Mae cadw'r elfennau hyn yng ngolwg y naill a'r llall yn ganolog i reolaeth effeithiol y dirwedd ddiwylliannol hon © Hawlfraint y Goron: CBHC.

Mae'r tabl a ganlyn yn adnabod rhai priodweddau allweddol yn ôl meini prawf, gydag enghreifftiau darluniadol.

2.3.1 Priodweddau *Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru*

Maen prawf (ii) – Mae *Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru* yn dangos cyfnewid pwysig o werthoedd dynol, yn arbennig yn y cyfnod rhwng 1780 a 1940, mewn datblygiadau ym meysydd pensaernïaeth a thechnoleg.		
O ddiwedd y ddeunawfed ganrif hyd ddechrau'r ugeinfed gwnaeth trefn o gynhyrchu cyson ar raddfa eang y lechen Gymreig yn arweinydd yn y farchnad fyd-eang fel deunydd toi, gan annog datblygiadau trawsgyfandirol sylweddol ym meysydd adeiladu a phensaernïaeth, megis y to Regentaidd goleddf isel, a thai teras. Mae elfennau eraill o fewn y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig yn arddangos y ffyrdd amrywiol o ddefnyddio llechi. Mae cyfnewid gwerthoedd dynol hefyd yn amlwg i'w weld yn y sgiliau a'r technolegau a ledaenodd o un Cydran i'r llall, yn ffurf y dulliau gwahanol o gloddio a phrosesu'r graig. Mae'r rheilffyrdd llechi lein-gul yn dangos cyfnewid pwysig o werthoedd dynol yn y ffaith eu bod yn amlygu sut y cafodd y dechnoleg ei gwella o fewn y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig.		
GWERTHOEDD	**PRIODWEDDAU**	**ENGHREIFFTIAU**
Datblygiadau mewn adeiladu a phensaernïaeth	Amrywiaeth o strwythurau ac adeiladau sy'n amlwg yn *Nhirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru* ac sy'n arddangos y ffyrdd gwahanol o ddefnyddio llechi.	Waliau blociau llechi ar Stryd Fawr Bethesda. Llechi patrymog ar hen dolldy, Porthmadog.
Trosglwyddo sgiliau	Sgiliau crefftus chwarela a phrosesu llechi sy'n tarddu o ardaloedd o fewn *Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru*, ac a ddefnyddiwyd trwy eu lledaeniad oddi mewn iddo, sy'n amlwg yn ffurf a threfn y chwareli a'r safleoedd prosesu.	System ponciau Chwarel y Penrhyn, a fabwysiadwyd yn chwareli Dinorwig, Gorseddau a Bwlch y Ddwy Elor (*Prince of Wales*). Defnyddiwyd dulliau cloddfeydd Dyffryn Nantlle yn Chwarel Bryneglwys.
Trosglwyddo technoleg	Technoleg arloesol a ddeilliai o ardaloedd o fewn *Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru*, ac a fabwysiadwyd mewn mannau eraill, sy'n amlwg yn ffurf a threfn y gweithfeydd a'r prosesu mecanyddol.	Mae system bonciau Chwarel y Penrhyn yn gyffredin mewn diwydiannau cloddio.
	Technoleg arloesol a ddeilliai o lefydd eraill ac a ddefnyddiwyd o fewn *Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru*, sy'n amlwg mewn gwaith twnelu, trin, cynhyrchu ynni, pwmpio, trwsio a chynnal a chadw.	Chwarel y Penrhyn. Rhaffyrdd 'Blondin' Chwareli Blaen y Cae a Phen yr Orsedd. System-bwmpio efo grym dŵr yn Chwarel Pen y Bryn/Cloddfa'r Lôn. Amgueddfa Lechi Cymru.
	Technoleg arloesol yn deillio o ardaloedd o fewn *Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru* ac a ddefnyddiwyd ac a ledaenwyd oddi mewn iddi, sy'n amlwg yn ffurf a threfn y chwareli, safleoedd prosesu, a systemau trin.	Chwarel Dorothea. Tirffurf ar yr wyneb yn Chwarel Bryneglwys a pengiali yr inclên tsiaen.
	Technoleg rheilffyrdd arloesol.	Rheilffyrdd Ffestiniog a Thal-y-llyn.

Maen prawf (iv) – Mae *Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru* yn enghraifft eithriadol o'r math o dirwedd sy'n cyfleu, mewn ffordd ddramatig, 'cywaith natur a dyn' trwy elwa'n helaeth ar adnoddau naturiol.		
Mae tai a pharcdiroedd helaeth perchnogion y chwareli yn cyfleu maint y cyfalaf oedd ar gael er mwyn defnyddio a chludo'r adnoddau naturiol hyn yn llwyddiannus. Mae anferthedd tirweddau'r chwareli yn eu lleoliadau mynyddig anghysbell a heriol yn ddwys ac ddengar. Mae effaith y chwareli a'r mwyngloddiau hyn ar yr amgylchedd naturiol, ynghyd â'u tirffurfiau a'u trefniadaeth eu hunain, yn briodweddau sy'n dyst i'r cenedlaethau o sgiliau a llafur corfforol a fuddsoddwyd ynddynt. O fewn yr amgylchedd fynyddig hon, cafodd grymoedd disgyrchiant a dŵr eu harneisio'n ddyfeisgar i weithio peiriannau. Mae'r rheilffyrdd, sy'n dechnegol arloesol, yn gwneud defnydd o dopograffeg yn y modd y maent yn defnyddio rhaffyrdd ar inclên a chreu tirffurfiau graddedig. Mae'r trefi a phentrefi chwarelyddol yn gwneud y defnydd gorau o'r amgylchedd naturiol i sefydlu cartrefi i weithlu newydd y tu hwnt i ffiniau diwylliannol traddodiadol.		
GWERTHOEDD	**PRIODWEDDAU**	**ENGHREIFFTIAU**
Trawsnewidiad diwydiannol drwy fuddsoddiad cyfalaf	Buddsoddiad y bonedd yn amlwg yn y tiroedd 'wedi'u gwella' gan gynnwys chwarela ar raddfa ddiwydiannol.	Chwarel y Penrhyn. Castell Penrhyn a'r Parc. Chwarel Dinorwig.
	Mae buddsoddiad cyfalaf a ddefnyddiai ddatrysiadau mecanyddol yn amlwg yn y gwaith adeiladu ceuffyrdd, prosesu mecanyddol, gwaith trin, cynhyrchu ynni, pwmpio, cynnal a chadw a thrwsio.	Chwarel y Penrhyn. Ponc 'Australia'. Inclên V2. Gorsaf Ynni Dŵr Pant yr Afon. Injan Drawst Gernywaidd Chwarel Dorothea. Amgueddfa Lechi Cymru.
	Roedd yr angen dybryd i roi cartref i'r gweithlu cynyddol yn amlwg yn y ffurfiau newydd ac amrywiol o aneddiadau, a gyflwynodd ac a adlewyrchai ffurfiau newydd ar drefn gymdeithasol.	Pob anheddiad.
	Ymsefydlu economi arian, a dewis ymysg defnyddwyr y dosbarth gweithiol, yn amlwg mewn siopau, tafarndai a neuaddau marchnad.	Stryd Fawr Bethesda. Neuadd y Farchnad Blaenau Ffestiniog.
	Ymwybyddiaeth a rheolaeth dros ofal iechyd gweithwyr gan reolwyr, yn amlwg mewn ysbytai.	Ysbyty Chwarel Dinorwig.
Trawsffurfiad diwydiannol drwy elwa ar adnoddau naturiol	Graddfa, ffurf a threfn y gwaith, yn amlwg yn ymdrech pobl, a luniodd dirffurfiau chwareli creiriol a gweithfeydd tanddaearol.	Pob chwarel.
	Defnydd o dirwedd a daeareg i weithio'r chwareli a gwaredu'r gwastraff llechi, i'w weld mewn tirweddau chwareli creiriol a gweithfeydd tanddaearol.	Pob chwarel.
	Defnydd o hydroleg i yrru prosesu mecanyddol, i drin, i bwmpio, i gynnal a chadw, ac i drwsio, ac fe welir hyn yn y modd y rheolid adnoddau dŵr a strwythurau ac offer.	Olwyn ddŵr a thyrbin yn Amgueddfa Lechi Cymru. Gorsaf Ynni Dŵr Pant yr Afon.
	Defnydd o hydrograffeg i symud llechi, sy'n amlwg i'w weld mewn ceiau ar afonydd a harbyrau llanwol.	Aber Cegin (Porth Penrhyn). Harbwr Porthmadog. Ceiau Afon Dwyryd.
	Defnyddio'r topograffi i symud llechi yn amlwg yn y systemau rheilffordd arloesol a thechnolegau cludo eraill.	Ffordd Haearn Chwarel y Penrhyn. Rheilffordd Ffestiniog.
Tirwedd Ddiwydiannol	Cysylltedd cryf yn amlwg yn y berthynas weledol rhwng pob elfen o bob Cydran.	Cydran Ffestiniog – ymdeimlad cryf o'r chwareli yn teyrnasu dros y dref a'r amgylchedd ehangach; taith reilffordd yn cysylltu'r chwareli â'r môr.
	Cysylltedd cryf yn amlwg yn y berthynas weledol rhwng pob Cydran a thirwedd ehangach y mynyddoedd a'r arfordir.	Cydran Dyffryn Nantlle – ardal ddiffiniedig o chwareli ac aneddiadau mewn cyd-destun ehangach sy'n cynnwys yr Wyddfa a'r môr.

Maen prawf (v) – Mae *Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru* yn enghraifft eithriadol o drawsnewid anheddiad dynol traddodiadol yn sgil diwydiant, ynghyd â phatrwm o ddefnydd tir amaethyddol ymylol; mae hefyd yn enghraifft o'r modd yr addasodd diwylliant lleiafrifol a hynod unffurf i foderniaeth yn y cyfnod diwydiannol, tra'n cadw nifer o'i briodweddau traddodiadol yr un fath.		
Mae elfennau o fewn y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig yn dangos poblogaeth draddodiadol yn buddsoddi eu sgiliau, eu llafur a lefel fychan o gyfalaf. Mae goroesiad patrymau anheddu gwledig ochr yn ochr ag anheddau o fathau estron a threfniant ffurfiol y gofod trefol yn awgrymu parhad cryf o'r gorffennol cyn-ddiwydiannol. Mae gwrthgyferbyniadau rhyngddynt ac o'u mewn yn arwydd o'r pwysau a'r tyndra economaidd rhwng grwpiau cymdeithasol gwahanol sy'n un o nodweddion diwydianeiddio. Mae'r aneddiadau hyn yn cadw nifer o elfennau o'r hen ffordd draddodiadol o fyw, yn enwedig ei hiaith leiafrifol gref. Parhânt yn dystiolaeth 'fyw' ac amlwg, yn union fel y traddodiad chwarelyddol, sydd bellach yn llai ond sy'n parhau yn destun balchder, a'r rheilffyrdd a arferai gludo'r llechi.		
GWERTHOEDD	**PRIODWEDDAU**	**ENGHREIFFTIAU**
Dilyniant mewn tirwedd sy'n newid	Y boblogaeth leol yn buddsoddi eu sgiliau, eu llafur a lefel fychan o gyfalaf, sy'n amlwg mewn tirffurfiau chwareli a gweithfeydd tanddaearol creiriol.	Pob chwarel.
	Goroesiad prosesau technegol syml a rhai yn seiliedig ar grefft mewn chwareli, sydd i'w gweld yn llochesi'r gwneuthurwyr llechi a barics a ddyluniwyd i fod yn gartref i deuluoedd / aelodau o'r teulu.	Tomennydd Chwarel y Cilgwyn. Aneddiadau Chwarel Pen y Bryn/ Cloddfa'r Lôn.
	Atgyfnerthiad o hunaniaeth cymdeithasol traddodiadol a hyder diwylliannol o'r newydd, i'w gweld mewn aneddiadau amrywiol.	Aneddiadau Deiniolen, Clwt-y-Bont, Dinorwig, a'r Fach-wen.
	Atgyfnerthiad yr iaith Gymraeg o'r newydd, sydd yn amlwg i'w weld mewn capeli, eglwysi ac ystafelloedd darllen a chyfeiriadaeth lenyddol.	Capel ac ysgoldai Jerusalem, Bethesda. Llyfrgell Carnegie, Deiniolen. Darllenfa chwarelwyr Cwmorthin, Blaenau Ffestiniog.
	Tensiynau cymdeithasol, i'w gweld mewn aneddiadau, addoldai, a safleoedd sy'n gysylltiedig ag undebau'r gweithwyr.	Capeli ac eglwysi Bethesda a Deiniolen. Mannau 'ymfflamychol' streic 1900–1903 ym Methesda. Craig yr Undeb.
Y dirwedd gyn-ddiwydiannol – anheddiad dynol traddodiadol	Goroesiad ffurfiau gwledig, i'w gweld mewn tai ac aneddiadau.	Barics Chwarel Pen y Bryn/ Cloddfa'r Lôn.
	Goroesiad iaith draddodiadol, i'w weld mewn enwau lleoedd a ffurfiau anniriaethol.	Aneddiadau Deiniolen, Clwt-y-Bont, Dinorwig, a'r Fach-wen, ac ar Fynydd y Cilgwyn. Enwau tyddynnod. Enwau ponciau grisiog yn Chwarel y Penrhyn a Dinorwig megis Ponc Ffridd a Phonc Teiliwr.
Y dirwedd gyn-ddiwydiannol – patrwm defnydd tir amaethyddol ymylol	Parhad ffurfiau gwledig, i'w weld mewn aneddiadau sgwatwyr a phatrwm y caeau.	Aneddiadau ar Fynydd y Cilgwyn.

Crynodeb o'r prif briodweddau

- Chwareli a mwyngloddiau anferthol – ponciau chwarel ar lethrau'r bryniau, cloddfeydd dwfn, siambrau tanddaearol helaeth, tomennydd gwastraff llechi enfawr, systemau dŵr dyfeisgar, systemau trin swmpus, amrediad o adeiladau diwydiannol.
- Systemau rheilffyrdd lein fach arloesol yn arwain at borthladdoedd a adeiladwyd yn bwrpasol i allforio, ac at brif reilffyrdd – rhai yn gweithredu'n llawn.
- Systemau prosesu arloesol – gan gynnwys, hyd y gwyddys, y defnydd cyntaf o'r llif gron i dorri cerrig.
- Sgiliau crefftau llechi a defnydd o lechi drwy'r holl dirwedd.
- Tai gwledig ac ystadau mawreddog.
- Aneddiadau gwerinol y gweithwyr, yn dangos amrywiaethau mewn cyd-destun cymdeithasol, patrwm a graddfa.
- Capeli ac eglwysi, cytiau band, ysgolion, llyfrgelloedd a mannau cwrdd, yn dangos hunaniaeth ddiwylliannol ac ieithyddol, a dyheadau am gyfiawnder cymdeithasol.
- Yr iaith Gymraeg – enwau lleoedd.
- Traddodiad llenyddol yn gysylltiedig â *Thirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru*.

Castell y Penrhyn, Cydran 1 © Hawlfraint y Goron: CBHC.

2.4 Lleoliad *Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru*

2.4.1 Lleoliad

Mae nodweddion arbennig yr amgylchedd trawiadol hwn, sy'n ymestyn o gopa'r mynyddoedd i lawr at yr arfordir, yn cyfleu'r heriau o weithio a byw yno. Dengys y dolennau cyswllt ymarferol a chymdeithasol ym mhob Cydran y modd y gorchfygwyd y rhain gan bobl ddyfeisgar ac annibynnol eu meddwl, a thrwy fuddsoddi cyfalaf. Erys y dolennau cyswllt hanesyddol hyn yn amlwg iawn, ac maent yn bwysig wrth archwilio a deall *Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru*. Maent yn cynnwys perthynas weledol y chwareli gydag aneddiadau'r gweithwyr a godwyd ar gyrion y tir amaeth, ac a ddiffinnir yn aml gan y llwybrau cludo llechi sy'n rhedeg drwyddynt. Rhydd y môr gyd-destun yr allforio llechi i farchnadoedd byd-eang, gan neilltuo Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru oddi wrth dirweddau llechi hanesyddol arwyddocaol cyfandir Ewrop a Gogledd America.

Mae estheteg tirwedd y mynyddoedd, llethrau'r dyffrynnoedd, coetiroedd, caeau a pharcdiroedd a'r môr hefyd yn hynod bwysig i'r Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig gan eu bod yn rhoi naws lle. Maent hefyd yn rhoi dirnadaeth i ni o sut a pham fod pobl, a ysbrydolwyd gan ei thirwedd, wedi'u cyflyru i ymweld, i ymgartrefu, ac i ymserchu yn y rhanbarth hon.

2.4.2 Beth yw lleoliad?

Mae dogfen Cadw, 'Lleoliad Asedau Hanesyddol yng Nghymru' (2017), yn rhoi trosolwg o'r dull a ddefnyddir i asesu effaith posib datblygiadau arfaethedig neu fwriadau rheoli tir ar eu lleoliad.

Mae lleoliad unrhyw ased treftadaeth yn cynnwys yr hyn sydd o'i gwmpas ac y caiff ei ddeall, ei brofi a'i werthfawrogi ynddo; gan gynnwys ei berthynas gyfredol ac yn y gorffennol â nodweddion hanesyddol a naturiol. Gall elfennau o leoliad wneud cyfraniad cadarnhaol, negyddol neu niwtral i arwyddocâd ased. Ynddo'i hun, nid yw lleoliad yn ased hanesyddol, er y gall tir o fewn lleoliad gynnwys asedau hanesyddol eraill. Mae pwysigrwydd lleoliad yn yr hyn y mae'n ei gyfrannu at arwyddocâd ased hanesyddol.

Perthynas weledol yw lleoliad yn bennaf, ond gall hefyd gynnwys nodweddion megis sŵn, gweithgaredd neu arogl a gysylltir â'r ased hanesyddol, neu lonyddwch neu bellenigrwydd. Mewn rhai achosion, gall lleoliad hefyd gynnwys perythnas swyddogaethol sy'n ymwneud ag ased hanesyddol megis maint ystâd hanesyddol, dalgylch dŵr oedd yn cyflenwi peiriannau dŵr hanesyddol, cysylltiadau rhwng elfennau diwydiannol amrywiol neu lwybrau a ddefnyddid i gludo deunyddiau diwydiannol i farchnadoedd.

Gall lleoliad gynnwys ystod o ffactorau:

- perthynas swyddogaethol a ffisegol â strwythurau/asedau hanesyddol eraill, a sut y mae'r rhain wedi newid dros amser.
- nodweddion topograffigol sydd wedi dylanwadu ar ei leoliad.
- cymeriad ffisegol y dirwedd neu'r dreflun o'i amgylch, gan gynnwys unrhyw ddylunio ffurfiol neu ddefnydd tir.
- cynllun gwreiddiol yr ased hanesyddol a sut y mae hyn wedi newid.
- elfennau claddedig neu archeolegol posib o amgylch yr ased hanesyddol.

- golygfeydd tuag at, o, a thros yr ased neu fan hanesyddol.
- golygfeydd ffurfiol neu gynlluniedig.
- amlygrwydd yr ased hanesyddol mewn golygfeydd ledled yr ardal gyfagos.
- golygfeydd yn ymwneud â diben esthetig, swyddogaethol neu seremonïol yr ased; er enghraifft, safleoedd amddiffynnol, begynau neu dirweddau dyluniedig.
- gall cysylltiadau hanesyddol, artistig, llenyddol, yn ymwneud ag enw lle, diwylliannol neu olygfaol oll gyfrannu at arwyddocâd ased hanesyddol.
- elfennau synhwyraidd eraill – sŵn, gweithgaredd neu arogl a gysylltir â'r ased hanesyddol.
- llonyddwch, pellenigrwydd, 'gwylltineb'.

Yn rhanbarth fynyddig Gwynedd, mae'r lleoliad yn un pwerus, ac mae'r prif olygfeydd yn niferus a mynegiannol; detholiad o'r rhai mwyaf arwyddocaol yn unig a ddisgrifir yma.

Cydran 1:
Chwarel y Penrhyn a Bethesda, a Dyffryn Ogwen at Aber Cegin (Porth Penrhyn)

Lleoliad Craidd

Dyffrynnoedd Ogwen a Chegin yw lleoliad craidd y Gydran hon, yn cynnwys yr holl dirwedd cynhyrchu llechi a chludiant, o'r chwarel tua'r gogledd hyd at y porthladd ar gyfer allforio. Mae'n ymestyn o dref chwarelyddol Bethesda i barcdir a chastell neo-Normanaidd teulu'r perchennog; o lethrau serth y Carneddau, sy'n nodi'r terfyn deheuol, hyd at wastatir arfordirol Arfon a Chulfor Menai, ger y castell.

Golygfeydd Arwyddocaol

Mae'r golygfeydd yn y chwarel yn cyfleu ehangder y lefelydd creiriol. O ran ddeheuol y chwarel greiriol, ceir golygfeydd o'r aneddiadau sy'n gysylltiedig â hi, gan gynnwys Castell Penrhyn, Culfor Menai a Bae Lerpwl. Fe wêl y teithiwr, sy'n mynd tua'r gogledd ar lôn bost hanesyddol Telford (yr A5), yr 'olygfa symudol' a'r modd y mae'r tomennydd llechi enfawr wedi ymwthio i'r tir amaethu blaenorol yn Nant Ffrancon; ac i'r sawl sydd ar reilffordd Caergybi-Caer a'r A55, mae gorthwr neo-Normanaidd Castell Penrhyn yn teyrnasu dros y dirwedd yn y pen gogleddol, arfordirol. Drwyddynt draw, amherir ar y golygfeydd o'r chwarel o du'r castell gan goed y parcdir; fodd bynnag, mae'n nodedig fod y chwarel i'w gweld o'r 'Llofft Lechi', un o'r ystafelloedd yn y castell sy'n agored i'r cyhoedd.

Ymdeimlad o gyrraedd

Ymysg y mannau allweddol wrth gyrraedd y mae'r troad oddi ar y B4409 at brif dirffurf y chwarel, sy'n esgor ar olygfa helaeth o'r dirwedd ddiwydiannol. Cyrraedd Castell Penrhyn drwy'r parc. Wrth deithio drwy Fethesda ar hyd lôn yr A5 – anheddiad diwydiannol linellol a adeiladwyd ar hyd lôn sy'n disgyn yn raddol; mae tŵr eglwys Glanogwen yn union gyfochrog â'r ffordd.

Cydran 2:
Tirwedd Fynyddig Chwarel Dinorwig

Lleoliad Craidd

Cysylltir y Gydran hon gyda thirwedd mynyddoedd Elidir a'r Wyddfa, a llawr y cwm islaw, gyda'i ddau lyn hir a chul sy'n ymestyn at bont Pen-llyn yn y gogledd orllewin. Yn ogystal ag effaith amlwg iawn diwydiant (ynni dŵr yn ogystal â chloddio am lechi), mae'r lleoliad yn brydferth, gyda Chastell Dolbadarn yn goruchwylio'r sarn rhwng y ddau lyn.

Saif aneddiadau chwarelyddol yr ucheldir, sef, Deiniolen, Clwt-y-Bont a Dinorwig, ar ysgwydd naturiol yn edrych dros wastatir arfordirol Arfon. Coediog yw aneddiadau'r Fach-wen, ond ceir ambell olygfa dros Lyn Padarn.

Golygfeydd Arwyddocaol

Gwelir tirffurf nodedig y chwarel yn amlwg wrth edrych ar draws Llyn Peris o ffordd yr A4086; felly hefyd o'r olygfa a geir wrth ddringo'r Wyddfa ar droed neu mewn trên. O'r edrychfan gyhoeddus yn y rhan o'r chwarel sy'n eiddo i'r Cyngor, ceir golygfeydd o'r holl Gydran, yn ogystal â'r Wyddfa a gwastatir arfordirol Arfon hyd at Y Fenai a draw am Ynys Môn. Mae hefyd yn dangos daeareg unigryw gwythïen lechi'r Cambria. Wrth edrych tua'r de ddwyrain o bont Pen-llyn, uwchlaw'r allfa o lyn Padarn, mae copaon yr Wyddfa ac Elidir i'w gweld, a Chastell Dolbadarn, ac amlygir swyddogaeth llyn Padarn fel canolfan gludiant. Fe'u gwelir yn well, ar ôl dringo ychydig, o ben Craig yr Undeb.

Mae'r dirwedd ddiwydiannol yn amlwg o'r brif orsaf yn y Gilfach Ddu, ar Reilffordd Llyn Padarn; o'r llwybr ar hyd glan y llyn ceir golygfeydd o'r Wyddfa.

O'r mannau uwchlaw Deiniolen, Clwt-y-Bont a Dinorwig ceir golygfeydd sy'n datgelu natur nodedig y pentrefi chwarelyddol annibynnol hyn a'r tyddynnod, yng nghesail y bryniau.

Ymdeimlad o gyrraedd

O gyrraedd ar hyd ffordd yr A4086 o Fangor, Caernarfon neu Ben y Pass – mae tirwedd ddiwydiannol yn ymagor yng nghanol amgylchedd naturiol llyn a mynydd.

Wrth gyrraedd Amgueddfa Lechi Cymru – daw adeilad hirsgwar trawiadol i'r golwg, sy'n cyfleu rhyw adlais o floc stablau ar ystâd wledig neu gaer.

Cydran 3:
Tirwedd Chwareli Dyffryn Nantlle

Lleoliad Craidd

Mae'r Gydran hon yn cydredeg â Chrib Nantlle, sy'n ymestyn o'r dwyrain i'r gorllewin. Cyfyngir ar y pen dwyreiniol gan fwlch Drws y Coed, ond egyr gwastadedd tua'r gorllewin. Mae rhai o'r chwareli wedi'u hamgylchynu gan domennydd gwastraff llechi a chan goed; mae eraill, yn enwedig ar y llethrau uwch, yn edrych dros y dyffryn.

Golygfeydd Arwyddocaol

O'r ffordd sy'n rhedeg ar hyd gopaon tomennydd Chwarel y Cilgwyn, ger terfyn gogleddol y Gydran, ceir golygfeydd sy'n cynnwys copa'r Wyddfa yn y dwyrain, Crib Nantlle tua'r de ac, i'r gorllewin, y môr yn ymestyn draw at benrhyn Llŷn. Ar ddiwrnod clir daw Iwerddon

i'r golwg: cyrchfan hanesyddol llawer o lechi'r Cilgwyn. O'r fan hon hefyd ceir golygfeydd o'r chwareli eu hunain, gyda'u daeareg a'u technoleg nodweddiadol yn amlwg.

Mae'r safleoedd ar lethrau is y dyffryn ac ar lawr y dyffryn yn fwy caeedig, a nodwedd bwysig o'r dirwedd yw'r modd y mae'r llecynnau coediog a'r caeau o gyfnod cyn y chwareli wedi goroesi, a lle mae weithiau'n bosib osgoi golygfeydd o waith diwydiannol a chael blas o gyfnod cynharach yn hanes y dyffryn. Teyrnasa tomennydd o wastraff llechi dros bentref Nantlle. Mae'r olygfa ar hyd yr hen reilffordd am Chwarel Dorothea, gyda'i bwâu deuol nodedig, yn syfrdanol. Mae'r cloddfeydd sy'n orlawn o ddŵr hefyd yn cynnig golygfeydd godidog.

Tirwedd amgaeedig o fewn tirwedd arall yw chwarel Dorothea, wedi'i hamgylchynu gan domennydd o wastraff llechi. Ers cau'r chwarel ym 1970 tyfodd coed sy'n rhannol guddio safle'r injan drawst Gernywaidd, a saif ar grib rhwng y ddwy gloddfa yr arferai bwmpio dŵr ohonynt gynt.

Yn sgil datblygiad y chwareli, bu newid mawr i'r olygfa enwog honno o Ddyffryn Nantlle a baentiwyd gan Richard Wilson ym 1765–6. Serch hynny, gellir mwynhau'r un olygfa o gopa'r Wyddfa tua'r dwyrain o'r fan lle mae ffordd y B4418 yn croesi allfa llyn Nantlle.

Ymdeimlad o gyrraedd

O gyrraedd ar hyd y ffordd o naill ben Dyffryn Nantlle neu'r llall, o'r dwyrain neu o'r gorllewin, ceir tirwedd lle mae tomennydd gwastraff llechi yn tra-arglwyddiaethu, mewn gwrthgyferbyniad llwyr â'r tir amaeth o bobtu, a'r golygfeydd tlws o'r mynyddoedd. Wrth gyrraedd chwarel Dorothea ar hyd y llwybrau troed neu Lwybr Llechi Eryri, y dŵr sydd bellach yn llenwi'r hen gloddfa, a'r rhagfuriau enfawr yn ymgodi uwch ei ben sy'n mynnu sylw.

Cydran 4:
Chwareli Gorseddau a Bwlch y Ddwy Elor (*Prince of Wales*), y Rheilffyrdd a'r Felin

Lleoliad Craidd

Diffinnir y Gydran hon gan ddau gwm pellennig, Cwm Pennant a Chwmystradllyn, sy'n ymuno ger melin slabiau Ynysypandy. Mae'r ddwy chwarel ym mhen draw'r ddau gwm. Mae lloriau uchaf chwarel Bwlch y Ddwy Elor (*Prince of Wales*) ar yr un lefel â'r llwybr sy'n mynd o Ryd Ddu, dros y mynydd drwy Fwlch y Ddwy Elor, i Gwm Pennant. Lle tawel, anghysbell yw hwn a phrin yw'r ffermydd neu'r tai yma; bellach mae'n borfa i ddefaid, ac nid oes ymdeimlad o gwbl yma o'r gweithgarwch estynedig sy'n nodweddu'r Cydrannau eraill.

Golygfeydd Arwyddocaol

O bell, o'r A487 lle mae'r ffordd yn croesi nant Cedron, gwelir y ddau gwm; un o'r golygfeydd a geir o'r fan hon yw melin slabiau Ynysypandy gyda'r chwarel y tu hwnt iddi. Mae'r felin ei hun yn nodwedd drawiadol ac eiconig ar y gorwel, yn arbennig pan y'i gwelir o ffyrdd bychain tuag at ei chwr gorllewinol a deheuol. Ceir golygfeydd mawreddog o Gwm Pennant drwy Fwlch y Ddwy Elor.

Ymdeimlad o gyrraedd

Wrth gyrraedd Melin Slabiau Ynysypandy ar hyd y ffordd fach o'r A487, daw adeilad trawiadol tebyg i abaty i'r golwg. Ar y daith gerdded o Chwarel Gorseddau ar hyd y rheilffordd a'r wal gynhaliol, daw safle diwydiannol i'r fei yn raddol. Daw lleoliad cudd i'r amlwg ar y ddringfa i Chwarel Bwlch y Ddwy Elor (*Prince of Wales*).

Cydran 5:
Ffestiniog: ei Mwyngloddiau a'i Chwareli Llechi, 'dinas llechi' a'r Rheilffordd i Borthmadog

Lleoliad Craidd

Mae'r Gydran hon yn ymestyn o'r dirwedd fynyddig uwchlaw'r chwareli a thref Blaenau Ffestiniog i lawr ar hyd dyffryn lled goediog afon Dwyryd, gyda'i olygfeydd o gastell Harlech hyd at y Traeth Mawr, amgylchedd mynyddig syfrdanol y Cnicht a'r Moelwynion y tu hwnt iddo, a dysgl dyffryn Croesor i'w gweld draw oddi tanynt.

Golygfeydd Arwyddocaol

Cymaint yw ehangder tirwedd y Gydran hon fel bod y golygfeydd arwyddocaol yn niferus. Yn ardal Porthmadog, mae'r olygfa o'r harbwr, y bae, a Rheilffordd Ffestiniog a'i weithdai yn drawiadol. Gellir eu mwynhau o'r trên sy'n croesi morglawdd y Cob, o ble y ceir golygfa i'r gogledd ddwyrain, dros y tir a enillwyd o'r môr, draw tuag at fynydd Y Cnicht. Ymysg y golygfeydd symudol arwyddocaol eraill a geir o'r rheilffordd mae: yr olygfa o Dan y Bwlch dros afon Dwyryd a'i cheiau, gyda Chastell Harlech yn y pellter; tri llwybr rheilffordd, un yn weithredol a dau yn rhai creiriol, dros un o esgeiriau'r Moelwynion; a golygfa o'r chwareli a thref Blaenau Ffestiniog yn ymagor wrth i'r trên gyrraedd yr orsaf uchaf, gan symud o dirwedd fynyddig i un drefol wrth nadreddu heibio tai Tan y Grisiau. Daw natur droellog y rheilffordd yn amlwg yn fuan iawn i deithwyr wrth iddynt allu gweld yr injan stêm sy'n tynnu eu trên hwy ar hyd yr atyniad poblogaidd hwn.

Bydd teithwyr ar y rheilffordd gangen o Gyffordd Llandudno yn cyrraedd y Gydran hon trwy dwnnel hir, gan adael tirwedd wledig o'u hôl ac ail-ymddangos yng nghanol amgylchedd ddiwydiannol greiriol rymus chwareli Ffestiniog, yng nghysgod amlwg tomennydd gwastraff llechi.

I deithwyr sy'n cyrraedd ar hyd y ffordd o'r gogledd, mae'r olygfa annisgwyl o'r dirwedd gyflawn wrth gyrraedd brig yr A470 dros Fwlch y Gerddinen yn drawiadol – chwareli a thomennydd llechi yn y blaendir, bryniau coediog y tu hwnt, a'r môr yn y pellter. Ar hyd ffordd yr A496 at y dref o gyfeiriad y de, ceir golygfeydd hynod o nodweddion y copaon yng nghyffiniau Tan y Grisiau. Llochesa'r dref islaw'r llethrau a'r tomennydd gwastraff llechi trawiadol sy'n ei hamgylchynu. Mae'r cyferbyniad rhwng ei ffyrdd troellog gyda'u hadeiladau hynod amrywiol, a'i sgwariau ffurfiol o derasau mawr, yn amlwg. Mae llinell wreiddiol Rheilffordd Ffestiniog drwy Ddiffwys (lle saif y cyfleusterau cyhoeddus yn yr hen orsaf), ag inclên y chwarel ar yr un trywydd, yn echelin bwysig.

Mae'r golygfeydd o'r chwareli yn drawiadol, yn cwmpasu holl ehangder y Gydran hon, y mynyddoedd o gwmpas, yr aber, a'r môr.

Ymdeimlad o gyrraedd

Teithiau ar drên – yr ymdeimlad hamddenol o ddynesu at dirwedd ddiwydiannol ar ôl prydferthwch Rheilffordd Ffestiniog a'r datguddiad dramatig o dirwedd ddiwydiannol wrth ddod allan o'r twnnel ar y rhwydwaith rheilffyrdd cenedlaethol o Landudno.

Y daith ar y ffordd dros Fwlch y Gerddinen – daw graddfa'r cloddfeydd chwarelyddol i'r golwg yn ddirybudd, gyda'r olygfa hir dros yr amgylchedd wledig a thua'r môr yn y pellter.

Cydran 6:
Chwarel Bryneglwys, Pentref Abergynolwyn a Rheilffordd Tal-y-llyn

Lleoliad Craidd

Mewn rhai ffyrdd, nid yw'r Gydran hon mor uniongyrchol amlwg â'r lleill. Saif y chwarel mewn dyffryn llednant coediog anghysbell, a diffinnir ei leoliad gan gopaon y cribau o'i amgylch. Saif pentref Abergynolwyn ar lawr y prif ddyffryn. Rhed rhan uchaf y rheilffordd ar linell ychydig i fyny ochr y dyffryn ond wrth ddynesu at Dywyn, ymlusga rhwng porfeydd y gwastatiroedd gan gyrraedd y derfynfa isaf mewn hafn.

Golygfeydd Arwyddocaol

Mae rhan o Chwarel Bryneglwys wedi'i choedwigo, ond o'i lleoliad ar lethrau'r dyffryn ceir golygfeydd o'r rhan fwyaf o'r tirffurf diwydiannol. Rhed Rheilffordd Tal-y-llyn drwy amgylchedd sydd ddim yn heriol o safbwynt peirianyddol, ond sydd wedi cadw'i gymeriad hanesyddol ers y 1860au. Mae golygfeydd o'r rheilffordd yn cynnwys adeiladau a seilwaith yr orsaf eiconig o ganol oes Victoria, gan gynnwys y trenau sy'n croesi traphont Dolgoch.

Ymdeimlad o gyrraedd

Mae cyrraedd ar hyd y ffordd yn cynnig golygfeydd i ymwelwyr o ddyffryn serth. Bydd teithwyr ar Reilffordd Tal-y-llyn, boed y daith yn cychwyn o Dywyn neu Abergynolwyn, yn ymwybodol ar un waith eu bod ar system reilffordd gyflawn o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Nid yw'r chwarel yn amlwg o derfynfa uchaf y rheilffordd yn Nant Gwernol, ond mae'r inclên cyfagos sydd i'w weld o'r platfform, yn rhoi cyd-destun i ddiben y rheilffordd fel cludydd llechi. Ym mhentref Abergynolwyn cedwir yr ymdeimlad o gymuned ddiwydiannol o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg gafodd ei chreu mewn amgylchedd mynyddig Cymreig.

Mae lluniau o'r archif, megis hwn, yn cyfleu medrusrwydd chwarelwyr wrth fynd ati i hollti a naddu llechfeini © Cyngor Gwynedd.

2.5 Y Cyd-destun Cymdeithasol a Diwylliannol

2.5.1 *Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru* a'i thirwedd ddiwylliannol ehangach

Rhydd lleoliad y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig o fewn tirwedd diwylliannol ehangach Gwynedd a'r ardal warchodedig ehangach y cyd-destun i'w Werth Rhyngwladol Eithriadol arfaethedig. Mae cyfnod daearegol y rhanbarth cyn y cyfnod Diwydiannol yn gyforiog o archaeoleg Cynhanes, Rhufeinig-Brydeinig, a Chanoloesol. Dengys yr olygfa o Fae Lerpwl o Gydran 1 ac o Iwerddon a Dulyn yn y pellter o Gydran 3 y llwybrau morol a oedd yn bwysig yn y gorffennol pell ac eto yn y cyfnod Diwydiannol. Cysylltir Cydran 3 yn arbennig gyda chwedlau hynafol a gyflëir drwy'r Mabinogi, rhamantau rhyddiaith sy'n rhai o ogoniannau llenyddiaeth yr Oesoedd Canol, yng Nghymru ac yn Ewrop.

Mae'r dirwedd ddiwylliannol ehangach hefyd yn cynnwys Safleoedd Treftadaeth y Byd arysgrifedig *Cestyll a Muriau Trefi'r Brenin Edward yng Ngwynedd*, yng Nghonwy, Biwmares, Caernarfon a Harlech. Gellir gweld Biwmares o Gydran 1, Caernarfon o Gydran 3, a Harlech o Gydran 5. Mae modd cymharu'r safleoedd Canoloesol mawreddog hyn â *Thirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru* gan fod y ddau yn amlygu rhan Gwynedd mewn byd ehangach (boed diriogaeth Angevin-Plantagenet neu economi fyd eang), ac yn cynrychioli cyfnodau arwyddocaol o foderneiddio ac addasu yn hanes Cymru (o

drefoli hyd at ddiwydianeiddio). Gyda'i gilydd, mae gan y Cestyll ac amgylcheddau'r chwareli a chludiant llechi y gallu i ddehongli a chyfleu'r modd y datblygodd Cymru, ynghyd â rhanbarth Gwynedd.

Y cysylltiadau eraill, sy'n ddeallusol neu'n gelfyddydol yn hytrach nag yn swyddogaethol, yw'r golygfeydd Rhamantaidd o'r Wyddfa a Chastell Dolbadarn a ffurfiodd, ac sy'n parhau i ffurfio, y profiad i ymwelwyr â Thirwedd Fynyddig Chwarel Dinorwig (Cydran 2).

Mae'r chwarelwr yn greadur eiconig i lawer o bobl yng Nghymru a thu hwnt – yn ffyddlon i'w iaith, ei gydweithwyr a'i bobl, yn grefyddol ei natur ac yn flaengar ei wleidyddiaeth, yn ddarllenwr brwd, yn ddedwydd, a ffraeth, serch y salwch a ddaeth i'w ran yn bur aml yn sgil ei waith. Dethlir ei werthoedd yn ffuglen Gymraeg T Rowland Hughes (1903–1949). Mae ei nofel *Chwalfa* (1946) yn rhoi hanes ffuglen yn seiliedig ar streic chwerw Chwarel y Penrhyn rhwng 1900 a 1903 yng Nghydran 1, sef un o anghydfodau diwydiannol mwyaf hirhoedlog y Deyrnas Unedig. Dethlir bywydau menywod yng nghymunedau llechi Cydran 3 yn nofelau a straeon byrion Kate Roberts (1891–1985), yn fwyaf cofiadwy yn *Traed Mewn Cyffion* (1936). Mae Caradog Prichard (1904–1980) yn ei nofel realaeth hudol, *Un Nos Ola Leuad* (1961), yn darlunio cymuned chwarelyddol trwy lygaid plentyn, gan osod ei hanes mewn fersiwn wyrdroëdig o'i dref enedigol, Bethesda, sydd yng Nghydran 1. Addaswyd y nofelau hyn i'r Saesneg, Ffrangeg, Almaeneg, Sbaeneg, Tsiec, Iseldireg a Phwyleg.

Y rhesymau hyn sydd i gyfrif am y ffaith fod *iaith, ysbryd ac ymdeimlad* hefyd yn briodweddau pwysig i'r Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig. Mae o leiaf 65% o boblogaeth *Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru* yn siarad Cymraeg (gyda chyfran uwch mewn rhai cymunedau) ac yn rhan o sîn lenyddol, gelfyddydol a cherddorol Gymraeg sydd wedi magu nifer o artistiaid cyfoes sydd wedi derbyn cydnabyddiaeth rhyngwladol, megis 9Bach, Super Furry Animals, Bryn Terfel a Chôr y Brythoniaid. Fodd bynnag, er y cyfoeth diwylliannol, ac er mor gyfoethog yw'r tirweddau naturiol trawiadol, erys ardaloedd o angen sylweddol o fewn yr Eiddo Enwebedig – gydag incwm isel, cyfraddau uchel o ddiffyg cyflogaeth a diweithdra yn peri heriau cymdeithasol-economaidd.

Dogfennau Allweddol:

Gwyn, D: *Llechi Cymru* (Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, 2015)

Cyngor Gwynedd: Coflen enwebiad Treftadaeth y Byd *Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru*.

Mae'r tirwedd llechi wedi dylanwadu'n fawr ar y sîn gelf ranbarthol, gan gynnwys artistiaid megis Mary Elizabeth Thompson, Falcon Hildred, David Nash a'r gôl-geidwad rhyngwladol dros Gymru o Wynedd, Owain Fôn Williams, sydd â phaentiad, 'Injan Fawr', yn darlunio'r injan drawst Gernywaidd yn Chwarel Dorothea (Cydran 3) © Owain Fôn Williams.

2.6 Gwaith chwarelydda a mwyngloddio gweithredol

Nid oes unrhyw gloddio, prosesu na thipio yn digwydd o fewn y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig.

Mae cloddio, prosesu a thipio yn digwydd ger Cydrannau 1, 3 a 5, o fewn yr ardal warchodedig ehangach. Ystyrir fod y prosesau hyn yn cynnig gwerth cysylltiedig, gan eu bod yn cynnal sgiliau traddodiadol. Mae cloddio gweithredol am lechi yn sector allweddol bwysig mewn cadwraeth treftadaeth byd-eang, gan alluogi i doeau llechi difrodedig neu rai sydd wedi cyrraedd diwedd eu hoes gael eu hadnewyddu gyda deunyddiau dilys. Mae'r ymyrraeth barhaus hon yn yr amgylchedd naturiol, sy'n destun rheolaeth gynllunio lem gan swyddogion Cyngor Gwynedd o safbwynt sŵn, symudiad, trafnidiaeth, a llwch, yn cryfhau cymeriad yr elfennau archeolegol diwydiannol creiriol yn y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig. Mae chwarelwyr yn parhau i fyw yn yr aneddiadau hanesyddol o fewn y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig; mae eu cyflogaeth yn rhoi cyd-destun i'r diwydiant creiriol gan sicrhau bod y gymuned yn uniaethu ag o. Mae rhai safleoedd o fewn yr ardal warchodedig ehangach a chanddynt hawliau mwynau gweithredol wedi arallgyfeirio trwy gynnig twristiaeth antur a theithiau hanesyddol.

Nid oes unrhyw gloddio, prosesu na thipio yn digwydd o fewn yr ardal gyfagos i Gydrannau 2, 4 a 6.

Mae chwarela llechi gweithredol yn cyfrannu at gymeriad y dirwedd ac at draddodiad diwylliannol byw. Mae Chwarel y Penrhyn yn un o nifer o chwareli yn yr ardal gyfagos i'r Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig sy'n parhau i gynhyrchu llechi o ansawdd uchel © Cyngor Gwynedd.

2.7 Crynodeb

Mae *Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru* yn bodloni meini prawf 2, 4, a 5 ar gyfer Gwerth Rhyngwladol Eithriadol yn ôl diffiniad UNESCO, ac yn cwrdd â'r lefelau cywirdeb, dilysrwydd a chyflawnder sy'n hanfodol ar gyfer enwebiad Treftadaeth y Byd.

3 Y Weledigaeth ar gyfer *Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru*

Mae teithiau 'Chwilio'r Chwarel' yn Ffestiniog (Cydran 5) yn dod â chenhedlaeth newydd o ymwelwyr i Dirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru © Llechwedd/J W Greaves & Sons.

3.1 Gweledigaeth ac Amcanion

Gweledigaeth y Bartneriaeth ar gyfer Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig *Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru* yw:

> **Amddiffyn, cadw, gwella a chyfleu Gwerth Rhyngwladol Eithriadol arfaethedig Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru er mwyn atgyfnerthu hynodrwydd diwylliannol a chryfhau'r iaith Gymraeg, a dod yn hyrwyddwr pwysig i adfywio economaidd a chynhwysiad cymdeithasol.**

- Economi ranbarthol ffyniannus gyda chyfleoedd cyflogaeth fedrus, o ansawdd uchel, drwy gydol y flwyddyn, ym mhob sector, gan gynnwys y sector twristiaeth; ac yn hynny, cydnabod pwysigrwydd allweddol twristiaeth treftadaeth ac antur.
- Manteisio ar dreftadaeth llechi i greu swyddi medrus.
- Parhad y diwydiant cloddio llechi a'r gweithgareddau cysylltiol, fel cyfrannwr pwysig i economi gogledd orllewin Cymru a sicrhau cyflenwad parhaus o ddeunyddiau llechi at y dyfodol.
- Sicrhau tirwedd gynaliadwy, esblygol a fydd yn cefnogi datblygiad economaidd yr ardal.
- Sicrhau fod y cymunedau o fewn ac o amgylch *Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru* yn aros yn lleoedd hyfyw a chyffrous i fyw ynddynt, yn awr ac yn y dyfodol.
- Dathlu treftadaeth llechi a'i lle yn natblygiad tirweddau, trefi a chymunedau heddiw.
- Defnyddio deddfwriaeth a pholisi cynllunio cyfredol i roi sylfaen i'r Enwebiad.
- Hyrwyddo treftadaeth ddiwylliannol *Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru* ledled y byd.
- Cysylltu unigolion a chymunedau gyda'u gorffennol.
- Cadw a gwella treftadaeth ffisegol y dirwedd drwy gadw at weledigaeth ac amcanion y Cynllun Rheoli ac unrhyw Gynlluniau Rheoli thematig neu leol.

Sicrhau cyflenwad parhaus o ddeunyddiau llechi ar gyfer y dyfodol. Mae chwarela llechi gweithredol yn cynnal medrau traddodiadol ac mae'n sector sydd o bwys hanfodol mewn cadwraeth treftadaeth byd-eang © Cyngor Gwynedd.

3.2 Themâu ar gyfer rheoli *Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru*

Thema 1. Llywodraethu a Rheoli er mwyn sicrhau y byddant yn effeithiol, yn agored ac yn dryloyw.

Thema 2. Gofalu am *Dirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru* er mwyn sicrhau fod Gwerth Rhyngwladol Eithriadol arfaethedig y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig yn cael ei warchod, ei gadw a'i reoli'n effeithiol.

Thema 3. Cefnogi Datblygiad Cynaliadwy *Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru* er mwyn sicrhau fod y broses enwebu ac arysgrifiad llwyddiannus yn cyfrannu at gynnal tirwedd fyw a ffyniannus.

Thema 4. Mwynhau *Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru* er mwyn sicrhau bod modd i drigolion lleol ac ymwelwyr i'r rhanbarth fwynhau, profi a deall y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig.

Thema 5. Dysgu am *Dirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru* er mwyn sicrhau bod y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig yn dod yn destun dysg ac ymchwil ar y cyd i bawb o bobman.

Mae'r themâu hyn yn atgyfnerthu ei gilydd, fel bod cadwraeth a datblygiad cynaliadwy yn cyfrannu at ddehongli ac ymchwil, ac yn derbyn arweiniad trwyddynt, gan sefydlu 'cylch rhinweddol' sy'n cymell economi ranbarthol fywiog gan ddiogelu Gwerth Eithriadol Rhyngwladol arfaethedig *Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru* er budd cenedlaethau'r dyfodol.



3.3 Cyfrannu at lesiant

Mae *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015* yn ffurfio rhan o raglen ddeddfwriaethol nodedig a blaengar ehangach yng Nghymru. Mae'n gosod saith nod llesiant sydd, gyda'i gilydd, yn rhoi gweledigaeth ar y cyd i'r dyfodol. Bydd polisïau a ddatblygwyd i reoli'r Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig yn cyfrannu at un neu fwy o'r nodau hyn y mae datblygu cynaliadwy yn egwyddor ganolog iddynt. Mae Deddf 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru weithio tuag at y saith nod llesiant.

Mae pob un o themâu'r Cynllun Rheoli yn rhoi ystyriaeth i anghenion trigolion a busnesau'r rhanbarth, ac yn adnabod cyfleoedd i gefnogi amcanion *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.*

Cyfraniad y Cynllun Rheoli at y saith nod llesiant	
Nod llesiant	**Cynllun Rheoli**
Nod 1: Cymru ffyniannus	Themâu 3, 4 a 5
Nod 2: Cymru wydn	Themâu 1, 2, 3, 4 a 5
Nod 3: Cymru iachach	Themâu 2, 4 a 5
Nod 4: Cymru sy'n fwy cyfartal	Themâu 1, 2, 3 a 5
Nod 5: Cymru o gymunedau cydlynus	Themâu 2, 3, 4 a 5
Nod 6: Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu	Themâu 1, 2, 3, 4 a 5
Nod 7: Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang	Themâu 1, 2, 3, 4 a 5

Ymwelwyr yn mwynhau gweithgareddau Zip World uwchben ac o dan y ddaear yn chwarel Llechwedd, Blaenau Ffestiniog © Zip World.

PORT
MINORIN

4 Thema 1: Llywodraethu a Rheoli

4.1 Llywodraethu

Amcan 1: Bydd y Bartneriaeth yn cydweithio i arwain ar gamau i amddiffyn, cadw, gwella, cyflwyno a throsglwyddo Gwerth Rhyngwladol Eithriadol arfaethedig *Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru* er budd cenedlaethau'r dyfodol.

Egwyddor 1.1: Caiff gweledigaeth a nodau Cynllun Rheoli *Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru* eu cyflawni trwy weithio mewn partneriaeth.

Egwyddor 1.2: Bydd Grŵp Llywio'r Bartneriaeth yn gweithredu system agored a thryloyw o lywodraethu a rheoli ar gyfer *Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru*.

Egwyddor 1.3: Bydd y Bartneriaeth yn rhagweithiol wrth sicrhau cynrychiolaeth o'r gymuned a'r sector breifat ar bob lefel yn y strwythur llywodraethu.

Mae'r broses enwebu wedi digwydd dan arweiniad Partneriaeth aml-sefydliadol wedi'i arwain gan y sefydliad arweiniol, Cyngor Gwynedd, gyda chadeiryddiaeth yr Arglwydd Dafydd Wigley. Mae Grŵp Llywio'r Bartneriaeth yn cynnwys swyddogion ac aelodau etholedig o Gyngor Gwynedd ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri; cynrychiolwyr o Cadw, Amgueddfa Genedlaethol Cymru, Prifysgol Bangor, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol; a chynrychiolwyr o'r sector preifat. Mae aelodau etholedig yn cynrychioli'r cymunedau. Caiff buddiannau busnes eu cynrychioli gan berchnogion chwareli a rheolwyr prif safleoedd o fewn y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig.

Grŵp Llywio'r Bartneriaeth yw'r arweinydd strategol ar gyfer cyfres o weithgorau a'r Bartneriaeth yn ei chyfanrwydd; trwy'r rhain mae'n derbyn cyngor arbenigol gan arbenigwyr ymroddedig ym meysydd cadwraeth treftadaeth, treftadaeth y byd, adfywio economaidd a thwristiaeth ddiwylliannol. Os ceir arysgrifiad llwyddiannus, bydd y model llywodraethu hwn yn parhau i weithredu. Caiff aelodaeth ar bob lefel ei adolygu'n rheolaidd i sicrhau cynrychiolaeth ac arbenigedd briodol, ac os ceir arysgrifiad llwyddiannus, bydd y Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd penodedig ar gyfer *Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru* yn dod yn aelod craidd o'r tîm cydlynu, a bydd yn adrodd yn ôl i Grŵp Llywio'r Bartneriaeth.

Mae hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymraeg yn thema greiddiol trwy bob gweithred a gwaith sy'n gysylltiedig â'r Enwebiad. Mae'n hollbwysig bod yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymraeg yn cael eu cydnabod, eu dathlu a'u cryfhau trwy weithgareddau

Cynhyrchwyd gwaith celf gan blant Ysgol y Felinheli fel rhan o Gynllun Lle Arbennig Cronfa Dreftadaeth y Loteri 'LleCHI' ar y cyd â'r artist lleol, Eleri Jones a Gwasanaeth Archifau Gwynedd © Cyngor Gwynedd.

sy'n gysylltiedig â'r Enwebiad, ac yn llinyn euraidd trwy bob lefel o lywodraethu, cyfathrebu a gweithgareddau yr ymgymerir â nhw, nawr ac yn y dyfodol.

Wrth ystyried y Nodau Byd-Eang ar gyfer Datblygu Cynaliadwy, mae Cymunedau ac Amgylchedd Gynaliadwy hefyd wedi ei adnabod fel thema ar draws pob lefel o lywodraethu a gweithgareddau yr ymgymerir â nhw.

Rhoddir amlinelliad o strwythur llywodraethu y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig yn y diagram isod:



4.1.1 Partneriaeth *Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru*

I reoli Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig cymhleth ar draws nifer o safleoedd sydd mewn aml-berchnogaeth, a datblygu enwebiad Treftadaeth y Byd, mae'n rhaid wrth bartneriaeth agos ac effeithiol rhwng y sefydliad arweiniol a'r rhan-ddeiliaid, yn enwedig perchnogion safleoedd, cymunedau a busnesau *Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru*.

Mae gweithio mewn partneriaeth yn cyflwyno budd sylweddol gan ei fod yn galluogi i weithgaredd symud ymlaen trwy gydweithio, gan alluogi i adnoddau ar y cyd gael eu cyfeirio i'r mannau hynny lle bydd eu heffaith fwyaf; ac hefyd yn darparu mecanwaith i fonitro a gwerthuso cynnydd.

Grŵp Llywio Partneriaeth Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru © Cyngor Gwynedd.

4.1.2 Grŵp Llywio Partneriaeth *Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru*

Dechreuodd Grŵp Llywio'r Bartneriaeth gyfarfod yn 2009, ac mae'n gweithredu yn unol ag egwyddorion a gytunwyd mewn Memorandwm o Ddealltwriaeth (MODd) a lofnodwyd gan yr holl bartïon yn 2016. Mae'r egwyddorion yn cynnwys:

- Gwaith i hyrwyddo perthynas waith dda er budd cyffredinol yr holl bartïon a rhan-ddeiliaid eraill fydd yn cynorthwyo i ddatblygu Enwebiad Safle Treftadaeth y Byd llawn.
- Cydweithio'n rhagweithiol i gytuno ar gyfeiriad strategol a gweithredol yr Enwebiad
- Gweithio mewn Partneriaeth agored a thryloyw i rannu arbenigedd ac ymgymryd â'r prif dasgau.
- Ymrwymo i weithio mewn Partneriaeth i adnabod, datblygu, gweithredu a therfynu prosiectau cydweithredol sy'n ymwneud â'r Enwebiad.
- Rhannu gwybodaeth berthnasol mewn cysylltiad â'r Enwebiad, a allai effeithio ar y sefydliadau partner ac ar yr Enwebiad ei hun; gan gynnwys gwersi i'w dysgu ac arfer gorau.

Ynghyd â chael cyfrifoldeb cyffredinol am weithredu'r Cynllun Gweithredu, bydd Grŵp Llywio'r Bartneriaeth yn monitro cynnydd yn erbyn y camau gweithredu sydd wedi'u nodi yn y cynllun, ac yn sicrhau y caiff yr holl ddogfennau angenrheidiol eu cyflwyno i UNESCO. Mae holl aelodau Grŵp Llywio'r Bartneriaeth wedi buddsoddi adnoddau i ddatblygu'r Enwebiad, ac mae pob un ohonynt yn parhau i fod yn ymrwymedig i ddarparu cefnogaeth er mwyn gweithredu Cynllun Rheoli *Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru* yn dilyn arysgrifiad llwyddiannus.

Pe llwyddir i gael arysgrifiad, Cyngor Gwynedd fyddai'r sefydliad gyda chyfrifoldeb dros arwain y Bartneriaeth o hyd. Bydd y Grŵp Llywio yn cadw ei swyddogaeth arweinyddol gyda chefnogaeth is-grwpiau arbenigol, fel y diffinnir yn y Siart Rheoli a Llywodraethu. Rhagwelir y bydd y grwpiau hyn yn cael eu cefnogi gan benodiad Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd sy'n meddu ar yr ystod angenrheidiol o sgiliau i gydlynu'r gwaith o weithredu a monitro Cynllun Rheoli *Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru*. Bydd yr adnoddau a'r sgiliau sydd eu hangen i weithredu mentrau ar y cyd yn y cynllun yn cael eu hadnabod drwy asesiad anghenion ariannol.

4.1.3 Swyddogaethau Sefydliadau Partner

Cyngor Gwynedd yw'r corff arweiniol ar gyfer cyflwyno'r Enwebiad. Y Cyngor sydd â chyfrifoldeb ariannol a gweinyddol dros ddatblygiad yr Enwebiad, ac mae wedi sicrhau arian allanol tuag at weithgareddau ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r Enwebiad (sef ymgysylltu cymunedol a busnes). Cyngor Gwynedd yw'r awdurdod cynllunio statudol a'r awdurdod cynllunio mwynau. Mae Cyngor Gwynedd hefyd yn gyfrifol am y Bartneriaeth Rheoli Cyrchfannau rhanbarthol.

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn awdurdod cynllunio statudol ac yn gyfrifol am reoli asedau hanesyddol allweddol o fewn yr enwebiad gan gynnwys Plas Tan y Bwlch (canolfan astudio'r Parc Cenedlaethol) a melin slabiau Ynysypandy.

Cadw yw gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru. Mae'n darparu cyngor treftadaeth arbenigol, yn ymgymryd â dynodiad asedau hanesyddol o bwys cenedlaethol, ac yn rheoli cyfundrefnau cydsynio ar gyfer gwaith sy'n effeithio ar henebion cofrestredig. Mae Cadw hefyd yn darparu cefnogaeth ariannol i gynorthwyo perchnogion wrth ofalu am asedau hanesyddol.

Noddir Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru gan Lywodraeth Cymru. Y corff hwn sydd â'r swyddogaeth genedlaethol arweiniol o ran datblygu a hyrwyddo dealltwriaeth o dreftadaeth archeolegol, adeiledig a morwrol Cymru. Mae hefyd yn curadu Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru, Archif Genedlaethol sydd ag Achrediad Gwasanaeth Archifau, a chartref cenedlaethol archifau archeolegol digidol. Yn 2015, cyhoeddodd *Llechi Cymru: Archeoleg a Hanes*, astudiaeth awdurdodol o'r diwydiant chwarela llechi ledled y wlad.

Mae Amgueddfa Genedlaethol Cymru yn gyfrifol am weithrediad Amgueddfa Lechi Cymru. Mae'n darparu cefnogaeth a chyngor ar yr Enwebiad, yn ogystal â gyda dehongli a gweithgareddau ymgysylltu â'r gymuned.

Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol sy'n berchen ar, ac sy'n rheoli, Castell y Penrhyn a'r Gerddi. Mae'n un o elusennau mwyaf y DU ac mae'n gweithio i warchod mannau a gofodau hanesyddol i bawb, am byth. Mae'n darparu cefnogaeth â gweithgareddau a digwyddiadau ymgysylltu â'r gymuned, yn enwedig o fewn Cydran 1.

Mae Prifysgol Bangor yn darparu addysg ar lefel israddedig, meistr a doethurol. Mae wedi ei rhestru yn y 40 uchaf yn y DU am waith ymchwil, yn ôl y *Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil* (REF) 2014.

4.1.4 Tîm Cydlynu Prosiect

Mae Grŵp Llywio'r Bartneriaeth yn goruchwylio Tîm Cydlynu Prosiect sy'n adrodd yn ôl yn chwarterol. Mae'r Tîm Cydlynu Prosiect yn cynnwys swyddogion o gyrff yng Ngrŵp Llywio'r Bartneriaeth, gan gynnwys Cyngor Gwynedd, Cadw, a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru, ynghyd ag ymgynghorwyr arbenigol a chynghorwyr allanol. Mae'r Tîm Cydlynu Prosiect wedi bod yn gyfrifol am baratoi a chyflwyno'r goflen Enwebiad a'r Cynllun Rheoli, cysylltu â thirfeddianwyr, ymgysylltu â'r cyhoedd a mesurau eraill. Yn dilyn arysgrifiad llwyddiannus, rhagwelir y byddai llawer o'r gwaith hwn yn dod yn gyfrifoldeb y Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd.

4.1.5 Is-grwpiau

Mae cyfres o is-grwpiau gyda themâu wedi eu sefydlu, yn cynnwys cynrychiolwyr o'r sefydliadau rhan-ddeiliaid perthnasol ac unigolion arbenigol i fwrw ymlaen â chyflawni camau a thasgau penodol sydd wedi eu gosod yng Nghynllun Rheoli *Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru*. Mae'r holl is-grwpiau yn defnyddio cyngor arbenigol gan ymgynghorwyr a/neu gyfeillion beirniadol yn ôl yr angen. Bydd swyddogaeth yr is-grwpiau yn parhau yn dilyn arysgrifiad, gyda'r opsiwn i greu is-grwpiau ychwanegol os cyfyd cyfleoedd.

Mae'r is-grŵp Cadwraeth a Chynllunio yn gyfrifol am gynghori Grŵp Llywio'r Bartneriaeth ar yr holl faterion yn ymwneud â pholisi cynllunio, cadwraeth a gwarchodaeth. Mae'r aelodau yn cynnwys swyddogion o'r ddau awdurdod cynllunio lleol, cynrychiolwyr Cadw, Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, Swyddog Bioamrywiaeth Cyngor Gwynedd, Archeolegydd Parc Cenedlaethol Eryri, Swyddogion Cadwraeth, Amgueddfa Lechi Cymru, a'r Gwasanaeth Cynllunio Mwynau. Bu'r is-grŵp hwn yn gyfrifol am adnabod a chomisiynu'r adroddiadau a'r gwaith arolygu angenrheidiol er mwyn hysbysu'r Enwebiad, yn ogystal â phenderfynu ar ffiniau safleoedd a'r ardaloedd i'w gwarchod, ac ar y dull gwarchodaeth mwyaf priodol. Bydd yr is-grŵp Cadwraeth a Chynllunio, mewn partneriaeth â'r Fforwm Tirfeddianwyr, yn gyfrifol am ymgymryd â'r Canllaw Cynllunio Atodol fel rhan o'r Enwebiad, yn ogystal â rheoli'r gwaith o lunio Cynlluniau Rheoli Lleol. Bydd yr is-grŵp yn cadw ei swyddogaeth ymgynghorol i Grŵp Llywio'r Bartneriaeth ar ôl arysgrifo, a bydd yn darparu monitro parhaus ar gyfer y camau perthnasol yng Nghynllun Rheoli *Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru*.

Sefydlwyd y Tasglu Economaidd i adnabod blaenoriaethau economaidd yr Enwebiad. Mae gwaith y grŵp yn seiliedig ar yr adroddiad a gomisiynwyd yn 2015, *Asesiad o ardrawiad economaidd cyfredol a phosib treftadaeth (Paratowyd gan Dîm Ymchwil Economaidd TBR a Redbanks Consulting)*. Ar sail yr adroddiad hwn, lluniodd y grŵp *Gynllun Economaidd Tirwedd Gogledd Orllewin Cymru*, a oedd yn mabwysiadu'r datganiad o fwriad a ganlyn:

> **sicrhau y caiff buddion economaidd a chymdeithasol posib datblygu enwebiad Safle Treftadaeth y Byd Llechi Cymru eu gwireddu a'u amlhau ar draws holl gymunedau a busnesau Gwynedd.**

Er mwyn cyflawni'r datganiad o fwriad, mae'r cynllun yn canolbwyntio ar:

- Gyfrannu at sgiliau ac addysg ein pobl ifanc, a dysgu gydol oes.
- Creu cyfleoedd cyflogaeth cynaliadwy ac uchel eu gwerth.
- Gwella cyrchfannau.
- Sicrhau stori a naratif unedig.
- Gwella ein cymunedau a'r ymdeimlad o falchder yn ein cymunedau.
- Hyrwyddo a diogelu ein treftadaeth ddiwydiannol unigryw, ein diwylliant, ein hiaith a'n tirweddau lleol i bawb.

Mae'r Tasglu Economaidd yn cynnwys rhan-ddeiliaid busnes amrywiol gan gynnwys perchnogion busnesau, gweithredwyr a thirfeddianwyr twristiaeth, swyddogion o Wasanaeth Economi a Chymuned Cyngor Gwynedd, cynrychiolaeth Rheoli Cyrchfannau, a swyddogion Croeso Cymru fel aelodau. Bu'r Tasglu Economaidd yn llwyddiannus wrth sicrhau arian grant o Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol, Cronfa Partneriaeth Eryri, a'r Gronfa Ddatblygu Ranbarthol er mwyn gweithredu prosiectau adfywio cymunedol. Bydd y grŵp hwn yn gyfrifol am fonitro'r Strategaeth Cyllido Strategol a ddefnyddir i gydlynu ceisiadau am arian oddi mewn i'r Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig i gyrff arian cyhoeddus megis y Loteri Genedlaethol a Llywodraeth Cymru. Bydd yr is-grŵp hefyd yn gyfrifol am adnabod, datblygu, cefnogi a gweithredu prosiectau economaidd sy'n ymwneud â'r Enwebiad ar ôl arysgrifo, ac am fonitro'r camau gweithredu perthnasol yng Nghynllun Rheoli *Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru*.

Mae'r is-grŵp Dehongli a Throsglwyddo yn gyfrifol am gyfathrebu'r Enwebiad â phartneriaid a rhan-ddeiliaid. Mae hyn yn cynnwys trefnu digwyddiadau a hyrwyddo'r Enwebiad a gweithgareddau cysylltiedig i gynulleidfa mor eang â phosib. Bu'r is-grŵp hwn yn gyfrifol am lunio'r *Strategaeth Ddehongli*, y *Teclyn Marchnata* a'r *Prif Negeseuon*. Mae'r is-grŵp yn cynnwys swyddogion marchnata a chyfathrebu o Gyngor Gwynedd, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, Cadw, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a rhan-ddeiliaid eraill, gan gynnwys atyniadau megis Llechwedd, Zip World a rheilffyrdd Tal-y-llyn a Ffestiniog. Ceir hefyd gynrychiolwyr tirfeddianwyr megis First Hydro (Engie) ac Ystâd y Penrhyn, yn ogystal â busnesau sy'n gysylltiedig â'r tirwedd llechi ond sydd wedi eu lleoli oddi allan i'r Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig, sy'n cyfrannu at hanes *Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru* megis y Corris Mine Explorers, Inigo Jones a'r Amgueddfa Forwrol ym Mhorthmadog. Ar ôl arysgrifo, bydd yr is-grŵp hwn yn parhau i fod yn gyfrifol am drosglwyddo egwyddorion a negeseuon yr Enwebiad, a bydd yn gweithio i annog cymaint o sefydliadau, atyniadau ac unigolion i fabwysiadu egwyddorion cyfathrebu *Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru*.

Mae tirfeddianwyr yn rhan-ddeiliaid allweddol yn yr Enwebiad. Bydd pob tirfeddiannwr yn ymrwymo i Ddatganiad Egwyddorion gyda Chyngor Gwynedd yn amlinellu eu hymrwymiad i'r Enwebiad ac unrhyw anghenion safle-benodol sydd angen eu hystyried. Mae tirfeddianwyr yn gyfrifol am adnabod, gweithredu a chyflawni blaenoriaethau a phrosiectau, fydd yn cael eu hadnabod o fewn y Cynlluniau Gweithredu Lleol. Bydd y Fforwm Tirfeddianwyr, mewn partneriaeth â'r is-grŵp Cynllunio a Chadwraeth, yn gyfrifol am ddatblygu'r Canllaw Cynllunio Atodol fel rhan o'r Enwebiad. Bu perthynas waith dda rhwng Grŵp Llywio'r Bartneriaeth a thirfeddianwyr/busnesau trwy gydol datblygiad yr Enwebiad. Bu'r broses o sicrhau ymrwymiad tirfeddianwyr i'r Enwebiad yn un ailadroddol, a chafwyd nifer o drafodaethau er mwyn sicrhau bod tirfeddianwyr yn gyfforddus â'r cynigion, ac yn deall y risgiau, y buddion a'r cyfrifoldebau sy'n gysylltiedig

â Statws Treftadaeth y Byd. Mae Tirfeddianwyr a Grŵp Llywio'r Bartneriaeth yn cydweithio i adnabod ymyraethau a phrosiectau fydd yn gwarchod ac yn cadw ein hasedau pwysicaf tra hefyd yn darparu llwyfan ar gyfer adfywio cymdeithasol-economaidd yn y rhanbarth.

Sefydlwyd yr is-grŵp Ymchwil ac Addysg er mwyn sicrhau bod gwerthoedd addysgol yr Enwebiad yn ganolog i bob gweithgaredd. Mae'r budd addysgol yn amlwg o oedran ysgol gynradd ar hyd y daith i lefel ôl-raddedig, ac mae'n cynnwys sianelau addysgol academaidd, galwedigaethol ac anffurfiol. Hyd yma, mae'r gwaith wedi cynnwys sesiynau mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, a sgyrsiau traws-gyfadrannol â Phrifysgol Bangor ynghylch pynciau PhD posib. Mae gweithredu prosiect Sgiliau Traddodiadol hefyd yn flaenoriaeth i'r is-grŵp hwn a'r Tasglu Economaidd, er mwyn llenwi'r bwlch yn y ddarpariaeth hyfforddiant ar gyfer gwaith adeiladu a chadwraeth ar adeiladau traddodiadol, gan gynnwys gwaith llechi, plastro traddodiadol, gwaith coed a gwaith haearn. Mae'r rhaglenni llysgenhadon amrywiol hefyd yn ffurfio rhan o gynnig addysgol y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig, trwy gynnig cyfleoedd dysgu anffurfiol i gynulleidfa eang.

Mae Llysgenhadon Ifanc wedi dod ymlaen i adrodd stori'r llechi i genhedlaeth newydd © Cyngor Gwynedd.

4.1.6 Cynllun Gweithredu Llywodraethu

Amcan 1: Bydd y Bartneriaeth yn cydweithio i arwain ar gamau i amddiffyn, cadw, cyflwyno a throsglwyddo Gwerth Rhyngwladol Eithriadol arfaethedig *Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru* er budd cenedlaethau'r dyfodol.

Egwyddor 1.1: Caiff gweledigaeth a nodau Cynllun Rheoli *Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru* eu cyflawni trwy weithio mewn partneriaeth.			
Cam Gweithredu 1	Bydd Grŵp Llywio'r Bartneriaeth yn parhau i weithredu yn unol â thelerau Memorandwm o Ddealltwriaeth a lofnodwyd gan yr holl bartneriaid ac a adolygir yn rheolaidd.	Parhaus	Grŵp Llywio'r Bartneriaeth
Cam Gweithredu 2	Bydd unrhyw aelodau newydd sy'n ymuno â Grŵp Llywio'r Bartneriaeth yn ymrwymo i'r Memorandwm o Ddealltwriaeth.	Parhaus	Grŵp Llywio'r Bartneriaeth
Cam Gweithredu 3	Datblygir gweithgareddau'r Bartneriaeth o amgylch blaenoriaethau Confensiwn Treftadaeth y Byd a sicrhau fod cadwraeth, gwarchod, cyflwyno a throsglwyddo yn werthoedd creiddiol.	Tymor byr	Grŵp Llywio'r Bartneriaeth
Cam Gweithredu 4	Sefydlu model cydlynu priodol i reoli'r Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig.	Tymor byr	Grŵp Llywio'r Bartneriaeth
Egwyddor 1.2: Bydd Grŵp Llywio'r Bartneriaeth yn gweithredu system agored a thryloyw o lywodraethu a rheoli ar gyfer *Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru*.			
Cam Gweithredu 1	Cynnal cyfarfodydd is-grŵp a Grŵp Llywio'r Bartneriaeth i oruchwylio wrth roi'r Cynllun Rheoli ar waith.	Parhaus	Grŵp Llywio'r Bartneriaeth / Is-grwpiau
Egwyddor 1.3: Bydd y Bartneriaeth yn rhagweithiol wrth sicrhau cynrychiolaeth o'r gymuned a'r sector breifat ar bob lefel yn y strwythur llywodraethu.			
Cam Gweithredu 1	Cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda chynrychiolwyr o'r gymuned a'r sector preifat.	Parhaus	Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd / Grŵp Llywio'r Bartneriaeth
Cam Gweithredu 2	Bydd cymunedau a'r Sector Preifat yn cael eu hannog i gymryd rhan yng Ngrŵp Llywio'r Bartneriaeth a'r is-grwpiau gweithredol.	Parhaus	Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd a/neu Cadeiryddion Is-grwpiau
Cam Gweithredu 3	Bydd tirfeddianwyr yn ymrwymo i'r Datganiad o Egwyddorion cytunedig.	Tymor byr	Grŵp Llywio'r Bartneriaeth

4.2 Rheoli

Amcan 2: Bydd *Cynllun Rheoli Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru* yn cael ei fabwysiadu a'i ymgorffori mewn strategaethau rhanbarthol.

Egwyddor 2.1: Bydd Grŵp Llywio'r Bartneriaeth yn sicrhau bod yr holl ddogfennau strategol a rhaglenni perthnasol o fewn y sefydliadau partner unigol yn parchu'r Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig, ei Weledigaeth a'i Nodau.

Egwyddor 2.2: Bydd y Bartneriaeth yn datblygu ac yn cynnal Cynllun Rheoli Risg i gefnogi'r gwaith o reoli'r Safle Treftadaeth y Byd arysgrifedig.

Bydd yr amcanion a osodir yng Nghynllun Rheoli *Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru* yn cael eu cyflawni trwy wreiddio'r Cynllun Rheoli o fewn strategaethau rhanbarthol a gweithredu cyfres o brosiectau dan arweiniad aelodau'r Bartneriaeth, is-grwpiau'r Bartneriaeth a busnesau a thirfeddianwyr unigol. Bydd rhai yn gofyn am weithredu ar y cyd, ac eraill yn gofyn am gyrff unigol i'w gweithredu. Er y gallai prosiectau fod yn rhai unigol, bydd pob un yn cyfrannu at brif amcanion cadwraeth y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig ac adfywiad economaidd yr ardal. Bydd prosiectau yn cael eu monitro a, lle bo hynny'n briodol, yn cael eu rheoli gan Grŵp Llywio'r Bartneriaeth i sicrhau cysondeb gydag amcanion y Cynllun Rheoli.

Nid oes bwriad ar hyn o bryd i sefydlu cyllideb cyffredinol ar y cyd i ddarparu adnoddau ar gyfer y cynllun rheoli. Yn lle hynny, bydd adnoddau yn cael eu caffael o ystod o ffynonellau gwahanol. Bydd rhai prosiectau unigol yn cael eu hariannu'n breifat gan ran-ddeiliaid; bydd eraill yn gweithredu fel mentrau ar y cyd. Yn ogystal, bydd rhai camau gweithredu'n cynnwys ymrwymo i gytundebau â sefydliadau y tu allan i Grŵp Llywio'r Bartneriaeth, megis asiantaethau twristiaeth ac awdurdodau addysg, wrth anelu at gyflawni cyd-amcanion. Mewn nifer o achosion, cydnabyddir y bydd yr adnoddau ar gyfer camau gweithredu strategol ehangach yn gofyn i adnoddau ddod gan nifer o sefydliadau a ffynonellau. Er mwyn gweithredu'r camau hynny, bydd Grŵp Llywio'r Bartneriaeth yn rhoi blaenoriaethau gweithredu mewn trefn, gan gydnabod y bydd cyflawni hyn yn dibynnu i raddau ar gael adnoddau gan sefydliadau allanol.

Os am weithredu'r Cynllun Rheoli yn llwyddiannus, bydd angen gweithio mewn partneriaeth i ariannu a chyflawni'r blaenoriaethau. Oherwydd y bygythiad cyson y bydd ariannu sector cyhoeddus yn lleihau, mae gweithio mewn partneriaeth yn hanfodol os am gyflawni blaenoriaethau yn llwyddiannus, a gall hyn olygu cyfuniad o arian o'r sectorau cyhoeddus, preifat, cymunedol a gwirfoddol.

4.2.1 Mesurau Rheoli

Mae UNESCO yn argymell y dylai cynlluniau rheoli Safleoedd Treftadaeth y Byd adnabod risgiau posib a allai beri bygythiad i'r Safle Treftadaeth y Byd, ac adnabod mesurau lliniaru er mwyn ymdrin â hwy. Mae'r risgiau i Safleoedd Treftadaeth y Byd yn cynnwys risgiau ffisegol megis difrod, fandaliaeth ac effeithiau newid hinsawdd, ond hefyd risgiau sefydliadol megis rheolaeth wael, colli aelodau staff allweddol a newidiadau i gynlluniau cyllido. Er mwyn lliniaru yn erbyn risgiau, mae strategaeth rheoli risg a chofrestr risg atodol wrthi'n cael eu datblygu.

Law yn llaw â risgiau, daw cyfleoedd hefyd; gall rhain ddod ar ffurf buddion cymdeithasol megis cynnydd mewn balchder, ymwybyddiaeth a dealltwriaeth; buddion economaidd megis cyfleoedd cyflogaeth, prosiectau adfywio, profiadau ymwelwyr; a buddion o brosiectau sgiliau a chadwraeth megis dod ag adeiladau hanesyddol yn ôl i ddefnydd priodol, prosiectau cadwraeth cymunedol a chofnodi archeolegol.

Mae prosiectau presennol megis *Treftadaeth Ddisylw?* a LleCHI – sy'n derbyn arian Treftadaeth y Loteri Genedlaethol – wedi creu cyfleoedd hanfodol i ymgysylltu â chymunedau lleol, a phobl ifanc yn enwedig, yn y gwaith o reoli'r Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig. Mae'r prosiectau hyn yn rhoi perchnogaeth i'r cymunedau sy'n ymwneud â'r enwebiad ac yn hybu gwell dealltwriaeth o'r dreftadaeth sy'n rhan o *Dirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru*.

Y Grŵp *Treftadaeth Ddisylw?* – a ariennir gan Gronfa Treftadaeth y Loteri – yn Nantlle
© Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd.

4.2.2 Cynllun Gweithredu Rheolaethol

Amcan 2: Caiff *Cynllun Rheoli Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru* ei fabwysiadu a'i wreiddio mewn strategaethau rhanbarthol.

Egwyddor 2.1: Bydd Grŵp Llywio'r Bartneriaeth yn sicrhau bod yr holl ddogfennau strategol a rhaglenni perthnasol o fewn y sefydliadau partner unigol yn parchu'r Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig, ei Weledigaeth a'i Nodau.			
Cam Gweithredu 1	Bydd Grŵp Llywio'r Bartneriaeth yn sicrhau bod yr holl ddogfennau strategol a rhaglenni perthnasol o fewn y sefydliadau partner unigol yn parchu'r Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig, ei Weledigaeth a'i Nodau.	Tymor byr	Grŵp Llywio'r Bartneriaeth
Egwyddor 2.2: Bydd Grŵp Llywio'r Bartneriaeth yn datblygu ac yn cynnal Cynllun Rheoli Risg i gefnogi'r gwaith o reoli'r Safle Treftadaeth y Byd arysgrifedig.			
Cam Gweithredu 1	Datblygu'r Cynllun Rheoli Risg a'r Gofrestr Risg.	Parhaus	Tîm Cydlynu Prosiect
Cam Gweithredu 2	Adolygir y Cynllun Rheoli Risg a'r Gofrestr Risg yn gyson gan Grŵp Llywio'r Bartneriaeth a chymerir camau gweithredu i liniaru lle bo angen.	Parhaus	Grŵp Llywio'r Bartneriaeth

5 Thema 2: Gofalu am *Dirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru*

5.1 Cyflwyniad

Rhoddodd tirwedd llechi hanesyddol Gogledd Orllewin Cymru doeau ar adeiladau'r byd. Mae'n etifeddiaeth ffisegol y mae'n rhaid i ni ei gwarchod er mwyn ei throsglwyddo i genedlaethau'r dyfodol. Mae hefyd yn dirwedd byw sy'n cyfrannu at ein lles economaidd hyd y dydd hwn. Dengys y Cynllun Rheoli hwn sut y gellir cydbwyso cadwraeth a defnydd economaidd i fodloni gofynion y ddau.

Mae arferion gwarchod amgylcheddol hanesyddol modern yn ymwneud â'r angen i daro cydbwysedd rhwng cadwraeth, mynediad a defnydd. Trwy fwynhau, defnyddio ac addasu ein defnydd o asedau hanesyddol – ein hadeiladau, ein henebion a'n tirweddau – y gallwn eu rheoli, eu cynnal a'u cadw er budd cymunedau heddiw a chenedlaethau'r dyfodol. Dyma yw sail rheoli treftadaeth cynaliadwy. Mae enwebiad *Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru* fel Safle Treftadaeth y Byd yn dathlu ein hanes, ac fe fydd yn hwyluso buddion cymunedol. Nid yw'n fwriad y bydd yr enwebiad yn rhwystro newid, ond y bydd yn hytrach yn cefnogi a rheoli newid cadarnhaol a, lle y bo'n briodol, addasu ac ailddefnyddio ystyrlon.

Caiff camau gweithredu rheolaethol eu harwain trwy fabwysiadu'r dull a gyflwynir yn *Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer rheolaeth gynaliadwy'r Amgylchedd Hanesyddol yng Nghymru* (Cadw, 2011), ac yn benodol, egwyddor greiddiol y ddogfen y dylai pob penderfyniad fod yn rhesymol, yn dryloyw a chyson.

5.2 Gwarchod y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig

Amcan 3: Gwarchod a chadw Gwerth Rhyngwladol Eithriadol arfaethedig *Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru* er budd pobl heddiw ac yn y dyfodol.

Egwyddor 3.1: Hyrwyddo ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r rhesymau pam bod angen gwarchod *Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru* a'i rheoli'n weithredol er mwyn cynnal ei Gwerth Rhyngwladol Eithriadol arfaethedig.

Egwyddor 3.2: Gwarchod Gwerth Rhyngwladol Eithriadol arfaethedig, cyfanrwydd a dilysrwydd *Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru* drwy roi dynodiad statudol ar waith ar gyfer asedau hanesyddol sy'n bodloni'r meini prawf cenedlaethol.

Egwyddor 3.3: Gwarchod y Gwerth Rhyngwladol Eithriadol arfaethedig, cyfanrwydd a dilysrwydd *Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru* drwy ddefnyddio'r system cynllunio gofodol yn effeithiol.

Prosiect diweddar oedd gwaith cadwraeth yn Ysbyty Chwarel Dinorwig (Cydran 2) fel amgueddfa © Hawlfraint y Goron: CBHC / © Cyngor Gwynedd.

Swyddog Cadw yn cynnal ymweliad monitro ac asesu yn chwarel Gorseddau yng Nghydran 4 © Hawlfraint y Goron: Cadw.

Cyflwynir agwedd Llywodraeth Cymru at warchod Safleoedd Treftadaeth y Byd a'u rheoli'n gynaliadwy yn *Rheoli Newidiadau i Safleoedd Treftadaeth y Byd yng Nghymru* (Cadw, 2017). Yma nodir yr egwyddorion cyffredinol i ddeall a rheoli Safleoedd Treftadaeth y Byd yng Nghymru, a'r modd y'u gwarchodir drwy'r system gynllunio. Mae'r ymdriniaeth hon yn seiliedig ar dair egwyddor:

- dynodiad statudol asedau hanesyddol penodol o fewn Safleoedd Treftadaeth y Byd a'r gweithdrefnau cysylltiedig i reoli a chadw trefn ar waith.
- creu a gweithredu cynlluniau rheoli Safle Treftadaeth y Byd ar y cyd er mwyn sicrhau fod yr holl ran-ddeiliaid allweddol yn cymryd rhan effeithiol a gweithredol.
- defnyddio'r system gynllunio i lywio datblygiadau cydnaws a phriodol.

Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am ddynodiad statudol asedau hanesyddol. Cyfrifoldeb awdurdodau cynllunio lleol yw'r strategaeth gynllunio a gwneud penderfyniadau, yn unol â *Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990*. Penderfynir ar Gynllunio Seilwaith Cenedlaethol trwy'r broses Gorchymyn Caniatâd Datblygu yn unol â *Deddf Cynllunio 2008*. Yr Arolygaeth Gynllunio yw Asiantaeth Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am weithredu'r broses ar gyfer Prosiectau Isadeiledd o Bwysigrwydd Cenedlaethol.

5.2.1 Deddfwriaeth

Bydd y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig a'i leoliad yn cael lefelau priodol o warchodaeth trwy ddeddfwriaeth bresennol: *Deddf Henebion a Mannau Archeolegol 1979*, *Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990*, *Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990* a *Deddf Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016* a thrwy weithredu polisïau o fewn *Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd ac Ynys Môn 2011–2026* a *Chynllun Datblygu Lleol Eryri 2016–2031* Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

Cofrestru

Deddf Henebion a Mannau Archeolegol 1979 sy'n rhoi'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer gwarchod henebion hanesyddol o bwys cenedlaethol yn statudol drwy Gofrestru. Cofrestru yw'r dull gwarchod a weithredir yn achos strwythurau hanesyddol creiriol a safleoedd archeolegol nad ydynt neu nad oes modd iddynt gael eu defnyddio'n weithredol. Cofrestru yw'r dull gwarchod mwyaf priodol i'w weithredu yn achos strwythurau ar ffurf gweithfeydd cloddio, adeiladau adfeiliol neu led-adfeiliol ac olion

archeolegol. Mae nifer o asedau hanesyddol o fewn y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig eisoes wedi eu cofrestru ac mae rhaglen ar gyfer cofrestru'r asedau hanesyddol eraill sy'n bodloni meini prawf pwysigrwydd cenedlaethol ar waith. Mae'r rhain wedi eu rhestru yn Nhabl 5.1.

Gellir cael mynediad at wybodaeth, gan gynnwys lleoliadau a disgrifiadau o'r holl henebion cofrestredig, ar-lein gan Cadw trwy ddefnyddio *Cof Cymru* **https://cadw.llyw.cymru/cyngor-a-chymorth/cof-cymru/chwilio-cofnodion-cadw**.

Tabl 5.1 Henebion Cofrestredig o fewn y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig a'r rhai hynny sy'n bodloni'r meini prawf cofrestru.

1 Chwarel y Penrhyn a Bethesda, a Dyffryn Ogwen at Aber Cegin			
	Cydrannau ac Elfennau	*Henebion Cofrestredig Dynodedig*	*Arfaethedig*
1.1	Chwarel y Penrhyn		Ponciau'r Chwarel Tomennydd Llechi Dwyreiniol Twlldyndwr ac Inclên Agor Boni Ysbyty'r Chwarel Siafft Dŵr Princess May Siafft Dŵr Sebastopol
1.2	Melinau Slabiau Felin Fawr	CN297 Gwaliau Llechi	
1.3	Ffordd Haearn Chwarel y Penrhyn	CN380 Traphont Cegin	Rhannau Creiriol o'r Ffordd Haearn
1.3	Rheilffordd Chwarel y Penrhyn		Rhannau Rheilffordd Creiriol

2 Tirwedd Fynyddig Chwarel Dinorwig			
	Cydrannau ac Elfennau	*Henebion Cofrestredig Dynodedig*	*Arfaethedig*
2.1	Chwarel Dinorwig	CN337 Chwarel Dinorwig	Tomennydd Llechi Dwyreiniol Dinorwig
2.2	Ponc 'Australia'		Tomennydd Llechi Gorllewinol Dinorwig
2.3	Y Dre' Newydd (Barics Môn)	CN177 Barics Chwarel Dinorwig / Inclên A	
2.4	Inclên V2 / Chwarel Lechi'r Vivian	CN198 Chwarel Lechi'r Vivian, Inclêns, gwaliau a strwythurau cysylltiedig	
2.5	Cyfadeiladau Peirianyddol Chwarel Dinorwig. Amgueddfa Lechi Cymru	CN163 Injan Weindio Hafod Owen, Sied Locomotif, Prif Olwyn Ddŵr a'i Lloches	

3 Tirwedd Chwareli Dyffryn Nantlle			
	Cydrannau ac Elfennau	*Henebion Cofrestredig Dynodedig*	*Arfaethedig*
3.2	System Rhaffordd Awyr 'Blondin' Chwarel Blaen y Cae	CN301 Chwarel Blaen y Cae	
3.3	Chwarel Dorothea	CN199 Chwarel Dorothea, Pyramidau, Inclêns, Melin a Llochesi Weindio	Diwygiad i gynnwys tomennydd a Rheilffordd Nantlle
3.4	Injan Drawst Gernywaidd Chwarel Dorothea	CN165 Injan Drawst Chwarel Dorothea	
3.5	Chwarel Pen y Bryn/ Cloddfa'r Lôn, Systemau Rhaffyrdd Awyr, Melin Lechi, Barics ac Aneddiadau	CN302 Chwarel Cloddfa'r Lôn	Chwarel a thomennydd Pen y Bryn
3.7	Chwarel Pen yr Orsedd		Strwythurau, inclên a thomennydd Chwarel Pen yr Orsedd
3.8	Rhaffordd 'Blondin' Pen yr Orsedd	CN208 Chwarel, 'Blondins' a strwythurau cysylltiedig Pen yr Orsedd	
3.9	Rheilffordd Nantlle		Rheilffordd Nantlle
3.12	Plas Tal y Sarn a ffermdy Tal y Sarn		Plas Tal y Sarn

4 Chwareli Gorseddau a Bwlch y Ddwy Elor (*Prince of Wales*), y Rheilffyrdd a'r Felin			
	Cydrannau ac Elfennau	*Henebion Cofrestredig Dynodedig*	*Arfaethedig*
4.1	Chwarel Gorseddau	CN303 Chwarel Gorseddau	
4.2	Chwarel Bwlch y Ddwy Elor (*Prince of Wales*)		Chwarel Bwlch y Ddwy Elor (*Prince of Wales*)
4.3	Melin Slabiau Ynysypandy	CN160 Melin Slabiau Ynysypandy	
4.4	Rheilffordd Gorseddau a Rheilffordd Cyffordd Gorseddau a Phorthmadog		Rheilffordd Gorseddau a Rheilffordd Cyffordd Gorseddau a Phorthmadog
4.5	Pentref Treforys	CN321 Aneddiad Chwarel Anghyfannedd Treforys	

5 Ffestiniog: ei Mwyngloddiau a'i Chwareli Llechi, 'dinas llechi' a'r Rheilffordd i Borthmadog			
	Cydrannau ac Elfennau	*Henebion Cofrestredig Dynodedig*	*Arfaethedig*
5.1	Chwareli Ffestiniog – Y Tirffurf ar yr Wyneb		Rheilffordd ac Inclêns Chwarel Rhiwbach Tomennydd Llechi Gorllewinol Llechwedd Tomen Lechi Chwarel Oakley Gorllewin Chwarel Oakley Gogledd Cwmorthin Cloddfa Lechi Wrysgan
5.4	Melin Chwarel Diffwys		Cyfadeiladau Gorllewinol Chwarel Diffwys
5.8	Ceiau llechi ar Afon Dwyryd	ME108 Cei Tyddyn Isa	
5.9	Rheilffordd Ffestiniog		Cilffyrdd Pant yr Afon a ffurf Rheilffordd Ffestiniog

6 Chwarel Bryneglwys, Pentref Abergynolwyn a Rheilffordd Tal-y-llyn			
	Cydrannau ac Elfennau	*Henebion Cofrestredig Dynodedig*	*Arfaethedig*
6.1	Chwarel Bryneglwys – Tirffurf ar yr Wyneb a Bastiwn Rhaffordd yr Inclên Tsiaen	ME186 Inclên Tsiaen Gyriant Dŵr yn Chwarel Bryneglwys ME205 Inclên Chwarel Alltwyllt	Diwygiad i gynnwys tomennydd a rheilffordd
6.2	Gweithfeydd Tanddaearol Chwarel Bryneglwys		Diwygiad i ME186 i gynnwys gweithfeydd tanddaearol
6.4	Rheilffordd Tal-y-llyn		Ffurf Rheilffordd Tal-y-llyn

Adeiladau Rhestredig

Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 sy'n rhoi'r fframwaith deddfwriaethol i warchod adeiladau o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig drwy eu rhestru. Rhestrwyd adeiladau arwyddocaol o fewn y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig yn ystod yr arolwg a gwblhawyd yn 2005, gan gynnwys dynodiadau cynhwysfawr ymhob un o'r chwe Chydran. Gwnaed ychwanegiadau ers hynny drwy restru yn y fan a'r lle. Roedd rhai adeiladau yn y chwareli eisoes wedi'u rhestru. Mae'r strwythurau sy'n dal i gael eu defnyddio mewn aneddiadau ac ar y systemau cludiant gweithredol hefyd wedi cael eu rhestru.

Gellir cael mynediad at wybodaeth, gan gynnwys lleoliadau a disgrifiadau o'r holl adeiladau rhestredig o fewn y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig, ar-lein gan Cadw trwy ddefnyddio Cof Cymru **https://cadw.llyw.cymru/cyngor-a-chymorth/cof-cymru/chwilio-cofnodion-cadw**.

Ardaloedd Cadwraeth

Caiff Ardaloedd Cadwraeth eu dynodi gan awdurdodau cynllunio lleol yn unol ag *Adran 69 Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990*. Mae gan Awdurdodau Lleol ddyletswydd i adnabod ardaloedd o ddiddordeb pensaernïol a hanesyddol arbennig 'y mae'n ddymunol diogelu neu wella eu cymeriad neu olwg'. Mae ansawdd y lle felly yn un o'r prif ystyriaethau wrth eu hadnabod.

Mae ardaloedd cadwraeth wedi eu hadnabod mewn naw lleoliad gwahanol yn *Nhirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru*: o fewn Cydran 1 (pedair ym Methesda, ac eraill yn Llandygái, Tanysgafell, Eglwys y Santes Ann a Mynydd Llandygái) a Chydran 5 (Harbwr Porthmadog). Mae ystyriaeth yn cael ei roi i ardaloedd cadwraeth ychwanegol ym Mlaenau Ffestiniog (Cydran 5) ac Abergynolwyn (Cydran 6).

Parciau a Gerddi Cofrestredig

O 2019 ymlaen, bydd *Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru)* yn rhoi swyddogaeth statudol i *Gofrestr Parciau a Gerddi Hanesyddol yng Nghymru*, sy'n rhestr gynhwysfawr o dirweddau addurniadol a chynlluniedig sydd o ddiddordeb hanesyddol arbennig.

Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol (2017):

> er nad yw'r ffaith eu bod wedi'u cynnwys ar y rhestr yn cyflwyno unrhyw gyfundrefnau cydsynio newydd, gall parciau a gerddi hanesyddol cofrestredig, a'u safleoedd, gael eu gwarchod drwy'r system gynllunio. Ar gyfer cynigion sy'n effeithio asedau hanesyddol dynodedig o fewn parc a gardd gofrestredig, bydd angen y cydsyniad perthnasol. Yr ymgeisydd sy'n gyfrifol am sicrhau bod y rhain wedi eu cadarnhau cyn i'r gwaith ddechrau.

Noda *Polisi Cynllunio Cymru, argraffiad 10:*

> Dylai awdurdodau cynllunio werthfawrogi, gwarchod a diogelu diddordeb arbennig parciau a gerddi sydd wedi'u cynnwys ar y gofrestr o barciau a gerddi hanesyddol yng Nghymru. Dylai'r gofrestr gael ei hystyried ym mhenderfyniadau awdurdodau cynllunio.

Mae'r gofyniad hwn yn rhan annatod o Gynllun Datblygu Lleol y ddau awdurdod cynllunio lleol:

- *Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn* Polisïau AMG 3: Gwarchod a gwella nodweddion ac ansoddau sydd yn unigryw i gymeriad y dirwedd leol; PS 20: Cadw a lle bo'n briodol gwella asedau treftadaeth; ac AT 1: Ardaloedd Cadwraeth, Safleoedd Treftadaeth y Byd a Thirweddau, Parciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig.
- *Cynllun Datblygu Lleol Eryri* Polisi Ff: Yr Amgylchedd Hanesyddol.

Er mwyn paratoi at gyflwyno'r gofrestr statudol, cynhaliodd Cadw adolygiad trylwyr o derfynau'r holl barciau a gerddi hanesyddol cofrestredig gan gynnwys y ddau barc a

gerddi o fewn y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig yng Nghastell y Penrhyn (Gradd II*) a Phlas Tan y Bwlch (Gradd II*).

Gellir cael mynediad at wybodaeth am bob un o'r asedau hyn, gan gynnwys lleoliadau a disgrifiadau, ar-lein gan Cadw trwy ddefnyddio Cof Cymru **https://cadw.llyw.cymru/cyngor-a-chymorth/cof-cymru/chwilio-cofnodion-cadw**.

Tirweddau Hanesyddol Cofrestredig

Mae'r *Gofrestr o Dirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol yng Nghymru*, a luniwyd gan Cadw, gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru gynt (sydd bellach yn rhan o Gyfoeth Naturiol Cymru) ac ICOMOS-UK, yn nodi'r tirweddau hanesyddol pwysicaf a'r rhai sydd wedi goroesi orau yng Nghymru. Mae'r Gofrestr yn offeryn anstatudol; er hynny, mae'n ystyriaeth berthnasol yn y broses gynllunio. Mae'r Gofrestr yn rhoi gwybodaeth i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau a rheolwyr tirweddau, er mwyn helpu i sicrhau bod cymeriad hanesyddol y dirwedd yn cael ei gynnal, a bod cynigion yn cynnwys gwybodaeth dda pan fo newidiadau dan ystyriaeth. Saif pump o Gydrannau'r Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig o fewn chwech o dirweddau hanesyddol cofrestredig yn unol â'r hyn a amlinellir yn Nhabl 5.2.

Gellir cael mynediad at wybodaeth am y tirweddau hyn, gan gynnwys disgrifiadau, ar-lein gan Cadw trwy ddefnyddio Cof Cymru **https://cadw.llyw.cymru/cyngor-a-chymorth/cof-cymru/chwilio-cofnodion-cadw**.

Tabl 5.2 Tirweddau Hanesyddol Cofrestredig o fewn y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig.

	Cydran	*Tirwedd Hanesyddol Cofrestredig*
1	Chwarel y Penrhyn a Bethesda, a Dyffryn Ogwen at Aber Cegin (Porth Penrhyn)	HLW (Gw) 10 – Dyffryn Ogwen
2	Tirwedd Fynyddig Chwarel Dinorwig	HLW (Gw) 6 – Dinorwig
3	Tirwedd Chwareli Dyffryn Nantlle	HLW (Gw) 9 – Dyffryn Nantlle
5	Ffestiniog: ei Mwyngloddiau a'i Chwareli Llechi, 'dinas llechi' a'r Rheilffordd i Borthmadog	HLW (Gw) 3 – Blaenau Ffestiniog HLW (Gw) 7 – Aberglaslyn
6	Chwarel Bryneglwys, Pentref Abergynolwyn a Rheilffordd Tal-y-llyn	HLW (Gw) 17 – Dyffryn Dysynni

Datblygwyd canllawiau arfer gorau i gynorthwyo awdurdodau cynllunio lleol a'r Arolygiaeth Gynllunio wrth iddynt ystyried ceisiadau cynllunio sy'n effeithio ar ardaloedd sydd ar y *Gofrestr Tirweddau Hanesyddol*. Mae'n debygol y bydd gofyn i ddatblygiadau arfaethedig o fewn tirwedd hanesyddol cofrestredig sydd angen Asesiad Effaith Amgylcheddol hefyd gael asesiad o'u heffaith ar yr amgylchedd hanesyddol fel rhan o'r Datganiad Amgylcheddol. Defnyddir y fformiwla ASIDOHL i gyflawni hyn (Asesiad o Arwyddocâd Datblygiad ar Dirwedd Hanesyddol / Assessment of the Significance of Development on Historic Landscape), sy'n gwerthuso'r effaith debygol ar y dirwedd ehangach mewn dull gwrthrychol. Mae *Canllaw Arfer Da* (Cadw, 2007) yn egluro sut y dylid defnyddio'r *Gofrestr o Dirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol yng Nghymru* yn y broses gynllunio a sut mae'r system ASIDOHL yn gweithredu.

Mae'r *Tirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Cofrestredig*, ynghyd â'r ardaloedd sy'n gyfagos iddynt, wedi bod yn destun Asesiadau Cymeriad y Dirwedd manwl sy'n

diffinio ardaloedd daearyddol penodol gyda chymeriad hanesyddol eithaf cyson ac yn gosod argymhellion i hysbysu'r gwaith cadwraeth a rheoli.

Gellir cael mynediad at wybodaeth am y tirweddau hyn, gan gynnwys disgrifiadau, ar-lein gan Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd **hiip://www.heneb.co.uk/hlc/whlc.html**

Dynodiadau Amgylcheddol

Mae holl Gydrannau *Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru* yn cynnwys ardaloedd â dynodiadau amgylcheddol sy'n adlewyrchu pwysigrwydd y ffawna a'r fflora naturiol sydd ynddynt. Mae'r dynodiadau yn cynnwys Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA), Ardaloedd Gwarchod Arbennig (AGA), Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol (GNG), Safleoedd Bywyd Gwyllt Lleol, Gwarchodfeydd Natur Lleol, Safleoedd Bywyd Gwyllt Lleol a Choetiroedd Hynafol.

Mae gan weithfeydd llechi werth bioamrywiaeth fel cynefinoedd sy'n arddangos adfywiad naturiol. Mae tystiolaeth o goed bedw, llystyfiant grug a rhedyn persli yn chwareli Dorothea a Dinorwig. Yn ogystal â'u pwysigrwydd amgylcheddol, mae cyfosodiad y twf gwyrdd yn erbyn y llechi glas yn rhoi estheteg arbennig i'r rhan hon o'r byd.

Mae gweithfeydd llechi a nodweddion tanddaearol yn safleoedd gaeafgysgu pwysig ar gyfer rhai rhywogaethau o ystlumod; yn benodol, yr Ystlum Bedol Leiaf, *Rhinolophus hipposideros*; y mae gogledd Cymru yn gadarnle iddi. Mae Ystlumod Pedol Leiaf yn Rhywogaeth Warchodedig Ewropeaidd (EPS) o dan *Gyfarwyddeb Cynefinoedd yr UE a Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau* 2010. Oherwydd y nodweddion tanddaearol niferus o fewn y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig, mae potensial ar gyfer clwydi i ystlumod o fewn nifer o'r Cydrannau, yn enwedig Cydran 5, sy'n gyfagos i Goedydd Derw ac ACA Ystlumod Meirionnydd, safle a ddynodwyd ar gyfer Ystlumod Pedol Leiaf. Yn ychwanegol at hyn, lleolir Cydran 3 o fewn 2km i safle ACA Glynllifon, safle mamolaeth a gaeafgysgu poblogaeth sylweddol o Ystlumod Pedol Leiaf; sy'n cyfrif am oddeutu 6% o boblogaeth y DU.

Cysylltir rhai adar eiconaidd â chwareli a'r ardaloedd o'u cwmpas, gan gynnwys y frân goesgoch, *Pyrrhocorax*, rhywogaeth Atodlen 1 sydd wedi ei gwarchod dan *Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad* 1981, ac sy'n dirywio'n ddifrifol o ran niferoedd. Mae'r adar hyn yn aml yn nythu mewn chwareli, mewn siafftiau mwyngloddio, ac hyd yn oed mewn hen adeiladau chwarel. Mae rhywogaethau eraill a gysylltir â thirweddau chwarelyddol ac sydd weithiau'n magu mewn chwareli yn cynnwys yr hebog tramor *Falco peregrinus*, y gigfran *Corvus corax* a mwyalchen y mynydd *Turdus torquatus*.

Mae gwarchodaeth yr amgylchedd naturiol yn gyfrifoldeb statudol ar sefydliadau sector cyhoeddus gan gynnwys Cyngor Gwynedd, Parc Cenedlaethol Eryri, Cyfoeth Naturiol Cymru a Dŵr Cymru.

5.2.2 Y System Cynllunio Gofodol

Mae *Deddf Cynllunio (Cymru) 2015* yn gosod strwythurau, prosesau a gweithdrefnau cyflawni yn eu lle fel bod modd i'r system gynllunio gefnogi cyflwyniad dyheadau cenedlaethol, lleol a chymunedol drwy greu mannau cynaliadwy lle mae gan ddinasyddion well mynediad at gartrefi, swyddi ac amgylcheddau adeiledig a naturiol o ansawdd, a chefnogi'r defnydd a wneir o'r iaith Gymraeg.

Mae *Polisi Cynllunio Cymru 10 (2018)* yn rhoi arweiniad ar Safleoedd Treftadaeth y Byd sydd wedi'u harysgrifo (paragraffau 6.1.6 a 6.1.22), gan nodi bod yn rhaid cadw Gwerth

Rhyngwladol Eithriadol Safleoedd Treftadaeth y Byd. Mae *Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol* (Mai 2017) yn nodi bod yn rhaid cadw'r Gwerth Rhyngwladol Eithriadol drwy: roi dynodiad statudol i asedau hanesyddol penodol; drwy gyd-greu a chyd-weithredu cynlluniau rheoli Safle Treftadaeth y Byd; a thrwy ganllawiau am yr hyn sy'n cael ei ystyried yn ddatblygiad priodol drwy'r system cynllunio gwlad a thref.

Cyngor Gwynedd

Paratôdd Cyngor Gwynedd gynllun datblygu lleol ar y cyd, *Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn*, a fabwysiadwyd ym mis Gorffennaf 2017. Y polisïau perthnasol yw:

POLISI PS 20
Cadw a lle bo'n briodol gwella asedau treftadaeth

Wrth geisio cefnogi anghenion economaidd a chymdeithasol ehangach ardal y Cynllun, bydd yr Awdurdodau Cynllunio Lleol yn diogelu, a lle bo hynny'n briodol, yn gwella'i asedau diwylliannol a threftadaeth unigryw.

Bydd cynlluniau fydd yn diogelu, a lle bo hynny'n briodol, yn gwella'r asedau treftadaeth a ganlyn yn ogystal â'u lleoliad a golygfeydd pwysig i mewn ac allan o'r adeilad/ardal, yn cael eu cymeradwyo:

1. Henebion Hynafol Rhestredig ac ardaloedd eraill o bwysigrwydd archeolegol (yn unol â Pholisi AT 4).
2. Adeiladau rhestredig a'u cwrtilau.
3. Ardaloedd Cadwraeth (yn unol â Pholisi AT 1).
4. Safleoedd Treftadaeth y Byd Castell Biwmares a Chastell a Muriau Tref Caernarfon (yn unol â Pholisi AT 1).
5. Safleoedd Treftadaeth y Byd sy'n ymgeisio.
6. Tirweddau, Parciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig (yn unol â Pholisi AT 1).
7. Adeiladau o werth pensaernïol/hanesyddol/diwylliannol nad ydynt wedi eu dynodi neu eu gwarchod (yn unol â Pholisi AT 3).

POLISI AT 1
Ardaloedd Cadwraeth, Safleoedd Treftadaeth y Byd a Thirweddau, Parciau a Gerddi Cofrestredig

Mae'n rhaid i gynlluniau sydd tu mewn neu sy'n effeithio ar leoliad a/neu olygfeydd pwysig i mewn ac allan o Ardaloedd Cadwraeth, Safleoedd Treftadaeth y Byd a Thirweddau, Parciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig a nodir ar y Map Cynigion, lle y bo'n briodol, ystyried:

1. Gwerthusiadau Cymeriad Ardaloedd Cadwraeth Mabwysiedig; Cynlluniau a Strategaethau Cyflawni Ardaloedd Cadwraeth.
2. Cynlluniau Rheoli Safleoedd Treftadaeth y Byd.
3. Cofrestr Tirweddau, Parciau a Gerddi o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig yng Nghymru.

Lle bo hynny'n briodol, dylai cynlluniau gael eu cefnogi gan Asesiad o Effaith ar Dreftadaeth.

Parc Cenedlaethol Eryri

Mae *Deddf yr Amgylchedd 1995* yn nodi cyfrifoldebau Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri:

- Cadw a chyfoethogi harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol y Parc Cenedlaethol
- Hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau 'Rhinweddau Arbennig' y Parc Cenedlaethol

Yn ogystal â'r dibenion hyn, mae dyletswydd ar Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri i 'geisio meithrin lles cymdeithasol ac economaidd y cymunedau lleol o fewn y Parc Cenedlaethol'.

Mabwysiadwyd *Cynllun Datblygu Lleol Eryri (2016–2031)* Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn ffurfiol ym mis Chwefror 2019. Yn y Cynllun nodir dibenion a dyletswyddau Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri o ran polisïau defnydd tir, cynllunio a datblygu. Y polisïau Perthnasol yw:

POLISI FF
Yr Amgylchedd Hanesyddol

Cedwir a chyfoethogir harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol Parc Cenedlaethol Eryri, oherwydd eu cyfraniad at gymeriad a 'Rhinweddau Arbennig' y Parc Cenedlaethol. Bydd gwarchodaeth benodol yn cael ei rhoi i'r asedau archeolegol, pensaernïol, hanesyddol neu ddiwylliannol a ganlyn, a lle bo'n briodol, eu lleoliadau.

Ni chaniateir datblygiad fydd yn cael effaith andwyol o unrhyw fath ar yr Asedau Treftadaeth a ganlyn, a lle bo'n briodol, eu lleoliadau a'u golygfeydd pwysig:

i Ardaloedd Cadwraeth
ii Safleoedd Treftadaeth y Byd
iii Safleoedd Treftadaeth y Byd sy'n ymgeisio
iv Henebion Cofrestredig a safleoedd eraill o bwys archeolegol
v Tirweddau, parciau a gerddi hanesyddol
vi Adeiladau Rhestredig
vii Adeiladau Traddodiadol

Saif tair o'r chwe Chydran (Cydrannau 4, 5 a 6) yn gyfan-gwbl neu yn rhannol o fewn y Parc Cenedlaethol; saif y tair Cydran arall yn agos at ei derfyn, ac maent wedi eu lleoli o fewn golygfa warchodedig o'r Parc.

5.2.3 Cynllun Gweithredu ar gyfer Gwarchod y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig

Amcan 3: Gwarchod Gwerth Rhyngwladol Eithriadol arfaethedig *Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru* er budd pobl heddiw ac yn y dyfodol.

Egwyddor 3.1: Hyrwyddo ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r rhesymau dros fod angen gwarchod *Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru* a'i rheoli'n weithredol er mwyn cynnal ei Gwerth Rhyngwladol Eithriadol arfaethedig.			
Cam Gweithredu 1	Bydd canllawiau *Gofalu am y Dirwedd Llechi* yn cael eu diweddaru a'u hail-gyhoeddi i adlewyrchu'r blaenoriaethau a nodwyd yng Nghynllun Rheoli *Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru*.	Tymor byr	Cadw
Cam Gweithredu 2	Paratoir Canllaw Cynllunio Atodol i ddarparu arweiniad ychwanegol i ddatblygwyr a phartïon sydd â diddordeb.	Tymor byr	Awdurdodau Cynllunio Lleol / Fforwm Tirfeddianwyr / Is-grŵp Cynllunio a Chadwraeth
Cam Gweithredu 3	Darperir hyfforddiant i benderfynwyr, gan gynnwys swyddogion cynllunio ac aelodau o'r pwyllgor cynllunio lleol.	Parhaus	Awdurdodau Cynllunio Lleol
Egwyddor 3.2: Gwarchod Gwerth Rhyngwladol Eithriadol arfaethedig, cyfanrwydd a dilysrwydd *Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru* trwy roi dynodiad statudol ar waith ar gyfer elfennau hanesyddol penodol sy'n diwallu'r meini prawf cenedlaethol.			
Cam Gweithredu 1	Cwblhau rhaglen ddynodi ar gyfer asedau hanesyddol o fewn ffiniau'r Safle Treftadaeth y Byd sy'n diwallu'r meini prawf ar gyfer eu cofrestru neu restru.	Tymor byr	Cadw
Cam Gweithredu 2	Cynnal yr adolygiad sydd ei angen er mwyn sefydlu Ardaloedd Cadwraeth ym Mlaenau Ffestiniog ac Abergynolwyn.	Tymor canolig	Awdurdodau Cynllunio Lleol / Cadw
Egwyddor 3.3: Gwarchod Gwerth Rhyngwladol Eithriadol arfaethedig, cyfanrwydd a dilysrwydd *Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru* trwy ddefnyddio'r system cynllunio gofodol yn effeithiol.			
Cam Gweithredu 1	Bydd cyngor cyn gwneud cais cynllunio yn annog datblygiadau o faint priodol, ac yn annog dylunio da sy'n ymwybodol o gymeriad a gwerthoedd y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig.	Parhaus	Awdurdodau Cynllunio Lleol / Cadw
Cam Gweithredu 2	Bydd penderfyniadau cynllunio yn ystyried yr angen i gynnal Gwerth Rhyngwladol Eithriadol arfaethedig y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig.	Parhaus	Awdurdodau Cynllunio Lleol

5.3 Cadwraeth a rheolaeth ymarferol

Amcan 4: Caiff y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig ei reoli er mwyn cynnal a gwella ei Werth Rhyngwladol Eithriadol arfaethedig, ei gyfanrwydd a'i ddilysrwydd.

Egwyddor 4.1: Cefnogir perchnogion safle i ddatblygu a gweithredu Cynlluniau Rheoli Lleol.

Egwyddor 4.2: Lle bo angen, cymerir camau gweithredu i wella cyflwr asedau hanesyddol allweddol o fewn y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig.

Egwyddor 4.3: Anogir addasiadau sy'n gydnaws ag asedau hanesyddol er mwyn eu hailddefnyddio.

Egwyddor 4.4: Anogir cadwraeth gynaliadwy i'r Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig a chyfranogiad y cyhoedd mewn rhaglenni cadwraeth.

Mae asedau hanesyddol sy'n berthnasol i dreftadaeth y diwydiant llechi yn cynnwys adeiladau, strwythurau, peiriannau, nodweddion tanddaearol, priodweddau'r dirwedd a llwybrau cludiant. Mae'r asedau hanesyddol sy'n ffurfio'r Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig mewn perchnogaeth amrywiol a lluosog, gan gynnwys ardaloedd sydd ym meddiant Cyngor Gwynedd ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, yn ogystal â thir sy'n eiddo i ffermwyr unigol; llawer ohonynt yn rai sydd wedi rheoli'r un tir ers cenedlaethau, gan ymestyn yn ôl i'r cyfnod pan oedd diwydiant llechi Cymru yn ei anterth.

Caiff nifer o'r asedau allweddol, megis Castell a Pharc y Penrhyn, adeiladau Amgueddfa Lechi Cymru yn Llanberis, a rheilffyrdd Ffestiniog a Thal-y-llyn, eu rhedeg gan sefydliadau elusennol sydd â hanes hir ac arbenigedd ym maes rheoli eiddo treftadaeth. Mae llawer o dirffurf chwarel Ffestiniog a'r strwythurau o'i fewn wedi cael budd o reolaeth hirdymor gan gwmni sy'n cyfuno treftadaeth a buddion twristiaeth gyda pharhad gwaith llechi llwyddiannus. Mewn mannau eraill, mae'r Safle Treftadaeth y Byd yn cynnwys tirweddau sydd wedi eu haddasu i'w hailddefnyddio i gynhyrchu ynni ochr yn ochr â rheoli tir fel porfeydd ucheldirol.

Mae cyfleusterau cynhyrchu ynni First Hydro (Engie) yn Chwarel Dinorwig, Cydran 2, a gomisiynwyd yn 1982, yn dangos y potensial i addasu tirffurfiau chwarel creiriol i gyflenwi trydan o ffynonellau dŵr adnewyddadwy heb gael effaith andwyol ar gadwraeth strwythurau hanesyddol neu beri athreuliad i'r cymeriad hanesyddol. Ar adeg ei gomisiynu, ystyriwyd mai Gorsaf Bŵer Dinorwig oedd un o brosiectau peirianyddol ac amgylcheddol mwyaf dyfeisgar y byd, ac mae ei nodweddion gweithredu a'i allu i ymateb yn ddeinamig yn parhau i dderbyn cydnabyddiaeth ledled y byd. Dinorwig yw'r cynllun mwyaf o'i fath yn Ewrop, ac mae'r ganolfan ymwelwyr a'r teithiau tywys o amgylch yr orsaf bŵer, ynghyd â chyflogaeth uniongyrchol, yn cyfrannu at economi twristiaeth yr ardal. Wrth ei fod yn rhan bwysig o isadeiledd ynni'r DU, rheolir mynediad cyhoeddus i Ddinorwig yn llym at ddibenion diogelwch y cyhoedd; fodd bynnag, mae'r cyfyngiadau hyn wedi creu lefelau eithriadol o gadwraeth.

Mae cadwraeth a rheoli o fewn y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig yn gofyn am weithio mewn partneriaeth. Mae maint y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig a phwysigrwydd tirffurfiau a nodweddion unigol fel ei gilydd yn golygu bod rheoli newid i'r dirwedd yr un

Mae'r defnydd hanesyddol o ynni dŵr yn y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig yn parhau yng nghynllun pwmpio a storio Chwarel Dinorwig (Cydran 2), un o'r mwyaf yn y byd pan y'i comisiynwyd yn 1982 © Hawlfraint y Goron: CBHC.

mor bwysig â chadwraeth asedau hanesyddol unigol. Yn y cyd-destun hwn, dim ond trwy ddull holistaidd, gyda llywodraeth leol a chenedlaethol yn cydweithio â chymunedau, tirfeddianwyr a phartneriaid eraill i gyflawni deilliannau yn erbyn yr amcanion ar y cyd a nodir yn y Cynllun Rheoli hwn, y gellir sicrhau y bydd cadwraeth yn cael ei reoli'n effeithiol.

Mae gweithgareddau cadwraeth wedi digwydd o fewn y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig ers y 1950au o leiaf, a hynny gan unigolion, mudiadau gwirfoddol a sefydliadau a chorfforaethau. Fel rhan o'r broses o ddatblygu'r enwebiad, mae Grŵp Llywio'r Bartneriaeth wedi sefydlu cysylltiadau â rhan-ddeiliaid, gan gynnwys perchnogion chwareli, Amgueddfa Genedlaethol Cymru, cwmnïau gweithredu'r rheilffyrdd, unigolion a darparwyr addysg, er mwyn rhannu arferion da a chynnig cyngor a chefnogaeth. Mae ymdrechion ar waith i ddatblygu hyfforddiant sgiliau traddodiadol gyda phartneriaid, i greu gweithlu gwybodus sydd â'r capasiti i ymateb i anghenion y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig, ac i godi ymwybyddiaeth ymysg cymunedau o bwysigrwydd cynnal a chadw a chadwraeth briodol ac ymwybodol ar gyfer adeiladau traddodiadol.

Hyfforddeion Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol yn dysgu sgiliau newydd ar Reilffordd Ffestiniog © Rheilffyrdd Ffestiniog ac Eryri.

Rheoli Henebion Cofrestredig

Perchnogion preifat sy'n gofalu am lawer o'r henebion cofrestredig o fewn y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig. Mae rhai ohonynt yn agored i'r cyhoedd, ac eraill sydd ddim. Mae'r holl henebion cofrestredig wedi eu gwarchod yn gyfreithiol o dan *Ddeddf Henebion a Mannau Archeolegol (1979)*, ac mae'n rhaid cael Caniatâd Henebion Rhestredig wrth ymgymryd â gwaith.

Mae henebion cofrestredig yn destun rhaglen reolaidd o archwiliadau gan Cadw i asesu eu cyflwr ac adnabod unrhyw beryglon allai effeithio arnynt. Mae Cadw hefyd yn darparu cyngor a chefnogaeth i gynorthwyo perchnogion wrth reoli eu hasedau i atal dirywiad. Gall hyn gynnwys cefnogaeth ariannol ar ffurf Grantiau Henebion. Yn aml, mae arfer dda o ran cadwraeth yn gofyn yn syml i berchnogion osgoi gweithgareddau allai beri niwed i'r heneb. Mewn achosion eraill, gall fod angen ymyrraeth i atal dirywiad. Mae canllaw Cadw, *Rheoli Henebion Cofrestredig yng Nghymru* (2018), yn rhoi trosolwg o Gofrestru a chaiff ei gefnogi gan gyfres o lyfrynnau a chanllawiau i egluro sut y gellir gofalu am wahanol fathau o henebion hanesyddol. Mae'r llyfrynnau hyn ar gael am ddim o wefan Cadw **hiips://cadw.llyw. cymru**.

Rheoli Adeiladau Rhestredig

Cyrff cyhoeddus ac elusennau sy'n gofalu am nifer o'r adeiladau rhestredig allweddol o fewn y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig, gan gynnwys y prif adeiladau yng Nghastell y Penrhyn, ysbyty chwarel Dinorwig, Amgueddfa Lechi Cymru a Phlas Tan y Bwlch. Caiff eraill eu rheoli gan sefydliadau preifat sy'n gweithio ym maes treftadaeth, gan gynnwys yr adeiladau sy'n gysylltiedig â rheilffyrdd Ffestiniog a Thal-y-llyn. Mae cynnal a chadw yr adeiladau hyn, a'u cadw mewn cyflwr da o ran eu cadwraeth, yn rhan greiddiol o swyddogaeth y sefydliadau hyn, tra bod dod o hyd i swyddogaethau newydd i adeiladau segur yn bwysig i weledigaeth a photensial masnachol y sefydliadau. Fodd bynnag, mae mwyafrif yr adeiladau rhestredig o fewn y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig mewn perchnogaeth breifat ac o fewn aneddiadau sy'n bodoli'n barod. Mae perchnogion preifat yn cynnal a chadw strwythurau rhestredig yn dda pan fyddant mewn defnydd domestig neu fasnachol, ond gall adeiladau segur gael eu hesgeuluso'n aml.

Mae cyflwr yr Adeiladau Rhestredig yn cael ei fonitro bob pum mlynedd drwy raglen Arolwg Cyflwr Cymru Gyfan Cadw. Cynhaliwyd yr arolygon diweddaraf yn 2013 (Parc Cenedlaethol Eryri) a 2014 (Gwynedd). Dechreuwyd ar gyfres newydd o arolygon yn 2019. Mae gan y ddau awdurdod Swyddogion Cadwraeth ac maent yn cynnal cofrestr o adeiladau rhestredig sydd dan fygythiad o fewn y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig. Cedwir y data a gesglir yn ystod yr arolwg ar y *Gofrestr Adeiladau mewn Perygl*, a chaiff ei ddefnyddio i adnabod a monitro adeiladau rhestredig o fewn yr ardal gynllunio sy'n cael eu hasesu fel rhai sydd dan fygythiad.

Mae arweiniad cyhoeddedig ar arferion cadwraeth da ar gael ar ffurf canllawiau Cadw, 'Gofalu am ...', sydd yn targedu perchnogion a deiliaid tai sy'n chwilio am gyngor ar sut i ofalu am eu strwythurau rhestredig. Mae'r canllawiau perthnasol sydd wedi eu cyhoeddi hyd yma yn cynnwys: *Capeli yng Nghymru – Cadwraeth a Thrawsnewid*, *Tai Gweithwyr Diwydiannol yng Nghymru – Gofal a Chadwraeth* a *Rheoli Newid i Adeiladau Rhestredig yng Nghymru*.

Yn hen derfynfa uchaf Rheilffordd Ffestiniog, yn Niffwys, Blaenau Ffestiniog (Cydran 5), gwelir dull dyfeisgar ac anarferol o drawsnewid adeilad rhestredig. Bu'n gyfleusterau cyhoeddus ers y 1930au, ond mae wedi ei addasu yn ddiweddar i gynnwys gofod dehongli fel rhan o brosiect parth cyhoeddus ehangach, wedi'i ysbrydoli gan y diwydiant llechi. Mae ffurf yr adeilad wedi cael ei gadw, gyda'i do llechi addurniadol, y placiau llechi gyda phlu Bwlch y Ddwy Elor (*Prince of Wales*) arnynt ar ddau dalcen blaen yr adeilad, a'r ffenest archebu © Hawlfraint y Goron: CBHC.

Cynlluniau Rheoli Lleol

Mae Cynllun Rheoli *Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru* yn sefydlu'r strategaethau a'r mecanweithiau cyffredinol a ddefnyddir i reoli'r Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig i gynnal ei Werth Rhyngwladol Eithriadol. Ar lefel leol, caiff y rhain eu gweithredu trwy Gynlluniau Rheoli Lleol a ddatblygwyd ar y cyd â thirfeddianwyr unigol ac sy'n cynnwys argymhellion ymarferol wedi'u llunio i roi i berchnogion a rheolwyr tir y wybodaeth sydd ei angen arnynt i'w helpu i reoli eu hasedau hanesyddol.

Mae'r Cynlluniau Rheoli Lleol yn seiliedig ar ardaloedd sy'n adlewyrchu gwahanol gyfrifoldebau perchnogaeth a/neu reolaeth. Maent yn cynnwys gwybodaeth ar wahanol asedau hanesyddol o fewn ardal y cynllun ac yn egluro sut mae'r asedau hynny yn cyfrannu at Werth Rhyngwladol Eithriadol y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig. Mae pob cynllun yn cynnwys asesiad o gyflwr cyfredol asedau hanesyddol ac yn adnabod y camau gweithredu rheolaethol sydd eu hangen i sicrhau eu goroesiad hirdymor. Mae'r Cynlluniau hefyd yn ystyried cyfleoedd i wella ar sail amgylchiadau penodol yr asedau a'r ardaloedd gwahanol.

Mae gwaith yn digwydd ar hyn o bryd i baratoi'r cynlluniau hyn, gyda phob un ohonynt yn cael ei ddatblygu trwy broses drafod ar y cyd rhwng yr Awdurdodau Lleol, aelodau Grŵp Llywio'r Bartneriaeth a pherchnogion safle. O'u cymryd fel grŵp, mae'r Cynlluniau Rheoli Lleol wrth wraidd Cynllun Rheoli *Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru* ac yn nodi sut y gellid cyflawni camau gweithredu perthnasol ym mhob ardal. Bydd yr holl gynlluniau wedi eu cwblhau ac yn weithredol o fewn yr amserlen i gwblhau'r broses arysgrifo.

Mae tomennydd gwastraff llechi yn nodweddion tirffurf trawiadol, fel yn chwarel y Penrhyn yng Nghydran 1 © Hawlfraint y Goron: CBHC.

5.3.1 Y sefyllfa bresennol o ran cadwraeth

Mae gwahanol fathau o asedau hanesyddol yn cael eu heffeithio gan wahanol bethau a bygythiadau ac mae gofyn cael camau rheoli penodol iddynt. Mae'r rhain yn cael eu hystyried isod:

Chwareli, tomennydd a gweithfeydd (tirffurfiau ar y wyneb)

Mae holl Gydrannau'r Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig yn cynnwys olion chwareli gyda'u tomennydd gwastraff cysylltiedig a'u hisadeiledd mewnol. Mae'r holl chwareli yn

greiriol. Ymhob achos, mae'r nodweddion tirffurf nodedig hyn ar y cyfan yn gadarn ac mewn cyflwr da neu weddol, a'u gwerth a'u priodweddau i'w gweld yn amlwg. Yn gyffredinol, mae chwareli mewn tyllau (cloddfeydd) bellach yn llawn dŵr. Ar adegau prin, mewn ardaloedd cyfyngedig, gall creigiau syrthio o wynebau hen weithfeydd. Mae'r tomennydd yn sefydlog, er, mewn rhai achosion, gall twf llystyfiant amharu ar eu ffurf. Mae Tabl 5.3 yn rhestru'r chwareli, y tomennydd a'r gweithfeydd o fewn y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig:

Tabl 5.3 Chwareli, y tomennydd a'r gweithfeydd o fewn y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig.

Cydran	*Elfen*	*ENw*
1 Chwarel y Penrhyn a Bethesda, a Dyffryn Ogwen at Aber Cegin	1.1	Chwarel y Penrhyn
2 Tirwedd Fynyddig Chwarel Dinorwig	2.1 2.2	Chwarel Dinorwig Ponc 'Australia',
3 Tirwedd Chwareli Dyffryn Nantlle	3.1 3.3 3.7	Tomennydd Chwarel y Cilgwyn Chwarel Dorothea Chwarel Pen yr Orsedd
4 Chwareli Gorseddau a Bwlch y Ddwy Elor (*Prince of Wales*), y Rheilffyrdd a'r Felin	4.1 4.2	Chwarel Gorseddau Chwarel Bwlch y Ddwy Elor (*Prince of Wales*)
5 Ffestiniog: ei Mwyngloddiau a'i Chwareli Llechi, 'dinas llechi' a'r Rheilffordd i Borthmadog	5.1	Chwareli Ffestiniog – Y Tirffurf ar yr Wyneb
6 Chwarel Bryneglwys, Pentref Abergynolwyn a Rheilffordd Tal-y-llyn	6.1	Chwarel Bryneglwys – Tirffurf ar yr Wyneb a Bastiwn Rhaffordd yr Inclên Tsiaen

Er bod chwareli'n amgylcheddau cadarn, mae'n anochel y bydd nodweddion sy'n agored i'r elfennau yn dirywio rhywfaint. Mae wyneb y graig yn hindreulio, ac mae adeiladau sydd wedi'u hadeiladu o ddeunyddiau bras yn adfeilio. Mae tomennydd o wastraff llechi yn dod i ongl orffwys naturiol wrth gael eu creu, gan aros yn sefydlog ymhell wedi i waith y chwarel ddod i ben, oni bai bod rhywbeth yn ymyrryd â hwy. Nid oes unrhyw waith cloddio, prosesu na thipio gwastraff yn digwydd o fewn ffin y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig, felly'r prif newidiadau sy'n effeithio tirffurfiau chwareli yw colli cysondeb gweladwy wrth i lystyfiant naturiol gynyddu a chuddio ffurf a strwythur y tomennydd, yn ogystal â dirywiad naturiol parhaus.

Mae lledaeniad Rhododendron yn fater sy'n effeithio ar nifer o ardaloedd ucheldirol yng Ngwynedd. Gall rhododendron wrthsefyll amrywiaethau hinsoddol mawr ac mae ei allu i oddef ystod o swbstradau yn golygu y gall dyfu bron yn unrhyw le lle ceir digon o leithder. Ar y cyfan, nid yw rhywogaethau ymledol yn broblem benodol o fewn y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig, ond byddai camau gweithredu o fudd yn Ffestiniog, Cydran 5. Mae ymdrech gymunedol sylweddol wedi cychwyn yn y maes hwn, trwy'r mudiad cymdeithasol amgylcheddol *Y Dref Werdd*, i reoli twf rhododendron.

Yn ogystal, gallai tirffurfiau diwydiannol fod mewn perygl gyda dyfodiad gweithgareddau sy'n gysylltiedig â datblygiadau newydd, gan gynnwys twristiaeth ac ynni gwyrdd a'r golled neu athreuliad o nodweddion hanesyddol a ddaw yn eu sgil, er y gellir osgoi hyn drwy leoliad a graddfa addas, a dylunio sensitif.

Gwirfoddolwyr *Y Dref Werdd* yn rheoli rhododendron ym Mlaenau Ffestiniog, Cydran 5 © Y Dref Werdd.

Clirio tyfiant rhododendron o domennydd llechi yn Ffestiniog (Cydran 5) © Hawlfraint y Goron: CBHC.

Nodweddion tanddaearol

Ymysg yr elfennau tanddaearol hanesyddol mae'r lefelau mynediad a'r siambrau y byddai'r llechfaen yn cael ei chloddio ohonynt, lefelau draenio, ac inclêns, peiriannau, a thystiolaeth o'r ddarpariaeth les, megis lleoedd bwyta a thoiledau. Yn aml, mae mwy o arteffactau wedi goroesi yma nag ar yr wyneb, ac yn eu mysg ceir olion o beiriannau sylweddol. Mae graffiti hefyd yn nodwedd amlwg, sy'n gysylltiad uniongyrchol â chwarelwyr unigol. Mae Tabl 5.4 yn rhestru'r gweithfeydd tanddaearol hanesyddol o fewn y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig.

Tabl 5.4 Gweithfeydd tanddaearol hanesyddol o fewn y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig.

Cydran	*Elfen*	*Enw*
1 Chwarel y Penrhyn a Bethesda, a Dyffryn Ogwen at Aber Cegin	1.1	Chwarel y Penrhyn – lefelau mynediad a draenio
5 Ffestiniog: ei Mwyngloddiau a'i Chwareli Llechi, 'dinas llechi' a'r Rheilffordd i Borthmadog	5.2	Chwareli Ffestiniog – Gweithfeydd Tanddaearol
6 Chwarel Bryneglwys, Pentref Abergynolwyn a Rheilffordd Tal-y-llyn	6.2	Gweithfeydd Tanddaearol Chwarel Bryneglwys

Mae asedau hanesyddol yn goroesi dan ddaear. Diogelwyd yr injan hydrolig hon yn Chwarel y Penrhyn (Cydran 1) pan ddaeth ei defnydd i ben yn y 1930au © Jon Knowles.

Gall elfennau tanddaearol fod yn agored i lithriadau a chwympiadau daearegol, ynghyd â dŵr ac, ar brydiau, fandaliaeth a lladrata. Er na ellir gwneud llawer i rwystro prosesau daearegol naturiol, gellir mabwysiadu dull rheoli risg o ran nodweddion treftadaeth sy'n fwy agored i niwed. Mae'r prif dirfeddianwyr eisoes yn monitro eu hasedau tanddaearol a lle bo'n briodol, ymestynnir hyn i gynnwys archwilio nodweddion treftadaeth. Byddir yn derbyn cyngor arbenigol ar unrhyw fesurau lliniaru sydd eu hangen a lle bo'n briodol, rhoddir ystyriaeth i symud arteffactau a'u storio'n ddiogel fel na chânt eu dwyn. Eir i'r afael â'r materion hyn ar lefel safle o fewn y Cynlluniau Rheoli Lleol unigol.

Adeiladau, strwythurau a pheiriannau diwydiannol hanesyddol

Mae grwpiau o adeiladau diwydiannol hanesyddol a pheiriannau sefydlog yn asedau pwysig ynddynt eu hunain o fewn y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig, ac mae angen eu rheoli mewn ffordd ddeallus. Mae eu pwrpas a'u perthynas weledol gydag elfennau eraill o fewn amgylchedd chwarel gyn-weithredol yn hanfodol er mwyn deall y Gwerth Rhyngwladol Eithriadol arfaethedig.

Mae'n anorfod y bydd adeiladau diwydiannol hanesyddol gwag, yn enwedig y rhai hynny sydd mewn chwareli ac wedi eu hadeiladu o gerrig bras, yn dadfeilio a syrthio dros amser. Mae rhaglen o archwiliadau asedau hanesyddol wedi ei chynnal i gefnogi'r enwebiad. Mae hyn wedi dangos bod strwythurau ac adeiladau o fewn y chwareli ar hyn o bryd mewn cyflwr amrywiol o drawsnewid, o rai sydd yn wag ers yn weddol ddiweddar, i rai cwbl greiriol. Gall adeiladau hanesyddol sydd wedi eu gadael yn wag yn ddiweddar gynnig potensial i'w haddasu a'u hailddefnyddio fel ffordd dda o sicrhau y byddant yn parhau i gael eu cynnal a'u cadw ac yn parhau i greu budd economaidd. Mae hyn yn llai

Tabl 5.5 Enghreifftiau o adeiladau, strwythurau a pheiriannau diwydiannol hanesyddol o fewn y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig.		
Cydran	*Elfen*	*Enw*
1 Chwarel y Penrhyn a Bethesda, a Dyffryn Ogwen at Aber Cegin	1.2	Melinau Slabiau Felin Fawr
	1.4	Aber Cegin (Porth Penrhyn)
2 Tirwedd Fynyddig Chwarel Dinorwig	2.2	Ponc 'Australia'
	2.3	Y Dre' Newydd (Barics Môn)
	2.4	Inclên V2 / Chwarel Lechi'r Vivian
	2.5	Amgueddfa Lechi Cymru
	2.10	Ysbyty Chwarel Dinorwig
3 Tirwedd Chwareli Dyffryn Nantlle	3.2	Rhaffordd 'Blondin' Chwarel Blaen y Cae
	3.4	Injan Drawst Gernywaidd Chwarel Dorothea
	3.5	Chwarel Pen y Bryn / Cloddfa'r Lôn
	3.6	System Bwmpio Gyriant Dŵr Chwarel Pen y Bryn / Cloddfa'r Lôn
	3.8	Rhaffyrdd 'Blondin' Chwarel Pen yr Orsedd
	3.12	Plas Tal y Sarn a ffermdy Tal y Sarn
4 Chwareli Gorseddau a Bwlch y Ddwy Elor (*Prince of Wales*), y Rheilffyrdd a'r Felin	4.3	Melin Slabiau Ynysypandy
5 Ffestiniog: ei Mwyngloddiau a'i Chwareli Llechi, 'dinas llechi' a'r Rheilffordd i Borthmadog	5.3	Gorsaf Ynni Dŵr Pant yr Afon
	5.4	Melin Chwarel Diffwys
	5.5	Prif Gyfadeiladau Chwarel Maenofferen

tebygol o fod yn briodol yn achos strwythurau creiriol sydd yn wag ers cyfnodau hir, lle y gallai dulliau o'r fath ofyn am lefel anghymesur o ymyrraeth, y gellid ystyried ei fod yn cael effaith andwyol ar eu dilysrwydd. Mae chwareli Bwlch y Ddwy Elor (*Prince of Wales*) a Gorseddau yng Nghydran 4 yn cynrychioli terfyn i sefydlogrwydd archeolegol ac fe fyddant yn cael eu cadw yn y cyflwr hwn; mae chwareli Diffwys, Ffestiniog a Dorothea, ar y llaw arall, yn parhau i ddangos newid gweithredol. Lle bo'n briodol, bydd argymhellion ar gyfer ymyraethau i rwystro newid yn cael eu hadnabod mewn Cynlluniau Rheoli Lleol.

Mae'r cyfadeiladau diwydiannol sydd wedi eu cadw er budd y cyhoedd yn cynnwys Melin Slabiau Ynysypandy (creiriol) a hen gyfadeiladau peirianneg Chwarel Dinorwig – sydd bellach mewn defnydd o'r newydd fel Amgueddfa Lechi Cymru. Yma, mae'r peiriannau sefydlog hanesyddol wedi'u cynnal a'u cadw mewn cyflwr gwych, ac maent yn gweithio'n iawn.

Bu cyfadeiladau diwydiannol Felin Fawr, Dyffryn Ogwen (Cydran 1) yn gwasanaethu Chwarel y Penrhyn hyd y 1960au. Yma, cai'r llechfeini eu llifio. Olwynion dŵr oedd yn cael eu gyrru gan lif nant Galedffrwd oedd yn troi'r peiriannau © Hawlfraint y Goron: CBHC.

Ymysg prosiectau diweddar i gadw adeiladau diwydiannol a pheiriannau sefydlog hanesyddol y mae gwaith cadwraeth gan Gyngor Gwynedd ar Ysbyty Chwarel Dinorwig a'i offer meddygol er mwyn iddi weithredu fel amgueddfa, a gwaith cadwraeth gan grŵp gwirfoddol mewn anheddau gwag yn Chwarel Cwmorthin. Mae'r gwaith cyfredol yn cynnwys sefydlogi'r tŷ injan ar inclên yn Chwarel Maenofferen, wrth i'r opsiynau hirdymor ar gyfer ei ailddefnyddio gael eu hystyried. Mae prosiectau o'r fath yw fuddiol o ran diogelu a chadw adeiladau a pheiriannau, ond hefyd o ran datblygu sgiliau a hyrwyddo brwdfrydedd ac ymwybyddiaeth. Ystyrir bod potensial ar gyfer addasu ac ailddefnyddio rhai adeiladau diwydiannol hanesyddol eraill, yn chwareli Dorothea, Pen yr Orsedd a Maenofferen yn enwedig.

Mae peiriannau sefydlog yn neilltuol heriol gan eu bod yn tueddu i rydu a dirywio, yn enwedig os ydynt yn agored i'r elfennau. Gall fod rhai amgylchiadau lle mae modd gwneud peiriannau hanesyddol yn weithredol eto er dibenion arddangosfeydd, fel sydd wedi digwydd gyda'r inclên V2 yn Chwarel Vivian; lle nad yw hyn yn bosib, mae angen rhoi blaenoriaeth i gadw peiriannau o'r fath fel henebion sefydlog. Nid yw symud peiriannau i'w harddangos mewn amgueddfeydd yn ddull a ffafrir, er y gall amgylchiadau godi sy'n golygu fod adleoli fel dull o warchod a hwyluso gwerthfawrogiad ac addysg y cyhoedd yn cyfiawnhau gweithredu yn y modd hwn.

Gall adeiladu strwythurau neu adeiladau newydd mewn chwareli effeithio ar y berthynas weledol rhwng elfennau swyddogaethol, gan leihau'r ddealltwriaeth o'r prosesau chwarelydda, a thrwy hynny leihau eu cyfraniad at y Gwerth Rhyngwladol Eithriadol arfaethedig. Ym mhob achos, caiff hyn ei benderfynu yn unol â'r Cynllun Datblygu Lleol ac ystyriaethau cynllunio perthnasol eraill.

Mae inclên V2 yn chwarel Vivian (Cydran 2) wedi'i chadw a'i dychwelyd i gyflwr gweithio fel rhan o'r Amgueddfa Genedlaethol © Hawlfraint y Goron: CBHC.

Llwybrau cludiant creiriol

Mae'r amrywiol ffyrdd y cludwyd llechi o'u tarddle yn y mynydd ac i farchnadoedd yn llunio elfennau allweddol o'r Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig. Arweiniodd datblygiadau technolegol yr esgorwyd arnynt drwy'r diwydiant at greu (a gadael yn segur) gwahanol ddulliau cludiant gan gynnwys dros y dŵr, ar y ffordd, ac ar y rheilffyrdd. Mae Tabl 5.6 yn rhestru'r safleoedd a'r llwybrau cludiant creiriol o fewn y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig.

Mae nifer o'r llwybrau cludiant wedi goroesi fel llwybrau creiriol sy'n gydnaws â'r dirwedd ac sy'n cadw nodweddion gwreiddiol gan gynnwys pontydd, adeiladau a thrawstiau, hyd yn oed. Dros y degawdau diweddar, mae rhai o'r llwybrau cludiant wedi'u trosi yn lonydd cyhoeddus ar gyfer beicio a cherdded; y mwyaf nodedig o'r rhain yw Llwybr Llechi Eryri, sy'n ffordd ragorol i'r cyhoedd gael mynediad at y tirweddau hyn. Gall fod cyfleoedd i sefydlu rhwydweithiau pellach o lwybrau i gysylltu elfennau, rheoli mynediad cyhoeddus, a hwyluso'r dehongliad o daith llechi o'r mynydd i'r farchnad. Mae prosiect cadwraeth diweddar a sefydlwyd gan Gyngor Gwynedd wedi sefydlogi'r draphont oedd yn cario Ffordd Haearn Chwarel y Penrhyn dros Afon Cegin, fel rhan o gynllun llwybr cerdded a beicio. Yn ogystal, mae mentrau gwirfoddol wedi sefydlogi nodweddion hanesyddol ac wedi mynd i'r afael â lledaeniad llystyfiant. Mae llwybrau cludiant creiriol eraill wedi goroesi fel henebion archeolegol, ac mae angen eu cadw felly heb effeithio ar eu cyfanrwydd fel gwaith tir a strwythurau bregus. Gall gordyfiant ddigwydd mewn rhannau segur o'r fath, a gallai nodweddion nad ydynt yn cael eu rheoli, megis hafnau, argloddiau, sarnau a phontydd fynd yn ansefydlog. Nod y rhaglen

Gall llwybrau cludiant creiriol lunio llwybrau cerdded drwy *Dirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru*, megis y rhan hon o Reilffordd Cyffordd Gorseddau a Phorthmadog drwy Gwm Pennant yng Nghydran 4 © Hawlfraint y Goron: CBHC.

Mae Tabl 5.6 yn rhestru'r safleoedd a'r llwybrau cludiant creiriol o fewn y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig.

Cydran	*Elfen*	*Enw*
1 Chwarel y Penrhyn a Bethesda, a Dyffryn Ogwen at Aber Cegin (Porth Penrhyn)	1.3	Ffordd Haearn Chwarel y Penrhyn a Rheilffordd Chwarel y Penrhyn
2 Tirwedd Fynyddig Chwarel Dinorwig	2.6	Systemau ffordd Chwarel Dinorwig – y ffordd fawr
	2.7	Ffordd Haearn Chwarel Dinorwig
3 Tirwedd Chwareli Dyffryn Nantlle	3.9	Rheilffordd Nantlle
4 Chwareli Gorseddau a Bwlch y Ddwy Elor (*Prince of Wales*), y Rheilffyrdd a'r Felin	4.4	Rheilffordd Gorseddau a Rheilffordd Cyffordd Gorseddau a Phorthmadog
	5.9	Rheilffordd Ffestiniog (rhan greiriol)
6 Chwarel Bryneglwys, Pentref Abergynolwyn a Rheilffordd Tal-y-llyn	6.4	Rheilffordd Tal-y-llyn (rhannau creiriol)

ddynodi gyfredol yw gwarchod yr holl nodweddion cludiant creiriol sydd wedi eu cadw'n dda trwy eu dynodi fel Henebion Cofrestredig. O ganlyniad, byddant yn destun monitro hirdymor gan Cadw.

Adeiladwyd traphont Cegin (Cydran 1) i gario trenau llechi oedd yn cael eu tynnu gan geffylau dros yr afon, ac mae hi'n un o'r pontydd rheilffordd aml-fwa hynaf sydd wedi goroesi yn y byd © Hawlfraint y Goron: CBHC.

Rheilffyrdd Treftadaeth Gweithredol

Mae dwy reilffordd hanesyddol, sef Ffestiniog a Thal-y-llyn, yn gwbl weithredol ac yn rhedeg drwy gydol y flwyddyn. Mae'r rhain yn cynnal ac yn defnyddio eu seilwaith hanesyddol. Mae prif ffurfiau ac adeiladau sylweddol y ddwy reilffordd yn rhai gwreiddiol a chyflawn. Mae traciau, trawstiau a balast yn cael eu hamnewid fel bo'r angen, ac fe gedwir enghreifftiau segur er mwyn archwilio'u hanes. Yn ogystal, mae'r ddwy reilffordd yn parhau i ddefnyddio locomotifau stêm, cerbydau teithwyr a wagenni hanesyddol a adeiladwyd i gludo llechi. Mae'r rhain yn cael eu rheoli a'u gweithredu fel rhan o nodwedd fecanyddol unigryw y ddwy system. Mae trenau llechi, er dibenion arddangos, yn cael eu gweithredu ar y ddwy reilffordd. Yn ogystal, mae Rheilffordd Llyn Llanberis yn rhedeg ar lwybr Rheilffordd Chwarel Dinorwig.

Tabl 5.7 Rheilffyrdd treftadaeth gweithredol o fewn y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig.

Cydran	*Elfen*	*Enw*
2 Tirwedd Fynyddig Chwarel Dinorwig	2.7	Rheilffordd Chwarel Dinorwig (fel Rheilffordd Llyn Padarn)
5 Ffestiniog: ei Mwyngloddiau a'i Chwareli Llechi, 'dinas llechi' a'r Rheilffordd i Borthmadog	5.9	Rheilffordd Ffestiniog
6 Chwarel Bryneglwys, Pentref Abergynolwyn a Rheilffordd Tal-y-llyn	6.4	Rheilffordd Tal-y-llyn

Mae Rheilffordd Ffestiniog yn rhedeg trenau disgyrchiant, er dibenion arddangos, gyda'i fflyd o wagenni llechi sydd wedi'u hatgyweirio, gan ail-greu gweithrediad y rheilffordd o 1836 i 1940 © Rheilffyrdd Ffestiniog ac Eryri.

Rheilffordd Llyn Padarn © Cyngor Gwynedd.

Daw nifer fawr o ymwelwyr i'r rheilffyrdd gweithredol; mae angen cael cydbwysedd rhwng y naws hanesyddol a'r angen i ddarparu cyfleusterau i deithwyr ar raddfa llawer mwy nac yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mae'n hanfodol cynnal sgiliau arbenigol ar gyfer gweithredu a chynnal a chadw'r rheilffyrdd.

Bydd y cwmnïau gweithredu rheilffyrdd yn ymgorffori'r angen i gynnal Gwerth Rhyngwladol Eithriadol, cyfanrwydd a dilysrwydd y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig yn eu rhaglenni a'u harchwiliadau gweithredol, dan arweiniad eu Cynlluniau Rheoli Lleol unigol. Bydd adeiladau a nodweddion hanesyddol yn parhau i gael gwaith cadwraeth, a lle bo'n bosib, byddant yn cael eu hadfer at ddefnydd buddiol. Bydd unrhyw gyfleusterau newydd i deithwyr sydd eu hangen i gadw'r rheilffordd yn weithredol yn cael eu dylunio fel eu bod yn parchu'r cymeriad hanesyddol. Bydd y cwmnïau gweithredu rheilffyrdd yn ymgynghori â Cadw ac arbenigwyr cadwraeth yr Awdurdod Lleol ar yr holl gynlluniau datblygu a gymeradwyir.

Edrychir yn ffafriol ar ddatblygiadau priodol o fewn y rheilffyrdd hyn a'u cyffiniau, ac o blaid bod y trenau a'r dirwedd ddiwylliannol ehangach yn gweld y naill a'r llall. Bydd rhannau o'r rheilffordd sydd wedi eu cadw'n dda ac sydd yn bodloni meini prawf cenedlaethol yn cael eu dynodi yn henebion cofrestredig.

Harbyrau

Mae dau harbwr gweithredol – Aber Cegin (Porth Penrhyn) a Phorthmadog, a dau gei creiriol ar Afon Dwyryd o fewn y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig. Mae Aber Cegin yn harbwr diwydiannol a physgota prysur sy'n ymdrin â chargo cyffredinol ac yn cynnal llongau sy'n treillio cregyn gleision. Hwylio er pleser sy'n cynnal Harbwr Porthmadog.

Mae Porthmadog (Cydran 5) yn parhau i fod yn harbwr gweithredol © Hawlfraint y Goron: CBHC.

Tabl 5.8 Harbyrau a cheiau o fewn y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig.		
Cydran	*Elfen*	*Enw*
1 Chwarel y Penrhyn a Bethesda, a Dyffryn Ogwen at Aber Cegin (Porth Penrhyn)	1.4	Aber Cegin (Porth Penrhyn)
5 Ffestiniog: ei Mwyngloddiau a'i Chwareli Llechi, 'dinas llechi' a'r Rheilffordd i Borthmadog	5.8	Ceiau llechi ar Afon Dwyryd
	5.10	Harbwr Porthmadog

Mae Amgueddfa Forwrol Porthmadog a llwybr cerdded a beicio Lôn Las Ogwen yn Aber Cegin yn asedau sy'n cael eu rheoli'n weithredol ac sydd mewn cyflwr da o ran eu cadwraeth. Mae'r ceiau ar Afon Dwyryd yn strwythurau cadarn a sefydlog ar y cyfan, ond fe allent fod mewn perygl o ddadfeilio yn y dyfodol pe byddai newid yn yr hinsawdd yn arwain at gynnydd sylweddol mewn stormydd a gweithgarwch y llanw.

Mae'r ddau gei wedi eu gwarchod; un ohonynt fel Heneb Cofrestredig, a'r llall trwy ddynodiad fel adeilad rhestredig. Mae harbyrau Aber Cegin a Phorthmadog wedi cadw nifer o adeiladau rhestredig gan gynnwys y glanfeydd, pontydd a strwythurau hanesyddol eraill. Caiff Cynlluniau Rheoli Lleol eu datblygu ar gyfer yr harbyrau gweithredol.

Tirweddau, parciau a gerddi hanesyddol wedi eu cynllunio

Mae amgylchedd naturiol, parciau a gerddi'r Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig yn amrywio o ran graddfa a ffurf, o dirweddau cynlluniedig ar raddfa fawr sy'n gysylltiedig â daliadau tir uchelwrol yr ystadau mawr, i fân-ddaliadau a chaeau tatws bychan gweithwyr unigol, sy'n dangos yr economi gymysg a weithredwyd gan nifer o weithwyr a'u gwragedd a'u teuluoedd i ychwanegu at eu hincwm o'r chwareli llechi.

Tabl 5.9 Parciau a Gerddi nodedig o fewn y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig.		
Cydran	*Elfen*	*Enw*
1 Chwarel y Penrhyn a Bethesda, a Dyffryn Ogwen at Aber Cegin (Porth Penrhyn)	1.7	Castell Penrhyn a'r Parc (Parc a Gardd)
2 Tirwedd Fynyddig Chwarel Dinorwig	2.10	Ysbyty Chwarel Dinorwig (Gardd)
3 Tirwedd Chwareli Dyffryn Nantlle	3.12	Plas Tal y Sarn (Gardd)
5 Ffestiniog: ei Mwyngloddiau a'i Chwareli Llechi, 'dinas llechi' a'r Rheilffordd i Borthmadog	5.7	Plas Tan y Bwlch (Parc a Gardd)

Mae'r parciau a'r gerddi sy'n gysylltiedig â Chastell Penrhyn a Phlas Tan y Bwlch bellach yn atyniadau i dwristiaid ac yn ganolfannau addysg. Nid yw gardd hanesyddol greiriol Plas Tal y Sarn wedi cael ei rheoli'n weithredol am sawl degawd ac mae mewn cyflwr gwael, ond mae'n cynnig potensial sylweddol o ran ymchwil i ddysgu mwy am ardd 'anghofiedig' o'r cyfnod. Mae sefydlu is-grŵp Bioamrywiaeth sy'n adrodd i Grŵp Llywio'r Bartneriaeth yn darparu corff o gyngor ar yr amgylchedd naturiol ac ar

Plas Tan-y-Bwlch (Cydran 5) oedd cartref hanesyddol teulu'r Oakeley, perchnogion chwareli yn Ffestiniog. Mae'r planhigion yn y tiroedd yn adlewyrchu'r cysylltiad oedd ganddynt â'r India, ffynhonnell wreiddiol eu cyfoeth © Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

Roedd coed cas-gan-fwnci (*araucaria araucana*), neu monkey-puzzle, yn nodwedd yn y gerddi oedd yn gysylltiedig â thai'r rheolwyr. Mae'r enghraifft hon i'w gweld yng Nghwmorthin (Cydran 5), lle mae'r tŷ gwyngalchog wedi'i warchod © Evan Davies.

ardaloedd wedi'u trin o fewn y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig, gan gynnwys lleiniau mewn gerddi a mân-ddaliadau oedd yn gysylltiedig â chwarelwyr, rheolwyr chwareli a'u teuluoedd.

Aneddiadau hanesyddol

Mae pobl yn parhau i fyw yn y prif aneddiadau trefol sy'n gysylltiedig â'r diwydiant ac maent wedi cynnal ystod lawn o adeiladau hanesyddol allweddol, gan gynnwys tai, capeli, eglwysi, tafarndai, siopau ac ysgolion.

Cafodd aneddiadau Mynydd Cilgwyn, Dyffryn Nantlle (Cydran 3) eu creu ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, ac erbyn y 1930au, roedd llawer ohonynt yn anghyfannedd © Cyngor Gwynedd.

Ac eithrio pentref Treforys, sydd yn greiriol ac yn heneb gofrestredig, a'r aneddiadau rhannol wag ar Fynydd y Cilgwyn, mae'r rhain oll yn bentrefi a threfi byw. Mae naw o Ardaloedd Cadwraeth dynodedig o fewn y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig. Diben dynodi Ardal Gadwraeth yw cadw a gwella ei gwerth hanesyddol neu bensaerniol arbennig. Nid yw hyn yn golygu na all datblygu ddigwydd, nac y bydd gwaith ar eiddo yn cael ei wrthod yn awtomatig. Fodd bynnag, mae'n golygu y bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn ystyried effaith cynlluniau ar y dynodiad yn ogystal a'u hasesiad arferol.

Mae'n ofynnol cael caniatâd Ardal Gadwraeth er mwyn:

- Dymchwel adeilad sy'n fwy na 115 metr ciwbig o ran ei faint. Mae ambell eithriad i hyn.
- Dymchwel giât, ffens, wal neu reilin sy'n fwy na metr o uchder ar ymyl ffordd (gan gynnwys llwybr cyhoeddus neu lwybr ceffyl) neu ofod agored cyhoeddus; neu rai sy'n fwy na dwy fetr o uchder mewn mannau eraill.

Tabl 5.10 Aneddiadau o fewn y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig.		
Cydran	*Elfen*	*Enw*
1 Chwarel y Penrhyn a Bethesda, a Dyffryn Ogwen at Aber Cegin (Porth Penrhyn)	1.5	Anheddiad Mynydd Llandygái
	1.6	Pentref Bethesda
2 Tirwedd Fynyddig Chwarel Dinorwig	2.8	Aneddiadau Deiniolen, Clwt-y-Bont, Dinorwig, a'r Fach-wen
3 Tirwedd Chwareli Dyffryn Nantlle	3.10	Pentref Nantlle
	3.11	Aneddiadau ar Fynydd y Cilgwyn
4 Chwareli Gorseddau a Bwlch y Ddwy Elor (*Prince of Wales*), y Rheilffyrdd a'r Felin	4.5	Pentref Treforys
5 Ffestiniog: ei Mwyngloddiau a'i Chwareli Llechi, 'dinas llechi' a'r Rheilffordd i Borthmadog	5.6	Tref Blaenau Ffestiniog
6 Chwarel Bryneglwys, Pentref Abergynolwyn a Rheilffordd Tal-y-llyn	6.3	Pentref Abergynolwyn

Mae'r heriau i gymeriad anheddiad hanesyddol yn cynnwys methu â chynnal a chadw eiddo mewn cyflwr da gan arwain at golli nodweddion megis gwaith haearn gyr, pyrth/portshys, cyrn simnai a ffenestri; effaith weledol tai newydd ar batrymau stryd presennol; a'r posibilrwydd o adael ac esgeuluso adeiladau hanesyddol segur, yn enwedig eglwysi a chapeli.

Mae'r cymeriad manwl yn cyfrannu at hynodrwydd y cymunedau hanesyddol hyn. Mae pyrth neu bortshys llechi fel y rhai hyn ym Methesda (Cydran 1) yn parhau'n nodwedd gyffredin © Cyngor Gwynedd.

Awdurdodau Cynllunio Lleol sy'n gyfrifol am ddynodi a rheoli Ardaloedd Cadwraeth, ond mae angen cefnogaeth ac adnoddau arnynt i sicrhau eu cynaliadwyedd hirdymor. Bydd yr Awdurdodau Lleol yn chwilio am adnoddau i ddatblygu gwerthusiad a dynodiad ardaloedd cadwraeth lle bo'n briodol, gyda'r bwriad o warchod a gwella cymeriad hanesyddol patrwm anheddiad o ran y strydwedd a'r topograffi. Yn benodol, bydd yr Awdurdodau Lleol yn canolbwyntio ar ddynodi Ardaloedd Cadwraeth ym Mlaenau Ffestiniog ac Abergynolwyn.

Oddi allan i Ardaloedd Cadwraeth, bydd datblygiadau yn parchu cymeriad hanesyddol aneddiadau yn unol â'r hyn a nodir mewn Astudiaethau o Gymeriad Trefol a gwblhawyd ar gyfer holl aneddiadau'r Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig. Mae *Polisi Cynllunio Gwynedd* (AT3) yn nodi:

POLISI AT 3
Asedau treftadaeth sydd heb eu dynodi ond sy'n bwysig yn lleol neu yn rhanbarthol

Bydd gofyn i gynlluniau sicrhau cadwraeth a chwilio am gyfleoedd i wella adeiladau, strwythurau ac ardaloedd mewn asedau treftadaeth sydd heb eu dynodi ond sy'n bwysig yn lleol neu yn rhanbarthol, ac sy'n creu ymdeimlad o gymeriad, hunaniaeth ac amrywiaeth leol ledled ardal y Cynllun, drwy:

1. Ailddefnyddio adeiladau ac ardaloedd hanesyddol sy'n cael eu tanddefnyddio neu sy'n segur mewn modd sy'n sympathetig ac yn gydnaws â'u cadwraeth;
2. Sicrhau bod pob datblygiad o fewn parth cyhoeddus hanesyddol ardal y Cynllun, gan gynnwys gwaith trafnidiaeth ac isadeiledd, yn sensitif i'r amgylchedd hanesyddol;
3. Sicrhau lleoli addas, màs, ffurf, uchder, graddfa a manylder priodol, a defnyddio deunyddiau lleol.

Cynhaliwyd prosiect i wneud gwelliannau sylweddol i isadeiledd canol tref Blaenau Ffestiniog yn 2013, a ariannwyd yn rhannol drwy gyllid ERDF.

Arweiniodd menter canol tref ym Mlaenau Ffestiniog (Cydran 5) at greu cynllun palmant llawn dychymyg a oedd yn cyfeirio at y diwydiant llechi © Cyngor Gwynedd.

CREIGIWR
CWMYBAYWD
THE ROCKS
THE EMPTY
FEATHERS
CWM Y FOEL
CHWAREL DDU
CHWAREL FEDW
CHWAREL SION JC
CHWAREL Y PLAS
DANDDERWEN
DEESIDE
DINORWIG
DOLGOCH
DOROTHEA
EGRYN
LALNOL
FOTY
FRONFRAITH
FFOREST
GALLT Y FEDW
GALLT Y MAWN
GARTHEINIOG
GLANDYFI
GLODDFA
FRIOG
EISTEDD
FFRIDD
CHWAREL FAWR
CHWAREL OWEN PARRY
CHWAREL TWM FFEL TIWR
CHWAREL YSTRADFFIN
DARREN
DDU
CWM ERA
CWM CWENLAIS
CWM MERCHON
CWM TYWYLL
CYMERAU
CRAIG WYNNSTAY
CRAIG RHIOSAN
CRAIG AFON
CONGLOG
CORNWAL
CORNGAFR
CRAIG GLAN AFON
CRAIG RHIWARTH
CROES Y DDIWY AFON
CRYMLYN
CWM EIGIAU
CWM GLODDFA
CWM MAENGWYNEDD

5.3.2 Cynllun Rheoli ar gyfer cadwraeth a rheolaeth ymarferol

Amcan 4: Caiff y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig ei reoli er mwyn cynnal a gwella ei Werth Rhyngwladol Eithriadol arfaethedig, ei gyfanrwydd a'i ddilysrwydd.

Egwyddor 4.1: Cefnogir perchnogion safle i ddatblygu a gweithredu Cynlluniau Rheoli Lleol.			
Cam Gweithredu 1	Paratoir Cynlluniau Rheoli Lleol ar gyfer pob Elfen allweddol.	Tymor byr	Cyngor Gwynedd / Perchnogion Safleoedd
Cam Gweithredu 2	Bydd asedau hanesyddol yn destun rhaglen strwythuredig i fonitro eu cyflwr.	Parhaus	Cadw / Awdurdodau Cynllunio Lleol / Perchnogion Safleoedd
Egwyddor 4.2: Lle bo angen, cymerir camau gweithredu i wella cyflwr asedau hanesyddol allweddol o fewn y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig.			
Cam Gweithredu 1	Nodir blaenoriaethau cadwraeth pellach ac fe'u blaenoriaethir.	Tymor byr	Cadw / Awdurdodau Cynllunio Lleol / Perchnogion Safleoedd
Cam Gweithredu 2	Caiff prosiectau cadwraeth eu datblygu a'u gweithredu i fynd i'r afael â blaenoriaethau.	Tymor byr / canolig	Cyngor Gwynedd / Cadw / Perchnogion Safle
Cam Gweithredu 3	Byddir yn chwilio am gyfleoedd ariannu i ddatblygu prosiectau cadwraeth.	Tymor canolig	Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd / Grŵp Llywio'r Bartneriaeth
Egwyddor 4.3: Anogir addasiadau sy'n gydnaws ag asedau hanesyddol er mwyn eu hailddefnyddio.			
Cam Gweithredu 1	Bydd gwaith yn parhau i ganfod defnyddiau newydd i asedau hanesyddol allweddol gan gynnwys Melin Maenofferen.	Tymor canolig	Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd / Perchnogion Safle
Egwyddor 4.4: Anogir cadwraeth gynaliadwy i'r Safle Treftadaeth y Byd a chyfranogiad y cyhoedd mewn rhaglenni cadwraeth.			
Cam Gweithredu 1	Datblygir Canllawiau Dylunio Cymunedol ac adnoddau rhannu gwybodaeth.	Tymor byr	Awdurdodau Cynllunio Lleol
Cam Gweithredu 2	Anogir grwpiau gwirfoddol i "fabwysiadau heneb" ac i gymryd rhan yn y gwaith o fonitro, clirio llystyfiant a chadwraeth asedau allweddol.	Parhaus	Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd / Grwpiau Cymunedol

5.4 Rheoli lleoliad y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig

Amcan 5: Bydd lleoliad y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig a'r golygfeydd i mewn iddo ac allan ohono yn cael eu rheoli i gynnal Gwerth Rhyngwladol Eithriadol arfaethedig yr eiddo er budd cenedlaethau'r dyfodol.

Egwyddor 5.1: Defnyddir mesurau cyfredol i warchod y dirwedd a'r fframwaith cynllunio defnydd tir fel teclyn rheoli i warchod lleoliad y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig a'r golygfeydd allweddol i mewn iddo ac allan ohono.

Egwyddor 5.2: Bydd unrhyw ddatblygiad newydd o ddyluniad, graddfa a màs priodol fel ei fod yn cadw ac yn cyfoethogi Gwerth Rhyngwladol Eithriadol arfaethedig yr eiddo, yn parchu golygfeydd arwyddocaol ac yn atgyfnerthu'r ymdeimlad o gyrraedd.

Mae *Polisi Cynllunio Cymru 10 (2018)* yn cydnabod yr angen i warchod Gwerth Rhyngwladol Eithriadol Safleoedd Treftadaeth y Byd yng Nghymru. Mae effeithiau datblygiadau arfaethedig ar Safle Treftadaeth y Byd a'i leoliad yn ystyriaeth berthnasol wrth wneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio.

Lleolir holl Gydrannau'r Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig *Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru* o fewn rhannau o Gymru lle mae'r dirwedd eisoes yn destun gwarchodaeth lem (gweler Map 8) trwy ddynodiad fel Parc Cenedlaethol a chofrestriad fel Tirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig. Mae Astudiaethau manwl o Gymeriad y Dirwedd eisoes wedi eu cwblhau ym mhob ardal er mwyn hysbysu polisi a phenderfyniadau cynllunio.

Mae *Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn a Chynllun Datblygu Lleol Eryri* yn gynlluniau a fabwysiadwyd yn ddiweddar ac sy'n cynnwys polisïau penodol yn ymwneud â Safleoedd Treftadaeth y Byd. Golyga hyn fod yr ardal dan warchodaeth polisïau cynllunio cadarn a chyfredol a ddefnyddir i reoli'r Gwerth Rhyngwladol Eithriadol, lleoliad, golygfeydd allweddol a'r ymdeimlad o gyrraedd y Safle Treftadaeth y Byd.

Parc Cenedlaethol Eryri

Parciau Cenedlaethol yw'r lefel uchaf o warchodaeth tirweddau o fewn system gynllunio'r DU. Lleolir Cydrannau 4 a 6 o fewn Parc Cenedlaethol Eryri. Mae elfen drafnidiaeth Cydran 5 yn rhedeg trwy'r Parc Cenedlaethol, ac mae Cydrannau 1, 2 a 3 wedi eu lleoli yn union gerllaw'r Parc Cenedlaethol; maent felly yn cael budd o warchodaeth trwy'r ffaith eu bod yn agos at ffin y Parc Cenedlaethol, yn unol â'r hyn a nodir yng *Nghynllun Datblygu Lleol Eryri* (2016–2031) – Polisi Ff: Amgylchedd Hanesyddol (gweler uchod)

Mae Awdurdod Cynllunio Gwynedd yn ystyried lleoliad y Parc Cenedlaethol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio y tu allan i ffin y Parc Cenedlaethol. Os yw cynlluniau datblygu yn debygol o gael effaith andwyol sylweddol ar harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol y Parc Cenedlaethol (sydd gyda'i gilydd yn cwmpasu priodweddau'r Gwerth Rhyngwladol Eithriadol arfaethedig) yna dylent gael eu gwrthod.



Map 8. Ffiniau'r Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig a gwarchodaeth y dirwedd gyfagos ym Mharc Cenedlaethol Eryri, a Thirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig (Graddfa 1:500,000).

Tirweddau Hanesyddol Cofrestredig

Lleolir Cydrannau 1, 2, 3, 5 a 6 o fewn *Tirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig Cofrestredig*. Mae'r Gofrestr yn offeryn anstatudol ond mae'n ystyriaeth berthnasol yn y broses gynllunio, ac yn darparu gwybodaeth i benderfynwyr a rheolwyr tirweddau er mwyn cynorthwyo wrth sicrhau y caiff cymeriad hanesyddol y dirwedd ei gynnal, a lle rhoddir ystyriaeth i newid, bod cynlluniau yn rhai deallus. Mae polisïau cyfredol sy'n ymwneud â'r dynodiadau hyn yn darparu'r mecanweithiau sydd eu hangen i alluogi rheoli'r Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig gan Awdurdodau Lleol trwy'r system gynllunio statudol.

Mae'r Tirweddau Hanesyddol wedi bod yn destun gwaith manwl Nodweddu Tirweddau Hanesyddol, fel tystiolaeth i hysbysu polisi a phenderfyniadau cynllunio. Yn achos datblygiadau ar raddfa sy'n golygu bod angen Asesiad Effaith Amgylcheddol, mae angen Asesiad o Arwyddocâd Datblygiad ar y Tirlun Hanesyddol (ASIDOHL), yn unol â *Nodyn Cyngor Technegol NCT24, Yr Amgylchedd Hanesyddol*.

Mae Polisi AMG 3 *Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn* yn nodi:

POLISI AMG 3
Gwarchod a gwella nodweddion a rhinweddau sydd yn unigryw i gymeriad y dirwedd leol

Fe fydd rhaid i ddatblygiadau a fyddai'n cael effaith sylweddol ar gymeriad y dirwedd – fel y'i diffinnir gan yr Ardaloedd Cymeriad y Dirwedd a gynhwysir yn y Strategaeth Tirwedd ar gyfer yr awdurdod perthnasol – ddangos drwy asesiad tirwedd sut mae cymeriad y dirwedd wedi dylanwadu ar ddyluniad, maint, natur a'r broses o ddewis safle'r datblygiad.

Caniateir cynllun ar yr amod na fyddai'n cael effaith andwyol sylweddol ar nodweddion aa ansoddau sydd yn unigryw i'r dirwedd leol yn nhermau agweddau gweledol, hanesyddol, daearegol, ecolegol a diwylliannol. Dylid cymryd mesurau er mwyn sicrhau na fyddai'r datblygiad:

1. Yn cael effaith andwyol sylweddol ar gymeriad y dirwedd adeiledig neu naturiol;
2. Ddim yn cyd-fynd gyda, neu'n gwella'r tirffurf a'r dirwedd;
3. Yn colli neu'n methu ymgorffori nodweddion traddodiadol, patrymau, strwythurau a lleoliad aneddleoedd a thirwedd yr amgylchedd adeiledig a naturiol.

Rhoddir sylw penodol i dirwedd sydd wedi ei adnabod gan yr Ardaloedd Cymeriad y Dirwedd fel bod o werth uchel neu ragorol oherwydd ansawdd penodol yn y dirwedd neu gyfuniad o ansoddau. Bydd ystyriaeth bellach hefyd yn cael ei roddi i ddatblygiad sydd yn effeithio ar gymeriad tirwedd a lleoliad yr AHNEoedd neu'r Parc Cenedlaethol.

Mae Polisi PS20 *Diogelu a lle bo'n berthnasol gwella asedau treftadaeth a Pholisi AT 1 Ardaloedd Cadwraeth, Safleoedd Treftadaeth y Byd a Thirweddau Cofrestredig, Parciau a Gerddi*, a ddisgrifir uchod, hefyd yn berthnasol yma.

5.4.1 Rheoli newid

Mae tirweddau yn gallu newid yn gyson. Rheoli'r newid hwnnw yw diben Cadwraeth Treftadaeth, er mwyn gwarchod arwyddocâd asedau hanesyddol.

Nid yw lleoliad ased hanesyddol o reidrwydd yn sefydlog, ac fe all newid dros amser wrth i'r ased a'r hyn sydd o'i gwmpas esblygu. Gall y newidiadau hyn beri effaith negyddol i arwyddocâd ased, megis colli'r elfennau ffisegol cyfagos sy'n caniatáu dealltwriaeth o ased, neu gyflwyno datblygiad newydd cyfagos sy'n achosi effaith weledol sylweddol. Fodd bynnag, gall newidiadau hefyd gael effaith gadarnhaol allai wella'r lleoliad, megis ehangu golygfeydd hanesyddol neu ailsefydlu cysylltiadau coll rhwng asedau cysylltiedig.

Mae'r mwyafrif o ddatblygiadau lleol ar raddfa fechan yn annhebygol o gael effaith sylweddol ar Werth Rhyngwladol Eithriadol neu leoliad y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig. Fodd bynnag, mewn achosion lle mae datblygiadau yn debygol o gael effaith ehangach nag effaith leol, mae'n bwysig ystyried yr effaith y byddent yn ei gael ar Werth Rhyngwladol Eithriadol y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig.

Mae Cyngor Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri yn darparu gwasanaethau cynghori cynhwysfawr ar gyfer y cyfnod cyn gwneud cais. Anogir datblygwyr i gymryd cyngor gan yr Awdurdodau Cynllunio Lleol yn gynnar yn y broses ddylunio er mwyn eu helpu i ddatblygu cynlluniau fydd yn cyflawni eu hamcanion heb effeithiau andwyol ar y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig.

Bydd Canllawiau Cynllunio Atodol yn darparu arweiniad mwy manwl ar bolisïau cynllunio perthnasol Cyngor Gwynedd a'r Parc Cenedlaethol ar gyfer datblygu oddi mewn ac oddi allan i'r Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig.

Mae'r orsaf drenau newydd yng Nghaernarfon, a agorwyd yn 2019, yn dangos sut y gall dyluniad cyfoes a dyfeisgar gymryd ei le o fewn cwrtil Safle Treftadaeth y Byd arysgrifedig – *Cestyll a Muriau Trefi'r Brenin Edward yng Ngwynedd* © Rheilffyrdd Ffestiniog ac Eryri.

5.4.2 Cynllun Gweithredu ar gyfer rheoli lleoliad y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig

Amcan 5: Bydd lleoliad y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig a'r golygfeydd i mewn iddo ac allan ohono yn cael eu rheoli i gynnal Gwerth Rhyngwladol Eithriadol arfaethedig yr eiddo er budd cenedlaethau'r dyfodol.

Egwyddor 5.1: Defnyddir mesurau cyfredol i warchod y dirwedd a'r fframwaith cynllunio defnydd tir fel teclyn rheoli i warchod y lleoliad a'r golygfeydd allweddol i mewn i'r Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig ac allan ohono.			
Cam Gweithredu 1	Cynhyrchu Canllawiau Cynllunio Atodol i ddarparu arweiniad manwl.	Tymor byr	Awdurdodau Cynllunio Lleol / Fforwm Tirfeddianwyr / Is-grŵp Cynllunio a Chadwraeth
Egwyddor 5.2: Bydd unrhyw ddatblygiad newydd o ddyluniad, graddfa a màs priodol fel ei fod yn cadw ac yn cyfoethogi Gwerth Rhyngwladol Eithriadol arfaethedig yr eiddo, yn parchu golygfeydd arwyddocaol ac yn atgyfnerthu'r ymdeimlad o gyrraedd.			
Cam Gweithredu 1	Cynhyrchu canllawiau i ddatblygwyr ar arfer gorau wrth ddylunio.	Tymor byr	Awdurdodau Cynllunio Lleol / Is-grŵp Cynllunio a Chadwraeth
Cam Gweithredu 2	Parhau i ddarparu gwasanaeth cynghori cyn cyflwyno cais lle mae posibilrwydd y bydd cynigion yn effeithio ar y Gwerth Rhyngwladol Eithriadol arfaethedig (y lleoliad a'r olygfa i mewn i'r Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig ac allan ohono).	Parhaus	Awdurdodau Cynllunio Lleol
Cam Gweithredu 3	Bydd Cam Gweithredu 2 (uchod) yn sicrhau bod ceisiadau cynllunio yn cynnwys y manylder a'r asesiad priodol sy'n gymesur â natur a graddfa'r datblygiad.	Parhaus	Awdurdodau Cynllunio Lleol

6 Thema 3: Datblygiad Cynaliadwy *Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru*

Mae cyn farics pentref Nantlle (Cydran 3), wedi'u cadw a'u hadfer ac maent bellach yn cael eu defnyddio fel unedau manwerthu a chanolfan gymunedol © Hawlfraint y Goron: CBHC.

6.1 Datblygiad cynaliadwy a lles cenedlaethau'r dyfodol

Amcan 6: Gwarchod a chyfoethogi Gwerth Rhyngwladol Eithriadol y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig drwy gynnal tirwedd fyw a chymunedau sy'n ffynnu.

Egwyddor 6.1: Cefnogir cymunedau i adnabod a gweithredu cyfleoedd adfywio lleol sy'n cynnal Gwerth Rhyngwladol Eithriadol y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig a hyrwyddo'r iaith Gymraeg.

Egwyddor 6.2: Bydd arysgrifiad llwyddiannus fel Safle Treftadaeth y Byd yn sefydlu ymdeimlad o falchder ac uchelgais mewn cymunedau lleol.

Egwyddor 6.3: Bydd treftadaeth y llechi'n flaenoriaeth yng nghynllun strategol Cyngor Gwynedd ar gyfer adfywio economaidd.

Mae enwebiad Safle Treftadaeth y Byd *Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru* yn dathlu'r etifeddiaeth llechi a chenedlaethau o weithwyr llechi a greodd ein tirweddau a'n haneddiadau. Mae'n dirwedd ddiwylliannol sy'n wynebu prosesau esblygiad, twf, dirywiad ac adfywio sy'n gyffredin i bob man byw. Gyda'n gilydd, byddwn yn bodloni anghenion cymunedau llechi heddiw ac yn y dyfodol, drwy gymhwyso egwyddorion datblygu cynaliadwy. Dyma egwyddor graidd *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol* (2015), Llywodraeth Cymru – ac mae'n cael ei gydnabod fel y dull o gyflawni'r nodau llesiant (gweler adrannau **1.3** a **3.3**) fydd yn sicrhau dyfodol cymunedau byw yng Nghymru.

Mae datblygiad cynaliadwy yn bodloni anghenion y presennol heb gyfaddawdu dyheadau cenedlaethau'r dyfodol. Mae wrth graidd ein system gynllunio yng Nghymru, fel y'i gweithredir gan Gyngor Gwynedd ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Am y rheswm hwn, nid oes angen unrhyw reolaethau statudol newydd i reoli'r Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig. Mae mecanweithiau presennol yn golygu y gellir cydbwyso'r Gwerth Rhyngwladol Eithriadol arfaethedig gyda'r angen i gynnal cymunedau, heddiw ac yn y dyfodol. Anogir datblygiad sy'n sensitif i'r dirwedd lechi ac i gymeriad lleol ein

Mae'r patrwm hwn o siopau a thafarnau yn nodweddiadol o Stryd Fawr Bethesda yng Nghydran 1. Bydd arysgrifiad Treftadaeth y Byd yn dod â buddion economaidd a chymdeithasol i gymunedau yn y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig © Cyngor Gwynedd.

haneddiadau, yn yr un modd â chynlluniau sy'n parchu ac yn cyfoethogi gwerthoedd y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig. Uchelgais sylfaenol Cyngor Gwynedd a'i bartneriaid yw datblygu cymunedau cynaliadwy a hyfyw sy'n darparu tai a chyflogaeth fel sylfeini i ddiogelu iaith a diwylliant Cymraeg sy'n ffynnu ac yn fyw.

Mae *The 2030 Agenda for Sustainable Development*, a fabwysiadwyd gan bob Aelod Wladwriaeth o'r Cenhedloedd Unedig yn 2015, yn darparu glasbrint a rennir ar gyfer heddwch a ffyniant y bobl a'r blaned, nawr ac yn y dyfodol. Wrth ei wraidd mae 17 o Nodau Datblygu Cynaliadwy (SDGs), sy'n alwad frys am weithredu gan bob gwlad – datblygedig a datblygol – mewn partneriaeth fyd-eang. Maent yn cydnabod bod rhoi terfyn ar dlodi ac amddifadedd yn gorfod mynd law yn llaw â strategaethau sy'n gwella iechyd ac addysg, lleihau anghydraddoldeb, ac ennyn twf economaidd – ac ar yr un pryd bod rhaid mynd i'r afael â newid hinsawdd a gweithio i ddiogelu ein moroedd a'n coedwigoedd. Mae'r enwebiad Treftadaeth y Byd yn allweddol wrth geisio cyflwyno amcanion yr 17 o Nodau Datblygu Cynaliadwy o fewn *Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru*.

6.1.1 Blaenoriaethau

Mae Grŵp Llywio'r Bartneriaeth wedi adnabod bod creu cyfleoedd cyflogaeth o ansawdd a chyrchfannau, trefi ac atyniadau deniadol yn ffordd o sicrhau cymunedau cryf a chadarn. Mae hyrwyddo a diogelu treftadaeth, diwylliant, tirweddau ac iaith unigryw'r rhanbarth oll yn flaenoriaethau yng *Nghynllun Economaidd Llechi Cymru*. Yn ogystal â defnyddio ei adnoddau ei hun, mae Cyngor Gwynedd a'i bartneriaid wedi sicrhau cyllid o nifer o ffynonellau, gan gynnwys Cronfa Dreftadaeth y Loteri, Llywodraeth Cymru, Parc Cenedlaethol Eryri a'r Undeb Ewropeaidd, i ddatblygu cyfres o strategaethau a gweithgareddau sy'n seiliedig ar dreftadaeth ar gyfer lleoliadau allweddol yn y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig. Mae'r ymdrechion yn parhau a byddant yn parhau i'r dyfodol i sicrhau cyllid i ddatblygu cyfleoedd adfywio.

Bydd y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig, yn ddi-os, yn gweld newidiadau yn ystod y cyfnod y cyfeirir ato yng *Nghynllun Rheoli Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru* wrth i'r ardal barhau i esblygu a datblygiadau newydd ddigwydd. Bwriad y ddogfen hon yw cynorthwyo i arwain y newidiadau hyn i sicrhau eu bod yn bodloni anghenion lleol, a'u bod yn gyson ag amcanion UNESCO a ffocws Llywodraeth Cymru ar ddatblygu cynaliadwy fel y'i mynegir drwy *Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*.

Bydd Awdurdodau Cynllunio Lleol yn rheoli datblygiad drwy weithredu *Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd (2017)* a *Chynllun Datblygu Lleol Eryri (2016)*. Mae'r rhain yn gynlluniau datblygu statudol sy'n darparu polisïau strategol a manwl i reoli materion megis newid yn y dirwedd a'r effaith weledol, dirywiad neu golli cynefinoedd, ymdrin ag anghenion tai a chyflogaeth, ac (ar y cyd â pholisi a deddfwriaeth cynllunio cenedlaethol) gwarchod safleoedd ac adeiladau o bwys. Mae'r egwyddor o osgoi effeithiau andwyol ar Safleoedd Treftadaeth y Byd a'u lleoliad, a'r Parc Cenedlaethol a'i leoliad, wedi'i gwreiddio'n gadarn yn y Cynlluniau Datblygu Lleol hyn.

6.1.2 Cynllun Gweithredu ar gyfer datblygiad cynaliadwy a lles cenedlaethau'r dyfodol

Amcan 6: Gwarchod a chyfoethogi Gwerth Rhyngwladol Eithriadol y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig drwy gynnal tirwedd fyw a chymunedau sy'n ffynnu.

Egwyddor 6.1: Cefnogir cymunedau i adnabod a gweithredu cyfleoedd adfywio lleol sy'n cynnal Gwerth Rhyngwladol Eithriadol arfaethedig y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig a hyrwyddo'r iaith Gymraeg.			
Cam Gweithredu 1	Ceisir cyfleoedd ariannu i ddatblygu gweithgareddau adfywio sy'n cadw neu'n cyfoethogi'r Gwerth Rhyngwladol Eithriadol arfaethedig.	Tymor canolig	Perchnogion Safle / Grwpiau Cymunedol / Grŵp Llywio'r Bartneriaeth
Cam Gweithredu 2	Datblygir *Cynlluniau Cynefin* (strategaethau adfywio sy'n seiliedig ar le), ar gyfer cymunedau allweddol, gydag adfywio sy'n cael ei arwain gan dreftadaeth a hyrwyddo'r iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymraeg yn greiddiol iddynt.	Tymor byr	*LleCHI* / Grwpiau Cymunedol
Egwyddor 6.2: Bydd arysgrifiad llwyddiannus fel Safle Treftadaeth y Byd yn sefydlu ymdeimlad o falchder ac uchelgais mewn cymunedau lleol.			
Cam Gweithredu 1	Datblygir cynlluniau Llysgenhadon ar gyfer amrediad o oedrannau / sectorau.	Tymor byr	*LleCHI* / Partneriaid / Grwpiau Cymunedol / Ysgolion
Egwyddor 6.3: Bydd treftadaeth llechi'n parhau'n flaenoriaeth yng nghynllun strategol Cyngor Gwynedd ar gyfer adfywio economaidd.			
Cam Gweithredu 1	Pe llwyddid i gael arysgrifiad llwyddiannus, byddai *Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru* yn parhau i gael ei adnabod yn flaenoriaeth ym mlaenoriaethau adfywio economaidd Cynllun Strategol Cyngor Gwynedd.	Tymor canolig	Aelodau Etholedig Cyngor Gwynedd

6.2 Diwydiannau cloddio (chwarelydda a mwyngloddio)

Amcan 7: Diwydiant mwynau cynaliadwy.

Egwyddor 7.1: Nid oes cloddio am fwynau crai yn digwydd o fewn ffin y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig nac o fewn ffin Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

Egwyddor 7.2: Rheolir cloddio am fwynau crai a gweithio eilaidd y tu allan i'r Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig drwy'r broses gynllunio mwynau bresennol.

Egwyddor 7.3: Hyrwyddir crefftau llechi a sgiliau cadwraeth, ynghyd â chefnogaeth sgiliau ar gyfer y diwydiant cloddio llechi cyfoes.

Egwyddor 7.4: Cynhelir cyflenwad cynaliadwy o ddeunyddiau cadwraeth ac agregau a dylid gwneud y defnydd mwyaf o agregau eilaidd lle bynnag y bo modd.

Mae *Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru* wedi'i llunio a'i dylanwadu gan gloddio a gweithio llechi, a'u cludo o'r ffynhonnell i farchnadoedd rhyngwladol. Mae gweithrediad parhaus y diwydiant llechi yng Nghymru yn dystiolaeth o ansawdd a dymunoldeb llechi Cymreig, ac mae'r diwydiant yn chwarae rhan bwysig yn niwylliant ac economi'r rhanbarth ac o ran cynnal eiddo hanesyddol a chymeriad lleol ledled Cymru ac ar draws y byd. Bydd y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig yn cael ei reoli i gynorthwyo'r diwydiant rhanbarthol pwysig hwn i ffynnu a datblygu.

Oherwydd eu natur, mae chwarelydda a mwyngloddio yn gwneud i'w hamgylcheddau newid, ac fe all hyn arwain at golli nodweddion hanesyddol. O ganlyniad, ac er mwyn diogelu hyfywedd economaidd y sector i'r dyfodol, mae ffiniau'r Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig wedi cael eu tynnu mewn cytundeb â thirfeddianwyr a'r awdurdod cynllunio fel nad ydynt ond yn cynnwys gweithfeydd hanesyddol lle nad oes gweithrediadau mwynau yn digwydd mwyach, ac er mwyn eithrio unrhyw ganiatâd mwynau presennol ac ardaloedd lle mae tirfeddianwyr yn rhagweld y gellir echdynnu mwynau yn y dyfodol. Felly, nid oes unrhyw weithio mwynau yn digwydd o fewn ffin y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig.

Bydd unrhyw fwyngloddio cyfredol, tipio, prosesu ac ail-weithio eilaidd yn digwydd y tu allan i'r Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig. Rheolir yr holl weithrediadau dan y ddeddfwriaeth gynllunio mwynau presennol ac nid yw hyn yn effeithio ar briodweddau'r Gwerth Rhyngwladol Eithriadol arfaethedig. Maent yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i'r economi leol, ac yn cefnogi gwerth y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig mewn sawl ffordd:

- Maent yn cynnal treftadaeth anniriaethol y grefft o chwarelydda a phrosesu llechi, a thrwy hynny yn hybu dehongliadau ac arddangosiadau.
- Maent yn sicrhau cyflenwad parhaus o lechi ar gyfer gofynion cadwraeth yn y dyfodol yn y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig, ac ar draws y byd.
- Maent yn ymdrin ag anghenion economaidd a chymdeithasol y rhanbarth drwy ddarparu cyflogaeth barhaus i bobl leol, gan sicrhau bod yr aneddiadau o fewn a gerllaw *Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru* yn parhau i fod yn lleoedd hyfyw a chyffrous i fyw ynddynt, heddiw ac yn y dyfodol, ac yn lleoedd lle mae'r iaith a'r diwylliant Cymraeg yn parhau i ffynnu.

- Maent yn cyfrannu at y ddealltwriaeth o Werth Rhyngwladol Eithriadol *Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru* o ran bod y tirffurfiau chwarel esblygol hyn yn creu ac yn cynnal amgylchedd dramatig sy'n cryfhau cymeriad yr elfennau archeolegol diwydiannol creiriol yn y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig ei hun, ac felly'n llunio nodwedd gysylltiedig o bwys.
- Maent yn cynnal diwydiant cyfredol sy'n bodloni blaenoriaeth *Polisi Cynllunio Cymru, Rhifyn 10 a Nodyn Cyngor Technegol Mwynau 1 (MTAN1)* o ran pwysigrwydd y sector agregau eilaidd fel ffynhonnell o ddeunyddiau ar gyfer y diwydiant adeiladu.

Mae holl weithrediadau o'r fath yn cael eu rheoli drwy broses caniatâd mwynau presennol Cyngor Gwynedd. Gwneir penderfyniadau yn unol â Chynlluniau Datblygu Lleol oni bai bod ystyriaethau cynllunio perthnasol yn nodi fel arall. Mae *Polisi MWYN 3: Datblygiadau mwynau yn Ardaloedd Awdurdod Cynllunio Lleol Ynys Môn a Gwynedd* yn cynnwys maen prawf sy'n ceisio osgoi effaith andwyol arwyddocaol i safleoedd o bwysigrwydd rhyngwladol, cenedlaethol, rhanbarthol neu leol o ran yr amgylchedd, cadwraeth natur, y dirwedd ac / neu dreftadaeth. *Mae Polisi PS 20: Cadw a lle bo'n briodol gwella asedau treftadaeth* a *Pholisi AT 1: Ardaloedd cadwraeth, Safleoedd Treftadaeth y Byd a Thirweddau Cofrestredig, Parciau a Gerddi* hefyd yn berthnasol wrth asesu cynlluniau o fewn y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig.

6.2.1 Cynllun gweithredu ar gyfer diwydiannau cloddio (chwarelydda a mwyngloddio)

Amcan 7: Diwydiant mwynau cynaliadwy.

Egwyddor 7.1: Nid yw echdynnu mwynau sylfaenol yn digwydd o fewn ffin y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig nac o fewn ffin Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.			
Cam Gweithredu 1	Nid oes angen cam gweithredu.		
Egwyddor 7.2: Rheolir cloddio am fwynau crai a gweithio eilaidd y tu allan i'r Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig drwy'r broses gynllunio mwynau bresennol.			
Cam Gweithredu 1	Bydd pob caniatâd yn destun adolygiad achlysurol, a bydd gofyn cadw at amodau'r caniatâd.	Parhaus	Gwasanaeth Cynllunio Mwynau a Gwastraff Gogledd Cymru
Egwyddor 7.3: Hyrwyddir crefftau llechi a sgiliau cadwraeth, ynghyd â chefnogaeth sgiliau ar gyfer y diwydiant mwyngloddio llechi cyfoes.			
Cam Gweithredu 1	Bydd hyfforddiant / darpariaeth / hyrwyddo medrau traddodiadol yn digwydd mewn partneriaeth â busnesau, sefydliadau cymunedol a darparwyr addysg / hyfforddiant.	Tymor canolig	Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd / Partneriaid
Egwyddor 7.4: Cynhelir cyflenwad cynaliadwy o ddeunyddiau cadwraeth ac agregau a dylid gwneud y defnydd mwyaf o agregau eilaidd lle bynnag y bo modd.			
Action 1	Sicrhau bod y diwydiant chwarelydda llechi presennol yn cael ei gefnogi er mwyn sicrhau cyflenwad parhaus o ddeunyddiau.	Parhaus	Gwasanaeth Cynllunio Mwynau a Gwastraff Gogledd Cymru

Mae llechi'r Penrhyn wedi'u defnyddio i ail-doi Castell Buda, Safle Treftadaeth y Byd yn Hwngari © Breedon Group plc.

6.3 Datblygiad cynaliadwy ac ynni adnewyddadwy

Amcan 8: Sicrhau y datblygir yr awydd am ynni adnewyddadwy mewn cytgord â Gwerth Rhyngwladol Eithriadol arfaethedig y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig.

Egwyddor 8.1: Cefnogir cynlluniau sy'n defnyddio adnoddau naturiol heb effeithio ar y Gwerth Rhyngwladol Eithriadol arfaethedig ar yr amod eu bod yn dilyn gofynion *Cynllun Datblygu Lleol Eryri 2016–2031*: Polisi Datblygu 3 a lle bo'n berthnasol, Polisi Strategol B (Chwefror 2019), a *Chynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn*.

Egwyddor 8.2: Cefnogir cynlluniau ynni nad ydynt yn effeithio ar y Gwerth Rhyngwladol Eithriadol arfaethedig, ac sy'n cydymffurfio â pholisi cynllunio cyfredol.

Mae Nodau Datblygu Cynaliadwy UNESCO, ac yn enwedig *Nod 7, Ynni Glân Fforddiadwy*, yn tynnu sylw at bwysigrwydd ffynonellau adnewyddadwy wrth gyflawni dyfodol cynaliadwy. Rhagwelir y bydd cefnogaeth i gynlluniau ynni adnewyddadwy yn creu mwy o fudd cyhoeddus drwy alluogi cyfleoedd economaidd a chyflogaeth ehangach, gan sicrhau bod y cymunedau a sefydlwyd yn wreiddiol fel aneddiadau i weithwyr y chwarel yn parhau i fod yn hyfyw a bod y gymuned yn parhau i uniaethu â'r amgylchedd hanesyddol. Tybir hefyd y bydd datblygu ffrydiau refeniw lleol yn cefnogi'r gwaith trwsio, cynnal a chadw a chadwraeth yn y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig (gweler *Egwyddorion Cadwraeth ar Waith: Integreiddio Cadwraeth â Diddordebau Eraill a Galluogi Datblygiad*).

Mae'n rhaid i bob cynllun ynni adnewyddadwy gael seilwaith a mynediad ac fe allai hynny gael gwaeth effaith na'r datblygiad arfaethedig ei hun. Bydd y rhain yn cael eu hasesu yn erbyn polisïau cynllunio lleol perthnasol.

Ynni dŵr

Mae twll llawn dŵr Chwarel Dorothea (Cydran 3) yn arbennig yn cynnig cyfleoedd i ddatblygu ar raddfa eang ddarpariaeth cynhyrchu a storio ynni dŵr wedi ei bwmpio – dyma dechnoleg y profwyd ei bod yn hwyluso rhwydwaith ynni sy'n seiliedig ar ddeunyddiau adnewyddadwy. Mae enghreifftiau yng Nghydran 2, a gerllaw, wedi dangos y gellir datblygu cynlluniau o'r fath ar raddfa hynod sylweddol heb lawer o ymyrraeth weledol, ac mewn ffordd sy'n cyd-fynd â'r dasg hirdymor o warchod a chyfoethogi'r Gwerth Rhyngwladol Eithriadol, drwy leoli pibellau a thyrbinau o dan y ddaear. Mae cynlluniau ar raddfa fawr yn darparu budd economaidd drwy gynnig cyflogaeth uniongyrchol ynghyd â thwristiaeth, fel sy'n digwydd yng Ngorsaf Bŵer Dinorwig.

Ynni solar ac ynni gwynt

Efallai yr addasir rhai cynlluniau meicro-gynhyrchu i fodloni gofynion Egwyddor 8.1. Fodd bynnag, yn gyffredinol, mae cynlluniau ynni solar ac ynni gwynt ar raddfa fawr yn cyflwyno elfennau gweledol niweidiol i'r dirwedd ac mae'n annhebygol y byddant yn cael eu cefnogi yn sgil dynodiadau tirwedd presennol a pholisïau cynllunio presennol yn y ddau Gynllun Datblygu Lleol.

Mae twll Chwarel Dorothea (Cydran 3) yn benodol addas ar gyfer storio'r dŵr sydd ei angen ar gyfer storio a chynhyrchu ynni dŵr wedi ei bwmpio © Hawlfraint y Goron: CBHC.

6.3.1 Cynllun gweithredu ar gyfer datblygiad cynaliadwy ac ynni adnewyddadwy

Amcan 8: Sicrhau y datblygir uchelgais ynni adnewyddadwy mewn cytgord â Gwerth Rhyngwladol Eithriadol arfaethedig y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig.

Egwyddor 8.1: Cefnogir cynlluniau sy'n defnyddio adnoddau naturiol heb effeithio ar y Gwerth Rhyngwladol Eithriadol, yn amodol ar ofynion *Cynllun Datblygu Lleol Eryri 2016–2031*: Polisi Datblygu 3 a lle bo'n berthnasol, Polisi Strategol B (Chwefror 2019), a *Chynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn*.

Cam Gweithredu 1	Annog cyfarfodydd cyn gwneud cais cynllunio ar gyfer pob datblygiad y tu mewn i'r ffin neu ger y ffin.	Parhaus	Awdurdodau Cynllunio Lleol
Cam Gweithredu 2	Dilyn canllaw ICOMOS ar asesiadau effaith treftadaeth ar gyfer cynlluniau datblygu arwyddocaol.	Parhaus	Awdurdodau Cynllunio Lleol
Cam Gweithredu 3	Cysylltu ag ICOMOS-UK ynglŷn â datblygiadau mawr a chanddynt y gallu i effeithio ar Werth Rhyngwladol Eithriadol y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig.	Parhaus	Awdurdodau Cynllunio Lleol / Grŵp Llywio'r Bartneriaeth

Egwyddor 8.2: Cefnogir cynlluniau ynni nad ydynt yn effeithio ar y Gwerth Rhyngwladol Eithriadol arfaethedig, ac sy'n cydymffurfio â pholisi cynllunio cyfredol.			
Cam Gweithredu 1	Annog cyfarfodydd cyn gwneud cais cynllunio ar gyfer pob datblygiad y tu mewn i'r ffin neu ger y ffin.	Parhaus	Awdurdodau Cynllunio Lleol
Cam Gweithredu 2	Dilyn canllaw ICOMOS ar asesiadau effaith treftadaeth ar gyfer cynlluniau datblygu arwyddocaol.	Parhaus	Awdurdodau Cynllunio Lleol
Cam Gweithredu 3	Cysylltu ag ICOMOS-UK ynglŷn â datblygiadau mawr a chanddynt y gallu i effeithio ar Werth Rhyngwladol Eithriadol y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig.	Parhaus	Awdurdodau Cynllunio Lleol / Grŵp Llywio'r Bartneriaeth

6.4 Adfywio a datblygiad economaidd

Amcan 9: Bydd Grŵp Llywio'r Bartneriaeth yn hyrwyddo *Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru* i gefnogi amrywiaeth economaidd ac adfywiad sy'n cael ei arwain gan dreftadaeth.

Egwyddor 9.1: Pe ceid arysgrifiad llwyddiannus, anogir cyfleoedd adfywio sy'n ategu neu sy'n cyfoethogi'r Safle Treftadaeth y Byd ac sy'n cydymffurfio â pholisïau'r Cynlluniau Datblygu Lleol.

Egwyddor 9.2: Defnyddir cadwraeth asedau hanesyddol fel ysgogiad i annog datblygiad a pharhad sgiliau traddodiadol a gwaith cadwraeth arbenigol.

Egwyddor 9.3: Bydd cydweithio gyda mentrau perthnasol eraill yn cyfoethogi cyfleoedd economaidd (e.e. Safle Treftadaeth y Byd *Cestyll a Muriau Trefi'r Brenin Edward yng Ngwynedd*, Cynllun Rheoli Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri).

Gall adfywio sy'n cael ei arwain gan dreftadaeth, drwy ailddefnyddio adeiladau hanesyddol neu asedau hanesyddol eraill, sicrhau cynaliadwyedd cymuned leol (gweler *Egwyddorion Cadwraeth ar Waith: Integreiddio Cadwraeth â Diddordebau Eraill*). Gall fod yn ysgogiad cadarnhaol i gyflawni newid economaidd mewn ardal, i greu swyddi, cymell gwelliannau ehangach, a datblygu ymhellach falchder cymunedol, hunaniaeth a chefnogaeth i'r iaith Gymraeg. Mae hyn yn berthnasol iawn i ardaloedd mewn Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig a all fod yn dioddef o lefelau cymharol uchel o amddifadedd a diffyg swyddi tra-medrus, ond sy'n gadarnleoedd i'r iaith Gymraeg.

Mae chwareli creiriol yng Nghydrannau 1 a 5 wedi elwa trwy gyflwyno cyfleusterau twristiaeth antur, gan gynnwys beicio mynydd, fforio tanddaearol a gwifrau sip, sydd wedi denu cynulleidfaoedd newydd i'r tirweddau trawiadol hyn ac wedi creu cyfleoedd mynediad na fyddai wedi bodoli fel arall. Nid yw gweithgareddau o'r fath yn cael fawr o effaith ar Werth Rhyngwladol Eithriadol arfaethedig y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig,

Taith danddaearol 'Go Below' yn Chwarel Cwmorthin yng Nghydran 5. Mae'r sesiwn briffio ar gyfer cyfranogwyr yn cynnwys hanes y safle a chyfarwyddiadau ar sut i beidio â difrodi'r dreftadaeth © Go Below.

Antur 'Stiniog. Beicio Mynydd ym Mlaenau Ffestiniog © Cyngor Gwynedd.

ac mewn sawl achos, megis y gwifrau sip, gallant ail-greu esthetig diwydiannol y dirwedd chwareli, a gwella mynediad i ymwelwyr a'r ddealltwriaeth o'r dirwedd ddiwydiannol. Mae cyfleusterau twristiaeth antur ar draws y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig yn cael eu cynllunio'n ofalus dan bolisi presennol i atal erydiad neu ddifrod diangen i'r dirwedd,

Podiau glampio yn chwarel Llechwedd yn Ffestiniog © Greaves Welsh Slate Company Ltd.

ac ni anogir unrhyw gynlluniau i agor llwybrau i gerbydau modur (e.e. cerbydau 4x4 *off-road* neu feiciau modur).

Mae'r cyfleoedd adfywio a arweinir gan dreftadaeth a allai godi yn ystod oes y cynllun rheoli yn cynnwys datblygiadau yn Chwareli Dorothea a Llechwedd, ac ym Mlaenau Ffestiniog a Bethesda. Hefyd, gallant godi o ganlyniad uniongyrchol i brosiect LleCHI. Bydd prosiect LleCHI yn creu cynllun adfywio cymunedol, *Cynllun Cynefin*, ym mhob un o'r prif aneddiadau sy'n gysylltiedig ag ardal y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig, gan amlinellu syniadau am brosiectau adfywio â threftadaeth.

Heblaw am y datblygiad dŵr posib yng Nghydran 3, ni ragwelir unrhyw bwysau sylweddol am ddatblygiad masnachol mawr yn y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig na gerllaw iddo. Croesawir ailddatblygu neu ailadeiladu adeiladau chwarel presennol mewn ffordd ddeallus, neu adeiladu adeiladau newydd priodol at ddibenion masnachol, megis llety, bwytai, swyddfeydd, diwydiannau bwthyn, gweithgareddau economaidd neu seilwaith ar gyfer twristiaeth effaith isel, yn unol â'r polisïau cynllunio perthnasol.

Twristiaeth Gynaliadwy

Mae Grŵp Llywio'r Bartneriaeth yn cydnabod pwysigrwydd twristiaeth gyfrifol a chynaliadwy ac yn cydnabod y gall arysgrifiad effeithio ar ardaloedd a chymunedau. Ar hyn o bryd, mae Cyngor Gwynedd yn adolygu ei strategaeth twristiaeth a rheoli cyrchfan, yn y bwriad o gyhoeddi *Cynllun Rheoli Cyrchfan a Thwristiaeth* newydd yn ystod 2020. Bydd y cynllun newydd yn rhoi ystyriaeth i nod Sefydliad Twristiaeth y Byd y Cenhedloedd Unedig o weld twristiaeth fel gyrrwr twf economaidd, datblygiad cynhwysol a chynaliadwyedd amgylcheddol. Ar hyn o bryd, mae'r egwyddorion sy'n amlygu eu

Adeiladwyd Plas Tal y Weunydd yng Nghydran 5 yn y 1870au a dyma gyn-gartref un o'r teuluoedd a oedd yn berchen ar Chwarel Llechwedd. Mae wedi cael ei droi'n westy gan gwmni sy'n gweithredu'n lleol, gan gadw ei gymeriad hanesyddol ar yr un pryd © Greaves Welsh Slate Company Ltd.

hunain yng Ngwynedd yn cynnwys: dathlu pa mor unigryw yw'r ardal a'r iaith Gymraeg, Cymunedau Byw a Chynaliadwy, Gwell gwerth o'r sector i gymunedau a phobl, Gweithio mewn Partneriaeth, Llesiant a Chynaliadwyedd.

6.4.1 Cynllun gweithredu ar gyfer adfywio a datblygiad economaidd

Amcan 9: Bydd Grŵp Llywio'r Bartneriaeth yn hyrwyddo *Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru* er mwyn cefnogi amrywiaeth economaidd ac adfywiad sy'n cael ei arwain gan dreftadaeth.

Egwyddor 9.1: Pe ceid arysgrifiad llwyddiannus, anogir cyfleoedd adfywio sy'n ategu neu gyfoethogi'r Safle Treftadaeth y Byd ac sy'n cydymffurfio â pholisïau'r Cynlluniau Datblygu Lleol.			
Cam Gweithredu 1	Adwaenir a blaenoriaethir cyfleoedd adfywio yn y *Cynlluniau Cynefin* (strategaethau adfywio a arweinir gan dreftadaeth).	Parhaus	*LleCHI* / Partneriaid / Grŵp Llywio'r Bartneriaeth
Cam Gweithredu 2	Bydd cyfleoedd datblygiad economaidd ehangach sy'n cyd-fynd â pholisïau cynllunio gofodol lleol ac sy'n cyfrannu at y Gwerth Rhyngwladol Eithriadol arfaethedig neu leoliad ac sy'n cefnogi'r iaith Gymraeg yn cael eu hadnabod a'u blaenoriaethu.	Parhaus	Partneriaethau / Perchnogion Safle / Buddsoddwyr
Egwyddor 9.2: Defnyddir cadwraeth asedau hanesyddol fel ysgogiad i annog datblygiad a pharhad sgiliau traddodiadol a gwaith cadwraeth arbenigol.			
Cam Gweithredu 1	Defnyddio hyfforddiant ymarferol i gyflwyno elfennau o'r ddarpariaeth Medrau Traddodiadol.	Parhaus	Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd / Partneriaid
Cam Gweithredu 2	Cefnogi ymdrechion cadwraeth preifat a gwirfoddol presennol.	Parhaus	Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd / Partneriaid

Egwyddor 9.3: Bydd cydweithio gyda mentrau perthnasol eraill yn cyfoethogi cyfleoedd economaidd (e.e. Safle Treftadaeth y Byd *Cestyll a Muriau Trefi'r Brenin Edward yng Ngwynedd*, Cynllun Rheoli Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri).			
Cam Gweithredu 1	Dull cydlynol o ddatblygu cynlluniau / prosiectau adfywio.	Parhaus	Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd / Partneriaid
Cam Gweithredu 2	Mynd â chyfleoedd adfywio unigol ymlaen drwy gyflwyno prosiectau cydweithio.	Parhaus	Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd / Partneriaid

6.5 Tai a chymunedau

Amcan 10: Cymunedau cynaliadwy.

Egwyddor 10.1: Bydd yr holl dai newydd o fewn y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig neu gerllaw iddo yn ystyried yr angen i warchod y Gwerth Rhyngwladol Eithriadol arfaethedig.

Egwyddor 10.2: Bydd Grŵp Llywio'r Bartneriaeth yn annog cadwraeth ddeallus o'r elfennau nodedig o'r amgylchedd adeiledig sy'n cyfrannu at y cymeriad hanesyddol, gan ystyried argymhellion yr Astudiaethau Cymeriad Trefol fel canllaw ar gyfer arfer dda.

Egwyddor 10.3: Bydd y Bartneriaeth yn chwilio am ddatrysiadau ac yn mynd ati'n weithredol i annog ailddefnydd o adeiladau hanesyddol segur, gan gynnwys addoldai, mewn ffordd na fydd yn cyfaddawdu cyfanrwydd archeolegol yr asedau hyn.

Mae aneddiadau hanesyddol yn y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig wedi bod yn destun Astudiaethau Cymeriad Trefol sydd wedi adnabod patrymau stryd cyffredin, arddull a gweledigaeth bensaerïol a manylder graddfa fechan ond nodweddiadol, ac wedi gwneud argymhellion er mwyn eu cadw'n briodol. Mae adeiladau allweddol wedi'u rhestru.

Mae *Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd* yn ceisio creu cymunedau cymysg cynaliadwy ar gyfer trigolion presennol ac yn y dyfodol gan sicrhau bod mathau priodol o dai yn cael eu darparu. Mae lefel y twf a ragwelir yng *Nghynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd* yn seiliedig ar lefel yr anghenion tai a ragwelir, wedi'i gydbwyso yn erbyn y posibilrwydd o allu cyflwyno, y cyfyngiadau amgylcheddol a thirweddol, y rhagolygon economaidd a demograffig a'r proffil demograffig posib. Bydd y lefel twf hwn yn cael ei ddosbarthu yn unol â Pholisi Strategol PS 17 a Pholisïau TAI 1 i TAI 6. Byddai'n rhaid i ddatblygiadau tai arfaethedig gydymffurfio â'r holl bolisïau sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â dyluniad, tirweddu ac asedau hanesyddol (lle bo hynny'n berthnasol).

Mae *Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd* wedi adnabod dyraniad tai yng Nghydran 1 ym Mangor ac o fewn Cydran 2 yn Neiniolen, ac ym Mlaenau Ffestiniog ger Cydran 5. Mae polisi'r CDLl *TAI 6: Tai mewn Clystyrau* yn gofyn bod cynlluniau ar gyfer unedau tai newydd yn cydymffurfio â meini prawf, lle mae'r canlynol yn berthnasol: Bydd unedau tai fforddiadwy ar gyfer angen lleol yn cael eu caniatáu ar leiniau mewnlenwi

Mae aneddiadau poblog yn cynnal patrymau hanesyddol y strydoedd, a'r gerddi a'r ffiniau, sy'n rhoi eglurhad i'w lleoliad, eu perchnogaeth, a'u perthynas â phatrymau meddiant tir cyn y cyfnod Diwydiannol. Mae mân fanylion hefyd yn bwysig, megis y crawiau llechi hyn mewn cae ger Abergynolwyn, Cydran 6 © Hawlfraint y Goron: CBHC.

neu leiniau sy'n ymestyn y clwstwr mewn lleoliadau derbyniol a chynaliadwy. Nid oes unrhyw ffiniau datblygu ar gyfer y Clystyrau, a dim ond safleoedd ger annedd wedi'i lliwio ar y mapiau perthnasol fydd yn cael eu hystyried.

Mae'r tebygolrwydd cynyddol y bydd addoldai, tafarndai a chyfleusterau cymunedol eraill sy'n mynd yn segur yn peryglu cymeriad hanesyddol, ac mae'r lefel uchel o ail-gartrefi wedi'i adnabod fel risg i gynaliadwyedd cymunedau lleol. Mae Cyngor Gwynedd wedi cyflwyno Premiwm Treth Cyngor ar Ail Gartrefi a thai gwag hirdymor, gan nodi y codir premiwm o 50 y cant ar eiddo sydd wedi bod yn wag a heb eu hailddodrefnu'n sylweddol am gyfnod o 12 mis neu fwy, o 1 Ebrill 2018 ymlaen.

Mae *Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd* wedi adnabod safleoedd sydd wedi'u dyrannu ar gyfer tai ym Mholisïau TAI 1 a TAI 3 yng Nghydran 1 ym Mangor ac o fewn Cydran 2 yn Neiniolen, ac ym Mlaenau Ffestiniog ger Cydran 5. Mae'r dyraniadau hyn yn golygu bod datblygiadau tai ar y safleoedd hyn yn dderbyniol mewn egwyddor, yn amodol ar ystyriaethau cynllunio perthnasol fydd yn cynnwys rhoi ystyriaeth briodol i'r Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig.

Mae polisi'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd *TAI 6: Tai mewn Clystyrau* yn mynnu bod cynlluniau ar gyfer unedau tai newydd yn cydymffurfio â meini prawf, lle mae'r canlynol yn berthnasol: Bydd unedau tai fforddiadwy ar gyfer angen lleol yn cael eu caniatáu ar leiniau mewnlenwi neu leiniau sy'n ymestyn y clwstwr mewn lleoliadau derbyniol a chynaliadwy. Nid oes unrhyw ffiniau datblygu ar gyfer y Clystyrau, a dim ond safleoedd ger annedd wedi'i liwio ar y mapiau perthnasol fydd yn cael eu

Mae'r tu mewn i gapeli yng Nghymru yn grand a godidog, fel y gwelir yng Nghapel Jerusalem ym Methesda (Cydran 1), ond maent yn peri her gadwraeth hirdymor © Hawlfraint y Goron: CBHC.

hystyried. Eto, bydd y rhain yn cael eu hasesu yn erbyn polisïau cynllunio perthnasol ac ystyriaethau cynllunio perthnasol eraill gan gynnwys, lle bo'n briodol, y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig.

6.5.1 Cynllun gweithredu ar gyfer tai a chymunedau

Amcan 10: Cymunedau cynaliadwy.

Egwyddor 10.1: Bydd yr holl dai newydd o fewn y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig neu gerllaw iddo yn ystyried yr angen i warchod y Gwerth Rhyngwladol Eithriadol arfaethedig.			
Cam Gweithredu 1	Defnyddio polisi cynllunio presennol i sicrhau bod pob datblygiad yn briodol ac yn ystyried y Gwerth Rhyngwladol Eithriadol arfaethedig.	Parhaus	Awdurdodau Cynllunio Lleol
Egwyddor 10.2: Bydd Grŵp Llywio'r Bartneriaeth yn annog cadwraeth ddeallus o elfennau nodedig yr amgylchedd adeiledig sy'n cyfrannu at y cymeriad hanesyddol, gan ystyried argymhellion yr Astudiaethau Cymeriad Trefol fel canllaw ar gyfer arfer dda.			
Cam Gweithredu 1	Annog cadwraeth asedau adeiledig yn y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig a gerllaw iddo.	Parhaus	Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd / Partneriaid
Cam Gweithredu 2	Annog grwpiau cymunedol a mentrau cymdeithasol i roi ystyriaeth i'r cymeriad hanesyddol wrth ddatblygu prosiectau sy'n ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol adeiledig.	Parhaus	Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd / Partneriaid

Egwyddor 10.3: Bydd Grŵp Llywio'r Bartneriaeth yn chwilio am ddatrysiadau ac yn mynd ati'n weithredol i annog ailddefnyddio adeiladau hanesyddol segur, gan gynnwys addoldai, mewn ffordd na fydd yn cyfaddawdu cyfanrwydd archeolegol yr asedau hyn.			
Cam Gweithredu 1	Gweithio gyda'r gymuned leol a pherchnogion preifat i adnabod a chyflawni prosiectau ailddefnydd cynaliadwy mewn adeiladau hanesyddol segur.	Parhaus	Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd / Partneriaid
Cam Gweithredu 2	Gweithio gyda phartneriaid i adnabod ac ailddefnyddio addoldai segur yn gynaliadwy o fewn y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig.	Parhaus	Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd / Partneriaid

6.6 Amaethyddiaeth a choedwigaeth

Amcan 11: Amaethyddiaeth a choedwigaeth gynaliadwy.

Egwyddor 11.1: Bydd Grŵp Llywio'r Bartneriaeth yn croesawu arallgyfeirio amaethyddol mewn ffyrdd sy'n cyfrannu at fynediad a chadwraeth y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig.

Egwyddor 11.2: Bydd Grŵp Llywio'r Bartneriaeth yn galw am gynlluniau rheoli tir yn gynaliadwy, a fydd yn berthnasol i Safleoedd Treftadaeth y Byd.

Amaethyddiaeth a choedwigaeth yw'r prif ddefnydd a wneir o dir yn y rhanbarth. Ffermydd bychan teuluol yw'r mwyafrif ond mae gostyngiad yn nifer y bobl a gyflogir ar y tir wedi arwain at gyfuno daliadau. Er hynny, mae ffermio wedi mynd yn weithgaredd rhan-amser mewn sawl achos.

Eisoes, mae arallgyfeirio wedi gweld ffermdai a beudai yn cael eu troi yn llety gwely a brecwast neu yn llety hunan-arlwyo, ac mae ffermwyr yn cynyddol groesawu gweithgareddau sy'n ymwneud â thwristiaeth neu weithgareddau masnachol eraill. Mae Cydran 4 yn benodol, sy'n ardal ynysig, yn cynnig cyfleoedd i ffermwyr ddatblygu twristiaeth treftadaeth ddiwydiannol.

Gall amaeth yng Nghymru ddioddef yn sgil diflaniad cymorthdaliadau Ewrop, er bod Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno nifer o gynlluniau i annog cymunedau ffermio i gydweithio drwy ofalu am eu tir mewn ffordd sy'n amgylcheddol gynaliadwy. Gall cynlluniau ystyrlon ddod â manteision i arferion ffermio ac i gadwraeth yr amgylchedd hanesyddol. Gall adfer ffiniau caeau, trwsio giatiau a chynnal a chadw llwybrau oll gynorthwyo gyda rheolaeth tir, yn ogystal â chynnig manteision o ran ymwelwyr a chadwraeth.

Mae coedwigaeth fasnachol wedi'i sefydlu'n gadarn yn y rhanbarth, yn enwedig yng Nghydrannau 5 a 6, lle mae'n hanfodol er mwyn gwarchod a chyfoethogi'n hirdymor y Gwerth Rhyngwladol Eithriadol arfaethedig. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithredu trefn dorri coed sy'n parchu elfennau hanesyddol a rhaglen gynnal a chadw sy'n rheoli twf newydd mewn ardaloedd cofrestredig yn ei ddaliadau tir. Gall rheoli coedwigaeth yn

Gyda dirywiad chwarel Bryneglwys (Cydran 6) yn ystod yr ugeinfed ganrif, aeth nifer o weithwyr y chwarel i weithio i'r Comisiwn Coedwigaeth, ac fe welwyd gordyfiant yn y chwarel ei hun hyd nes y cynhaliwyd rhaglen ddiweddar o dorri coed
© Hawlfraint y Goron: CBHC.

dda gynorthwyo i gryfhau cymeriad y dirwedd hanesyddol. Nid oes llawer o goedwigoedd yng Nghydrannau 1–4 ac felly fe allai cyflwyno planhigfeydd newydd ddifetha cymeriad y dirwedd hanesyddol. Dylai'r cyfeiriadau at Nodweddion y Dirwedd Hanesyddol a'r *Gofrestr o Dirweddau Hanesyddol* arwain pob cynllun plannu yn y dyfodol er mwyn lleihau unrhyw wrthdaro o'r fath.

6.6.1 Cynllun gweithredu ar gyfer amaethyddiaeth a choedwigaeth

Amcan 11: Amaethyddiaeth a choedwigaeth gynaliadwy.

Egwyddor 11.1: Bydd Grŵp Llywio'r Bartneriaeth yn croesawu arallgyfeirio amaethyddol mewn ffyrdd sy'n cyfrannu at fynediad a chadwraeth y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig.			
Cam Gweithredu 1	Annog tirfeddianwyr i ymgorffori dehongli a mynediad at y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig mewn datblygiadau lle bo hynny'n briodol.	Parhaus	Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd / Partneriaid
Egwyddor 11.2: Bydd Grŵp Llywio'r Bartneriaeth yn galw am gynlluniau rheoli tir yn gynaliadwy, a fydd yn berthnasol i Safleoedd Treftadaeth y Byd.			
Cam Gweithredu 1	Cynnal deialog gyda chynrychiolwyr gwleidyddol a chanddynt lais yn y trefniadau ar reoli tir yn gynaliadwy yn y dyfodol.	Parhaus	Grŵp Llywio'r Bartneriaeth

6.7 Trafnidiaeth gynaliadwy

Amcan 12: Bydd Grŵp Llywio'r Bartneriaeth yn annog ac yn hyrwyddo dulliau cludiant cynaliadwy fel ffordd o ymweld â chyrchfannau o fewn y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig.

Egwyddor 12.1: Anogir defnyddio dulliau cludiant cynaliadwy er mwyn ymweld â Chydrannau'r Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig.

Egwyddor 12.2: Bydd Grŵp Llywio'r Bartneriaeth yn annog yn weithredol dduliau trafnidiaeth cynaliadwy gan geisio integreiddio'r diddordeb mewn treftadaeth gyda chludiant cynaliadwy yn y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig ac yn y rhanbarth.

Mae'r rhanbarth yn cael ei gwasanaethu gan rwydwaith o gefnffyrdd a ffyrdd dosbarth A eraill gerllaw neu o fewn pob un Cydran. Mae'r rhain yn darparu mynediad uniongyrchol at nifer o elfennau yn y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig sy'n gweithredu fel atyniadau i ymwelwyr neu sydd ar agor i'r cyhoedd fel arall, ac mae gwelliannau pellach i'r seilwaith ffyrdd ar y gweill o fewn fframwaith cynaliadwy. Fodd bynnag, nid yw amgylchedd mynyddig y rhanbarth yn ei gwneud yn addas i wneud defnydd mwy dwys o gludiant ffordd; polisi cyfredol Cyngor Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri yw lleihau'r angen am deithio mewn ceir preifat.

Mae rheilffyrdd hanesyddol wedi lleihau'r defnydd a wneir o geir mewn amgylchedd naturiol bregus. Dau o drenau Ffestiniog yn croesi yng ngorsaf Tan y Bwlch yng Nghydran 5 © Rheilffyrdd Ffestiniog ac Eryri.

Mae'r rhanbarth wedi'i chysylltu â phrif rwydwaith rheilffyrdd y Deyrnas Unedig trwy'r brif lein o Lundain i Gaergybi sy'n teithio drwy Gydran 1, a changen o'r lein sy'n ymestyn o Gyffordd Llandudno i Flaenau Ffestiniog yng Nghydran 5, yn ogystal â rheilffordd Arfordir y Cambrian, system untrac sy'n rhedeg o'r Amwythig a Birmingham International ac yn teithio drwy Gydrannau 5 a 6. Mae lein y Cambrian yn cysylltu â'r ddwy brif reilffordd stêm dreftadol sy'n rhedeg yn Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig, sef Rheilffordd Ffestiniog, sydd hefyd yn cysylltu â'r gangen o Gyffordd Llandudno, a Rheilffordd Tal-y-llyn. Mae Rheilffordd Eryri yn cysylltu Cydran 5 â Chaernarfon a'i Safle Treftadaeth y Byd. Mae'r amserlenni bws wedi'u cyfuno ag amserlenni'r rheilffyrdd lle bo modd, ac maent yn gwasanaethu pob Cydran yn uniongyrchol, heblaw am Gydran 4. Mae llwybrau beicio sy'n cael eu gweinyddu gan Sustrans, sefydliad nid-er-elw sy'n cael ei gefnogi gan lywodraeth y Deyrnas Unedig, yn pasio drwy Gydrannau 1, 5 a 6 a heibio Cydran 3.

Mae llwybrau troed yn ategu'r dulliau cludiant cynaliadwy, gan gynnwys Llwybr Llechi Eryri sy'n ymestyn am 133km ac sy'n cysylltu Cydrannau 1, 2, 3 a 5, a Llwybrau'r Dyffrynnoedd Llechi, sy'n llwybrau cylchol o fewn Cydrannau 1, 2, 3 a 5. Polisi Cyngor Gwynedd yw gwella cysylltiadau rhwng gwahanol ddulliau cludiant ac annog y defnydd a wneir o gludiant cyhoeddus, beicio a cherdded. Mae *Deddf Teithio Llesol Cymru (2013)* yn nodi cyfrifoldeb yr Awdurdod Lleol i wella cyfleusterau a llwybrau i gerddwyr a beicwyr yn barhaus. Mae Gwynedd wedi bod yn un o'r siroedd sydd wedi bod ar y blaen yn y DU o ran datblygu llwybrau beicio ac mae eu safonau uchel a'u hygyrchedd wedi cael canmoliaeth sylweddol.

Mae Llwybr Llechi Eryri yn galluogi ymwelwyr i grwydro yn nhreftadaeth llechi'r Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig © Cyngor Gwynedd.

6.7.1 Cynllun gweithredu ar gyfer cludiant cynaliadwy

Amcan 12: Bydd Grŵp Llywio'r Bartneriaeth yn annog ac yn hyrwyddo dulliau cludiant cynaliadwy fel ffordd o ymweld â chyrchfannau o fewn y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig.

Egwyddor 12.1: The use of sustainable methods of travel to visit the component parts of the proposed World Heritage Site will be encouraged.			
Action 1	Datblygu amserlenni i alluogi i bobl deithio o gwmpas y rhanbarth yn gynaliadwy.	Tymor canolig	Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd
Action 2	Gweithio gyda phartneriaid i hyrwyddo dulliau teithio cynaliadwy sy'n bodoli y tu mewn ac o gwmpas y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig, gan gynnwys Trafnidiaeth Cymru.	Parhaus	Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd
Action 3	Hyrwyddo cludiant cynaliadwy gyda phartneriaid rheoli cyrchfannau.	Parhaus	Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd / Perchnogion Safle
Egwyddor 12.2: Bydd Grŵp Llywio'r Bartneriaeth yn annog yn weithredol dduliau trafnidiaeth cynaliadwy gan geisio integreiddio'r diddordeb mewn treftadaeth gyda chludiant cynaliadwy yn y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig ac yn y rhanbarth.			
Action 1	Cynnal deialog â darparwyr trafnidiaeth, gan gynnwys Trafnidiaeth Cymru.	Parhaus	Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd / Darparwyr trafnidiaeth

Antur danddaearol gyda 'Bounce Below' yn Chwarel Llechwedd yn Ffestiniog © Zip World.

7 Thema 4: Mwynhau *Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru*

7.1 Nod allweddol

Amcan 13: Sicrhau bod modd mwynhau, profi a deall y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig.

Egwyddor 13.1: Bydd Grŵp Llywio'r Bartneriaeth yn diogelu gwerthoedd diriaethol ac anniriaethol y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig yn ei gyd-destun naturiol a diwylliannol.

Egwyddor 13.2: Bydd Grŵp Llywio'r Bartneriaeth yn hwyluso dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o'r Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig ac yn meithrin ymgysylltiad y cyhoedd / rhan-ddeiliaid o ran gwarchod, cadwraeth a dehongli.

Egwyddor 13.3: Bydd Grŵp Llywio'r Bartneriaeth yn gwarchod y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig rhag seilwaith ddehongli ymwthiol, pwysau gan ymwelwyr, dehongliad anghywir neu amhriodol.

Egwyddor 13.4: Bydd Grŵp Llywio'r Bartneriaeth yn dilyn datblygiadau arfer gorau mewn dehongli treftadaeth.

Egwyddor 13.5: Bydd Grŵp Llywio'r Bartneriaeth yn asesu ac yn monitro effaith twristiaeth ar yr iaith Gymraeg a chymunedau'r Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig ac yn gweithio i liniaru unrhyw effeithiau negyddol.

7.1.1 Y Cyd-destun

Yn draddodiadol, mae trigolion Gwynedd ac ymwelwyr fel ei gilydd wedi hamddena a chael pleser yn *Nhirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru*. Uchelgais Cyngor Gwynedd a Grŵp Llywio'r Bartneriaeth, os bydd arysgrifiad, yw y gall hefyd gael ei fwynhau, ei brofi a'i ddeall fel Safle Treftadaeth y Byd.

Mae'r rhanbarth wedi bod yn destun balchder erioed i'w bobl, fel eu hamgylchedd a'u cynefin eu hunain. Mae cerdded a fforio wedi bod yn weithgareddau poblogaidd ers sawl blwyddyn, yn aml yn cael ei ennyn gan ddiddordeb mewn amgylchoedd naturiol neu yn y gorffennol hanesyddol. Yng Ngwynedd, mae'r iaith Gymraeg yn cael ei thrysori gan y rhai sy'n ei siarad, ond hefyd gan y rhai sydd ddim, neu rai sy'n dechrau dysgu, fel marc o'u hunaniaeth, symbol o berthyn ac fel cyswllt â'r gorffennol, ond yn bennaf oll, fel dull cyfathrebu mynegiannol.

Mae ymwelwyr wedi crwydro ac wedi mwynhau'r rhanbarth ers y ddeunawfed ganrif. Deuai nifer o'r teithwyr cynnar hyn draw i fynydda neu i fforio yn nhreftadaeth fotanegol a daearegol cyfoethog y rhanbarth. Deuai eraill draw i weld y cestyll godidog, i brofi yn

Mae arddangosfeydd hollti llechi yn Amgueddfa Lechi Cymru yn boblogaidd gydag ymwelwyr © Cyngor Gwynedd.

uniongyrchol ffordd o fyw draddodiadol neu gael eu hysbrydoli gan olygfeydd godidog ac amgylcheddau'r ucheldir. Bu'r chwareli llechi, eu systemau trafnidiaeth arloesol ac aneddiadau'r chwarelwyr eu hunain, o ddiddordeb mawr i deithwyr cyfoethog, ac i beirianwyr ac entrepreneuriaid. Gyda dyfodiad twristiaeth dorfol a'r rhwydwaith rheilffordd cenedlaethol, daeth y rhanbarth yn gyrchfan gwyliau yn oes Fictoria, ac yn yr ugeinfed ganrif daeth 'twristiaeth ddiwydiannol' yn boblogaidd, gyda chyfle i deithio ar reilffyrdd hanesyddol ac i ymweld â'r chwareli ei hunain. Mae grwpiau sydd wedi'u trefnu, megis cyfranogwyr Cynllun Gwobr Dug Caeredin a chanolfannau addysg awyr agored, yn ymweld â'r rhanbarth yn aml. Yn ogystal, bu i'r dirwedd ysbrydoli artistiaid a phenseiri byd-enwog megis Kyffin Williams, J M W Turner, Clough Williams-Elis, Peter Prendergast a Frank Lloyd Wright.

Yn 2017, bu i gyhoeddwyr arweinlyfrau teithio *Lonely Planet* bennu mai Gwynedd oedd y pedwerydd rhanbarth gorau yn y byd i ymweld ag ef:

> **Once upon a time the mountains and valleys of North Wales gave up a bounty of slate, copper and even gold; now this landscape, ringed with hills and rich with mythology, is a playground for hikers, mountain bikers and rock climbers.**

I sicrhau bod *Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru* yn medru cael ei mwynhau, ei phrofi a'i gwerthfawrogi gan gymunedau lleol a chan ymwelwyr o gefndiroedd diwylliannol dirifedi gyda gwahanol anghenion, ac nad yw'n mynd yn ddim ond 'man chwarae', ond yn parhau'n amgylchedd diwylliannol gwirioneddol, mae Grŵp Llywio'r Bartneriaeth, dan arweiniad *Cynllun Rheoli Cyrchfan Gwynedd 2013–2020*, wedi comisiynu *Strategaeth Ddehongli*, ac mae wedi mynd i'r afael â materion iechyd a diogelwch. Mae'r rhain oll yn cael eu hystyried isod.

Mae cerdded yn nhirwedd fynyddig Eryri yn weithgaredd boblogaidd © Cyngor Gwynedd.

7.1.2 Cymunedau *Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru*

O fewn fframwaith Treftadaeth y Byd, cymunedau lleol sydd wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau ac adeiladu capasiti, gan greu amgylchedd y gellir ei fwynhau gan y trigolion, a'u galluogi'n ogystal i ddatblygu sector twristiaeth egnïol a chroesawgar. Mae'r dull hwn yn cyd-fynd â'r *Sustainable Tourism Toolkit* gan UNESCO, sy'n pwysleisio '*local solutions in communities through capacity-building in best practice*'.

***Merched Chwarel Canu Chwarel* yn Llechwedd. Mae'r grŵp hwn wedi bod yn cynnal sesiynau canu mewn amryw o leoliadau ar draws y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig © Lindsay Colbourne.**

Mae Grŵp Llywio'r Bartneriaeth wedi cefnogi digwyddiadau sy'n cael eu harwain gan y gymuned ledled y rhanbarth, gan gynnwys cyflwyniadau, cyfarfodydd busnes, carnifalau a gweithgareddau ysgolion, i godi ymwybyddiaeth o'r enwebiad, gwella dealltwriaeth ac annog ymdeimlad o gyswllt â'u gorffennol.

Yn ogystal â'i adnoddau ei hun, mae Cyngor Gwynedd a'i bartneriaid wedi sicrhau cyllid o nifer o ffynonellau, gan gynnwys Cronfa Dreftadaeth y Loteri, Llywodraeth Cymru, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, y sector breifat a'r Undeb Ewropeaidd, i ddatblygu cyfres o strategaethau a gweithgareddau adfywio sy'n seiliedig ar dreftadaeth ar gyfer lleoliadau allweddol a Chydrannau yn y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig.

Gwneud penderfyniadau ac adeiladu capasiti

Bydd cysylltu â'r gymuned ac adeiladu capasiti yn cael ei wneud drwy nifer o brosiectau cydgysylltiol sydd eisoes yn cael eu cefnogi gan Gyngor Gwynedd.

Mae *Cynllun Celfyddydau Gwynedd* yn adeiladu ar gyfleoedd diwylliannol yn y rhanbarth i hyrwyddo iechyd a lles, addysg, ac adfywio economaidd-gymdeithasol drwy'r celfyddydau. Mae'r enwebiad Treftadaeth y Byd yn yrrwr allweddol wrth gyflawni'r nodau hyn.

Mae *Treftadaeth Ddisylw?*, prosiect gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, yn grymuso cymunedau drwy ysbrydoli pobl ifanc ledled Cymru i ddarganfod eu gorffennol. Yng Ngwynedd, mae'r prosiect hwn wedi'i leoli yng Nghydran 3 ar hyn o bryd ac mae'n canolbwyntio ar ei ddiwydiant llechi, gan weithio mewn partneriaeth agos â thirfeddianwyr chwareli, ysgolion cynradd ac uwchradd, busnesau lleol a grwpiau adfywio trydydd sector. Mae wedi cynnig llais i bobl ifanc wrth ddatblygu'r enwebiad Treftadaeth y Byd, a bydd yn galluogi i'w lleisiau gyfrannu at y strategaeth ddehongli.

Mae'n rhedeg ar y cyd â phrosiect Cynllun Lle Arbennig Cronfa Dreftadaeth y Loteri

Y Grŵp *Treftadaeth Ddisylw?* a ariennir gan Gronfa Treftadaeth y Loteri yn ffilmio mewn chwarel lechi yn Nyffryn Nantlle © Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd.

Genedlaethol, sef *LleCHI*. Mae nifer o linynnau yn y prosiect *LleCHI* ac maent oll yn gweithio tuag at adfywio cymunedau llechi drwy dreftadaeth. Mae'r prif elfennau yn cynnwys creu cynlluniau llysgennad, cefnogi prosiectau cymunedol, datblygu strategaeth ddehongli a chynnal digwyddiadau. Yn ogystal, mae'r prosiect yn hwyluso ac yn ariannu *Cynlluniau Cynefin* [strategaethau adfywio sy'n seiliedig ar le] ar gyfer y prif drefi a phentrefi sydd wedi'u cynnwys yn y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig a hynny mewn partneriaeth â phob cymuned, ynghyd ag asiantaethau, busnesau a mentrau cymdeithasol, gan ddefnyddio'r Astudiaethau Cymeriad Trefol a gynhaliwyd fel rhan o'r broses enwebu, ynghyd â ffynonellau eraill o wybodaeth. Drwy archwilio pryderon, risgiau a bygythiadau, adnabod dyheadau a chyfleoedd, a sefydlu cyfleoedd ariannu posib, bydd y strategaethau adfywio y cytunir arnynt yn cael eu hymgorffori yng *Nghynllun Rheoli Cyrchfan a Thwristiaeth Gwynedd* sydd ar y gorwel. Mae *Cynlluniau Cynefin* ar waith ym Mlaenau Ffestiniog (Cydran 5) a Bethesda (Cydran 1), gyda strategaethau eraill ar y gweill ar gyfer yr aneddiadau eraill erbyn mis Ebrill 2020.

Bydd prosiectau *Treftadaeth Ddisylw?* a *LleCHI* yn hyrwyddo llysgenhadon busnes, cymunedol ac ieuenctid ar gyfer *Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru*. Bydd y llysgenhadon hyn yn cael hyfforddiant, gwybodaeth ac adnoddau er mwyn iddynt gyflwyno gwybodaeth i ymwelwyr mewn ffordd ymarferol a chynhenid. Mae'r prosiectau hyn yn cysylltu cymunedau lleol â'u treftadaeth unigryw er mwyn hyrwyddo a gwarchod Gwerth Rhyngwladol Eithriadol arfaethedig y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig.

Yr iaith Gymraeg

Mae cymunedau *Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru* yn ffurfio cadarnle i'r iaith Gymraeg, sy'n nodwedd bwysig o'r Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig. Mae'r Gymraeg yn cael ei hadnabod fel iaith frodorol gan UNESCO ac roedd yn rhan o ddathliadau Blwyddyn Ieithoedd Brodorol UNESCO yn 2019. Mae UNESCO yn hyrwyddo ieithoedd brodorol drwy ddilyn y pum maes allweddol hyn:

1. Cynyddu dealltwriaeth, cymod a chydweithrediad rhyngwladol
2. Creu amodau ffafriol i rannu gwybodaeth a lledaenu arferion da o ran ieithoedd brodorol
3. Integreiddio ieithoedd brodorol i gyd-destun safonol
4. Grymuso drwy adeiladu capasiti
5. Twf a datblygiad drwy ymhelaethu ar wybodaeth newydd

Cyhoeddwyd cynllun *Cymraeg 2050* gan Lywodraeth Cymru yn 2017 i hybu nifer y siaradwyr Cymraeg yn y wlad. Y weledigaeth yw y bydd y Gymraeg, erbyn 2050, yn cael ei defnyddio ymhob agwedd ar fywyd, ac y gall pawb yng Nghymru uniaethu â'r iaith a bod yn gefnogol iddi, p'un a ydynt yn siarad yr iaith ai peidio. Gall y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig gyfrannu'n sylweddol at y weledigaeth hon drwy gyfleu i rai nad ydynt yn siarad Cymraeg bwysigrwydd yr iaith, nid yn unig yn hanesyddol, ond hefyd mewn termau cyfoes. Yn ogystal, mae cryfder yr iaith Gymraeg yn y rhanbarth yn sicrhau bod ymwelwyr i'r ardal yn cael eu trwytho mewn profiad unigryw i ymwelwyr. Yn ogystal, bydd dehongliad y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig yn cynorthwyo ymwelwyr i'r ardal sy'n hanu o amrywiaeth o gefndiroedd diwylliannol i ddeall swyddogaeth arwyddocaol yr iaith ym mywyd bob dydd ein cymunedau a'r rhan bwysig y mae'r diwydiant llechi wedi'i gael yn ei goroesiad.

7.1.3 Ymwelwyr i *Dirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru*

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer ymwelwyr â'r Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig yn cydfynd yn agos â gwaith Grŵp Llywio'r Bartneriaeth gyda chymunedau lleol er mwyn sicrhau cysondeb yn y stori sy'n cael ei hadrodd a'i rhannu.

Mae Llywodraeth Cymru, drwy ei chorff twristiaeth, Croeso Cymru / Visit Wales, yn ceisio datblygu brand twristiaeth cryfach a mwy diffiniedig yng Nghymru. I'r perwyl hwn, mae Croeso Cymru / Visit Wales wedi hyrwyddo 'Blynyddoedd Thema' yng Nghymru, rhaglen sy'n adnabod themâu blynyddol. Hyd yma, y blynyddoedd thema sydd wedi'u cynnal yw 'antur', 'chwedlau', 'y môr', a 'darganfod'. Yn 2020, y thema fydd 'yr awyr agored'.

Yn 2015, comisiynodd Cyngor Gwynedd *Asesiad o effaith economaidd gyfredol a phosib treftadaeth*. Daeth yr asesiad i'r casgliad y byddai Safle Treftadaeth y Byd arysgrifedig, pe byddai'r statws yn cael ei hyrwyddo'n effeithiol, yn denu ymwelwyr newydd i'r rhanbarth, a fyddai yn tueddu i ddod i'r ardal y tu allan i'r tymor arferol, gan aros am gyfnod hwy a gwario mwy o arian nag ymwelwyr traddodiadol yr ardal. Felly, mae'r *Strategaeth Ddehongli*'n annog ymwelwyr draw o safleoedd twristiaeth 'prysur', a thuag at safleoedd sy'n gweld llai o ymwelwyr, a thrwy hynny yn lledaenu buddion twristiaeth ledled y rhanbarth.



Mae llwybr tref Blaenau Ffestiniog yng Nghydran 5, yn dehongli hanes y gymuned ddiwydiannol hanesyddol hon © Cyngor Gwynedd.

7.1.4 Cynllun gweithredu ar gyfer mwynhau *Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru*

Amcan 13: Sicrhau y gellir mwynhau, profi a deall Gwerth Rhyngwladol Eithriadol arfaethedig y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig.

Egwyddor 13.1: Bydd Grŵp Llywio'r Bartneriaeth yn diogelu gwerthoedd diriaethol ac anniriaethol y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig yn ei gyd-destun naturiol a diwylliannol.			
Cam Gweithredu 1	Bydd y *Strategaeth Ddehongli* ar gyfer y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig yn hysbysu ymwelwyr o arwyddocâd y lleoliad o fewn y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig ac yn cyfleu'r asedau treftadaeth diriaethol ac anniriaethol.	Tymor canolig	*LleCHI*
Cam Gweithredu 2	Ymchwilio i gyfleoedd ariannu er diogelu / hyrwyddo asedau a thraddodiadau.	Tymor canolig	Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd
Egwyddor 13.2: Bydd Grŵp Llywio'r Bartneriaeth yn hwyluso dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o'r Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig ac yn meithrin ymgysylltiad y cyhoedd / rhan-ddeiliaid o ran gwarchod, cadwraeth a dehongli.			
Cam Gweithredu 1	Cynnal digwyddiadau er mwyn cyfleu gwybodaeth ac annog Rhan-ddeiliaid i rannu profiadau gyda'i gilydd.	Tymor canolig	Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd
Cam Gweithredu 2	Llysgenhadon fydd llais tirwedd y llechi a byddant yn cyflwyno negeseuon allweddol.	Tymor byr	*LleCHI*
Egwyddor 13.3: Bydd Grŵp Llywio'r Bartneriaeth yn gwarchod y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig rhag seilwaith ddehongli ymwthiol, pwysau gan ymwelwyr, dehongliad anghywir neu amhriodol.			
Cam Gweithredu 1	Gweithio gyda chymunedau i greu *Cynlluniau Cynefin* fydd yn hysbysu pobl leol o arwyddocâd, a hefyd yn gweld cyfleoedd i ddiogelu gwerthoedd hanesyddol, ieithyddol a diwylliannol.	Tymor byr	*LleCHI*
Cam Gweithredu 2	Annog perchnogaeth leol drwy weithgareddau ymgysylltu â'r gymuned.	Parhaus	*LleCHI* / Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd
Cam Gweithredu 3	Creu canllawiau dylunio lleol er mwyn codi ymwybyddiaeth a gwarchod gwead hanesyddol.	Tymor canolig	Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd

Egwyddor 13.4: Bydd Grŵp Llywio'r Bartneriaeth yn dilyn datblygiadau arfer gorau mewn dehongli treftadaeth.			
Cam Gweithredu 1	Bydd *Cynlluniau Cynefin*, yn seiliedig ar ddyheadau'r gymuned, yn adnabod prosiectau dehongli.	Tymor byr	*LleCHI*
Cam Gweithredu 2	Cynnal a datblygu cysylltiadau â sefydliadau treftadaeth er mwyn rhannu arferion gorau.	Parhaus	Grŵp Llywio'r Bartneriaeth / Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd
Egwyddor 13.5: Bydd Grŵp Llywio'r Bartneriaeth yn asesu ac yn monitro effaith twristiaeth ar yr iaith Gymraeg a chymunedau'r Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig ac yn gweithio i liniaru unrhyw effeithiau negyddol.			
Cam Gweithredu 1	Sefydlu gwaelodlin a dulliau monitro cadarn ar gyfer asesu effaith dynodiad y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig ar yr iaith Gymraeg.	Tymor byr	Grŵp Llywio'r Bartneriaeth
Cam Gweithredu 2	Monitro effaith dynodiad y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig ar yr iaith Gymraeg yn barhaus ac ymgymryd ag unrhyw fesurau lliniaru y cytunwyd arnynt.	Parhaus	Grŵp Llywio'r Bartneriaeth / Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd

Ymwelwyr yn mwynhau taith ar Reilffordd Tal-y-llyn © Rheilffordd Tal-y-llyn.

7.2 Rheoli cyrchfannau

Amcan 14: Creu profiad ymwelwyr sy'n unigryw ac o'r ansawdd uchaf.

Egwyddor 14.1: Mae Grŵp Llywio'r Bartneriaeth yn annog bod yn gynhwysol, drwy hwyluso rhan rhan-ddeiliaid yn natblygiad a gweithrediad y strategaeth ddehongli.

Egwyddor 14.2: Bydd Grŵp Llywio'r Bartneriaeth yn datblygu canllawiau technegol a phroffesiynol ar gyfer dehongli a chyflwyno treftadaeth.

Egwyddor 14.3: Bydd Grŵp Llywio'r Bartneriaeth yn datblygu darpariaeth o arwyddion a gwybodaeth glir a chyson ledled y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig.

Egwyddor 14.4: Bydd Grŵp Llywio'r Bartneriaeth yn sicrhau naws am le unigryw a phrofiadau go iawn o ansawdd uchel i ymwelwyr

Egwyddor 14.5: Bydd chwe Chydran y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig yn cael eu marchnata a'u cyfathrebu fel un Eiddo.

Mae twristiaeth yn sector o bwys i'r economi rhanbarthol. Dengys ystadegau 2018 (Arolwg STEAM: Scarborough Tourism Economic Activity Monitor) fel a ganlyn:

- Gwerth £1.118 biliwn i'r economi leol
- Dros 15,500 o swyddi'n cael eu cefnogi
- Dros 7.37 miliwn o ymweliadau'r flwyddyn
- 18.73 miliwn o letya dros nos
- 22.53 miliwn o ddyddiau twristiaeth blynyddol i Wynedd

Mae arweinwyr busnes rhanbarthol yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod potensial masnachol yr Enwebiad Safle Treftadaeth y Byd © Cyngor Gwynedd.

Mae treftadaeth yn ganolog i nifer o fusnesau o fewn y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig - y rheilffyrdd gweithredol, Ceudyllau Llechwedd a theithiau Cwmorthin. Mae Zip World yng Nghydran 1 wedi dod yn arweinydd byd-eang wrth ddarparu profiadau twristiaeth antur mewn amgylcheddau chwareli llechi, gan ddenu ymwelwyr o bedwar ban byd, ac mae hefyd yn dathlu treftadaeth llechi cyfoethog y rhanbarth.

Nid oes gan rai busnesau sydd wedi'u lleoli yn y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig unrhyw ffocws treftadaeth penodol ond maent yn berchen ar asedau hanesyddol o bwys, ac mae gan rai ohonynt botensial treftadaeth sylweddol, megis Felin Fawr (Cydran 1) a Chwareli Dorothea a Phen yr Orsedd (Cydran 3). Mae busnesau eraill sydd wedi'u lleoli o fewn y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig yn defnyddio treftadaeth fel pwynt gwerthu unigryw (USP) ar gyfer eu cynnyrch. Mae'r rhain yn cynnwys distyllfeydd jin, aeddfedu caws a chynhyrchu cwrw crefft, ynghyd â nifer o grefftau artisan megis gwneuthurwyr gemwaith ac artistiaid.

Mae *Cynllun Rheoli Cyrchfan 2013–2020* Gwynedd, sydd wrthi'n cael ei adolygu, sy'n cynnwys ardal *Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru*, wedi adnabod y cryfderau, y gwendidau, y cyfleoedd a'r bygythiadau hyn sy'n berthnasol i'r Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig:

Cryfderau	Gwendidau
Tirweddau ac arfordir hardd o safon fyd-eang Amgylchedd adeiledig a nodweddion hanesyddol ysblennydd Diwylliant unigryw a hygyrch Cyrchfan ar gyfer gweithgareddau neu lonyddwch	Gweithgarwch twristiaeth tymhorol Angen gwell cyfleusterau i dwristiaid a'r cyhoedd Dibyniaeth ar sector hunanarlwyo cost is Diffyg llety wedi'i wasanaethu o ansawdd uchel Atyniadau mawr pob-tywydd i dwristiaid yn brin Gwendid cymharol y cynnig manwerthu Gwariant cyfyngedig y pen
Cyfleoedd	**Bygythiadau**
Gwell cydweithio rhwng sectorau Datblygu ym mhellach dwristiaeth awyr agored drwy gydol y flwyddyn Datblygu llety wedi'i wasanaethu o ansawdd Datblygiadau twristiaeth wedi'u cysylltu â chanolfannau rhagoriaeth Twf twristiaeth treftadaeth a diwylliannol Siopa o ansawdd yn seiliedig ar gynnyrch lleol Ystod ehangach o ddigwyddiadau i ymwelwyr a thrigolion Marchnata yn fwy cydlynus	Cyrchfannau twristiaeth gwledig ac awyr agored eraill Marchnata mwy grymus ac effeithiol gan ardaloedd eraill Dirywiad economaidd ardaloedd gwledig a threfi marchnad Dirywiad mewn sgiliau perthnasol ac ansawdd y croeso i ymwelwyr Dirywiad yn ansawdd y mannau cyhoeddus

I ymdrin â'r gwendidau hyn a nodwyd, bu i *Gynllun Rheoli Cyrchfan 2013–2020* Gwynedd argymell yr amcanion a ganlyn sydd hefyd yn berthnasol i'r Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig:

- Ymestyn y tymor twristiaeth
- Cynyddu gwariant ymwelwyr
- Gwella ansawdd profiad yr ymwelwyr
- Gwella cydgysylltisad twristiaeth ag agweddau eraill o fywyd
- Cyfoethogi'r amgylchedd naturiol, adeiledig a diwylliannol
- Adeiladu a chynnal seilwaith a mwynderau cyhoeddus o ansawdd
- Darparu swyddi o ansawdd ar hyd y flwyddyn, sy'n talu'n dda, ynghyd â datblygu sgiliau

I fwynhau'r Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig, rhaid wrth fynediad ffisegol lle bo modd; mynediad rhithwir lle bo modd; a mynediad deallusol drwy ddehongliadau. Bydd y dehongliad yn cael ei blethu'n agos â'r strategaethau a'r polisïau a roddwyd yn eu lle i hyrwyddo'r ddysg am *Dirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru* a nodir yn Thema **5**.

Mae cysylltiadau cludiant yn cynnig cyfle posib i ddatblygu cyswllt rhwng *Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru* a safleoedd eraill sydd wedi'u dynodi gan UNESCO:

- *Cestyll a Muriau Trefi Edward 1 yng Ngwynedd* (Safle Treftadaeth y Byd)
- *Traphont a Chamlas Pontcysyllte (Safle Treftadaeth y Byd)*
- Biosffer Dyfi (Biosffer)
- GeoMôn (Geopark)

Nod allweddol yng Nghynllun Economaidd Llechi Cymru yw datblygu sgiliau, gan ganolbwyntio yn benodol ar sgiliau traddodiadol a sgiliau lletygarwch yn y sector twristiaeth. Mae creu a diogelu swyddi hefyd yn nod allweddol, gyda chwarelydda a diwydiannau cysylltiedig yn flaenoriaeth yn y maes hwn. Mae cefnogi a datblygu'r sector bwyd a diod yn gyfle arwyddocaol arall gyda nifer o gynnyrch crefft yn cael eu datblygu, eu cynhyrchu a'u gwerthu yn yr ardal, gan gynnwys jin, cwrw, caws, jam a choffi.

Mae Cyngor Gwynedd a'i Bartneriaid wrthi'n adolygu *Cynllun Rheoli Cyrchfan 2013–2020* Gwynedd ar hyn o bryd ac yn creu *Cynllun Rheoli Twristiaeth a Chyrchfan* i'w gyhoeddi yn ystod 2020. Mae'r ymgynghoriadau cychwynnol yn canolbwyntio ar ddatblygu cyfres o egwyddorion ar gyfer y sector twristiaeth yn y dyfodol a bydd gofynion y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig yn cael eu hintegreiddio yn y Cynllun newydd. Mae'r egwyddorion sy'n amlygu eu hunain yng Ngwynedd ar hyn o bryd yn cynnwys: Dathlu pa mor unigryw yw'r ardal a'r iaith Gymraeg, Cymunedau Byw a Chynaliadwy, Gwell gwerth o'r sector i gymunedau a phobl, Ansawdd, Gweithio mewn Partneriaeth, Llesiant a Chynaliadwyedd.

7.2.1 Strategaeth ddehongli ar gyfer *Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru*

Mae dehongli *Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru* yn cael ei arwain gan *Siarter Ename* ICOMOS (2008) ar gyfer dehongli a chyflwyno, ac mae'n seiliedig ar egwyddor rhif un, pump a chwech ynddi:

- mynediad a deall
- cynllunio ar gyfer cynaliadwyedd
- gofalu bod yn gynhwysol

Yn ogystal, mae'r enwebiad yn cydymffurfio ag arfer orau genedlaethol. Mae *Twristiaeth Gynaliadwy: Fframwaith i Gymru a Strategaeth Amgylchedd Hanesyddol*, Llywodraeth Cymru, yn blaenoriaethu:

- llais i gymunedau lleol a busnesau lleol
- rheoli cyrchfannau yn gynaliadwy
- egwyddorion ar gyfer dadansoddi deallus

Mae'r *Strategaeth Ddehongli* ar gyfer y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig wedi'i llunio mewn ymgynghoriad â chymunedau a darparwyr twristiaeth. Mae'n canolbwyntio ar y straeon sydd gan y rhanbarth i'w hadrodd am y diwydiant llechi – y 'gwir' straeon y mae pobl leol yn dymuno'u rhannu â'i gilydd a gweddill y byd – ac yn uno'r safleoedd a'r atyniadau ar draws y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig gyda brand a straeon y gellir eu hadnabod. Bydd trigolion ac ymwelwyr fel ei gilydd yn derbyn gwybodaeth o ansawdd uchel, sy'n gymhellgar ac yn ffeithiol gywir am *Dirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru*, y rhanbarth a'u cysylltiadau â'r byd ehangach. Mae'r *Strategaeth Ddehongli* yn adnabod nifer o themâu lle y gellir adrodd nifer o straeon unigol oddi tanynt:

- Y graig a phrosesu
- Cludiant ac allforio
- Pobl a chymunedau
- Gweithwyr
- Gwneud arian
- Ailddarganfod ac ysbrydoliaeth
- Dyfeisgarwch, sgiliau a chrefft
- Tirwedd a bioamrywiaeth
- Allforio syniadau a llechi ar draws y byd

Mae dehongli'r Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig mewn modd cydlynol yn heriol yn sgil ehangder yr ardal ddaearyddol, amrediad a maint safleoedd, atyniadau a chymunedau, a'r amrywiaeth yn y stori sydd i'w hadrodd mewn lleoliadau amrywiol. I oresgyn hyn, mae'r strategaeth wedi'i datblygu o amgylch model lle mae safleoedd mwy ('hwb') yn denu ymwelwyr i'r ardal ac yn annog ymwelwyr i ymweld â'r safleoedd a'r atyniadau llai ('sbocsen'). Yn y canol, mae mannau canolraddol ('sbroced'), sydd naill ai eisoes â threftadaeth arwyddocaol neu sy'n adrodd rhan bwysig o'r stori llechi ond sydd ddim wedi'u lleoli o fewn y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig. Bydd y model yn hybu dealltwriaeth, integreiddiad a throsglwyddiad y Gwerth Rhyngwladol Eithriadol arfaethedig i ymwelwyr, a bydd hefyd yn gwasgaru ymwelwyr ledled y rhanbarth. Bydd ymwelwyr yn cael eu hannog i 'ddilyn y stori' llechi er mwyn dysgu am y themâu hyn sydd wedi cael eu hadnabod. Bydd gwybodaeth all-lein ac ar-lein yn llunio rhan o'r cynnig, a bydd teclynnau canolog ar gael i gefnogi partneriaid a rhan-ddeiliaid i drosglwyddo gwybodaeth i ymwelwyr drwy fod testun safonol a llyfrgell ddelweddau ar gael er mwyn sicrhau cywirdeb hanesyddol a safonau o ansawdd.

Bydd pob hwb, sbroced a sbocsen yn cyfeirio at yr arysgrifiad Treftadaeth y Byd, gan amlinellu eu cyfraniad i'r safle, yr hyn sy'n gwneud iddynt hwy yn benodol fod yn eithriadol yn y stori ehangach a sut maent yn berthnasol i'r Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig. Bydd hyn yn sicrhau dull cyson o gyfathrebu sut mae pob Cydran a phob Elfen yn cyfrannu at y Gwerth Rhyngwladol Eithriadol arfaethedig, ynghyd â dull cyffredin o farchnata. Nid yw rhai safleoedd (yn bennaf y rhai 'sbocsen') yn ffisegol hygyrch, naill ai gan eu bod yn beryglus, neu oherwydd eu bod yn weithredol, ac felly fe'u dehonglir gan realiti rhithwir neu lwyfannau digidol a defnyddir safleoedd hygyrch i adrodd stori safleoedd nad ydynt yn hygyrch.

Mae'r model fel a ganlyn:



Model y profiad ymwelwyr yn y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig © Cyngor Gwynedd.

7.2.2 Cynllun gweithredu ar gyfer rheoli cyrchfan

Amcan 14: Creu profiad ymwelwyr sy'n unigryw ac o'r ansawdd uchaf.

Egwyddor 14.1: Mae Grŵp Llywio'r Bartneriaeth yn annog bod yn gynhwysol, drwy hwyluso rhan rhan-ddeiliaid yn natblygiad a gweithrediad y strategaeth ddehongli.			
Cam Gweithredu 1	Bydd llysgenhadon ar y rheng flaen wrth gyflwyno gwybodaeth i ymwelwyr, gan ddarparu profiadau go iawn.	Parhaus	*LleCHI* / Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd
Cam Gweithredu 2	Bydd y *Strategaeth Ddehongli* ar gyfer y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig yn cyfleu straeon lleol ynghyd â'r stori fyd-eang er mwyn sicrhau perchnogaeth gymunedol a dehongliad go iawn.	Short-term	*LleCHI*
Cam Gweithredu 3	Sefydlu Grŵp Dehongli i gynnwys cynrychiolwyr y diwydiant twristiaeth, cymunedau a busnesau i lywio blaenoriaethau dehongli.	Parhaus	*LleCHI* / Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd

Egwyddor 14.2: Bydd Grŵp Llywio'r Bartneriaeth yn datblygu canllawiau technegol a phroffesiynol ar gyfer dehongli a chyflwyno treftadaeth.			
Cam Gweithredu 1	Datblygu teclyn Marchnata a sesiynau hyfforddi cysylltiedig i hysbysu a grymuso busnesau a chymunedau.	Tymor byr	*LleCHI*
Cam Gweithredu 2	Datblygu teclynnau canolog i bartneriaid a rhan-ddeiliaid yn cynnwys testun safonol a llyfrgell ffotograffig.	Tymor byr	*LleCHI*
Egwyddor 14.3: Bydd Grŵp Llywio'r Bartneriaeth yn datblygu darpariaeth o arwyddion a gwybodaeth glir a chyson ledled y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig.			
Cam Gweithredu 1	Datblygu *Cynllun Rheoli Ymwelwyr Cynaliadwy*.	Tymor byr	*LleCHI*
Cam Gweithredu 2	Datblygu *Strategaeth Arwyddion ar gyfer y Pyrth*.	Tymor canolig	Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd
Egwyddor 14.4: Bydd Grŵp Llywio'r Bartneriaeth yn sicrhau naws am le unigryw a phrofiadau go iawn o ansawdd uchel i ymwelwyr.			
Cam Gweithredu 1	Cefnogi atyniadau, seilwaith a phrofiadau o ansawdd uchel sy'n bodoli eisoes, ac annog darpariaeth newydd.	Parhaus	Grŵp Llywio'r Bartneriaeth
Cam Gweithredu 2	Anogir llysgenhadon i adrodd eu straeon eu hunain er mwyn rhoi profiad unigryw a go iawn.	Parhaus	*LleCHI* / Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd
Cam Gweithredu 3	Cefnogi ac annog prosiectau twristiaeth cymunedol.	Parhaus	*LleCHI* / Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd / Partneriaeth Rheoli Cyrchfan Gwynedd
Cam Gweithredu 4	Bydd Grŵp Llywio'r Bartneriaeth yn ymgorffori'r enwebiad yn y *Cynllun Twristiaeth a Rheoli Cyrchfan* Gwynedd sydd ar y gorwel.	Parhaus	Grŵp Llywio'r Bartneriaeth / Partneriaeth Rheoli Cyrchfan Gwynedd
Egwyddor 14.5: Bydd chwe Chydran y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig yn cael eu marchnata a'u cyfathrebu fel un Eiddo.			
Cam Gweithredu 1	Sicrhau cytgord gydag ymdrechion marchnata brand y gyrchfan (Eryri Mynyddoedd a Môr).	Parhaus	Partneriaeth Rheoli Cyrchfan Gwynedd / Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd / Cyngor Gwynedd
Cam Gweithredu 2	Gweithio gyda Chroeso Cymru ar Flynyddoedd Thematig, Ffordd Cymru a phrosiectau twristiaeth strategol cenedlaethol eraill.	Tymor hir	Partneriaeth Rheoli Cyrchfan Gwynedd / Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd / Cyngor Gwynedd

Cystadleuwyr ar y Snowdonia Slate Trail Ultra yn ymlwybro ar hyd Llwybr Llechi Eryri sy'n 133km o hyd © Evan Davies.

7.3 Iechyd a diogelwch

Amcan 15: Ymdrechu i greu amgylchedd diogel i fwynhau *Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru*.

Egwyddor 15.1: Bydd Grŵp Llywio'r Bartneriaeth yn datblygu polisïau diogelwch clir a chadarn ar gyfer y dirwedd llechi.

Egwyddor 15.2: Bydd Grŵp Llywio'r Bartneriaeth yn sicrhau bod diogelwch yn thema greiddiol yn y dulliau dehongli a chyflwyno gwybodaeth.

Egwyddor 15.3: Anogir mynediad cyhoeddus i'r Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig (lle bo hynny'n briodol) er mwyn hybu dealltwriaeth o'r Gwerth Byd-eang Eithriadol arfaethedig.

Sicrhau diogelwch ymwelwyr sydd flaenaf, boed yn drigolion lleol, twristiaid annibynnol neu grwpiau wedi'u trefnu. Yn ôl ei natur, mae *Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru* yn cynnwys tirffurfiau chwarel, cloddfeydd a siafftiau sy'n hynod beryglus, ynghyd â lleoliadau eraill lle mae diogelwch yn hanfodol, megis y rheilffyrdd gweithredol. Nid yw arysgrifiad Treftadaeth y Byd yn golygu fod gan y cyhoedd hawl mynediad i eiddo preifat.

Mae gan rai lleoliadau yn y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig eu gofynion iechyd a diogelwch penodol eu hunain, gan gynnwys chwareli hynafol a rheilffyrdd gweithredol. Mae'r rhain yn cael sylw gan berchnogion safle drwy eu protocolau eu hunain a'u cyfrifoldebau corfforaethol. Bydd cyfundrefnau cynnal a chadw mewn safleoedd chwarel, ac adroddiadau rheolaidd, yn nodi ac yn tynnu sylw at risgiau.

Bydd Grŵp Llywio'r Bartneriaeth yn hyrwyddo ac yn cefnogi diwylliant o fod yn ymwybodol o iechyd a diogelwch drwy weithio â pherchnogion safle a chymunedau i sicrhau bod negeseuon cadarn a chyson yn dod yn ganolog i'r holl ddehongli sy'n gysylltiedig â'r Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig. Mae ymgyrch diogelwch tirwedd llechi yn cael ei datblygu gyda rhan-ddeiliaid allweddol i fwydo i mewn i'r ymgyrch 'Adventure Smart' ledled y DU, lle mae negeseuon iechyd a diogelwch yn cael eu hintegreiddio â hyrwyddo a dehongli gweithgareddau awyr agored a thwristiaeth antur. Mae Grŵp Llywio'r Bartneriaeth yn gweithio ag Adventure Smart UK i ddatblygu'r negeseuon allweddol hyn.

Mynediad i'r cyhoedd

Mae tirffurfiau diwydiannol yn hynod atyniadol, yn enwedig mewn rhanbarth mynyddig tawel a phrydferth sydd â threftadaeth ddiwylliannol cyfoethog. Mae twristiaeth ddiwydiannol eisoes wedi'i sefydlu'n gadarn yn y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig. Mae llwybrau troed a llwybrau sy'n darparu mynediad i'r cyhoedd mewn sawl ardal o'r Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig, ac mae rhai ohonynt yn cael cyhoeddusrwydd fel cynnig treftadaeth ynddynt eu hunain (Llwybr Llechi Eryri, a'r Llwybr Llechi); mae mynediad at safleoedd eraill i'w gael trwy hawliau tramwy, llwybrau ceffyl a llwybrau beicio. Mae defnyddio llwybrau o'r fath yn fuddiol i iechyd y cyhoedd a ffyniant rhanbarthol a bydd hyn yn cael ei annog lle bo hynny'n briodol. Mae'n benodol hanfodol i sicrhau bod gan unrhyw lwybrau a hyrwyddir y seilwaith priodol yn ei le i fodloni galw a disgwyliadau ymwelwyr (e.e. gofod parcio ceir, toiledau cyhoeddus), bod y wybodaeth sydd ar gael i ddefnyddwyr ynghylch y llwybrau a hyrwyddir yn gywir, a bod y marciau ffordd a'r arwyddion ar y ddaear yn safonol ac yn hawdd eu dilyn.

Nid yw'n hanfodol cael mynediad i'r cyhoedd ac nid yw hyn yn briodol mewn rhai ardaloedd o'r Safle Treftadaeth y Byd lle mae asedau hanesyddol bregus mewn perygl, lle mae pryder am ddiogelwch y cyhoedd neu lle mae gweithrediadau masnachol yn digwydd. Mae cyfran sylweddol o'r Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig mewn perchnogaeth breifat ac mae cyfran fechan ohono ar dir lle na chaniateir unrhyw fynediad i'r cyhoedd yn sgil natur y busnes a/neu'r dirwedd. Nid oes modd cael mynediad at rai lleoliadau gan eu bod yn fusnesau masnachol gweithredol (megis rhannau o Chwarel Dinorwig sy'n cael ei gweithredu gan Engie fel gorsaf ynni dŵr), ac nid oes modd cael mynediad at rai lleoliadau yn sgil eu natur beryglus (megis gweithfeydd tanddaearol, adeiladau anghyfannedd neu gloddfeydd sydd wedi llenwi â dŵr). Mewn amgylchiadau o'r fath, gellir hwyluso mynediad wedi'i reoli drwy gynnal ymweliadau wedi'u tywys, ond bydd angen mynd i'r afael â mynediad heb ei reoleiddio a thresmasu hefyd.

7.3.1 Cynllun gweithredu ar gyfer iechyd a diogelwch

Amcan 15: Ymdrechu i greu amgylchedd diogel i fwynhau *Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru*.

Egwyddor 15.1: Bydd Grŵp Llywio'r Bartneriaeth yn datblygu polisïau diogelwch clir a chadarn ar gyfer y dirwedd llechi.			
Cam Gweithredu 1	Datblygu ymgyrch diogelwch ar gyfer y dirwedd llechi.	Tymor byr	Fforwm Tirfeddianwyr
Egwyddor 15.2: Bydd Grŵp Llywio'r Bartneriaeth yn sicrhau bod diogelwch yn thema greiddiol yn y dulliau dehongli a chyflwyno gwybodaeth.			
Cam Gweithredu 1	Sicrhau bod neges ddiogelwch yn cael ei chynnwys ymhob prosiect dehongli a ddatblygir/ gefnogir gan y Bartneriaeth.	Parhaus	*LleCHI* / Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd
Egwyddor 15.3: Anogir mynediad cyhoeddus i'r Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig (lle bo hynny'n addas) er mwyn hybu dealltwriaeth o'r Gwerth Byd-eang Eithriadol arfaethedig.			
Cam Gweithredu 1	Datblygu a hyrwyddo llwybrau strategol sy'n fforio yn y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig a'r rhanbarth ehangach.	Parhaus	Fforwm Tirfeddianwyr / Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd
Cam Gweithredu 2	Lle nad yw'n bosib cael mynediad i'r cyhoedd neu lle mae hynny wedi'i wahardd, ymgymryd â dehongli rhithwir neu loeren yn y safleoedd hynny.	Parhaus	Fforwm Tirfeddianwyr / Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd

8 Thema 5: Dysgu am *Dirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru*

8.1 Nod Allweddol

Amcan 16: Mae'r Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig yn ganolbwynt dysg ac ymchwil y gellir eu rhannu ag eraill, ac mae'n meithrin dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o'i werthoedd a'i briodweddau.

Egwyddor 16.1: Sefydlir cysylltiadau â darparwyr addysg i feithrin cyfleoedd ar gyfer rhaglenni dysgu cynhwysol sy'n berthnasol i'r Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig.

Egwyddor 16.2: Sefydlir cysylltiadau â chyrff rhyngwladol i hyrwyddo ymchwil academaidd, rhaglenni addysgiadol a theithiau cyfnewid proffesiynol sy'n berthnasol i'r Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig.

Egwyddor 16.3: Bydd ymwelwyr yn cael eu hannog i grwydro a dysgu am agweddau ffisegol, cymdeithasol a diwylliannol *Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru*.

Egwyddor 16.4: Bydd ymchwilwyr yn cael eu hannog i rannu ag eraill eu gwybodaeth a chanfyddiadau eu gwaith ymchwil.

8.2 Y Cyd-destun

Gwnaed cryn waith ymchwil, yn ffurfiol ac yn anffurfiol, i gefnogi'r Enwebiad. Bydd hyn yn parhau, a bydd gwaith ymchwil y dyfodol yn cael ei rannu. Mae'r dysgu am y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig yn cael ei arwain gan *Siarter Ename* ICOMOS (2008) ar gyfer dehongli a chyflwyno, ac mae'n seiliedig ar ei seithfed egwyddor graidd: pwysigrwydd gwaith ymchwil, hyfforddiant a gwerthuso.

Dealltwriaeth hanesyddol ac archeolegol

Mae archif hanesyddol fanwl a helaeth ar gyfer y diwydiant llechi yng ngogledd orllewin Cymru ynghyd â'i systemau cludiant, ei aneddleoedd a'i gymunedau. Mae'r dogfennau hyn wedi'u diogelu ac ar gael i'r cyhoedd yn Archifdy'r Sir, a reolir gan Gyngor Gwynedd, yn Archifdy Prifysgol Bangor ac yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, ac mewn casgliadau ymchwil eraill megis yr Archifdy Gwladol yn Kew. Mae peth o'r wybodaeth hon ar gael yn ddigidol eisoes.

Ers 1972 mae gwirfoddolwyr wedi bod yn gwneud gwaith ymchwil hanesyddol yn seiliedig ar yr adnodd archif hwn ac ymchwiliadau archeolegol, a hynny dan nawdd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Mae'r dogfennau a'r adroddiadau yn cael eu curadu ym Mhlas Tan y Bwlch, sef canolfan astudio'r Parc. Mae astudiaethau awdurdodol wedi'u cyhoeddi am y diwydiant ac am ei systemau cludiant.

Gwaith cloddio, clirio a chofnodi ym Marics Pen y Bryn (Cydran 3) ym mis Gorffennaf 2019. Ariannwyd y gwaith gan Cadw ac fe'i gwnaed gan Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd a gwirfoddolwyr o'r gymuned © Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd.

Ers 1970, mae gwirfoddolwyr archeolegol wedi bod yn cofnodi Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru © Plas Tan y Bwlch.

Mae rhaglenni cofnodi ac ymchwilio estynedig wedi'u gwneud gan archeolegwyr o Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd (GAT) a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru (CBHC) gan grwydro yn y chwareli hanesyddol, ymysg y nodweddion cludiant, y porthladdoedd a'r harbyrau, ac mae hyn wedi arwain at gatalog cynhwysfawr. Mae'r cofnodion hyn yn llunio rhan o'r Cofnod Amgylchedd Hanesyddol sydd wedi'u guradu gan GAT, a'r Cofnod Henebion Cenedlaethol sydd wedi'i guradu gan CBHC. Mae'r ddau gofnod hyn ar gael i'r cyhoedd ac fe'u defnyddir ar gyfer amrediad eang o swyddogaethau,

Staff Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru yn cynnal arolwg digidol yn chwarel Maenofferen yng Nghydran 5 © Hawlfraint y Goron: CBHC.

gan gynnwys ymestyn gwybodaeth a dealltwriaeth o'r amgylchedd hanesyddol; cefnogi cadwraeth, rheolaeth a gwarchodaeth yr asedau hanesyddol; hysbysu polisïau strategol a chynlluniau datblygu; cefnogi adfywio sy'n cael ei arwain gan dreftadaeth, twristiaeth ddiwylliannol a gwelliannau amgylcheddol; cyfrannu at addysg a dysg a hyrwyddo cyfranogiad y cyhoedd mewn chwilota, gwerthfawrogi a mwynhau eu treftadaeth leol.

Yn ogystal, cynhaliwyd astudiaethau nodweddion tirwedd hanesyddol ac Astudiaethau Cymeriad Trefol y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig, dan nawdd Cadw, Cyngor Gwynedd ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Mae gwaith ymchwil gweithredol yn cael ei wneud i hanes rheilffyrdd Ffestiniog a Thal-y-llyn; mae Grŵp Treftadaeth Rheilffordd Ffestiniog yn cyhoeddi ei gylchgrawn ei hun bob chwarter.

Y ddarpariaeth ddysgu bresennol

Mae rhaglen addysg yr Amgueddfa Lechi yn cyfrannu at: y Cyfnod Sylfaen (3–7 mlwydd oed); Cyfnod Allweddol 2 (7–11 mlwydd oed); Cyfnod Allweddol 3 (11–14 mlwydd oed), Cyfnod Allweddol 4 (14–16 mlwydd oed) a Bagloriaeth Cymru (14–19 mlwydd oed); Addysg Ôl-16; Dysgwyr sy'n Oedolion; Athrawon; rhaglen o arddangosfeydd; ac at flog dysgu'r Amgueddfa.

Mae canolfan astudio Parc Cenedlaethol Eryri ym Mhlas Tan y Bwlch wedi bod yn cynnal cyrsiau ymarferol mewn archeoleg ddiwydiannol i ddysgwyr sy'n oedolion ers 1972. Esgorwyd ar nifer o gyhoeddiadau yn sgil hyn, a'r archif a grëwyd fel rhan o'r cyrsiau hyn yw un o brif ffynonellau gwybodaeth y diwydiant. Bellach, mae hwn yn un o'r cyrsiau prin dan arweiniad proffesiynol sydd ar gael yn y maes Archeoleg ôl-Ganoloesol yn y Deyrnas Unedig.

Disgyblion o Ysgol Craig y Deryn yn dysgu am y diwydiant llechi, yn ystod 'diwrnod meddiannu' yn Archifdy Dolgellau Cyngor Gwynedd © Cyngor Gwynedd.

Mae Archifdy Gwynedd yn cyflogi swyddog addysg i gynorthwyo ysgolion sy'n ymweld ag Archifdai Caernarfon a Dolgellau, ac i gynnal gweithgareddau sy'n seiliedig ar y cwricwlwm mewn ysgolion ledled Gwynedd. Ar hyn o bryd, mae Cymru wrthi'n ailddiffinio ei gwricwlwm addysgiadol i annog ysgolion i weithio'n agos â sefydliadau a busnesau er mwyn darparu cyfleoedd dysgu estynedig. Bydd hyn yn galluogi plant a phobl ifanc i uniaethu â Threftadaeth y Byd a gwerthfawrogi'r heriau sydd ynghlwm â rheoli treftadaeth.

Mae'r prosiectau cyfredol yn cynnwys *Treftadaeth Ddisylw?*, rhaglen o weithgareddau archeoleg cymunedol sydd wedi'u cynllunio i ymgysylltu, ennyn chwilfrydedd ac ysbrydoli pobl ifanc ledled Cymru i fod yn rhan o'u treftadaeth leol. Ar hyn o bryd, mae'n cynnwys prosiectau yng Nghydran 3 Dyffryn Nantlle.

8.3 Annog dysg

Pwysigrwydd gwaith ymchwil, hyfforddiant a gwerthuso

Bydd Grŵp Llywio'r Bartneriaeth yn sefydlu ac yn hyrwyddo strategaeth ymchwil sy'n seiliedig ar arfer dda bresennol gyda grwpiau cymunedol, rhan-ddeiliaid a darparwyr addysg er mwyn datblygu a mireinio canllawiau technegol a phroffesiynol ar gyfer dehongli a chyflwyno treftadaeth, ac adnabod a llenwi bylchau mewn dealltwriaeth academaidd.

Bydd rhaglen o waith ymchwil a dysgu ffurfiol yn cyfrannu at 'gylch rhinweddol' o reolaeth drwy ymestyn y ddealltwriaeth hanesyddol ac archeolegol er mwyn cefnogi prosiectau cadwraeth a rheoli ac ategu'r gwaith o ddehongli *Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru*. Bydd hefyd yn cyfrannu at ddealltwriaeth gogwydd byd-eang y Safle

Treftadaeth y Byd arfaethedig drwy esblygu cysylltiadau â'r Slate Valley Museum, Granville, Talaith Efrog Newydd (UDA), le Musée de l'Ardoise à Haut-Martelange/ Schiefermusée Uerwermaartel (Lwcsembwrg), a'r European Quarry Landscapes Network. Mae'r themâu ehangach yn cynnwys rheoli Safle Treftadaeth y Byd a'r dirwedd ddiwydiannol, newid hinsawdd, effaith twristiaeth.

Gallai arysgrifiad llwyddiannus greu cyfle i rannu arferion da gyda Safleoedd Treftadaeth y Byd eraill yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig, gan gynnwys *Tirwedd Ddiwydiannol Blaenafon, Traphont a Chamlas Pontcysyllte* a *Chestyll a Muriau Trefi'r Brenin Edward yng Ngwynedd*.

Gall cysylltiadau ffurfiol sy'n bodoli eisoes rhwng Rheilffyrdd India a Rheilffordd Ffestiniog gynorthwyo i rannu arferion da gyda Safle Treftadaeth y Byd *Rheilffyrdd Ucheldiroedd India* a dylid eu cryfhau.

Strategaeth ymchwil academaidd

Gwelir twf yn y cydweithio rhwng Prifysgol Bangor a'r cymunedau llechi, o ble y daeth ei hysbrydoliaeth a'i chefnogaeth wreiddiol. Gweler yn Nhabl 8.1 y cwestiynau ymchwil sydd wedi'u trafod a'u cadarnhau dros dro fel meysydd addas ar gyfer ymchwil PhD.

Tabl 8.1 Cwestiynau ymchwil ar gyfer *Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru*

Maen prawf (ii) – dylanwad pwysig cyfnewid gwerthoedd dynol, yn enwedig yn yr oes aur rhwng 1780 a 1940, ar ddatblygiad pensaernïaeth a thechnoleg.	
GWERTHOEDD	**CWESTIYNAU YMCHWIL**
Datblygiadau mewn adeiladu a phensaernïaeth.	• Pa dystiolaeth bellach a ellir ei chanfod ynghylch sut y bu i ddiwydiant llechi Gogledd Orllewin Cymru ddylanwadu ar ddatblygiadau mewn adeiladu a phensaernïaeth ledled y byd? • Sut wnaeth diwydiant llechi Gogledd Orllewin Cymru gystadlu yn y farchnad fyd-eang yn erbyn ardaloedd eraill oedd yn cynhyrchu llechi, ac yn erbyn mathau eraill o ddeunyddiau toi?
Trosglwyddo sgiliau.	• Pa dystiolaeth bellach a ellir ei gweld ar raddfa fyd-eang o drosglwyddo sgiliau (chwarela a phrosesu llechi) i mewn i *Dirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru*, allan ohoni a'r tu mewn iddi?
Trosglwyddo technoleg.	• Pa dystiolaeth bellach a ellir ei gweld ar raddfa fyd-eang o drosglwyddo technoleg i mewn i *Dirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru*, allan ohoni, a'r tu mewn iddi? • Pa dystiolaeth bellach a ellir ei gweld ar raddfa fyd-eang o drosglwyddo technoleg rheilffyrdd i mewn i *Dirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru*, allan ohoni a'r tu mewn iddi? • Pa effaith gafodd datblygiad technoleg y rheilffordd gul ar wladychiaeth/ryfela Ewropeaidd?

Maen prawf (iv) – Mae *Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru* yn enghraifft eithriadol o'r math o dirwedd sy'n cyfleu, mewn ffordd ddramatig, 'cywaith natur a dyn' trwy elwa'n helaeth ar adnoddau naturiol.	
GWERTHOEDD	**CWESTIYNAU YMCHWIL**
Trawsnewid diwydiannol drwy fuddsoddiad cyfalaf.	• Sut ac i ba raddau y bu cyfalaf yr uchelwyr/ tirfeddianwyr yn hanfodol i ddatblygu chwarela llechi ar raddfa ddiwydiannol? • Sut ac i ba raddau y bu arian sychion/cyllid banciau yn hanfodol i ddatblygu chwarela llechi ar raddfa ddiwydiannol? • Sut oedd buddsoddi mewn chwareli llechi yn debyg/yn wahanol i fodelau Prydeinig eraill o fuddsoddi cyfalaf? • Sut oedd buddsoddi mewn cloddio llechi yng Nghymru yn debyg / yn wahanol i ddiwydiannau llechi yn rhannau eraill y byd? • Sut oedd chwareli llechi Gogledd Orllewin Cymru yn cael eu rheoli fel busnesau? A oeddynt yn wahanol i ddiwydiannau cloddio mawr eraill? Ai'r peiriannydd ynteu'r cyfrifydd oedd yn gwneud y penderfyniadau technegol? • Sut wnaeth esblygiad economi arian newid bywydau gweithwyr yn *Nhirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru*? • Pa newidiadau a ellir eu gweld yn iechyd a lles y chwarelwyr llechi yn ystod y cyfnod diwydiannol mawr? Sut oedd hyn yn cymharu â mathau eraill o gyflogaeth ddiwydiannol?
Trawsffurfiad diwydiannol trwy elwa ar adnoddau naturiol.	• Sut ac ym mha ffyrdd y defnyddiodd y diwydiant llechi adnoddau naturiol, gan gynnwys dŵr a disgyrchiant, i ymdrin â llechi, eu prosesu a'u cludo? Sut oedd hyn yn wahanol / yn debyg i amgylcheddau chwarelyddol arwyddocaol eraill yn hyn o beth?

Maen prawf (v) – Mae *Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru* yn enghraifft eithriadol o drawsnewidiad diwydiannol anheddiad dynol traddodiadol a phatrwm o ddefnydd tir amaethyddol ymylol; mae hefyd yn enghraifft o'r modd yr addasodd diwylliant lleiafrifol a hynod unffurf i fodernedd yn y cyfnod diwydiannol.	
GWERTHOEDD	**CWESTIYNAU YMCHWIL**
Dilyniant mewn tirwedd sy'n newid.	• Sut wnaeth diwydiannu *Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru* effeithio ar sefyllfa'r iaith Gymraeg? • I ba raddau oedd merched yn ymwneud yn economaidd â'r diwydiant llechi? A yw'n wir na fu gan ferched unrhyw swyddogaeth ddiwydiannol arwyddocaol yn y diwydiant erioed? Os nad oedd, pam fu chwareli llechi Anjou ac Ardennes yn gyflogwyr arwyddocaol i ferched? • Ai o ranbarth Gwynedd – Ynys Môn y daeth mwyafrif yr ymfudwyr i ardaloedd y chwareli llechi?

Y dirwedd cyn-ddiwydiannol a'r dirwedd ddiwydiannol.	• Ym mha ffordd ac i ba raddau y mae mathau o aneddiadau cyn-ddiwydiannol yn parhau yn *Nhirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru*? • Sut ac ym mha ffordd wnaeth syniadau cyfoes am dai'r dosbarth gweithiol ddylanwadu ar esblygiad aneddiadau chwareli llechi?

Cyfleoedd cymunedol

Mae cryn botensial ar gyfer annog ymgysylltiad a gwirfoddoli cymunedol. Drwy feithrin a datblygu sgiliau sy'n gysylltiedig â threftadaeth ymysg carfan o wirfoddolwyr, gall Grŵp Llywio'r Bartneriaeth gynorthwyo i gefnogi sgiliau cyflogadwyedd, gan gynnwys hyfforddiant â chymwysterau cysylltiedig. Byddai cyrsiau mewn sgiliau gofalu/trwsio sy'n gysylltiedig â chadwraeth yr amgylchedd adeiledig, megis gwaith saer maen a thoi efo llechi, yn fanteisiol i'r gwirfoddolwyr ond hefyd byddai hyn yn cefnogi'r gwaith parhaus o gynnal a chadw'r Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig.

Yn ogystal, mae sgôp i weithio â phartneriaid, megis Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, i ddatblygu rhaglenni dysgu cadwraeth amgylcheddol sy'n canolbwyntio ar y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig, a chydag Amgueddfa Cymru i sefydlu cyfleoedd i ddysgu sy'n canolbwyntio ar ddehongli a chyflwyno treftadaeth.

Hyfforddai Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol yn dysgu sgiliau newydd ar Reilffordd Ffestiniog © Rheilffyrdd Ffestiniog ac Eryri.

Cynllun Gweithredu ar gyfer dysgu am *Dirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru*

Amcan 16: Mae'r Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig yn ganolbwynt dysg ac ymchwil y gellir eu rhannu ag eraill, ac mae'n meithrin dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o'i werthoedd a'i briodweddau.

Egwyddor 16.1: Sefydlir cysylltiadau â darparwyr addysg i feithrin cyfleoedd ar gyfer rhaglenni dysgu cynhwysol sy'n berthnasol i'r Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig.			
Cam Gweithredu 1	Datblygu cysylltiadau ag Ysgol Hanes, Athroniaeth a Gwyddorau Cymdeithas Prifysgol Bangor.	Parhaus	Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd / Darparwyr Addysg
Cam Gweithredu 2	Rhannu arbenigedd er mwyn datblygu cwrs BA Treftadaeth a Newid Hinsawdd ym Mhrifysgol Bangor.	Parhaus	Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd / Darparwyr Addysg
Cam Gweithredu 3	Rhannu arbenigedd er mwyn datblygu cwrs MA Treftadaeth y Byd a Rheoli Treftadaeth ym Mhrifysgol Bangor.	Parhaus	Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd / Darparwyr Addysg
Cam Gweithredu 4	Rhannu arbenigedd er mwyn datblygu grantiau ymchwil PhD gyda Phrifysgolion.	Parhaus	Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd / Darparwyr Addysg
Cam Gweithredu 5	Cynnal cysylltiadau â'r cyrsiau archeoleg ddiwydiannol sy'n cael eu cynnal gan ganolfan astudio Parc Cenedlaethol Eryri.	Parhaus	Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd / Parc Cenedlaethol Eryri
Cam Gweithredu 6	Sicrhau integreiddiad yr Enwebiad â datblygiadau'r cwricwlwm ar draws Cymru.	Parhaus	Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd / Darparwyr Addysg
Egwyddor 16.2: Sefydlir cysylltiadau â chyrff rhyngwladol i hyrwyddo ymchwil academaidd, rhaglenni addysgiadol a theithiau cyfnewid proffesiynol sy'n berthnasol i'r Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig.			
Cam Gweithredu 1	Meithrin cysylltiadau cryfach gyda TICCIH.	Parhaus	Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd / Darparwyr Addysg
Cam Gweithredu 2	Adeiladu ar y cysylltiadau â Chymdeithas Ardenne Wallone a phartïon eraill â diddordeb.	Tymor byr	Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd
Cam Gweithredu 3	Adeiladu ar y cysylltiadau rhwng Rheilffordd Ffestiniog a Rheilffyrdd India (Safle Treftadaeth y Byd *Rheilffyrdd Ucheldiroedd India*).	Tymor byr	Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd / Rheilffordd Ffestiniog
Cam Gweithredu 4	Gweithio gyda Phrosiect Tirwedd Chwareli Ewrop.	Tymor byr	Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd

Egwyddor 16.3: Bydd ymwelwyr yn cael eu hannog i grwydro a dysgu am agweddau ffisegol, cymdeithasol a diwylliannol *Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru.*			
Cam Gweithredu 1	Rhannu arfer gorau mewn twristiaeth.	Parhaus	Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd / Darparwyr Addysg
Cam Gweithredu 2	Annog ymwelwyr i ddychwelyd i fynychu cyrsiau sy'n ymwneud â *Thirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru* neu i gymryd rhan mewn rhaglenni gwirfoddol.	Tymor byr	Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd / Darparwyr Addysg / Darparwyr Twristiaeth
Egwyddor 16.4: Bydd ymchwilwyr yn cael eu hannog i rannu ag eraill eu gwybodaeth a chanfyddiadau eu gwaith ymchwil.			
Cam Gweithredu 1	Hyrwyddo cynadleddau a chyhoeddi canfyddiadau gwaith ymchwil.	Parhaus	Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd / Darparwyr Addysg

Deunydd Cyfeiriol

Y Cyd-destun

Cyngor Gwynedd: *Dogfen Enwebiad Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru 2020*

Hanes

Davies, E: *The North Wales Quarry Hospitals and the Health and Welfare of the Quarrymen* (Cambrian, 2003)
Dodd, AH: *The Industrial Revolution in North Wales* (Caerdydd, 1971)
Gwyn, D: *Llechi Cymru, Archaeoleg a Hanes* (Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru (CBHC), 2015)
Gwyn, D: *Welsh Slate, Archaeology and History of an Industry* (Royal Commission on the Ancient and Historical Monuments of Wales (RCAHMW), 2015)
Jones, RM: *The North Wales Quarrymen 1874-1922* (Gwasg Prifysgol Cymru, 2015 [trydydd argraffiad])
Lindsay, J: *A History of the North Wales Slate Industry* (Newton Abbot, 1974)

Ffuglen

Hughes, T Rowland: *Chwalfa* (1946)
Roberts, Kate: *Traed Mewn Cyffion* (1936)
Pritchard, Caradog: *Un Nos Ola Leuad* (1961)

Chwedloniaeth

Williams, Ifor (golygydd): *Pedeir Keinc y Mabinogi* (Caerdydd, 1951)
Jones, Gwyn & Jones, Thomas: *The Mabinogion* (Everyman, 1991)

Deddfwriaeth a Chanllawiau

Canllawiau'r Cenhedloedd Unedig

The 2030 Agenda for Sustainable Development
https://sustainabledevelopment.un.org/post2015/transformingourworld

Canllawiau UNESCO

Sustainable Tourism Toolkit
http://whc.unesco.org/sustainabletourismtoolkit/

Sustainable Development Goals
https://en.unesco.org/sdgs

Canllawiau ICOMOS

Ename Charter (2008)
hiip://orcp.hustoj.com/icomos-charter-on-the-interpretation-and-presentation-of-cultural-heritage-sites-ename-charter-2008/

The ICOMOS Charter for the Interpretation and Presentation of Cultural Heritage Sites
hiip://icip.icomos.org/downloads/ICOMOS_Interpretation_Charter_ENG_04_10_08.pdf *(dogfen ar gael yn Saesneg yn unig)*

Cyfarwyddebau'r Undeb Ewropeaidd

Rheoliadau Cyfarwyddeb Cynefinoedd a Chadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau'r UE 2010

Deddfwriaeth a chanllawiau Cenedlaethol (Llywodraethau'r DU a Chymru)

Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad (1949)
hiips://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/Geo6/12-13-14/97

The Mines and Quarries (Tips) Regulations 1971
hiips://www.legislation.gov.uk/cy/uksi/1971/1377/made

Deddf Henebion a Mannau Archeolegol 1979
hiips://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1979/46

Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981
hiips://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1981/69

Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990
hiips://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1990/8/contents

Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990
hiips://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1990/9/contents

Deddf yr Amgylchedd 1995
hiips://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1995/25/contents

Cynllunio Gwlad a Thref (Gorchymyn Datblygu Cyffredinol) 1995
hiips://www.legislation.gov.uk/cy/uksi/1995/418/contents/made

Deddf Cynllunio 2008
hiips://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2008/29/contents

Deddf Teithio Llesol Cymru (2013)
hiips://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2013/7/contents/enacted

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
hiips://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2015/2/contents/enacted

Deddf Cynllunio (Cymru) 2015
hiips://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2015/4/contents/enacted

Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016
hiips://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/4/contents

Polisi a chanllawiau Llywodraeth Cymru

Nodyn Cyngor Technegol Mwynau 1 (MTAN1)
hiips://llyw.cymru/nodyn-cyngor-technegol-mwynau-mtan-1-agregau

Blaenoriaethau ar gyfer Amgylchedd Hanesyddol Cymru
hiips://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-07/blaenoriaethau-ar-gyfer-amgylchedd-hanesyddol-cymru.pdf

Twristiaeth Gynaliadwy. Fframwaith i Gymru
hiips://northwalestourism.com/research-strategies/sustainable-tourism-a-framework-for-wales/

Cadw: Egwyddorion Cadwraeth i reoli'r amgylchedd hanesyddol yng Nghymru yn gynaliadwy (2011)
hiips://cadw.llyw.cymru/cyngor-a-chymorth/egwyddorion-cadwraeth

Cadw: Egwyddorion Cadwraeth ar Waith: Integreiddio Cadwraeth â Diddordebau Eraill (2011)
hiips://cadw.llyw.cymru/sites/default/files/2019-05/Conservation_Principles_CY.pdf

Polisi Cynllunio Cymru, Argraffiad 10 (2018)
hiips://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-02/polisi-cynllunio-cymru-rhifyn-10.pdf

Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol (Mai 2017)
hiips://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-09/tan24-amgylchedd-hanesyddol.pdf

Rheoli Newidiadau i Safleoedd Treftadaeth y Byd yng Nghymru (Mai 2017)
hiips://cadw.llyw.cymru/sites/default/files/2019-05/Managing%20Change%20in%20World%20Heritage%20Sites%20in%20Wales%20%20CY.pdf

Cadw: *Lleoliad Asedau Hanesyddol yng Nghymru* (2017)
hiips://cadw.llyw.cymru/sites/default/files/2019-04/Lleoliad%20Asedau%20Hanesyddol%20yng%20Nghymru.pdf

Canllaw Arfer Da wrth Ddefnyddio'r Gofrestr o Dirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol yng Nghymru
hiips://cadw.llyw.cymru/sites/default/files/2019-05/LandscapesRegisterGoodPractice_CY_0.pdf

Cadw: *Capeli yng Nghymru – Cadwraeth a Thrawsnewid, Tai Gweithwyr Diwydiannol yng Nghymru – Gofal a Chadwraeth – Rheoli Newid i Adeiladau Rhestredig yng Nghymru*
hiips://cadw.llyw.cymru/cyngor-a-chymorth/asedau-hanesyddol/adeiladau-rhestredig/canllawiau-arfer-gorau#section-gofalu-am-gofebion-rhyfel-yng-nghymru-

Y broses gynllunio – ystyriaeth berthnasol

Cofrestr o Dirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol yng Nghymru (Cadw, ICOMOS, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, 2000)
hiip://lle.gov.wales/catalogue/item/RegisteredLandscapesOfOutstandingHistoricInterestInWales/?lang=cy

Cynlluniau a chanllawiau lleol

Cynllun Datblygu Lleol Eryri 2016–2031
hiips://www.snowdonia.gov.wales/__data/assets/pdf_file/0011/1689041/Cynllun-Datblygu-Lleol-V4.pdf

Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd ac Ynys Môn 2011–2026 (2017)
hiips://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Dogfennau-Cyngor/Strategaethau-a-pholisiau/Cynllunio-ac-amgylchedd/Polisi-cynllunio/Cynllun-Datblygu-Lleol-ar-y-Cyd-Gwynedd-a-Môn-Datganiad-Ysgrifenedig.pdf

Cynllun Cyngor Gwynedd 2018–2023
hiips://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Dogfennau-Cyngor/Cynllun-Cyngor-Gwynedd-2018-2023/Cynllun-Cyngor-Gwynedd-2018-2023.pdf

Cynllun Rheoli Cyrchfan Gwynedd 2013–2020
hiips://businesswales.gov.wales/dmwales/sites/dmwales/files/documents/gwynedd-dm-plan.pdf

Cyngor Gwynedd, Cyngor Môn ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri Astudiaeth Capasiti'r Dirwedd a Sensitifrwydd 2014
hiips://www.eryri.llyw.cymru/planning/planning-policy/Supp-Planning-Guidance/adopted-supplementary-planning-guidance-documents

Astudiaeth Cymeriad Trefol

Adroddiad Cymeriad Trefol Blaenau Ffestiniog
hiips://cadw.llyw.cymru/cyngor-a-chymorth/cy-placemaking/nodweddion-hanesyddol/nodweddion-trefol#section-blaenau-ffestiniog

Adroddiad Cymeriad Trefol Bethesda
hiip://www.llechi.cymru/SiteElements/Dogfennau/PoblyLlechi/Bethesda-astudiaethau-cymeriad.pdf

Adroddiad Cymeriad Trefol Deiniolen / Clwt-y-bont
hiip://www.llechi.cymru/SiteElements/Dogfennau/PoblyLlechi/Deiniolen-astudiaethau-cymeriad.pdf

Adroddiad Cymeriad Trefol Pentref Nantlle a Chilgwyn
http://www.llechi.cymru/SiteElements/Dogfennau/PoblyLlechi/Nantlle-astudiaethau-cymeriad.pdf

Adroddiad Cymeriad Trefol Abergynolwyn
hiip://www.llechi.cymru/SiteElements/Dogfennau/PoblyLlechi/Abergynolwyn-astudiaethau-cymeriad.pdf

Dogfennau wedi'u comisiynu gan Gyngor Gwynedd

TBR/Rebanks: *Assessment of the current and potential economic impact of heritage* (2015)

Cynllun Economaidd Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru

Strategaeth Ddehongli ar gyfer Ardal Enwebiad Safle Treftadaeth y Byd Llechi Cymru

Teclyn Marchnata – I hyrwyddo Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru

Prif Negeseuon ar gyfer Ardal Enwebiad Safle Treftadaeth y Byd Llechi Cymru (wedi'u cynnwys yn y Strategaeth Ddehongli)

(Partneriaeth Rheoli Cyrchfan Gwynedd): *Cynllun Twristiaeth a Rheoli Cyrchfan*

Cynllun Gweithredu 2020–2030

Cyflwyniad

Bydd yr amcanion a osodir yn y Cynllun Rheoli hwn yn cael eu cyflawni wrth i asiantaethau amrywiol weithredu amrediad eang o gamau gweithredu, fel y'u cyflwynir yn y Cynllun Gweithredu hwn. Mae wedi'i anelu at ddatblygu strategaethau a mentrau rheoli fydd yn dod yn llwyr weithredol pe byddai arysgrifiad llwyddiannus, ac mae hwn yn gynllun deng mlynedd fydd yn cael ei adolygu yn 2025.

Er y gallai camau gweithredu sefyll ar eu pennau eu hunain, bydd pob un yn cyfrannu at gynnal prif amcanion cadw'r Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig, ac adfywiad economaidd yr ardal. Bydd prosiectau yn cael eu monitro a, lle bo hynny'n briodol, yn cael eu rheoli gan Grŵp Llywio Partneriaeth *Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru* i sicrhau cysondeb â'r Cynllun Rheoli.

Bydd cyflawni'r Cynllun Gweithredu hwn yn cynnwys prosiectau unigol sy'n cael eu rhedeg gan fudd-ddeiliaid a mentrau ar y cyd. Yn ogystal, bydd rhai camau gweithredu yn cynnwys mynd i gytundebau â sefydliadau y tu allan i Grŵp Llywio'r Bartneriaeth, megis asiantaethau twristiaeth ac awdurdodau addysg. Cydnabyddir y bydd yr adnoddau ar gyfer camau gweithredu ehangach, mewn sawl achos, yn gofyn am gyllid o nifer o ffynonellau a sefydliadau. Bydd Grŵp Llywio'r Bartneriaeth yn sefydlu blaenoriaeth a ffafrir ar gyfer rhoi'r camau gweithredu hyn ar waith. Bydd cynlluniau cyllido blynyddol a thymor canolig yn cael eu llunio i arwain ymdrechion codi arian.

Mae'r olygfa hon o'r awyr, sy'n edrych tua'r de-ddwyrain i fyny bwlch cul a serth Llanberis, yn dangos Chwarel Dinorwig yn ei holl ogoniant yn y dirwedd fynyddig, rhwng mynyddoedd cylch yr Wyddfa ar y dde a mynyddoedd y Glyderau ar y chwith. © Hawlfraint y Goron. CBHC

THEMA 1: Llywodraethu a Rheoli

Amcan 1: Bydd y Bartneriaeth yn cydweithio i arwain ar gamau i amddiffyn, cadw, gwella, cyflwyno a throsglwyddo Gwerth Rhyngwladol Eithriadol arfaethedig Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru er budd cenedlaethau'r dyfodol.				
GWEITHREDU	*AMSERLEN* *tymor byr 1–2 flynedd* *tymor canolig 3–5 mlynedd* *tymor hir 5 mlynedd +*	*CYFRIFOLDEB (mae'r adnoddau mewn cyllidebau presennol sefydliadau oni nodir fel arall)*	*DEILLIANNAU MESURADWY*	*ALLBYNNAU*
Egwyddor 1.1: Caiff gweledigaeth a nodau Cynllun Rheoli *Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru* eu cyflawni trwy weithio mewn partneriaeth.				
Bydd Grŵp Llywio'r Bartneriaeth yn parhau i weithredu yn unol â thelerau Memorandwm o Ddealltwriaeth a lofnodwyd gan yr holl bartneriaid ac a adolygir yn rheolaidd.	Parhaus	Grŵp Llywio'r Bartneriaeth	Adolygiad blynyddol o'r Memorandwm o Ddealltwriaeth.	Rheoli'r Safle Treftadaeth y Byd yn dryloyw, yn glir ac yn agored.
Bydd unrhyw aelodau newydd sy'n ymuno â Grŵp Llywio'r Bartneriaeth yn ymrwymo i'r Memorandwm o Ddealltwriaeth.	Parhaus	Grŵp Llywio'r Bartneriaeth	Nifer y llofnodion newydd ar y Memorandwm o Ddealltwriaeth.	Rheoli'r Safle Treftadaeth y Byd yn dryloyw, yn glir ac yn agored.
Datblygir gweithgareddau'r Bartneriaeth o amgylch blaenoriaethau Confensiwn Treftadaeth y Byd a sicrhau bod cadwraeth, gwarchodaeth, cyflwyno a throsglwyddo yn werthoedd creiddiol.	Tymor byr	Grŵp Llywio'r Bartneriaeth	Nifer y prosiectau a ddatblygwyd gan Grŵp Llywio'r Bartneriaeth ac/neu is-grwpiau.	Mae'r Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig yn cyfrannu at flaenoriaethau'r Confensiwn Treftadaeth y Byd.
Sefydlu model cydlynu priodol i reoli'r Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig.	Tymor byr	Grŵp Llywio'r Bartneriaeth	Cydlynydd wedi'i benodi.	Rheolaeth broffesiynol o'r Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig.
Egwyddor 1.2: Bydd Grŵp Llywio'r Bartneriaeth yn gweithredu system agored a thryloyw o lywodraethu a rheoli ar gyfer *Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru*.				
Cynnal cyfarfodydd is-grŵp a Grŵp Llywio'r Bartneriaeth i oruchwylio gweithredu'r Cynllun Rheoli.	Parhaus	Grŵp Llywio'r Bartneriaeth / Is-grwpiau	Nifer y cyfarfodydd a gynhelir a chofnodion y cyfarfodydd ar record.	Rheoli'r Safle Treftadaeth y Byd yn dryloyw, yn glir ac yn agored.

Egwyddor 1.3: Bydd y Bartneriaeth yn rhagweithiol wrth sicrhau cynrychiolaeth o'r gymuned a'r sector breifat ar bob lefel yn y strwythur llywodraethu.				
Cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda chynrychiolwyr o'r gymuned a'r sector breifat.	Parhaus	Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd / Grŵp Llywio'r Bartneriaeth	Nifer y cyfarfodydd a gynhelir a chofnodion y cyfarfodydd ar record.	Sicrhau perchnogaeth gymunedol a sector preifat o'r Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig.
Bydd Cymunedau a'r Sector Preifat yn cael eu hannog i gymryd rhan mewn Is-grwpiau gweithredol.	Parhaus	Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd ac/neu Gadeiryddion Is-grwpiau	Nifer yr unigolion, y sefydliadau a'r busnesau sy'n cymryd rhan mewn Is-grwpiau.	Sicrhau perchnogaeth gymunedol a sector preifat o'r Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig.
Bydd tirfeddianwyr yn ymrwymo i'r Datganiad o Egwyddorion cytunedig.	Tymor byr	Grŵp Llywio'r Bartneriaeth	Nifer y Datganiadau o Egwyddorion sydd wedi'u llofnodi.	Sicrhau y gweithir mewn partneriaeth i gyflawni nodau'r Cynllun Rheoli.

Amcan 2: Bydd Cynllun Rheoli *Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru* yn cael ei fabwysiadu a'i ymgorffori mewn strategaethau rhanbarthol.				
GWEITHREDU	*AMSERLEN* *tymor byr 1–2 flynedd* *tymor canolig 3–5 mlynedd* *tymor hir 5 mlynedd +*	*CYFRIFOLDEB (mae'r adnoddau mewn cyllidebau presennol sefydliadau oni nodir fel arall)*	*DEILLIANNAU MESURADWY*	*ALLBYNNAU*
Egwyddor 2.1: Bydd Grŵp Llywio'r Bartneriaeth yn sicrhau bod yr holl ddogfennau strategol a rhaglenni perthnasol o fewn y sefydliadau partner unigol yn parchu'r Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig, ei Weledigaeth a'i Amcanion.				
Bydd Grŵp Llywio'r Bartneriaeth yn sicrhau bod yr holl ddogfennau strategol a rhaglenni perthnasol o fewn y sefydliadau partner unigol yn ystyried y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig, ei Weledigaeth a'i Nodau.	Tymor byr	Grŵp Llywio'r Bartneriaeth	Nifer y sefydliadau partner sydd wedi cytuno'n ffurfiol i ystyried y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig yn eu nodau strategol.	Dull cyson o weithredu egwyddorion rheoli ledled y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig.

Egwyddor 2.2: Bydd Grŵp Llywio'r Bartneriaeth yn datblygu ac yn cynnal Cynllun Rheoli Risg i gefnogi'r gwaith o reoli'r Safle Treftadaeth y Byd arysgrifedig.				
Datblygu Cynllun Rheoli Risg a Chofrestr Risg.	Parhaus	Tîm Cydlynu Prosiect	Cynllun Rheoli Risg a Chofrestr Risg wedi'u datblygu.	Lliniaru'r risgiau sydd wedi'u hadnabod er mwyn lleihau'r effeithiau posib.
Bydd y Cynllun Rheoli Risg a'r Gofrestr Risg yn cael eu hadolygu'n rheolaidd gan Grŵp Llywio'r Bartneriaeth a chymerir camau lliniaru lle bo angen.	Parhaus	Grŵp Llywio'r Bartneriaeth	Cofnodion cyfarfodydd.	Dull cydlynol i reoli risg gyda chyfrifoldeb wedi'i rannu ymysg partneriaid.

THEMA 2: Gofalu am *Dirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru*

Amcan 3: Gwarchod Gwerth Rhyngwladol Eithriadol arfaethedig *Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru* er budd pobl heddiw ac yn y dyfodol.				
GWEITHREDU	*AMSERLEN* *tymor byr 1–2 flynedd* *tymor canolig 3–5 mlynedd* *tymor hir 5 mlynedd +*	*CYFRIFOLDEB (mae'r adnoddau mewn cyllidebau presennol sefydliadau oni nodir fel arall)*	*DEILLIANNAU MESURADWY*	*ALLBYNNAU*
Egwyddor 3.1: Hyrwyddo ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r rhesymau dros fod angen gwarchod *Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru* a'i rheoli'n weithredol er mwyn cynnal ei Gwerth Rhyngwladol Eithriadol arfaethedig.				
Bydd y canllawiau *Gofalu am Dirwedd Llechi* yn cael eu diweddaru a'u hailgyhoeddi i adlewyrchu'r blaenoriaethau a nodir yng Nghynllun Rheoli *Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru*.	Tymor byr	Cadw	Llyfryn canllawiau wedi'i gyhoeddi	Gwell ymwybyddiaeth o egwyddorion rheoli sy'n gysylltiedig â'r Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig.
Paratoir Canllaw Cynllunio Atodol i ddarparu arweiniad ychwanegol i ddatblygwyr a phartïon sydd â diddordeb.	Tymor byr	Awdurdodau Cynllunio Lleol / Fforwm Tirfeddianwyr / Is-grŵp Cynllunio a Chadwraeth	Canllaw Cynllunio Atodol wedi'i gyhoeddi.	Ymwybyddiaeth cynyddol ymysg datblygwyr a gwneuthurwyr penderfyniadau ynghylch nodweddion pwysig y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig.
Darperir hyfforddiant i benderfynyddion, gan gynnwys swyddogion cynllunio ac aelodau o'r pwyllgor cynllunio lleol.	Parhaus	Awdurdodau Cynllunio Lleol	Nifer y sesiynau hyfforddi a gynhaliwyd.	Ymwybyddiaeth cynyddol ymysg datblygwyr a gwneuthurwyr penderfyniadau ynghylch nodweddion pwysig y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig.

Egwyddor 3.2: Gwarchod Gwerth Rhyngwladol Eithriadol arfaethedig, cyfanrwydd a dilysrwydd *Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru* drwy roi dynodiad statudol ar waith ar gyfer elfennau hanesyddol penodol sy'n diwallu'r meini prawf cenedlaethol.				
Cwblhau rhaglen ddynodi ar gyfer asedau hanesyddol o fewn ffiniau'r Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig sy'n diwallu'r meini prawf ar gyfer eu cofrestru neu restru.	Tymor byr	Cadw	Nifer yr asedau dynodedig.	Gwarchod asedau allweddol o fewn y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig.
Cynnal yr adolygiad sydd ei angen er mwyn sefydlu Ardaloedd Cadwraeth ym Mlaenau Ffestiniog ac Abergynolwyn.	Tymor canolig	Awdurdodau Cynllunio Lleol / Cadw	Nifer yr adolygiadau a gwblhawyd.	Gwarchod aneddiadau allweddol o fewn y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig.
Egwyddor 3.3: Gwarchod Gwerth Rhyngwladol Eithriadol arfaethedig, cyfanrwydd a dilysrwydd *Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru* drwy ddefnyddio'r system cynllunio gofodol yn effeithiol.				
Bydd cyngor cyn gwneud cais cynllunio yn annog datblygiadau o faint priodol, ac yn annog dylunio da sy'n ymwybodol o gymeriad a gwerthoedd y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig.	Parhaus	Awdurdodau Cynllunio Lleol / Cadw	Nifer y cyfarfodydd cyngor cynllunio cyn gwneud cais a gynhelir.	Sicrhau bod datblygiadau o raddfa briodol, ac annog dyluniad da sy'n sensitif i gymeriad a gwerthoedd y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig.
Bydd penderfyniadau cynllunio yn ystyried yr angen i gynnal Gwerth Rhyngwladol Eithriadol arfaethedig y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig.	Parhaus	Awdurdodau Cynllunio Lleol	Nifer y ceisiadau cynllunio lle mae'r dynodiad Safle Treftadaeth y Byd yn ystyriaeth.	Sicrhau bod datblygiadau o raddfa briodol, ac annog dyluniad da sy'n sensitif i gymeriad a gwerthoedd y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig.

Amcan 4: Caiff y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig ei reoli er mwyn cynnal a gwella ei Werth Rhyngwladol Eithriadol arfaethedig, ei gyfanrwydd a'i ddilysrwydd.				
GWEITHREDU	*AMSERLEN* *tymor byr 1–2 flynedd* *tymor canolig 3–5 mlynedd* *tymor hir 5 mlynedd +*	*CYFRIFOLDEB (mae'r adnoddau mewn cyllidebau presennol sefydliadau oni nodir fel arall)*	*DEILLIANNAU MESURADWY*	*ALLBYNNAU*
Egwyddor 4.1: Cefnogir perchnogion safle i ddatblygu a gweithredu Cynlluniau Rheoli Lleol.				
Paratoir Cynlluniau Rheoli Lleol ar gyfer pob elfen allweddol.	Tymor byr	Cyngor Gwynedd / Perchnogion Safleoedd	Nifer y Cynlluniau Rheoli Lleol a gwblheir.	Bydd rheoli'r Elfennau mewn ffordd gytunedig yn sicrhau y gwarchodir Gwerth Rhyngwladol Eithriadol arfaethedig.
Bydd asedau hanesyddol yn destun rhaglen fonitro cyflwr strwythuredig.	Parhaus	Cadw / Awdurdodau Cynllunio Lleol / Perchnogion Safleoedd	Nifer yr asesiadau a gynhaliwyd.	Bydd asesiadau cyson yn hysbysu rheolwyr ac yn adnabod unrhyw risgiau.
Egwyddor 4.2: Lle bo angen, cymerir camau gweithredu i wella cyflwr asedau hanesyddol allweddol o fewn y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig.				
Nodir blaenoriaethau cadwraeth pellach ac fe'u blaenoriaethir.	Tymor byr	Cadw / Awdurdodau Cynllunio Lleol / Perchnogion Safleoedd	Nifer y blaenoriaethau cadwraeth a adnabuwyd.	Bydd defnyddio dull cydlynol at gadwraeth yn gwneud gwell defnydd o adnoddau.
Caiff prosiectau cadwraeth eu datblygu a'u gweithredu i fynd i'r afael â blaenoriaethau.	Tymor byr / canolig	Cyngor Gwynedd / Cadw / Perchnogion Safle	Nifer y prosiectau cadwraeth a gwblhawyd / Nifer yr asedau hanesyddol a gadwyd.	Bydd cadwraeth yr asedau yn sicrhau y gwarchodir y Gwerth Rhyngwladol Eithriadol arfaethedig.
Byddir yn chwilio am gyfleoedd ariannu i ddatblygu prosiectau cadwraeth.	Tymor canolig	Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd / Grŵp Llywio'r Bartneriaeth	Cyllid wedi'i sicrhau.	Bydd defnyddio dull cydlynol at gadwraeth yn gwneud gwell defnydd o adnoddau.

Egwyddor 4.3: Anogir addasiadau sy'n gydnaws ag asedau hanesyddol er mwyn eu hailddefnyddio.				
Bydd gwaith yn parhau i ganfod defnyddiau newydd i asedau hanesyddol allweddol gan gynnwys Melin Maenofferen.	Tymor canolig	Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd / Perchnogion Safle	Nifer yr asedau hanesyddol allweddol a chanddynt ddefnydd newydd.	Bydd ailddefnyddio asedau hanesyddol yn sicrhau eu hyfywedd yn y tymor hir, a'u cadwraeth at y dyfodol, ac yn ei dro bydd yn gwarchod y Gwerth Rhyngwladol Eithriadol.
Egwyddor 4.4: Anogir cadwraeth gynaliadwy i'r Safle Treftadaeth y Byd a chyfranogiad y cyhoedd mewn rhaglenni cadwraeth.				
Datblygir canllawiau dylunio i'r gymuned ac adnoddau rhannu gwybodaeth.	Tymor byr	Awdurdodau Cynllunio Lleol	Nifer y Canllawiau Dylunio Cymunedol a ddatblygwyd.	Perchnogaeth gymunedol o reolaeth y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig.
Anogir grwpiau gwirfoddol i "fabwysiadau heneb" ac i gymryd rhan yn y gwaith o fonitro, clirio llystyfiant a chadwraeth asedau allweddol.	Parhaus	Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd / Grwpiau Cymunedol	Nifer y prosiectau gwirfoddol a gynhaliwyd.	Perchnogaeth gymunedol o reolaeth y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig.

Amcan 5: Bydd lleoliad y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig a'r golygfeydd i mewn iddo ac allan ohono yn cael eu rheoli i gynnal Gwerth Rhyngwladol Eithriadol arfaethedig yr eiddo er budd cenedlaethau'r dyfodol.				
GWEITHREDU	*AMSERLEN* *tymor byr 1–2 flynedd* *tymor canolig 3–5 mlynedd* *tymor hir 5 mlynedd +*	*CYFRIFOLDEB (mae'r adnoddau mewn cyllidebau presennol sefydliadau oni nodir fel arall)*	*DEILLIANNAU MESURADWY*	*ALLBYNNAU*
Egwyddor 5.1: Defnyddir mesurau cyfredol i warchod y dirwedd a'r fframwaith cynllunio defnydd tir fel teclyn rheoli i warchod lleoliad y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig a'r golygfeydd allweddol i mewn iddo ac allan ohono.				
Cynhyrchu Canllawiau Cynllunio Atodol i ddarparu arweiniad manwl.	Tymor byr	Awdurdodau Cynllunio Lleol / Fforwm Tirfeddianwyr / Is-grŵp Cynllunio a Chadwraeth	Canllaw Cynllunio Atodol wedi'i gynhyrchu.	Ymwybyddiaeth cynyddol ymysg datblygwyr a gwneuthurwyr penderfyniadau ynghylch nodweddion pwysig y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig.

Egwyddor 5.2: Bydd unrhyw ddatblygiad newydd o ddyluniad, graddfa a màs priodol fel ei fod yn cadw ac yn cyfoethogi Gwerth Rhyngwladol Eithriadol arfaethedig yr eiddo, yn parchu golygfeydd arwyddocaol ac yn atgyfnerthu'r ymdeimlad o gyrraedd.				
Cynhyrchu canllawiau i ddatblygwyr ar arfer orau wrth ddylunio.	Tymor byr	Awdurdodau Cynllunio Lleol / Is-grŵp Cynllunio a Chadwraeth	Canllaw dylunio wedi'i gynhyrchu.	Datblygiadau o raddfa briodol, ac annog dyluniad da sy'n sensitif i gymeriad a gwerthoedd y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig.
Parhau i ddarparu gwasanaeth cynghori cyn cyflwyno cais lle mae posibilrwydd y bydd cynigion yn effeithio ar y Gwerth Rhyngwladol Eithriadol arfaethedig (y lleoliad a'r olygfa i mewn i'r Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig ac allan ohono).	Parhaus	Awdurdodau Cynllunio Lleol	Nifer y cyfarfodydd cyngor cynllunio cyn gwneud cais.	Datblygiadau o raddfa briodol, ac annog dyluniad da sy'n sensitif i gymeriad a gwerthoedd y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig.
Bydd Cam Gweithredu 2 (uchod) yn sicrhau bod ceisiadau cynllunio yn cynnwys y manylder a'r asesiad priodol sy'n gymesur â natur a graddfa'r datblygiad.	Parhaus	Awdurdodau Cynllunio Lleol	Nifer y cyfarfodydd cynllunio cyn gwneud cais a gynhaliwyd.	Datblygiadau o raddfa briodol, ac annog dyluniad da sy'n sensitif i gymeriad a gwerthoedd y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig.

THEMA 3: Datblygiad Cynaliadwy
Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru

Amcan 6: Gwarchod a chyfoethogi Gwerth Rhyngwladol Eithriadol y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig drwy gynnal tirwedd fyw a chymunedau sy'n ffynnu.				
GWEITHREDU	*AMSERLEN* *tymor byr 1–2 flynedd* *tymor canolig 3–5 mlynedd* *tymor hir 5 mlynedd +*	*CYFRIFOLDEB (mae'r adnoddau mewn cyllidebau presennol sefydliadau oni nodir fel arall)*	*DEILLIANNAU MESURADWY*	*ALLBYNNAU*
Egwyddor 6.1: Cefnogir cymunedau i adnabod a gweithredu cyfleoedd adfywio lleol sy'n cynnal Gwerth Rhyngwladol Eithriadol arfaethedig y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig a hyrwyddo'r iaith Gymraeg.				
Ceisir cyfleoedd ariannu i ddatblygu gweithgareddau adfywio sy'n cadw neu'n cyfoethogi'r Gwerth Rhyngwladol Eithriadol arfaethedig.	Tymor canolig	Perchnogion safle / Grwpiau Cymunedol / Grŵp Llywio'r Bartneriaeth	Nifer y ceisiadau am arian a gyflwynwyd.	Mae adfywio cymunedol yn arwain at gynyddu ymdeimlad o berchnogaeth a balchder yn lleol.
Bydd *Cynlluniau Cynefin* (strategaethau adfywio sy'n seiliedig ar le), yn cael eu datblygu ar gyfer cymunedau allweddol, gydag adfywio sy'n cael ei arwain gan dreftadaeth a hyrwyddo'r iaith a'r diwylliant Cymraeg yn greiddiol iddynt.	Tymor byr	*LleCHI* / Grwpiau Cymunedol	Nifer y strategaethau *Cynlluniau Cynefin* a gwblhawyd.	Mae adfywio cymunedol yn arwain at gynyddu ymdeimlad o berchnogaeth a balchder yn lleol.
Egwyddor 6.2: Bydd arysgrifiad llwyddiannus fel Safle Treftadaeth y Byd yn sefydlu ymdeimlad o falchder ac uchelgais mewn cymunedau lleol.				
Datblygir cynlluniau llysgenhadon ar gyfer amrywiaeth o oedrannau / sectorau.	Tymor byr	*LleCHI* / Partneriaid / Grwpiau Cymunedol / Ysgolion	Nifer y Llysgenhadon a grëwyd.	Gwell dealltwriaeth, balchder ac uchelgais yn lleol.
Egwyddor 6.3: Bydd treftadaeth y llechi'n flaenoriaeth yng nghynllun strategol Cyngor Gwynedd ar gyfer adfywio economaidd.				
Pe ceid arysgrifiad llwyddiannus, byddai *Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru* yn parhau i fod yn flaenoriaeth yng nghynlluniau adfywio economaidd Cynllun Strategol Cyngor Gwynedd.	Tymor canolig	Aelodau Etholedig Cyngor Gwynedd	Mae Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru yn flaenoriaeth mewn Cynlluniau Strategol ar ôl 2023.	Adnabuwyd treftadaeth fel egwyddor graidd yn ffyniant Gwynedd yn y dyfodol.

Amcan 7: Diwydiant mwynau cynaliadwy				
GWEITHREDU	*AMSERLEN* *tymor byr 1–2 flynedd* *tymor canolig 3–5 mlynedd* *tymor hir 5 mlynedd +*	*CYFRIFOLDEB (mae'r adnoddau mewn cyllidebau presennol sefydliadau oni nodir fel arall)*	*DEILLIANNAU MESURADWY*	*ALLBYNNAU*
Egwyddor 7.1: Nid yw echdynnu mwynau crai yn digwydd o fewn ffin y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig nac o fewn ffin Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.				
Nid oes angen cam gweithredu.	–	–	–	–
Egwyddor 7.2: Rheolir cloddio am fwynau crai a gweithio eilaidd y tu allan i'r Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig drwy'r broses gynllunio mwynau bresennol.				
Bydd pob caniatâd yn destun adolygiad achlysurol, a bydd gofyn cadw at amodau'r caniatâd.	Parhaus	Gwasanaeth Cynllunio Mwynau a Gwastraff Gogledd Cymru	Nifer yr adolygiadau achlysurol a gynhaliwyd.	Rheoli echdynnu prif fwynau er mwyn cynnal diwydiant allweddol yng Ngwynedd a chryfhau Gwerth Rhyngwladol Eithriadol arfaethedig.
Egwyddor 7.3: Hyrwyddir crefftau llechi a sgiliau cadwraeth, ynghyd â chefnogaeth sgiliau ar gyfer y diwydiant mwyngloddio llechi cyfoes.				
Cynhelir hyfforddiant sgiliau traddodiadol / darpariaeth / hyrwyddo mewn partneriaeth gyda busnesau, sefydliadau cymunedol a darparwyr addysg / hyfforddiant.	Tymor canolig	Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd / Partneriaid	Nifer yr ymyraethau a gynhaliwyd.	Sicrhau bod medrau traddodiadol yn cael eu cadw i'r genhedlaeth nesaf a bod sgiliau priodol ar gael i gadw a chynnal asedau hanesyddol.
Egwyddor 7.4: Cynhelir cyflenwad cynaliadwy o ddeunyddiau cadwraeth ac agregau a dylid gwneud y defnydd mwyaf o agregau eilaidd lle bynnag y bo modd.				
Sicrhau bod y diwydiant chwarela llechi presennol yn cael ei gefnogi er mwyn sicrhau cyflenwad parhaus o ddeunyddiau.	Parhaus	Gwasanaeth Cynllunio Mwynau a Gwastraff Gogledd Cymru	Cyfanswm cynhyrchiant blynyddol o gynnyrch llechi to a phensaernïaeth.	Cyflenwi deunyddiau ar gyfer gwaith cadwraeth a datblygiadau newydd er mwyn sicrhau bod y cymeriad lleol yn cael ei gadw.

Amcan 8: Sicrhau y datblygir uchelgais ynni adnewyddadwy mewn cytgord â Gwerth Rhyngwladol Eithriadol arfaethedig y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig.				
GWEITHREDU	*AMSERLEN* *tymor byr 1–2 flynedd* *tymor canolig 3–5 mlynedd* *tymor hir 5 mlynedd +*	*CYFRIFOLDEB (mae'r adnoddau mewn cyllidebau presennol sefydliadau oni nodir fel arall)*	*DEILLIANNAU MESURADWY*	*ALLBYNNAU*
Egwyddor 8.1: Cefnogir cynlluniau sy'n defnyddio adnoddau naturiol heb effeithio ar y Gwerth Rhyngwladol Eithriadol, yn ddarostyngedig i ofynion *Cynllun Datblygu Lleol Eryri 2016–2031*: Polisi Datblygu 3 a lle bo'n berthnasol, Polisi Strategol B (Chwefror 2019), a *Chynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn*.				
Annog cyfarfodydd cyn gwneud cais cynllunio ar gyfer pob datblygiad y tu mewn i'r ffin neu ger y ffin.	Parhaus	Awdurdodau Cynllunio Lleol	Nifer y cyfarfodydd cyn gwneud cais a gynhaliwyd rhwng Awdurdodau Cynllunio Lleol a datblygwyr, a'u deilliant.	Gwarchodir y Safle Treftadaeth y Byd a'i leoliad ac mae datblygiadau newydd yn sensitif ac yn briodol.
Dilyn canllaw ICOMOS ar asesiadau effaith treftadaeth ar gyfer cynlluniau datblygu arwyddocaol.	Parhaus	Awdurdodau Cynllunio Lleol	Nifer y datganiadau effaith treftadaeth a dderbyniodd Awdurdodau Cynllunio Lleol gan ddilyn canllawiau ICOMOS.	Gwarchodir y Safle Treftadaeth y Byd a'i leoliad ac mae datblygiadau newydd yn sensitif ac yn briodol.
Ymgynghori ag ICOMOS-UK ynglŷn â datblygiadau mawr a chanddynt y gallu i effeithio ar Werth Rhyngwladol Eithriadol arfaethedig y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig.	Parhaus	Awdurdodau Cynllunio Lleol / Grŵp Llywio'r Bartneriaeth	Ymgynghoriadau ag ICOMOS-UK wedi'u cofnodi.	Gwarchodir y Safle Treftadaeth y Byd a'i osodiad ac mae datblygiadau newydd yn sensitif ac yn briodol.

Egwyddor 8.2: Cefnogir cynlluniau ynni nad ydynt yn effeithio ar y Gwerth Rhyngwladol Eithriadol arfaethedig, ac sy'n cydymffurfio â pholisi cynllunio cyfredol.				
Annog cyfarfodydd cyn gwneud cais cynllunio ar gyfer pob datblygiad y tu mewn i'r ffin neu ger y ffin.	Parhaus	Awdurdodau Cynllunio Lleol	Nifer y cyfarfodydd cyn gwneud cais a gynhaliwyd rhwng Awdurdodau Cynllunio Lleol a'u datblygwyr, a'u deilliant.	Gwarchodir y Safle Treftadaeth y Byd a'i osodiad ac mae datblygiadau newydd yn sensitif ac yn briodol.
Dilyn canllawiau ICOMOS ar asesiadau effaith treftadaeth ar gyfer cynlluniau datblygu arwyddocaol.	Parhaus	Awdurdodau Cynllunio Lleol	Nifer yr Asesiadau Effaith Treftadaeth a dderbyniwyd gan Awdurdodau Cynllunio Lleol gan ddilyn canllawiau ICOMOS.	Gwarchodir y Safle Treftadaeth y Byd a'i osodiad ac mae datblygiadau newydd yn sensitif ac yn briodol.
Ymgynghori ag ICOMOS-UK ynglŷn â datblygiadau mawr a chanddynt y gallu i effeithio ar Werth Rhyngwladol Eithriadol arfaethedig y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig.	Parhaus	Awdurdodau Cynllunio Lleol / Grŵp Llywio'r Bartneriaeth	Ymgynghoriadau ag ICOMOS-UK wedi'u cofnodi.	Gwarchodir y Safle Treftadaeth y Byd a'i osodiad ac mae datblygiadau newydd yn sensitif ac yn briodol.

Amcan 9: Bydd Grŵp Llywio'r Bartneriaeth yn hyrwyddo *Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru* i gefnogi amrywiaeth economaidd ac adfywiad sy'n cael ei arwain gan dreftadaeth.				
GWEITHREDU	*AMSERLEN* *tymor byr 1–2 flynedd* *tymor canolig 3–5 mlynedd* *tymor hir 5 mlynedd +*	*CYFRIFOLDEB (mae'r adnoddau mewn cyllidebau presennol sefydliadau oni nodir fel arall)*	*DEILLIANNAU MESURADWY*	*ALLBYNNAU*
Egwyddor 9.1: Pe ceid arysgrifiad llwyddiannus, anogir cyfleoedd adfywio sy'n ategu neu sy'n cyfoethogi'r Safle Treftadaeth y Byd ac sy'n cydymffurfio â pholisïau'r Cynlluniau Datblygu Lleol.				
Adwaenir a blaenoriaethir cyfleoedd adfywio yn y *Cynlluniau Cynefin* (strategaethau adfywio a arweinir gan dreftadaeth).	Parhaus	*LleCHI* / Partneriaid / Grŵp Llywio'r Bartneriaeth	Nifer y prosiectau adfywio a ddatblygwyd.	Mae prosiectau adfywio yn arwain at gymunedau gwell.
Bydd cyfleoedd datblygiad economaidd ehangach sy'n cyd-fynd â pholisïau cynllunio gofodol lleol ac sy'n cyfrannu at y Gwerth Rhyngwladol Eithriadol arfaethedig neu leoliad ac sy'n cefnogi'r iaith Gymraeg yn cael eu hadnabod a'u blaenoriaethu.	Parhaus	Partneriaid / Tirfeddianwyr / Buddsoddwyr	Nifer y prosiectau datblygu economaidd ehangach a ddatblygwyd.	Mae prosiectau datblygiad economaidd ehangach yn creu gwaith ac yn gwella cymunedau.
Egwyddor 9.2: Defnyddir cadwraeth asedau hanesyddol fel ysgogiad i annog datblygiad a pharhad sgiliau traddodiadol a gwaith cadwraeth arbenigol.				
Defnyddio hyfforddiant ymarferol i gyflwyno elfennau o'r ddarpariaeth Medrau Traddodiadol.	Parhaus	Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd / Partneriaid	Nifer yr asedau hanesyddol a gadwyd.	Bydd cadwraeth yr asedau hanesyddol yn gwarchod y Gwerth Rhyngwladol Eithriadol arfaethedig.
Cefnogi ymdrechion cadwraeth preifat a gwirfoddol presennol.	Parhaus	Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd / Partneriaid	Nifer y prosiectau cadwraeth a gynhaliwyd.	Bydd prosiectau cadwraeth yn gwarchod y Gwerth Rhyngwladol Eithriadol arfaethedig.

Egwyddor 9.3: Bydd cydweithio gyda mentrau perthnasol eraill yn cyfoethogi cyfleoedd economaidd (e.e. Safle Treftadaeth y Byd *Cestyll a Muriau Trefi'r Brenin Edward yng Ngwynedd*, Cynllun Rheoli Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri).				
Dull cydlynol i ddatblygu cynlluniau / prosiectau adfywio.	Parhaus	Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd / Partneriaid	Nifer y prosiectau ar y cyd a gynhaliwyd.	Bydd ymdrin ag adfywio mewn ffordd gydlynol yn arwain at ddefnyddio adnoddau yn well a gwell profiad i'r ymwelydd.
Mynd â chyfleoedd adfywio unigol ymlaen drwy gyflwyno prosiectau cydweithio.	Parhaus	Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd / Partneriaid	Cyfanswm gwerth buddsoddiad.	Adwaenir cyfleoedd adfywio newydd, a chyflawnir prosiectau treftadaeth allweddol.

Amcan 10: Cymunedau cynaliadwy.				
GWEITHREDU	*AMSERLEN* *tymor byr 1–2 flynedd* *tymor canolig 3–5 mlynedd* *tymor hir 5 mlynedd +*	*CYFRIFOLDEB (mae'r adnoddau mewn cyllidebau presennol sefydliadau oni nodir fel arall)*	*DEILLIANNAU MESURADWY*	*ALLBYNNAU*
Egwyddor 10.1: Bydd yr holl dai newydd o fewn y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig neu gerllaw iddo yn ystyried yr angen i warchod y Gwerth Rhyngwladol Eithriadol arfaethedig.				
Defnyddio polisi cynllunio presennol i sicrhau bod pob datblygiad yn briodol ac yn ystyried y Gwerth Rhyngwladol Eithriadol arfaethedig.	Parhaus	Awdurdodau Cynllunio Lleol	Nifer y datblygiadau tai.	Bydd y cymeriad hanesyddol yn cael ei gynnal a'i amddiffyn.
Egwyddor 10.2: Bydd Grŵp Llywio'r Bartneriaeth yn annog cadwraeth ddeallus o elfennau nodedig yr amgylchedd adeiledig sy'n cyfrannu at y cymeriad hanesyddol, gan ystyried argymhellion yr Astudiaethau Cymeriad Trefol fel canllaw ar gyfer arfer dda.				
Annog cadwraeth asedau adeiledig yn y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig a gerllaw iddo.	Parhaus	Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd / Partneriaid	Nifer y prosiectau a gynhaliwyd.	Bydd cadwraeth yr asedau yn gwarchod y Gwerth Rhyngwladol Eithriadol arfaethedig.
Annog grwpiau cymunedol a mentrau cymdeithasol i roi ystyriaeth i'r cymeriad hanesyddol wrth ddatblygu prosiectau sy'n ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol adeiledig.	Parhaus	Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd / Partneriaid	Nifer y prosiectau a gynhaliwyd.	Bydd cadwraeth yr asedau hanesyddol yn gwarchod y Gwerth Rhyngwladol Eithriadol arfaethedig.

Egwyddor 10.3: Bydd Grŵp Llywio'r Bartneriaeth yn chwilio am ddatrysiadau ac yn mynd ati'n weithredol i annog ailddefnydd o adeiladau hanesyddol segur, gan gynnwys addoldai, mewn ffordd na fydd yn cyfaddawdu cyfanrwydd archeolegol yr asedau hyn.				
Gweithio gyda'r gymuned leol a pherchnogion preifat i adnabod a chyflawni prosiectau ailddefnydd cynaliadwy mewn adeiladau hanesyddol segur.	Parhaus	Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd / Partneriaid	Nifer yr adeiladau a adnabuwyd.	Bydd cadwraeth yr asedau hanesyddol yn gwarchod y Gwerth Rhyngwladol Eithriadol arfaethedig.
Gweithio gyda phartneriaid i adnabod ac ailddefnyddio addoldai segur yn gynaliadwy o fewn y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig.	Parhaus	Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd / Partneriaid	Nifer y prosiectau a gynhaliwyd.	Bydd cadwraeth yr asedau hanesyddol yn gwarchod y Gwerth Rhyngwladol Eithriadol arfaethedig.

Amcan 11: Amaethyddiaeth a choedwigaeth gynaliadwy.				
GWEITHREDU	*AMSERLEN* *tymor byr 1–2 flynedd* *tymor canolig 3–5 mlynedd* *tymor hir 5 mlynedd +*	*CYFRIFOLDEB (mae'r adnoddau mewn cyllidebau presennol sefydliadau oni nodir fel arall)*	*DEILLIANNAU MESURADWY*	*ALLBYNNAU*
Egwyddor 11.1: Bydd Grŵp Llywio'r Bartneriaeth yn croesawu arallgyfeirio amaethyddol mewn ffyrdd sy'n cyfrannu at fynediad a chadwraeth y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig.				
Annog tirfeddianwyr i ymgorffori dehongli a mynediad at y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig mewn datblygiadau lle bo hynny'n briodol.	Parhaus	Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd / Partneriaid	Nifer y prosiectau a gynhaliwyd.	Hwyluso gwell dealltwriaeth o'r Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig.
Egwyddor 11.2: Bydd Grŵp Llywio'r Bartneriaeth yn galw am gynlluniau rheoli tir yn gynaliadwy, a fydd yn berthnasol i Safleoedd Treftadaeth y Byd.				
Cynnal deialog gyda chynrychiolwyr gwleidyddol a chanddynt lais yn y trefniadau ar reoli tir yn gynaliadwy yn y dyfodol.	Parhaus	Grŵp Llywio'r Bartneriaeth	Nifer y trafodaethau a gynhaliwyd.	Sicrhau bod trefniadau rheoli tir cynaliadwy yn parhau i fod yn gydnaws â gwarchod y Gwerth Rhyngwladol Eithriadol arfaethedig.

Amcan 12: Bydd Grŵp Llywio'r Bartneriaeth yn annog ac yn hyrwyddo dulliau cludiant cynaliadwy fel ffordd o ymweld â chyrchfannau o fewn y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig.				
GWEITHREDU	*AMSERLEN* *tymor byr 1–2 flynedd* *tymor canolig 3–5 mlynedd* *tymor hir 5 mlynedd +*	*CYFRIFOLDEB (mae'r adnoddau mewn cyllidebau presennol sefydliadau oni nodir fel arall)*	*DEILLIANNAU MESURADWY*	*ALLBYNNAU*
Egwyddor 12.1: Anogir defnyddio dulliau cludiant cynaliadwy er mwyn ymweld â Chydrannau'r Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig.				
Datblygu amserlenni i alluogi i bobl deithio o gwmpas y rhanbarth yn gynaliadwy.	Tymor canolig	Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd	Nifer yr amserlenni a ddatblygwyd.	Annog ymweliadau cynaliadwy i'r Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig.
Gweithio gyda phartneriaid i hyrwyddo dulliau teithio cynaliadwy sy'n bodoli y tu mewn ac o gwmpas y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig, gan gynnwys Trafnidiaeth Cymru.	Parhaus	Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd	Nifer y prosiectau a gefnogwyd.	Annog ymweliadau cynaliadwy i'r Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig.
Hyrwyddo cludiant cynaliadwy gyda phartneriaid rheoli cyrchfannau.	Parhaus	Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd / Perchnogion Safle	Nifer y prosiectau a gynhaliwyd.	Annog ymweliadau cynaliadwy i'r Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig.
Egwyddor 12.2: Bydd Grŵp Llywio'r Bartneriaeth yn rhoi anogaeth weithredol i integreiddio'r diddordeb treftadaeth gyda chludiant cynaliadwy yn y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig ac yn y rhanbarth.				
Cynnal deialog â darparwyr trafnidiaeth, gan gynnwys Trafnidiaeth Cymru.	Parhaus	Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd / Darparwyr trafnidiaeth	Nifer o bartneriaid yn cydweithio.	Bydd gweithio mewn partneriaeth yn sicrhau y cyrhaeddir cynulleidfa ehangach.

THEMA 4: Mwynhau *Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru*

Amcan 13: Sicrhau y bydd modd mwynhau, profi a deall Gwerth Rhyngwladol Eithriadol arfaethedig y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig.				
GWEITHREDU	*AMSERLEN* *tymor byr 1–2 flynedd* *tymor canolig 3–5 mlynedd* *tymor hir 5 mlynedd +*	*CYFRIFOLDEB (mae'r adnoddau mewn cyllidebau presennol sefydliadau oni nodir fel arall)*	*DEILLIANNAU MESURADWY*	*ALLBYNNAU*
Egwyddor 13.1: Bydd Grŵp Llywio'r Bartneriaeth yn diogelu gwerthoedd diriaethol ac anniriaethol y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig yn ei gyd-destun naturiol a diwylliannol.				
Bydd y *Strategaeth Ddehongli* ar gyfer y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig yn hysbysu ymwelwyr o bwysigrwydd y lleoliad yn y Safle Treftadaeth y Byd a chan hefyd gyfleu'r asedau treftadaeth diriaethol ac anniriaethol.	Tymor canolig	*LleCHI*	Nifer y prosiectau dehongli a ddatblygwyd.	Bydd gwahanol ddulliau dehongli yn sicrhau bod negeseuon allweddol yn cael eu cyfleu i gynulleidfa eang.
Ymchwilio i gyfleoedd ariannu er diogelu / hyrwyddo asedau a thraddodiadau.	Tymor canolig	Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd	Cyfanswm yr arian a sicrhawyd.	Bydd prosiectau sy'n hyrwyddo treftadaeth ddiriaethol ac anniriaethol y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig yn cryfhau dealltwriaeth.
Egwyddor 13.2: Bydd Grŵp Llywio'r Bartneriaeth yn hwyluso dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o'r Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig ac yn meithrin ymgysylltiad y cyhoedd / rhan-ddeiliaid o ran gwarchod, cadwraeth a dehongli.				
Cynnal digwyddiadau er mwyn cyfleu gwybodaeth ac annog Rhan-ddeiliaid i rannu profiadau gyda'i gilydd.	Tymor canolig	Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd	Nifer y digwyddiadau a gynhaliwyd.	Bydd digwyddiadau gwybodaeth sy'n seiliedig ar y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig yn gwella dealltwriaeth.
Llysgenhadon fydd llais tirwedd y llechi a byddant yn cyflwyno negeseuon allweddol.	Tymor byr	*LleCHI*	Nifer y Llysgenhadon a grëwyd.	Mwy o ymdeimlad o falchder a dealltwriaeth yn lleol.

Egwyddor 13.3: Bydd Grŵp Llywio'r Bartneriaeth yn gwarchod y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig rhag seilwaith ddehongli ymwthiol, pwysau gan ymwelwyr, dehongliad anghywir neu amhriodol.				
Gweithio gyda chymunedau i greu *Cynlluniau Cynefin* a fydd yn hysbysu pobl leol o arwyddocâd, a hefyd yn adnabod ymyraethau i ddiogelu gwerthoedd hanesyddol, ieithyddol a diwylliannol.	Tymor byr	*LleCHI*	Nifer y strategaethau *Cynlluniau Cynefin* a grëwyd.	Bydd perchnogaeth gymunedol yn sicrhau hirhoedledd strategaethau, a bod strategaethau yn rhan annatod o adfywiad cymunedau ledled y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig.
Annog perchnogaeth leol drwy weithgareddau ymgysylltu â'r gymuned.	Parhaus	*LleCHI* / Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd	Nifer y digwyddiadau ymgysylltu â'r gymuned a gynhaliwyd.	Gwell dealltwriaeth ymysg y gymuned a theimlad o berchnogaeth.
Creu canllawiau dylunio lleol er mwyn codi ymwybyddiaeth a gwarchod gwead hanesyddol.	Tymor canolig	Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd	Nifer y canllawiau dylunio a grëwyd.	Perchnogaeth gymunedol o reolaeth y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig.
Egwyddor 13.4: Bydd Grŵp Llywio'r Bartneriaeth yn dilyn datblygiadau arfer gorau mewn dehongli treftadaeth.				
Bydd y *Cynlluniau Cynefin* yn adnabod prosiectau dehongli, yn seiliedig ar ddyheadau'r gymuned.	Tymor byr	*LleCHI*	Nifer y prosiectau dehongli a ddatblygwyd.	Perchnogaeth gymunedol o ddehongliad y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig.
Cynnal a datblygu cysylltiadau â sefydliadau treftadaeth er mwyn rhannu arferion gorau.	Parhaus	Grŵp Llywio'r Bartneriaeth / Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd	Nifer y sefydliadau treftadaeth lle y sefydlir cysylltiadau â hwy.	Bydd rhannu arferion gorau yn arwain at reolaeth fwy effeithiol o'r Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig.

Egwyddor 13.5: Bydd Grŵp Llywio'r Bartneriaeth yn asesu ac yn monitro effaith twristiaeth ar yr iaith Gymraeg a chymunedau'r Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig ac yn gweithio i liniaru unrhyw effeithiau negyddol.				
Sefydlu gwaelodlin a dulliau monitro cadarn ar gyfer asesu effaith dynodiad y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig ar yr iaith Gymraeg.	Tymor byr	Grŵp Llywio'r Bartneriaeth	Gwaelodlin wedi'i sefydlu.	Gallu i fonitro'r effaith ar yr iaith Gymraeg.
Monitro effaith dynodiad y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig ar yr iaith Gymraeg yn barhaus ac ymgymryd ag unrhyw fesurau lliniaru y cytunwyd arnynt.	Parhaus	Grŵp Llywio'r Bartneriaeth / Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd	Mesurau monitro yn eu lle.	Gallu i fonitro'r effaith ar yr iaith Gymraeg.

Amcan 14: Creu profiad ymwelwyr sy'n unigryw ac o'r ansawdd uchaf.				
GWEITHREDU	*AMSERLEN* *tymor byr 1–2 flynedd* *tymor canolig 3–5 mlynedd* *tymor hir 5 mlynedd +*	*CYFRIFOLDEB (mae'r adnoddau mewn cyllidebau presennol sefydliadau oni nodir fel arall)*	*DEILLIANNAU MESURADWY*	*ALLBYNNAU*
Egwyddor 14.1: Mae Grŵp Llywio'r Bartneriaeth yn annog bod yn gynhwysol, drwy hwyluso rhan budd-ddeiliaid yn natblygiad a gweithrediad y strategaeth ddehongli.				
Bydd llysgenhadon ar y rheng flaen wrth gyflwyno gwybodaeth i ymwelwyr, gan ddarparu profiadau go iawn.	Parhaus	*LleCHI* / Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd	Nifer y Llysgenhadon a grëwyd.	Mwy o ymdeimlad o falchder a dealltwriaeth yn lleol.
Bydd y *Strategaeth Ddehongli* ar gyfer y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig yn cyfleu straeon lleol law yn llaw â'r stori fyd-eang er mwyn sicrhau perchnogaeth gymunedol a dehongliad go iawn.	Tymor byr	*LleCHI*	Creu'r *Strategaeth Ddehongli ar gyfer Ardal Enwebiad Safle Treftadaeth y Byd Llechi Cymru*.	Bydd dull dehongli cydlynol yn sicrhau profiad cydlynol a dilys i ymwelwyr.
Sefydlu Grŵp Dehongli sy'n cynnwys cynrychiolwyr y diwydiant twristiaeth, cymunedau a busnesau i lywio'r blaenoriaethau dehongli.	Parhaus	*LleCHI* / Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd	Grŵp dehongli wedi'i sefydlu.	Bydd gweithio mewn partneriaeth yn sicrhau dull dehongli cydlynol.

Egwyddor 14.2: Bydd Grŵp Llywio'r Bartneriaeth yn datblygu canllawiau technegol a phroffesiynol ar gyfer dehongli a chyflwyno treftadaeth.				
Datblygu teclyn Marchnata a sesiynau hyfforddi cysylltiedig i hysbysu a grymuso busnesau a chymunedau.	Tymor byr	*LleCHI*	Teclyn wedi'i gwblhau, a nifer y sesiynau busnes a gynhaliwyd.	Teclynnau ymarferol er mwyn i fusnesau chwarae rôl yn nehongliad y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig.
Datblygu teclynnau canolog i bartneriaid a rhan-ddeiliaid sy'n cynnwys testun safonol a llyfrgell ffotograffig.	Tymor byr	*LleCHI*	Nifer y teclynnau gwahanol sydd ar gael.	Teclynnau ymarferol er mwyn i fusnesau chwarae rôl yn nehongliad y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig.
Egwyddor 14.3: Bydd Grŵp Llywio'r Bartneriaeth yn datblygu darpariaeth o arwyddion a gwybodaeth glir a chyson ledled y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig.				
Datblygu *Cynllun Rheoli Ymwelwyr Cynaliadwy.*	Tymor byr	*LleCHI*	Creu *Cynllun Rheoli Ymwelwyr Cynaliadwy.*	Sicrhau bod ymwelwyr yn cael eu rheoli'n gynaliadwy yn y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig ac o'i gwmpas, er mwyn gwarchod asedau allweddol.
Datblygu *Strategaeth Arwyddion ar gyfer y Pyrth.*	Tymor canolig	Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd	Creu *Strategaeth Arwyddion ar gyfer y Pyrth*	Annog ymwelwyr i fynd o amgylch y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig er mwyn profi'r stori gyflawn.

Egwyddor 14.4: Bydd Grŵp Llywio'r Bartneriaeth yn sicrhau naws am le unigryw a phrofiadau go iawn o ansawdd uchel i ymwelwyr.				
Cefnogi atyniadau, seilwaith a phrofiadau o ansawdd uchel sy'n bodoli, ac annog darpariaeth newydd.	Parhaus	Grŵp Llywio'r Bartneriaeth	Nifer y busnesau a sefydliadau a gefnogir.	Ymdrin â mwynhad yr ymwelydd yn gydlynol, drwy ddarparu atyniadau deniadol o ansawdd uchel.
Anogir llysgenhadon i adrodd eu straeon eu hunain er mwyn rhoi profiad unigryw a go iawn.	Parhaus	*LleCHI* / Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd	Nifer y Llysgenhadon a benodwyd.	Bydd ymwelwyr yn cael profiadau go iawn.
Cefnogi ac annog prosiectau twristiaeth cymunedol.	Parhaus	*LleCHI* / Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd / Partneriaeth Rheoli Cyrchfan Gwynedd	Nifer y prosiectau twristiaeth cymunedol a gefnogir.	Bydd ymwelwyr yn cael profiadau go iawn.
Bydd Grŵp Llywio'r Bartneriaeth yn ymgorffori'r enwebiad yng *Nghynllun Twristiaeth a Rheoli Cyrchfan* Gwynedd sydd ar y gorwel.	Parhaus	Grŵp Llywio'r Bartneriaeth / Partneriaeth Rheoli Cyrchfan Gwynedd	Mae *Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru* wedi'i gynnwys yn y *Cynllun Twristiaeth a Rheoli Cyrchfan* diwygiedig.	Bydd gweithio mewn partneriaeth yn sicrhau dull cydlynol o ran profiadau'r ymwelwyr.
Egwyddor 14.5: Bydd chwe Chydran y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig yn cael eu marchnata a'u cyfathrebu fel un Eiddo.				
Sicrhau cytgord gydag ymdrechion marchnata brand y gyrchfan (Eryri Mynyddoedd a Môr).	Parhaus	Partneriaeth Rheoli Cyrchfan Gwynedd / Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd / Cyngor Gwynedd	Gwybodaeth am y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig ar wefan brand y gyrchfan ac mewn cyhoeddiadau.	Rhoi'r Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig ar lwyfan marchnata cenedlaethol a rhyngwladol.
Gweithio gyda Chroeso Cymru ar Flynyddoedd Thematig, Ffordd Cymru a phrosiectau twristiaeth strategol cenedlaethol eraill.	Tymor hir	Partneriaeth Rheoli Cyrchfan Gwynedd / Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd / Cyngor Gwynedd	Nifer y prosiectau a ddatblygwyd i gyd-fynd â blaenoriaethau Croeso Cymru.	Rhoi'r Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig ar lwyfan marchnata cenedlaethol a rhyngwladol.

Amcan 15: Ymdrechu i greu amgylchedd diogel i fwynhau *Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru*.				
GWEITHREDU	*AMSERLEN* *tymor byr 1–2 flynedd* *tymor canolig 3–5 mlynedd* *tymor hir 5 mlynedd +*	*CYFRIFOLDEB (mae'r adnoddau mewn cyllidebau presennol sefydliadau oni nodir fel arall)*	*DEILLIANNAU MESURADWY*	*ALLBYNNAU*
Egwyddor 15.1: Bydd Grŵp Llywio'r Bartneriaeth yn datblygu polisïau diogelwch clir a chadarn ar gyfer y dirwedd llechi.				
Datblygu ymgyrch diogelwch ar gyfer y dirwedd llechi.	Tymor byr	Fforwm Tirfeddianwyr	Ymgyrch wedi'i datblygu.	Sicrhau diogelwch ymwelwyr i'r Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig a sicrhau preifatrwydd safleoedd anhygyrch.
Egwyddor 15.2: Bydd Grŵp Llywio'r Bartneriaeth yn sicrhau bod diogelwch yn thema greiddiol yn y dulliau dehongli a chyflwyno gwybodaeth.				
Sicrhau bod neges ddiogelwch yn cael ei chynnwys ymhob prosiect dehongli a ddatblygir/a gefnogir gan y Bartneriaeth.	Parhaus	*LleCHI* / Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd	Nifer y prosiectau dehongli sy'n cynnwys neges ddiogelwch.	Sicrhau diogelwch ymwelwyr i'r Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig a sicrhau preifatrwydd safleoedd anhygyrch.
Egwyddor 15.3: Anogir mynediad cyhoeddus at y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig (lle bo hynny'n briodol), er mwyn hyrwyddo dealltwriaeth o'r Gwerth Rhyngwladol Eithriadol arfaethedig.				
Datblygu a hyrwyddo llwybrau strategol sy'n fforio yn y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig a'r rhanbarth ehangach.	Parhaus	Fforwm Tirfeddianwyr / Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd	Nifer y llwybrau a ddatblygwyd.	Annog ymwelwyr o amgylch y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig er mwyn profi'r stori gyflawn.
Lle nad yw'n bosib cael mynediad i'r cyhoedd neu lle mae hynny wedi'i wahardd, ymgymryd â dehongli rhithwir neu loeren yn y safleoedd hynny.	Parhaus	Fforwm Tirfeddianwyr / Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd	Nifer y prosiectau dehongli rhithwir neu loeren.	Annog ymwelwyr o amgylch y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig er mwyn profi'r stori gyflawn.

THEMA 5: Dysgu am *Dirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru*

Amcan 16: Mae'r Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig yn ganolbwynt dysg ac ymchwil y gellir eu rhannu ag eraill, ac mae'n meithrin dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o'i werthoedd a'i briodweddau.				
GWEITHREDU	*AMSERLEN* *tymor byr 1–2 flynedd* *tymor canolig 3–5 mlynedd* *tymor hir 5 mlynedd +*	*CYFRIFOLDEB (mae'r adnoddau mewn cyllidebau presennol sefydliadau oni nodir fel arall)*	*DEILLIANNAU MESURADWY*	*ALLBYNNAU*
Egwyddor 16.1: Sefydlir cysylltiadau â darparwyr addysg i feithrin cyfleoedd ar gyfer rhaglenni dysgu cynhwysol sy'n berthnasol i'r Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig.				
Datblygu cysylltiadau ag Ysgol Hanes, Athroniaeth a Gwyddorau Cymdeithas Prifysgol Bangor.	Parhaus	Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd / Darparwyr Addysg	Nifer y seminarau, doethuriaethau (PhD) yr ymgymerwyd â hwynt.	Cynyddu dealltwriaeth o ddiwydiant y llechi a hanes diwydiannol ar lefel academaidd.
Rhannu arbenigedd er mwyn datblygu cwrs BA Treftadaeth a Newid Hinsawdd ym Mhrifysgol Bangor.	Parhaus	Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd / Darparwyr Addysg	Cwrs BA yn ei le.	Cynyddu dealltwriaeth o dreftadaeth a newid hinsawdd ar lefel academaidd.
Rhannu arbenigedd er mwyn datblygu cwrs MA Treftadaeth y Byd a Rheoli Treftadaeth ym Mhrifysgol Bangor.	Parhaus	Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd / Darparwyr Addysg	Cwrs MA yn ei le.	Cynyddu dealltwriaeth o reoli treftadaeth ar lefel academaidd.
Rhannu arbenigedd er mwyn datblygu grantiau ymchwil PhD gyda Phrifysgolion.	Parhaus	Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd / Darparwyr Addysg	Nifer y doethuriaethau (PhD) yr ymgymerwyd â hwynt.	Cynyddu dealltwriaeth o'r diwydiant llechi a hanes diwydiannol ar lefel academaidd.
Cynnal cysylltiadau â'r cyrsiau archeoleg diwydiannol sy'n cael eu cynnal gan ganolfan astudio Parc Cenedlaethol Eryri.	Parhaus	Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd / Parc Cenedlaethol Eryri	Nifer y mynychwyr ar gyrsiau.	Cynyddu lefel gallu mewn technegau archaeoleg diwydiannol ymarferol.
Sicrhau integreiddiad yr Enwebiad â datblygiadau'r cwricwlwm ar draws Cymru.	Parhaus	Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd / Darparwyr Addysg	Nifer yr ysgolion a'r sefydliadau wedi cael eu briffio.	Ymwybyddiaeth gynyddol gan ysgolion a sefydliadau o botensial addysgiadol Treftadaeth y Byd.

Egwyddor 16.2: Sefydlir cysylltiadau â chyrff rhyngwladol i hyrwyddo ymchwil academaidd, rhaglenni addysgiadol a theithiau cyfnewid proffesiynol sy'n berthnasol i'r Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig.				
Meithrin cysylltiadau cryfach gyda TICCIH.	Parhaus	Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd / Darparwyr Addysg	Nifer y cynadleddau ac ymweliadau cyfnewid.	Cynyddu dealltwriaeth o gyd-destun gwaith maen a diwydianeiddio ledled y byd.
Adeiladu ar y cysylltiadau â Chymdeithas Ardenne Wallone a phartïon eraill â diddordeb.	Tymor byr	Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd	Nifer y cyfarfodydd ac ymweliadau cyfnewid a gynhaliwyd.	Cynyddu dealltwriaeth o gyd-destun gwaith maen a diwydianeiddio ledled y byd.
Ychwanegu at y cysylltiadau rhwng Rheilffordd Ffestiniog a Rheilffyrdd India (Safle Treftadaeth y Byd *Rheilffyrdd Ucheldiroedd India*).	Tymor byr	Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd / Rheilffordd Ffestiniog	Nifer y cyfarfodydd ac ymweliadau cyfnewid a gynhaliwyd.	Cyfle i rannu arfer gorau a gwybodaeth.
Gweithio gyda Phrosiect Tirwedd Chwareli Ewrop.	Tymor byr	Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd	Nifer y cyfarfodydd ac ymweliadau cyfnewid a gynhaliwyd.	Cynyddu dealltwriaeth o gyd-destun gwaith maen ledled y byd.
Egwyddor 16.3: Bydd ymwelwyr yn cael eu hannog i grwydro a dysgu am agweddau ffisegol, cymdeithasol a diwylliannol *Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru*.				
Rhannu arfer gorau mewn twristiaeth.	Parhaus	Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd / Darparwyr Addysg	Nifer y cyfarfodydd a chynadleddau a gynhaliwyd.	Cyfle i rannu arfer gorau a gwybodaeth.
Annog ymwelwyr i ddychwelyd i fynychu cyrsiau sy'n ymwneud â *Thirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru* neu i gymryd rhan mewn rhaglenni gwirfoddol.	Tymor byr	Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd / Darparwyr Addysg / Darparwyr Twristiaeth	Nifer y mynychwyr cyrsiau o'r tu allan i Wynedd.	Dealltwriaeth gynyddol o'r Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig a'i Werth Rhyngwladol Eithriadol arfaethedig.
Egwyddor 16.4: Bydd ymchwilwyr yn cael eu hannog i rannu ag eraill eu gwybodaeth a chanfyddiadau eu gwaith ymchwil.				
Hyrwyddo cynadleddau a chyhoeddi canfyddiadau gwaith ymchwil.	Parhaus	Cydlynydd Safle Treftadaeth y Byd / Darparwyr Addysg	Nifer y cynadleddau a gynhaliwyd, a'r gwaith ymchwil a gyhoeddwyd.	Cynyddu dealltwriaeth ar lefel academaidd.

Y felin stêm yn Chwarel Diffwys sy'n edrych allan dros Flaenau Ffestiniog yng Nghydran 5 © Llechwedd / JW Greaves & Sons.

Clawr Blaen:
Blaenau Ffestiniog a Chwareli Ffestiniog, Cydran 5 © Hawlfraint y Goron: CBHC.

Y Clawr Ôl:
Stryd Fawr Bethesda (Cydran 1) © Cyngor Gwynedd.
Arddangosfa hollti llechi Amgueddfa Lechi Cymru (Cydran 2) © Cyngor Gwynedd.
Injan drawst Gernywaidd Chwarel Dorothea (Cydran 3) © Hawlfraint y Goron: CBHC.
Chwarel Bwlch y Ddwy Elor (*Prince of Wales*) (Cydran 4) © Hawlfraint y Goron: CBHC.
Rheilffordd Tal-y-llyn (Cydran 6) © Rheilffordd Tal-y-llyn.

Tudalen deitl a:
Cofeb ryfel Pen yr Orsedd (Cydran 3) © Hawlfraint y Goron: CBHC.